Mae mwyafrif helaeth y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg. Er hyn, yn 2019/20 mae cyfradd dilyniant Cylch Meithrin Cei Newydd i addysg Gymraeg yn 25%, Camau Bach (Aberystwyth) yn 97.74%, CM Penllwyn yn 87.5%, CM Talybont yn 90%, 0% y CM Pontrhydfendigaid (1 plentyn oedd yn trosglwyddo i'r cynradd), CM Glan y Môr (Llanrhystud) yn 92.31%.

Mae Cylch Meithrin Cei Newydd (cyfrwng Cymraeg) yn nalgylch Ysgol Cei Newydd sydd yn ysgol sydd wedi ei diffinio fel ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

Blynyddoedd Cynnar Cymru a gofal preifat

Nid oes data pendant am drosglwyddiad plant o Meithrinfa Plas Gogerddan, Gofal Plant Mês Bach, Grŵp Chwarae Padarn Sant nac o Grŵp Chwarae Dwyieithog Aberporth i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Grŵp Chwarae Dwyieithog Aberporth yn nalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg sef Ysgol Gynradd Aberporth. Gwasanaeth Saesneg/dwyieithog sy'n cael ei gynnig gan y lleoliadau hyn.

Ysgolion sy'n darparu addysg i blant 3 oed (dosbarth meithrin)

Ysgol	Cyfrwng
Dyffryn Cledlyn	Cymraeg
Aberteifi	Cymraeg
Plascrug*	Saesneg
Llwyn yr Eos*	Saesneg
Rhydypennau	Cymraeg
Y Dderi	Cymraeg
Bro Teifi	Cymraeg
Aberaeron	Cymraeg
Henry Richard	Cymraeg
T Llew Jones	Cymraeg
Ysgol Gymraeg	Cymraeg
Cenarth	Cymraeg
Bro Pedr	Cymraeg
Bro Sion Cwilt	Cymraeg

Mae 12 o'r ysgolion felly yn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy ysgol* yn ardal Aberystwyth wedi'u diffinio'n bresennol fel ysgolion cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

- Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant sesiynol am ddim i bob plentyn 2 - 3 oed sy'n byw yn ardaloedd daearyddol Dechrau'n Deg o fewn lleoliadau gofal plant cymeradwy. Mae pob un o'r lleoliadau yma yn rhai cyfrwng Cymraeg gan gynnwys y ddarpariaeth yn 'Ffrindiau Bach yr Eos' (Penparcau/Llwyn yr Eos - Aberystwyth).
- Mae mwyafrif o'r darparwyr gofal plant wedi cofrestru ar gyfer darparu 'Cynnig Gofal Plant 30 awr' Llywodraeth Cymru i blant 3-4 oed
- Mae angen denu mwy o bobl i fod yn warchodwyr plant yn yr ardaloedd lle mae diffyg darpariaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am warchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg.
- Mae annog staff mewn lleoliadau gofal plant i ddilyn hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg yn parhau i fod yn her oherwydd byddai'n well gan staff fod yr hyfforddiant ar gael iddynt pan fyddant gyda'r plant.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- Llunio ymgyrch flynyddol er mwyn annog mwy o warchodwyr Cymraeg eu hiaith (o fis Medi 2022 ymlaen).
- Gwyntyllu'r posibilrwydd o geisio cynyddu nifer y darparwyr/gwarchodwyr plant sydd ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg drwy eu cefnogi/talu am fynychu cyrsiau dysgu/gloywi Cymraeg.
- Ehangu ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob darpariaeth gofal plant yn ardal Aberystwyth (gan gynnwys gwarchodwyr, Meithrinfeydd Dydd, Gofal sesiynol a Clybiau ar ôl Ysgol/Gwyliau (gofal cofleidiol).
- Sicrhau partneriaeth agos gydag ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach Ceredigion a chynlluniau/prentisiaethau Mudiad Meithrin er mwyn cael gweithlu digonol cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant (mis Medi 2022 ymlaen).
- Anelu at ddilyniant 100% cyfrwng Cymraeg o'r cylchoedd meithrin MM presennol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg meithrin a derbyn ysgolion cylch Aberystwyth yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.
- Ymgynghori gyda'r nod o greu dosbarth meithrin CC yn Ysgol Cei Newydd, Comins Coch ac Ysgol Padarn Sant yn ogystal ag ymgynghori i gynllunio darpariaeth meithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llwyn yr Eos ac Ysgol Plascrug yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn, gan hwyluso dilyniant ieithyddol ar draws y cyfnod sylfaen. (Mae'r uchod yn golygu y byddai pob plentyn sy'n mynychu darpariaeth Cylchoedd Meithrin (MM)/Grwpiau Chwarae (BCC) eraill ar draws y sir yn dilyn llwybr mamiaith gan mai darpariaeth CC fyddai yn nghyfnod sylfaen pob ysgol).
- Sicrhau y byddwn yn cydweithio gyda 'Dechrau'n Deg' gyda'r nod o gynyddu'r lleoedd ar gael yn y ddarpariaeth CC i blant 2-3 oed ym Mhenparcau (Ffrindiau Bach yr Eos) o fis Medi 2022 ymlaen.
- Llunio rhaglen flynyddol o hyfforddiant gloywi iaith i weithlu gofal plant presennol (a'r dyfodol) yn benodol yn ardal Aberystwyth pan bydd cyllid yn caniatáu.
- Cynllunio rhaglen gefnogol o ddysgu proffesiynol am ddulliau trochi iaith effeithiol yn y blynyddoedd cynnar.
- Rhoi sylw i'r diffyg gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg drwy barhau i ymgyrchu ac annog mwy o unigolion sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn.
- Cydweithio gyda phartneriaid yn y colegau addysg bellach ayyb er mwyn hyrwyddo manteision y Gymraeg yn y gweithle ac yn benodol o ran yr angen am warchodwyr/gweithlu gofal plant Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.
- Sicrhau dosbarth sy'n darparu addysg 3 oed mewn ysgol cyfrwng Cymraeg newydd sy'n gwasanaethu ysgolion Dyffryn Aeron (Felinfach, Ciliau Aeron a Dihewyd). Yn bresennol cylchoedd meithrin lleol sy'n darparu hynny. Mae 'Grant Cyfalaf Cynnig Gofal Plant' wedi sicrhau cyllid i ddarparu gofod ar gyfer darpariaeth Cylch Meithrin/gofal cofleidiol.
- Dros gyfnod y cynllun, bydd pob ysgol gynradd newydd a gynllunnir, yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant 3 oed. Bydd yr awdurdod yn cydweithio gyda Mudiad Meithrin i geisio sicrhau lleoliad i wasanaethu plant 2-3 oed a gofal cofleidiol ar y safle.

- Parhau i gydweithio gyda'r Mudiad Meithrin i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant cyn oed ysgol (2-3 oed) drwy eu prosiect 'Sefydlu a Symud'.
- Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i annog a hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd drwy wefan Cyngor Sir Ceredigion a thrwy ddolenni sy'n arddangos adnoddau penodol e.e. Byw a Bod, Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Gofal Plant Ceredigion, Mudiad Meithrin, Cered, Sianel 'You-Tube' y Gymraeg ayyb.
- Uned Gofal Plant – trwy'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, nodi a chynllunio mesurau i gryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i sicrhau llwybr di-dor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar gyfer rhieni/gofalwyr a darpar rieni/gofalwyr yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg gartref drwy wefan DEWIS Cymru a FIS.
- Yn dilyn y prosesau ymgynghori perthnasol, bydd cyswllt CLIC y cyngor yn cyfeirio rhieni newydd at swyddog Derbyniadau'r awdurdod fydd yn nodi mai addysg cyfrwng Cymraeg fydd holl ddarpariaeth meithrin yr awdurdod a hynny wedi ei gynllunio ar gyfer hanner cyntaf oes y cynllun hwn.
- Bydd unrhyw rieni newydd o'r tu allan i'r awdurdod yn cael eu cyfeirio at swyddog Derbyniadau'r awdurdod fydd yn dosbarthu gwybodaeth unffurf fydd yn nodi mai darpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg fydd y blynyddoedd cynnar i ddisgyblion hyd 7 oed. Bydd hefyd yn nodi manteision dwyieithrwydd a byw mewn cymdeithas ddwyieithog yn y dyfodol. Bydd hyn yn weithredol yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.
- Wrth i rieni ddewis ysgol i'w plentyn, mae'n ddyletswydd o dan Adran 10 o'r Mesur i hyrwyddo mynediad at addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae adran 6 o'r Mesur yn rhoi grym i awdurdodau lleol ddarparu trefniadau trafniadaeth i ddysgwyr nad ydynt o reidrwydd yn mynychu eu hysgol agosaf oherwydd dewis iaith.

Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol / Coleg:

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/ysgolion-ac-addysg/cludiant-ysgol-coleg/>

- Gweithio mewn partneriaeth gyda Blynyddoedd Cynnar Cymru (sy'n cefnogi'r lleoliadau) a Phwyllgorau Rheoli perthnasol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn eu grwpiau chwarae ar gyfer plant 2-3 oed (yn y pendraw) h.y. Padarn Sant, Aberporth a Mês Bach yn ddarpariaeth gyda phwyslais cyfrwng Cymraeg gan ystyried y bydd y plant i gyd yn trosglwyddo i ddarpariaeth CC meithrin 3 oed yn yr ysgolion lleol yn sgil proses ymgynghori yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.
- Mae plant Grŵp Chwarae Aberporth yn trosglwyddo i addysg CC ar hyn o bryd felly byddwn yn cydweithio i weld datblygiad ieithyddol sydd â gogwydd gynyddol o safbwynt y Gymraeg yno o fis Medi 2022 ymlaen.
- Cydweithio gyda grwpiau gofal plant preifat e.e. Meithrinfeydd Dydd er mwyn sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a hynny er mwyn hwyluso dilyniant i addysg feithrin/derbyn cyfrwng Cymraeg yn ysgolion cylch Aberystwyth.

- Parhau i gyd weithio gyda Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Canolfannau Teulu a Dechrau'n Deg i gefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith o addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull trochi.
- Parhau i gyd weithio gyda Mudiad Meithrin a thrwy hynny gyda'r Cylchoedd Meithrin i ddarparu gwasanaethau Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant a gofal cofleidiol.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bod holl blant Ceredigion yn/wedi cael mynediad lawn i addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar(3 oed) hyd 7 oed yn ddi-wahân gan adeiladu ar y dewis hwnnw wrth symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol hyd 11 oed a thu hwnt.

Data Allweddol

Yn y tabl isod nodir canran y plant 3 oed hynny fydd mewn addysg CC yn ysgolion Ceredigion ac mewn lleoliadau nas-cynhelir CC. Yn 2020/21 roedd y ganran honno oddeutu 79%. Erbyn diwedd y cynllun hwn bydd y ganran wedi cynyddu ac yn cynnwys y dosbarthiadau meithrin 3 oed sydd wedi eu datblygu i fod yn rhai CC.

Niferoedd a % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
	80 - 85%		80 - 85%		80 - 85%		80 - 90%		85 - 95%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
	85 - 95%		90 - 100%		95 - 100%		95 - 100%		95 - 100%

Deilliant 2**Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg****Ble rydym ni nawr?**

Yn y flwyddyn ysgol 2020/2021, mae 72.9% o holl ddisgyblion Blwyddyn 1 ysgolion Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd disgyblion Blwyddyn 1 Ysgol Bro Pedr yn ymddangos yn y data ym Medi 2022 gan eu bod eisoes wedi mynd drwy'r broses o ddatblygu'n ieithyddol yn y cyfnod sylfaen. Dosbarth meithrin 2020/21 yw'r disgyblion cyntaf i ddilyn y continwmm CC yn y cyfnod sylfaen.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Mae Cymraeg 2050 yn nodi'n glir mai addysg drochi lawn yn y Gymraeg – hynny yw, addysg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf – yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau pob dydd.

- Drwy broses ymgynghori a chydweithio gyda phenaethiaid, cyrff llywodraethol a holl ran-ddeiliaid Ysgol Cei Newydd, Ysgol Plas-crug, Ysgol Padarn Sant, Ysgol Llwyn yr Eos ac Ysgol Comins Coch, gweld datblygiad i'r drefn bresennol gan gynnig dewis ieithyddol ehangach i holl blant yr ysgolion yma. Byddai'r datblygiad yma'n golygu sefyllfa drochi ieithyddol yn y blynyddoedd cynnar hyd saith oed ym mhob un o'r ysgolion gan gynnwys sefydlu dosbarth meithrin newydd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Comins Coch, Ysgol Padarn Sant ac Ysgol Cei Newydd.
- Ymgynghori ar greu darpariaeth meithrin a chyfnod sylfaen CC yn Ysgol Comins Coch, Ysgol Padarn Sant ac Ysgol Cei Newydd i gyd- redeg gyda'r isod.
- Cynnal proses ymgynghori yn ardal Aberystwyth yn benodol yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn ar weld datblygiad ieithyddol yn y Cyfnod Sylfaen.
Ysgol Plascrug (darpariaeth meithrin presennol)
Ysgol Comins Coch (cynnig darpariaeth meithrin)
Ysgol Llwyn yr Eos (darpariaeth meithrin presennol)
Ysgol Padarn Sant (cynnig darpariaeth meithrin)
Ysgol Cei Newydd (cynnig darpariaeth meithrin)

Y plant cyntaf fyddai'n cael eu hystyried ar lwybr CC fyddai'r rhai sy'n cael mynediad i'r dosbarth meithrin ym mhob ysgol (Ysgol Plascrug, Ysgol Llwyn yr Eos, Ysgol Comins Coch, Ysgol Padarn Sant ac Ysgol Cei Newydd) a hynny ar yr un pryd e.e. Medi 2024. Gweithredir ar hyn yn ystod hanner cyntaf oes y cynllun hwn.

Bydd unrhyw geisiadau am gyllid grant gan LIC mewn cysylltiad ag ysgolion yn ystyried y targed i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd ysgol newydd yn Nyffryn Aeron yn darparu addysg feithrin mewn dosbarth pwrpasol, ond ni fydd yn ychwanegu cynnydd at y nifer/% presennol disgyblion Blwyddyn 1 gan fod yr holl ysgolion fydd yn trosglwyddo iddi yn rhai cyfrwng Cymraeg (YG Felinfach, YG Dihewyd, YG Ciliau Parc).

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/ysgolion-ac-addysg/cynllunior-ddarpariaeth-addysg/>

Bydd Ceredigion yn cydweithio'n agos gyda Cyngor Sir Powys, Sir Gâr a Phenfro er mwyn sicrhau bod disgyblion sy'n mynychu ysgolion trawsffiniol e.e. Ysgol y Preseli, Ysgol Gyfun Emlyn yn parhau i ddilyn llwybr cyfrwng Cymraeg (os yn berthnasol).

Canolfannau Iaith

Ceir mynediad i ganolfannau trochi i hwyrddyfodiaid BI2-6 mewn dau leoliad parhaol yn y sir sef Canolfan y Castell (Aberteifi) a Chanolfan y Felin (Felinfach). Mae darpariaeth y sir ar gyfer hwyrddyfodiaid ar darged. Mae hwn yn ddarpariaeth arbennig i ddisgyblion sydd wedi symud i mewn i'r ardal yn ddiweddar ac yn cael ei gynllunio yn ôl yr angen.

Mae Canolfan Iaith ar gyfer Cylch Aberystwyth yn estyniad Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn gais gan Geredigion ar gyfer grant cyfalaf y Gymraeg 2021 i gwrdd â'r angen cynyddol fydd yng ngogledd y sir o ganlyniad i'r ymgynghoriadau a nodir yn y cynllun hwn.

Bydd y cais ar gyfer estyniad Ysgol Gymraeg Aberystwyth (uchod) yn ychwanegu 30 o lefydd ychwanegol yno ac yn cynnwys Canolfan Iaith.

Mae ymateb i'r galw e.e. wrth sefydlu cefnogaeth gloywi uwchradd i hwyrddyfodiaid (BI7 ac 8 yn bennaf) yn Ysgol Bro Teifi hefyd yn rhan o'r strategaeth presennol a'r dyfodol.

Drwy fuddsoddiad ariannol sylweddol a chefnogaeth bendant Cyngor Sir Ceredigion, bydd y ddarpariaeth ar draws yr holl ganolfannau iaith yn parhau.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bod holl blant Ceredigion yn/wedi cael mynediad lawn i addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd 7 oed yn ddi-wahân gan adeiladu ar y dewis hwnnw wrth symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol hyd 11 oed a thu hwnt.

Data Allweddol									
<u>Targedau cynnydd i ddangos canran y plant 5 oed (Blwyddyn 1) sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg</u>									
Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
	78%		80%		82%		85%		100%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
	100%		100%		100%		100%		100%

DRAFFET

Deiliant 3

Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

Ble rydym ni nawr?

Nodwyd y sefyllfa gyfredol ac fel y bydd y sefyllfa'n datblygu ymhellach dros oes y cynllun hwn (o ran plant dan 5) yn neilliant 1 a 2 (uchod).

72.9% o ddisgyblion Blwyddyn 1 Ceredigion sydd yn dilyn llwybr addysg CC yn 2020/21.

Data CA2 – Nifer/% sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ers 2017/18 fel cyfanswm a chanran o holl ddisgyblion CA2:

2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Nifer CC 496 (allan o 685) % = 72.4	Nifer CC 483 (allan o 648) % = 74.5	Nifer CC 411 (allan o 571) % = 72.0 <i>(answyddogol, o ganlyniad i Covid)</i>	Nifer CC (allan o.....) % = PLASC 2021 <i>(ar gael Mehefin 2021)</i>

Data CA3 – Mae'r nifer a chyfanswm y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel pwnc laith 1af ym mlwyddyn 9 fel a ganlyn ers 2017/18:

2017/2018	2018/2019	2019/2020(COVID-19)	2020/21(COVID-19)
Targed: 66%	Targed: 68%	Targed : 70%	Targed : 70%
Canlyniad: 64%	Canlyniad: 66%	Canlyniad : 72%	Canlyniad : N/A
Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 469/732	Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 479/728	Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 458/633 <i>(answyddogol, o ganlyniad i Covid)</i>	Nifer y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = N/A <i>(ar gael Gorffennaf 2021)</i>

Blwyddyn 9: Aseiad Ail laith

2017/18	2018/19	2019/20(COVID-19)	2020/21(COVID-19)
Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 36% (263/732)	Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 34% (249/728)	Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = 26% (165/633) <i>(answyddogol, o ganlyniad i Covid)</i>	Nifer/% y disgyblion (allan o'r cyfanswm yn y flwyddyn) = N/A <i>(ar gael Gorffennaf 2021)</i>

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?'Categoriaddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru)

Yn unol â'r arweiniad yn nogfen ganllaw 'Categoriaddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' Llywodraeth Cymru bydd yr awdurdod yn mapio'r ddarpariaeth addysg bresennol yn ôl gweithgarwch addysgu a dysgu Cymraeg, gan ddefnyddio data CYBLD fel gwaelodlin o fis Gorffennaf 2021 ymlaen.

Erbyn Gorffennaf 2022 bydd yr awdurdod yn cytuno â llywodraethwyr pob ysgol a gynhelir pa gategori sy'n disgrifio'r ysgol orau o ran y weledigaeth yn y CySGA i'w datblygu'n ieithyddol gan gynnwys y categorïau trosiannol.

Bydd yr awdurdod yn cyd-weithio gyda'r ysgolion wrth weithredu i gwrdd â'r canlyniadau addysgol/ieithyddol perthnasol a disgwylidig wrth weld cynnydd tuag at y Gymraeg yn ei hysgolion hyd 2032 a thu hwnt.

Targed

Cynnydd canrannol yn nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol i addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd (yn ardal Aberystwyth).

Roedd 79% o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi trosglwyddo i addysg CC uwchradd ym mis Medi 2020 o'r ysgolion hyn.

Targed Medi 2021: 80%

Targed Medi 2022: 82%

Targed Medi 2023: 84%

Targed Medi 2024: 82%

Targed Medi 2025: 90%

Targed

Adeiladu ar y sail gadarn a osodwyd yn y cyfnod sylfaen fel bod disgyblion 7-11 oed Ysgol Plascrug, Ysgol Padarn Sant, Ysgol Llwyn yr Eos, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Cei Newydd yn medru parhau i ddatblygu eu medrau ieithyddol. Y nod yw sicrhau eu bod yn deall a siarad y Gymraeg yn hyderus yn unol â'r dyhead ym mhedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn cynnig y dewis iddynt o ran cyfrwng ieithyddol addysg uwchradd yn y dyfodol.

Targed

Cydweithio gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth yn Ysgol Penweddig (hyn i gyd-fynd gyda chontinwmm ieithyddol Cwricwlwm i Gymru).

Targed

Cynyddu'r dilyniant ieithyddol o ran y meysydd sy'n cael eu cynnig a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 ar draws Ysgol Bro Pedr, Ysgol Henry Richard, Ysgol Uwchradd Penglais, Ysgol Uwchradd Aberaeron, Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Uwchradd Penweddig.

Targed

Ymgynghori gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol er mwyn cynllunio datblygiad a dilyniant ieithyddol Categori 3 yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 Ysgol Henry Richard

('Categoriaddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' - Llywodraeth Cymru) gyda hynny'n weithredol yn ystod hanner cyntaf y cynllun strategol hwn.

Targed

Cynllunio cynnydd pendant yn nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ysgolion uwchradd. Adeiladu ar hyder disgyblion CA3 drwy gefnogaeth hyfforddiant sirol, cefnogaeth allgyrsiol, cefnogaeth gwaith cartref (datblygiad 'ap' ar lefel sirol/genedlaethol), hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff a disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 ayyb) gyda chysyllt pendant yma gydag ymgyrch HYDER sirol (gweler Deilliant 5).

Targed

Yn unol â'r hyn a nodir yn arweiniad 'Categoriaddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru), ymgynghori gyda holl ran-ddeiliad Ysgol Uwchradd Penglais er mwyn cynllunio datblygiad ieithyddol dros gyfnod 10 mlynedd y cynllun hwn. Y nod yw sicrhau dilyniant ieithyddol o'r cynradd yn unol â gofynion y pedwar diben a Cwricwlwm i Gymru.

Targed

Sicrhau bod dogfen 'Datblygu Addysg yng Ngheredigion 2022-32' yn alinio gyda CySGA 2022/32 o ran sicrhau darpariaeth lawn CC ôl 16 yn y sir.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Dros y ddegawd nesaf, bwriedir ymgynghori yn unol â'r arweiniad yn 'Categoriaddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru) gyda rhanddeiliaid yr ysgolion uwchradd canlynol: Ysgol Uwchradd Aberaeron, Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ysgol Henry Richard ac Ysgol Bro Pedr fel eu bod yn cwrdd â gofynion C3 i'r mwyafrif llethol o ddisgyblion erbyn 2032.

(Bydd y rhaglen o ymgynghori uchod yn dechrau yn rhan gyntaf y cynllun hwn ar gyfer Ysgol Henry Richard, gyda'r ysgolion eraill uchod i ddilyn).

Data Allweddol

Ym Medi 2020 trosglwyddodd 387 (70%) o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar draws ysgolion cynradd Ceredigion i addysg cyfrwng Gymraeg uwchradd. Trosglwyddodd 168 (30%) o'r un fintai i addysg cyfrwng Saesneg uwchradd h.y. o CA2 i CA3.

Nifer a chanran y disgyblion Blwyddyn 1 – 6 sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Ionawr 2020 (CYBLD 2020)

	<u>Blwyddyn 1</u>		<u>Blwyddyn 2</u>		<u>Blwyddyn 3</u>		<u>Blwyddyn 4</u>		<u>Blwyddyn 5</u>		<u>Blwyddyn 6</u>	
<u>Cyfrwng Cymraeg</u>	465	73%	500	76%	520	74%	503	75%	533	72%	459	74%
<u>Cyfrwng Saesneg</u>	170	27%	154	24%	178	26%	171	25%	207	28%	160	26%

(gall fod rhai disgyblion ar goll o'r mintai llawn oherwydd na dderbyniwyd y data yn ystod cyfnod cofnodi'r ddogfen hon)

Tudalen 168

Cofiwch ddileu y *testun glas*
cyn cyflwyno eich Cynllun

Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
	72%		75%		75%		75%		76%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
	76%		78%		79%		80%		81%

DRAFFET

Deiliant 4**Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg****Ble rydym ni nawr?**Y Gymraeg fel pwnc

Mae polisi iaith Ceredigion yn nodi dilyniant cryf o ran astudio'r Gymraeg fel pwnc. Mae disgyblion sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y cynradd neu sydd wedi treulio cyfnod allweddol cyfan yn astudio mamiaith yn dilyn yr un llwybr trwy'r cyfnodau allweddol uwchradd.

Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio manyleb mamiaith yn 2020/2021

CA3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN.

CA4 - Yn Haf 2020, astudiodd 63.5% ar gyfer cymhwyster TGAU mamiaith (453 o ddisgyblion).

CA5 - Yn Haf 2020, astudiodd 7.81% o'r disgyblion cymwys (oedd wedi astudio TGAU mamiaith yn flaenorol), y Gymraeg fel pwnc safon uwch.

Nifer a chanran disgyblion sy'n astudio manyleb ail iaith yn 2020/2021

CA3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN

CA4 Yn Haf 2020, astudiodd 29% ar gyfer cymhwyster TGAU ail iaith (207 o ddisgyblion)

CA5 - Yn Haf 2020, astudiodd 1.97 o'r disgyblion cymwys (oedd wedi astudio TGAU ail iaith yn flaenorol), Cymraeg ail iaith fel pwnc safon uwch.

PYNCAU TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Ar hyn o bryd, mae pob disgybl sy'n mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (CS) ac mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA2.

Anelir at addysgu 40% o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg yn y CS yn yr ysgolion cynradd 'Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg' a 30% ohono yn CA2.

CA 3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN

CA4 –Yn Haf 2020, roedd 57% o ddisgyblion Ceredigion wedi llwyddo i astudio 2 neu fwy o gymwysterau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg a 33% wedi astudio 5 neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg.

CA5 – Yn Haf 2020, safwyd 1309 o gymwysterau gan ddisgyblion Ceredigion. Roedd 317 o'r rheiny trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys 157 o gymhwyster y fagloraeth Gymreig. Rhydd hyn ganran o 24% o ddisgyblion safon Uwch yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- Bydd angen sicrhau yr un cadernid o ran llwybr ieithyddol wrth arwain ysgolion drwy newid yn y system dynodiadau ysgolion.
- Bydd angen cefnogi ysgolion uwchradd wrth iddynt annog disgyblion i barhau gyda'u llwybr mamiaith.
- Targedu mwy o ddisgyblion o ysgolion cynradd Cymraeg i barhau gydag addysg cyfrwng yn enwedig yng nghylch Aberystwyth.
- Darparu hyfforddiant Gloywi Iaith ar gyfer yr athrawon hynny sy'n ddi-hyder yn eu defnydd o'r iaith.
- Bydd angen sicrhau hefyd bod ysgolion yn deall anghenion newydd cymwysterau TGAU yn sgil Cwricwlwm i Gymru.
- Bydd angen cadarnhad pellach wedi ymgynghoriad Cymwysterau Cymru ar y cynnig bod Cymraeg TGAU yn gyfwerth ag un TGAU a hanner. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael effaith ar y data a'n targedau.
- Yn yr un modd bydd angen ystyried darpariaeth ysgolion o bynciau cyfrwng Cymraeg wrth eu gosod yn y dynodiad cywir. Bydd nifer o'n hysgolion yn syrthio rhwng dau gategori a bydd angen cefnogaeth pellach er mwyn symud ysgolion ar hyd y llwybr sy'n cynyddu canran y pynciau a gynigir, astudir ac asesir trwy gyfrwng y Gymraeg.

	2022/2023	2023/2024	2024/2025	2025/2026	2026/2027
TGAU mamiaith	63%				
TGAU ail iaith	29%				
Safon Uwch mamiaith	7.81%				
Safon Uwch ail iaith	1.97%				

Mae opsiynau disgyblion o astudio mwy na 10 cymhwyster yn amrywio o ysgol i ysgol ac yn ôl blociau opsiwn a phynciau galwedigaethol. Rydym felly wedi penderfynu defnyddio canrannau o'r cymwysterau yn hytrach na rhif absoliwt.

	2022/2023	2023/2024	2024/2025	2025/2026	2026/2027
20% o'r cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên					
40% o'r cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên					
50% o'r cymwysterau a astudir trwy					

gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên					
100% o'r cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Gymraeg a Chymraeg Llên					

Sut byddwn yn cefnogi ysgolion Uwchradd i gymryd camau i gynyddu nifer y cymwysterau y gall dysgwyr eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg?

- Sicrhau bod darn penodol o waith yn rhan o swydd newydd y Cydlynnydd Cwricwlaidd Uwchradd i fonitro'r ddarpariaeth a chasglu gwybodaeth ynghylch cyfradd astudio cyfrwng CA4 a CA5. Bydd y cydlynnydd yn medru casglu data cyfredol o ba fwrdd arholi/cymwysterau mae ysgolion yn eu dewis e.e. ambell ysgol yn newid o ddysgu safon Uwch i ddarparu cwrs BTEC.
- Ymgynghori ar newid categori un ysgol uwchradd i ddynodiad 3 yn unol â 'Categori ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru)
- Parhau i ddosrannu arian y Gymraeg er mwyn sicrhau dosbarthiadau pynciau cyfrwng Cymraeg yn CA4 – Monitro a chyfiawnhau'r gwariant hwn cyn , yn ystod ac ar ddiwedd y cyfnodau arian.
- Dylid sicrhau adrodd ar y camau yma o ychwanegu at yr arlwy o bynciau cyfrwng Cymraeg yn flynyddol yn CDY pob ysgol.
- Sefydlu pwyllgor a chyfarfodydd ar gyfer Llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg er mwyn mireinio eu rôl a chryfhau atebolrwydd.
- Defnyddio system e-sgol i gefnogi pynciau TGAU ac ehangu ar fwydlen e-ddysgu o ran pynciau cyfrwng Cymraeg safon Uwch.
- Sicrhau bod pob disgybl sy'n astudio cymhwyster mamiaith yn cael ei asesu ar gyfer y Fagloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cefnogi'r athrawon hynny sy'n ddi-hyder yn ieithyddol i fynychu'r cwrs sabothol a darparu sesiynau gloywi ar eu cyfer yn fewnol. Cwrs Cymorthyddion (Pasg '21) ac athrawon yn barod (Medi '21). Bydd penodiad newydd o swyddog Cefnogi Gyrfa Gynnar athrawon hefyd yn helpu i flaenoriaethu targedau personol yr athrawon hyn a'u harwain at y cyrsiau perthnasol nid yn unig o fewn eu blwyddyn gyntaf ond y tu hwnt i hynny hefyd. Bydd yn gaffaeliad i baratoi'r gweithle ar gyfer medru darparu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Casglu data cyfredol o ba fwrdd arholi/cymwysterau mae ysgolion yn eu dewis e.e. ambell ysgol yn newid o ddysgu safon Uwch i ddarparu cwrs BTEC.
- Cynnal Ffair Yrfaeodd/Byd Gwaith – rhannu pwysigrwydd dwyieithrwydd – modd gwneud hyn trwy gyfres o ffilmiau byrion o brofiadau pobl go iawn yn ogystal â thrwy'r Ymgyrch Hyder (gweler Deilliant 5).

- Cefnogi'r ysgolion gyda Cwricwlwm i Gymru – edrych ar is-bennawd y 4 diben - “Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddatblygu yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n ... gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg”. Defnyddio uned 'Troi'r trai mewn trideg mlynedd' y Coleg Cymraeg fel modiwl gyda'r holl ddisgyblion.
- Cefnogi llysgenhadon ysgol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'u gwaith.
- Cefnogi ysgolion wrth gynllunio dilyniant addas ar hyd llwybr ieithyddol disgyblion o naill sector i'r llall yn unol â Chwricwlwm i Gymru.
- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg a Cered i barhau i fynychu nosweithiau agored ysgolion uwchradd a hyrwyddo astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a siarad Cymraeg. Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg o fewn Addysg a Cered i gydweithio ar amserlen a chynllunio cefnogi'r Uwchradd.
- Sefydlu perthynas agos a chynllunio gyda Gyrfa Cymru er mwyn lledaenu negeseuon cadarnhaol.
- Sicrhau bod prentisiaethau a swyddi'r sir yn nodi pwysigrwydd/angen y Gymraeg.

Sut byddwn ni'n cydweithio gydag ysgolion i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig fel pwnc safon Uwch mewn ysgolion gan gefnogi ysgolion i gynnal dosbarthiadau llai os oes rhaid er mwyn diogeli'r pwnc?

- Bydd modd rhannu arbenigedd rhwng ysgolion trwy e-sgol.
- Hyrwyddo sesiynau meistr a gynhelir trwy gynllun Y Coleg Cymraeg a'r prifysgolion.
- Cydweithio gyda phenaethiaid adrannau i adnabod darpar ddisgyblion Safon Uwch.
- Ail sefydlu a chryfhau rhwydwaith penaethiaid adrannau er mwyn cydweithio a chadw golwg fanylach ar y rhifau.

Sut byddwn ni'n cydweithio ag ysgolion i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ymhlith disgyblion a rhieni/gofalwyr?

- Rhannu fideos LIC - <https://www.youtube.com/cymraeg> ar gyfer nosweithiau opsiynau ac i'w hyrwyddo ymysg rhieni ac ar Cardi laith.
- Creu fideos astudiaethau achos ein hunain yn olrhain gyrfa hyd yma y disgyblion hynny sydd wedi astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch.
- Creu Fideo astudiaethau achos– Manteision dilyn llwybr aelod o staff sydd wedi astudio'r Gymraeg. Cydweithio gyda'n rhan-ddeiliaid, Y Coleg Cymraeg, Cered, Gyrfa Cymru a SAB.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Rydym yn disgwyl, ar ddiwedd y cynllun 10 mlynedd, y bydd 6 o'r 7 ysgol Uwchradd yn cwrdd â gofynion dynodiad 3 ('Categoriadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' – LIC).
- Rydym yn disgwyl gweld canran y cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg yn codi'n raddol bob blwyddyn.
- Rydym yn disgwyl gweld cynnydd yn hyder disgyblion a rhieni i ddewis addysg Gymraeg.
- Yng nghanlyniadau cyfrifiad 2031 byddwn yn disgwyl gweld canran uwch o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn medru siarad Cymraeg.

Tudalen 173

Cofiwch ddileu y *testun glas*
cyn cyflwyno eich Cynllun

	2027/2028	2028/2029	2029/2030	2030/2031	2031/2032
TGAU mamiath					72%
TGAU ail iaith					28%
Safon Uwch mamiath					20%
Safon Uwch ail iaith					10%
20% cyfrwng					65%
40% cyfrwng					48%
50% cyfrwng					45%
100%cyfrwng (ac eithrio Saesneg fel pwnc)					25%

DRAFT

Deilliant 5**Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol****Ble rydym ni nawr?**

Penodwyd Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg Mewn Addysg ym mis Medi 2020 i arwain ar waith y Siarter Iaith (cynradd ac uwchradd) ac i gydweithio gydag amryw o ran-ddeiliaid gyda'r nod penodol o annog defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion Ceredigion.

Mae'r Adran Diwylliant bellach yn rhan o'r Adran Ysgolion yng Ngheredigion gan felly gynnig cyfleoedd pellach i gyd-weithio ar gyfleoedd allgyrsiol a chymdeithasol o ran y Gymraeg.

Mae'r deilliant hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â strategaeth hyrwyddo 5 mlynedd Ceredigion (sy'n ofyniad dan Safonau'r Gymraeg):

Nod Strategol 1 - Cynnal a chynyddu sgiliau iaith Gymraeg trigolion Ceredigion.

1.3 Amcanion - Sicrhau cyfleoedd digonol i bobl ifanc ac oedolion gaffael a datblygu eu sgiliau Cymraeg: yn y gweithle ac yn y gymuned.

gan blethu hefyd gyda:

Nod Strategol 2 - Cynnal a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiol gyd-destunau.

2.1 - Cynnal a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol.

Data Cered

Data CERED
2019-20.docx

Data Theatr Felinfach

Prosiect	Nifer y sesiynau	Nifer y disgyblion	Arall
Dramatic	6	73	Ysgolion Henry Richard, T Llew Jones, Felinfach, CA2
Sioe Dramatic (pawb ynghyd)	5	225	Fel uchod
Dawns	5	72	Dihewyd, ysgol gyfan
Sesiwn Stori a Drama	1	53	Ysgol Aberaeron, CA2
Cwlltwr (Gweithdai theatr ieuencid)	20	84	Ysgol Bro Pedr, Henry Richard (CA3)

Arad Goch

Perfformiad i ddisgyblion CA3 - HUDO

Dyma'r ysgolion yn Sir Ceredigion a gafodd berfformiad/au:

Ysgol	Perfformiadau	Disgyblion
Henry Richard	1	26
Penglais	2	200
Aberteifi	2	93
Aberaeron	2	91
Penweddig	2	90
Bro Pedr	2	89
Bro Teifi	1	102
	12	691

Noder: Cafwyd 7 perfformiad Cymraeg, a 5 perfformiad Saesneg

Perfformiad i ddisgyblion CA2 – Tu fewn Tu-Fas

Dyma enwau ysgolion Sir Ceredigion sydd wedi derbyn y cynhyrchiad yn ystod 2019-20:

Talybont	Llwyn yr Eos
Craig yr Wylfa	Plas Crug
Rhydyppennau	Ponrhydfendigaid
YGA	Syr John Rhys
YG Aberaeron	Mynach
Llangwryfon	Comins Coch
Llanfihangel y C	Myfenydd
Penrhyncoch	Bro Pedr
Penllwyn	Llanarth
YG Aberteifi	Dihewyd
Penparc	Ciliau Parc
Aberporth	Dyffryn Cledlyn
Felinfach	

Noder: Cafwyd 23 perfformiad Cymraeg, a 4 perfformiad Saesneg.

Clybiau ôl ysgol cofrestredig

	Cymraeg	Cymraeg a Saesneg	Saesneg gydag elfennau o Gymraeg	Saesneg	Cyfanswm lleoliadau
Nifer lleoliadau ôl ysgol cofrestredig	9	6	0	3	18

Gwasanaeth Ieuentid Ceredigion

Mae gan yr Urdd, Clwb Ffermwyr Ifanc, Ieuentid Tysul, Sgowtiaid Ceredigion, Girlguiding Cymru a Ray Ceredigion gytundeb lefel gwasanaeth gyda Gwasanaeth Ieuentid Ceredigion. Maent yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 11-25 oed. Mae gan y Cytundebau hyn y targedau canlynol i'w cwrdd er mwyn hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg:

- Gweithio tuag at y nifer o Achrediaidau Cenedlaethol a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg (mae'n rhaid i'r CLG ddarparu o leiaf 20 i gwrdd â'u targedau)
- Y nifer o sesiynau sydd wedi eu darparu i ddatblygu ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc o werth cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yr iaith Gymraeg (mae'n rhaid i'r CLG ddarparu o leiaf 10 i gwrdd â'u targedau)

Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 (Ysgol Penweddig yn ystod Tymor yr Hydref 2020)

30 Tachwedd (blwyddyn 7) - 50 yn bresennol (dros 2 sesiwn)
 1 Rhagfyr (blwyddyn 7) - 50 yn bresennol (dros 2 sesiwn)
 7 Rhagfyr (blwyddyn 8) - 50 yn bresennol (dros 2 sesiwn)
 10 Rhagfyr -(blwyddyn 8) - 75 yn bresennol (dros 3 sesiwn)

Data Siarter Iaith

Llwyn yr Eos – tuag at yr Efydd, Padarn Sant – Efydd, Comins Coch – Arian, Cei Newydd – Arian, Plascrug – Arian.

(*Cymraeg Campus*)

Efydd: Llanarth, Felinfach, Pontrhydfendigaid, Llangwryfon, Cenarth, Bro Sion Cwilt, Ciliau Parc, Dihewyd, Y Dderi, Aberporth, Dyffryn Cledlyn, Craig yr Wylfa, Llanfarian, Penparc

Tuag at ar yr arian: Aberaeron, Talybont, Rhydypennau, Rhos Helyg, Myfenydd, Mynach, Llanfihangel y Creuddyn, Bro Teifi, Ysgol Gymraeg Aberystwyth, Henry Richard

Arian: Llanilar, Talgarreg, Syr John Rhys, Bro Pedr, Llanon, Llechryd, T Llew Jones

Ysgolion Gydol Oed - Ysgol Bro Teifi (CS a CA2: tuag at yr Arian, CA3 a CA4: Efydd)
 Ysgol Henry Richard (CS a CA2: tuag at yr Arian, CA3 a CA4: Efydd)
 Ysgol Bro Pedr ((CS a CA2: tuag at yr Arian, CA3 a CA4: Efydd)

Uwchradd: Penweddig – Efydd, Penglais, Aberaeron, Aberteifi – tuag at yr Efydd

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg Mewn Addysg (benodwyd i'w swydd ym mis Medi 2020) i arwain ar waith y Siarter Iaith (cynradd ac uwchradd) ac i gydweithio gydag amrywiaeth o ran-ddeiliaid gyda'r nod penodol o annog defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion Ceredigion.
- **YMGYRCH HYDER** (Medi 2022 ymlaen) - Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg i gydweithio gyda'n ysgolion uwchradd yn benodol, Ceredigion Actif, Y Gwasanaeth Ieuencid, Cered, Theatr Felinfach, Gwasanaeth Athrawon Cefnogi'r Gymraeg (hyfforddiant gloywi, datblygu medrau llafar uchel a soffistigedig yn null School21, targedu disgyblion Blwyddyn 7,8 a 9 ayyb ayyb). Y nod yw cael siaradwyr hyderus sy'n fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol mewn gwahanol gyd-destunau (yn enwedig os ydynt o gartrefi di-Gymraeg ac yn ddisgyblion sydd wedi ennyn ymdeimlad o berthyn ac integreiddio i'w cymunedau. Defnyddio tystiolaeth ymchwil o brosiect hyder ardal Bangor a Mentrau Iaith Cymru i gynyddu defnydd y Gymraeg ymysg siaradwyr di-hyder e.e. defnyddio technegau seicoleg iaith i ddarganfod a goresgyn rhwystrau'r unigolyn a llunio cynllun hyder unigol a rhoi cymorth iddynt i weithredu'n gadarnhaol.
- Llunio holiadur fel gwaelodlin i'r uchod i'w gwblhau gan ddisgyblion ysgolion uwchradd y sir o ran hyder a chanfyddiad wrth ddefnyddio'r Gymraeg.
- Cydweithio o fis Medi 2022 ymlaen gydag Ysgol Henry Richard (yn benodol) gan ddefnyddio a rhannu tystiolaeth o brosiect ymchwil 'Astudiaeth o allfudo

a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg' i ddatblygu ymhellach ar agweddau cadarnhaol wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

- Llunio a dadansoddi holiadur y Gymraeg mewn addysg bob dwy flynedd er mwyn casglu gwybodaeth a thystiolaeth am anghenion ysgolion, tueddiadau ieithyddol, rhwystrau, manylion y siarter ayyb. Bydd yr holiadur yn cynnig targedau gweithredu ymarferol dros gyfnod.
- Sefydlu, o'r newydd, fforwm ar gyfer monitro gweithredu'r CySGA gyda sylw penodol i'r elfen o ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg.
- Cydweithio gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg er mwyn ehangu darpariaeth lle gall disgyblion cael mynediad i weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg e.e. Urdd Gobaith Cymru, CFFI, Theatr Felinfach (sydd wedi datblygu platfform digidol creadigol yn ystod cyfod COVID), Cered (hefyd wedi datblygu elfen ddigidol yn ystod COVID sef 'Cica Corona'), Mudiad Meithrin, Cwmni Theatr Arad Goch, Gwasanaeth Ieuencid, Ceredigion Actif.
- Llunio 'Cynllun Chwaraeon' fydd yn weithredol o fis Medi 2021. Sefydlu fforwm i hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Chwaraeon – i gynnwys cynrychiolaeth o wasanaethau hamdden Ceredigion, 1 Pennaeth Uwchradd, 2 Athro Chwaraeon Uwchradd, 2 o dîm datblygu'r Gymraeg, Cered, Urdd a chlybiau lleol. Nod y cynllun fydd magu hyder staff a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac i glywed y Gymraeg fel iaith fyw. Mae gan hyfforddwyr / athrawon chwaraeon rôl flaenllaw ym mywydau plant a phobl ifanc a gallent ennyn diddordeb a dylanwadu. Trwy gydweithio'n draws adrannol mae modd ymledu'r neges am bwysigrwydd y Gymraeg a chyfleoedd i'n disgyblion i'w defnyddio o fewn gwersi nofio, dosbarthiadau ffitrwydd, clybiau cymunedol ayyb. Byddwn yn creu Ap y Gymraeg ym myd chwaraeon fydd ar gael i'w lawrlwytho er budd hyfforddwyr, disgyblion a staff. Bydd yn hyrwyddo'r defnydd o dermau a geirfa chwaraeon Cymraeg/dwyieithog bydd o fudd wrth hyfforddi. Bydd hefyd yn cynorthwyo gyda'r geirfa allweddol ar gyfer disgyblion sy'n astudio TGAU/cymhwyster Addysg Gorfforol, yn cynnig templedi ar gyfer cyflwyno datganiadau i'r wasg yn Gymraeg, cymorth i gyhoeddi sylwebaeth/canlyniadau gemau ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ayyb.
- O fewn 5 mlynedd, ein dymuniad yw gweld bod mwy o ddisgyblion yn astudio Addysg Gorfforol trwy gyfrwng y Gymraeg a bod holl staff. Gwasanaethau Hamdden y Sir â hyder i ddysgu/hyfforddi yn ddwyieithog.
- Parhau gyda chyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer arweinyddion y Siarter Iaith i rannu syniadau, rhannu rhwystredigaethau ac arfer dda, i gydweithio ac i gynllunio ar y cyd ayyb (cyfarfod cyntaf 10fed o Ragfyr 2020).
- Darparu gweithgareddau ar gyfer diwrnodau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg megis Diwrnod Shwmae, Dydd Miwsig Cymru, Gŵyl Ddewi ayyb.
- Cardi-Iaith (@Cardiiaith): sefydlu tudalen 'Facebook' i rannu gwybodaeth, cyflwyno sgiliau iaith, patrymau iaith, ymglymiad a chefnogaeth i rieni, hyrwyddo cyfleoedd Cymraeg o fewn y sir o fewn addysg a rhannu gweithgareddau sefydliadau/mudiadau Cymraeg eraill.
- Prosiect Cerddoriaeth – Selar bach, gigs, hyrwyddo'r sîn roc Gymraeg drwy ledaenu gwybodaeth am a cherddoriaeth bandiau/artistiaid cyfoes, Jambori, a chynllunio i gydweithio â Gwasanaeth Cerdd y Sir er sicrhau elfen gynyddol Gymreig yn y ddarpariaeth.

- Darparu hyfforddiant ar lein fydd yn hyrwyddo elfennau o'r Gymraeg yn ddigidol e.e. Podlediadau, darparu adnoddau ayyb.
- Cydweithio gyda phartneriaid y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol i weld yr hyn sy'n bosibl o ran y defnydd o gemau cyfrifiadurol, dylanwadau a dylanwadwyr ('influencers') y cyfryngau cymdeithasol ayyb drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Law yn llaw gyda phartneriaid allweddol byddwn yn parhau i ddiwygio'n map darpariaeth yn flynyddol fel cofnod o'r hyn sydd ar gael i blant oed ysgol er mwyn iddynt ddefnyddio'u medrau Cymraeg yn gymunedol a chymdeithasol.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Dros deng mlynedd y cynllun, drwy'r gweithgareddau uchod, law yn llaw gyda datblygiad Cwricwlwm i Gymru ac elfennau o'r pedwar diben (h.y. **Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:** yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg yn ogystal â **Bydd ein holl blant a phobl ifanc yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:** yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol) rydym am weld hyder a balchder cynyddol ymysg disgyblion yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn amlieithrwydd cyffredinol. Bydd sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol, yn fywiog, cyfoes a chynhwysol yn egwyddorion holl bwysig i lwyddiant y gweithredoedd hyn dros gyfnod y CySGA.

Bydd holl ysgolion uwchradd Ceredigion wedi ymgysylltu'n llawn gyda nodau'r Siarter Iaith ac yn gynyddol ymateb i'r gofynion datblygol sydd yn yr amrywiol gamau.

Bydd arlwy o weithgareddau allgyrsiol cymdeithasol wedi ei lunio ar y cyd gyda'n rhan-ddeiliaid er mwyn datblygu ymhellach y cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion o bob oed i ddefnyddio'u Cymraeg.

Deiliant 6

Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Ble rydym ni nawr?

- Rydym yn gallu darparu'r rhan fwyaf o gefnogaeth ADY yn ddwyieithog. Yr unig fylchau, erbyn hyn, yw cefnogaeth ar gyfer dysgwyr gyda nam ar y clyw neu gydag amhariad aml-synhwyrdd. Mae'r awdurdod yn talu am wasanaeth athrawes arbenigol amhariad aml-synhwyrdd ar lefel ranbarthol ond does dim gwasanaeth ar gael trwy'r Gymraeg. Mae'r awdurdod yn cyflogi aelod staff sydd ag achrediad arbenigol nam ar y golwg sy'n gallu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngheredigion.
- Dros y tair blynedd ddiwethaf, rydym wedi cynllunio i benodi a hyfforddi athrawes ymgynghorol i allu darparu cefnogaeth ar gyfer dysgwyr gyda nam ar y golwg trwy'r iaith Gymraeg.
- Mae pob aelod o'r tîm AAA canolog yn siarad Cymraeg oni bai am un athrawes ymgynghorol ar gyfer nam ar y clyw. Mae ein cydlynnydd trawsnewid ADY wedi bod yn dysgu Cymraeg ers iddi gael ei phenodi.
- Mae cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal trwy'r iaith Gymraeg.
- Mae'r holl hyfforddiant wyneb yn wyneb rydym yn ei gynnig i staff ysgolion yn gallu cael ei gyflwyno trwy'r Gymraeg.
- Mae'r holl hyfforddiant digidol rydym wedi ei greu ar gyfer staff ysgolion ers y cyfnod clo ar gael yn ddwyieithog.
- Mae pob ymyrraeth rydym yn ei gefnogi o fewn ein hysgolion yn gallu cael ei ddarparu yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Iaith y dosbarth sydd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer rhaglenni ymyrraeth llythrennedd, rhifedd, sgiliau cydlynedd corfforol a chymdeithasol. Yr unig eithriad yw rhaglenni iaith a lleferydd sydd yn blaenoriaethu iaith y cartref gan mai polisi'r gwasanaeth iechyd yw targedu hyn fel datblygu sgil bywyd yn hytrach na sgil addysg.
- Mae pob cydlynnydd AAA yn gallu siarad Cymraeg heblaw am ddwy. Mae hyn yn golygu bod rhwydweithiau CAAA yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.
- Prif iaith gweithredu ein canolfannau arbenigol (SRC) yw Saesneg ond maent i gyd yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Pan fo disgybl sydd angen y ddarpariaeth arbenigol trwy'r Gymraeg yn cael ei leoli yn un o'r SRC, rydym yn darparu hyn trwy sicrhau cefnogaeth agos cymhorthydd dysgu (CD) sydd yn siarad Cymraeg.
- Mae nifer o'n gwarchodwyr plant yn cynnig darpariaeth trwy'r Saesneg. Gall hyn fod yn anhawster wrth i blant drosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei gofnodi fel sgil hanfodol yn y broses recriwtio ar gyfer pob swydd newydd o fewn y tîm AAA/ADY. Pan fo' lefel yr arbenigedd yn golygu nad oes ymgeiswyr yn meddu ar y sgiliau iaith (Cymraeg) angenrheidiol, mae cynnig y swydd yn ddibynnol ar gytundeb i ddatblygu'r rhain o fewn dwy flynedd.

- Mae pob ysgol yn sicrhau bod rhieni'n deall bod unrhyw ddarpariaeth ac ymyrraeth ar gael yn y Gymraeg a bod datblygu iaith y dosbarth yn flaenoriaeth dros ddatblygu iaith y cartref gyda'r ymyrraethau ieithyddol (heblaw am raglenni iaith a lleferydd).
- Mae rhieni'n derbyn y wybodaeth o ran opsiynau darpariaeth ieithyddol wrth ddewis ysgol a lleoliad arbenigol.
- Mae'r holl adnoddau rydym yn eu creu er mwyn cefnogi ysgolion ar gael yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn cael eu rhannu ar 'Teams'. Pan mae'r adnoddau'n cyd-fynd gydag ymyrraeth sydd yn hybu datblygiad sgiliau iaith penodol, sicrheir cydraddoldeb ieithyddol o ran nifer ac ansawdd yr adnoddau.
- Nid oes digon o asesiadau safonol ar gael trwy'r Gymraeg ond mae'r tîm seicolegwyr addysg yn gallu cyflwyno asesiadau safonol Saesneg trwy'r Gymraeg ar lafar. Y gwendid gyda hyn yw nad yw'r canlyniadau'n gallu cael eu cofnodi fel rhai safonol wedyn. Mae unrhyw ddatblygiad yn y maes yma yn fater cenedlaethol.
- Rydym wedi cynnal awdit o'r adnoddau a'r asesiadau sydd ar gael yn Gymraeg ac wedi cyfieithu rhai Saesneg ble roedd yna fwlch. Mae bwlch mawr yn parhau o ran asesiadau seicometrig, ond mae defnyddio'r iaith Gymraeg wrth eu gweinyddu yn ddigon ymarferol – ond nid yw'n ddigonol. Mater cenedlaethol yw datblygu'r maes yma.
- Gan mai dim ond un asesiad sillafu Cymraeg safonol sydd ar gael, a dydy hwnnw ddim yn ddigon addas ar gyfer cael ei ddefnyddio ar draws y cyfnodau allweddol, rydym wedi cydweithio er mwyn datblygu asesiad sillafu o fewn Ceredigion. Er nad yw'n asesiad safonol, mae'n cael ei ddefnyddio fel rhan o gynllun er mwyn adnabod a chryfhau gwendidau sillafu penodol. Mae unrhyw ddatblygiad yn y maes yma yn fater cenedlaethol.
- Rydym yn edrych ar ail ysgrifennu 'Strategaeth a Pholisi AAA Ceredigion' i gyd-fynd gyda'r Ddeddf a'r Cod ADY newydd. Bydd y gwaith yma'n cael ei orffen pan fydd y Cod ADY yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2021. Byddwn yn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y meini prawf, yn ddwyieithog.
- Rydym wedi rhannu adnoddau hyfforddiant ADY dwyieithog o ansawdd uchel gydag ALI o fewn y rhanbarth.
- Rydym hefyd wedi cydweithio gyda'r rhanbarth wrth ddatblygu adnoddau hyfforddiant ADY dwyieithog o ansawdd uchel.
- Rydym wedi cyfieithu rhaglen asesu sgiliau iaith a lleferydd (Wellcomm) er mwyn iddo fod yn addas ar gyfer ei ddefnyddio o fewn Ceredigion.
- Rydym wedi addasu a chyfieithu rhestrau chwarae hyfforddiant a oedd wedi cael eu rhannu gan Sir Abertawe.
- Mae'r cyfarfodydd 'Cynllun Cyfeirio' aml-asiantaethol yn cael eu cynnal trwy'r Gymraeg.
- Pan rydym yn trefnu cynhadledd aml-asiantaethol, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol o ran sicrhau darpariaeth Cymraeg o fewn ein hysgolion ac adnoddau priodol i gefnogi hyn.
- Datblygu'r sefyllfa o ran hyfforddiant gan greu cyflwyniadau digidol/rhithwir mwy arbenigol yn y ddwy iaith fel bod staff ysgolion yn gallu dewis yr iaith maent am ei defnyddio ar sail unigol.
- Rhoi darpariaeth trwy'r Gymraeg yn ei le ym mhob achos gan gynnwys mewnbwn gan yr athrawes ymgynghorol ar gyfer amhariad clyw trwy wneud addasiadau rhesymol e.e. sicrhau partneriaeth gyda Chymhorthydd Dysgu Cymraeg fel cyfieithydd a defnyddio therapydd iaith a lleferydd ble fo angen arwyddo.
- Datblygu'r ddarpariaeth Cymraeg ar gyfer anghenion synhwyrdd trwy gynllunio i hyfforddi athrawes ymgynghorol fel athrawes arbenigol ar gyfer nam clyw. Mae'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer amhariad aml-synhwyrdd yn gyfrifoldeb rhanbarthol gan fod ALI y rhanbarth yn rhannu'r arbenigedd yma.
- Sicrhau fod unrhyw staff newydd sydd yn cael eu penodi yn gallu siarad Cymraeg a darparu mewnbwn trwy'r iaith Gymraeg. Ble nad yw hyn yn bosibl oherwydd arbenigedd y sgiliau proffesiynol, bod y staff yn ymrwmo i ddysgu Cymraeg o fewn dwy flynedd o gael eu hapwyntio.
- Codi ymwybyddiaeth a disgwyliadau'r gweithlu blynyddoedd cynnar o ran datblygu sgiliau iaith Cymraeg a chyfeirio nhw at ddatblygiad proffesiynol sydd ar gael am ddim. Cynnwys y wybodaeth yma yn y gynhadledd flynyddol.
- Datblygu ein systemau er mwyn gweithredu ar ofynion a goblygiadau'r Ddeddf a'r Cod ADY o fewn ein hysgolion yn ogystal â'n darpariaeth canolog.
- Parhau i gydweithio a rhannu arfer dda gydag ALI eraill yn y rhanbarth er na fyddwn, fel sir, yn parhau i fod yn aelod o ERW.
- Cydweithio gyda'r DECLO ac asiantaethau eraill o ran pwysigrwydd sgiliau iaith Cymraeg y gweithlu a'r ddarpariaeth.
- Cydweithio ar draws rhanbarth Hywel Dda ar effaith gadarnhaol y strategaeth blynyddoedd cynnar a'r system integreiddio ar ddatblygiad sgiliau'r Gymraeg.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Cynllunio er mwyn sicrhau bod y tîm ADY canolog yn parhau i gynnwys ystod eang o sgiliau arbenigol yn ogystal â'r gallu i weithio a darparu gwasanaeth trwy'r Gymraeg wrth i nifer o aelodau'r tîm presennol gyrraedd oed ymddeol.
- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol o ran sicrhau darpariaeth Cymraeg o fewn ein hysgolion ac adnoddau a hyfforddiant priodol i gefnogi hyn.
- Cynnal awdit o anghenion dysgwyr yng Ngheredigion yn ogystal ag awdit o'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ein bod yn cynllunio ymlaen yn effeithiol.
- Cydweithio yn amlasiantaethol yn y Gymraeg ble fo'n bosib ac yn briodol.
- Sicrhau bod LIC yn arwain ar ddatblygu mwy o adnoddau arbenigol, gan gynnwys cynllun sillafu Cymraeg strwythuredig ac asesiadau safonol, gan gynnwys prawf/profion sillafu Cymraeg safonol er mwyn cefnogi ALI ac ysgolion.

Deilliant 7

Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Ble rydym ni nawr?

Data diweddaraf am y gweithlu addysg yng Ngheredigion (Ionawr 2021)

Grwpiau Oedran (11/01/2021)

Cyfrif y Grŵp Oedran	Labeli'r Colofn							
Labeli'r Rhes	16-25	26-35	36-45	46-55	56-65	65+	N/A	Cyfanswm
Pennaeth Cynorthwyol		3	13	13			6	35
Athro Dosbarth Prif Raddfa Cyflog	41	126	36	24	10	3	118	358
Athro Dosbarth Uwch Raddfa Cyflog		86	176	138	48	18	5	471
Dirprwy Bennaeth		3	12	5	1		3	24
Pennaeth		3	10	22	2		5	42
Staff Cynorthwyol	115	187	228	358	281	58	273	1500
Pennaeth nad adnabyddir			1	2			1	6
Athro heb gymhwyso	3	4	4	2	3	1	1	18

Athrawon: Grwpiau Oedran fesul Sector (11/01/2021)

Grŵp Oedran	Labeli'r Golofn					
Labeli'r Rh	Ysgol Gydol Oed	Ysgol Gynradd	Ysgol Uwchradd	Athrawon Llanw	Cyfanswm	
16-25	26	89	56	9	180	
26-35	88	208	107	38	441	
36-45	128	264	115	54	561	
46-55	151	294	168	43	656	
56-65	68	178	111	32	389	
65+	12	93	35	18	158	
N/A	88	278	124	2	492	
Cyfanswm	561	1404	716	196	2877	

Staff Cynorthwyol fesul Sector (11/01/2021)

Grŵp Oedran	Labeli'r Golo							
Labeli'r Rhes	16-25	26-35	36-45	46-55	56-65	65+	N/A	Cyfanswm
Staff Cymorthwyol	115	187	228	358	281	58	273	1500
⊕ Ysgol Gydol Oed	15	49	65	99	56	8	54	346
⊕ Ysgol Gynradd	56	96	106	165	134	23	153	733
⊕ Ysgol Uwchradd	44	42	57	94	91	27	66	421
Cyfanswm	115	187	228	358	281	58	273	1500

Gweithlu addysg Ysgolion Uwchradd Ceredigion

Nifer o athrawon yn ôl eu gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Gydol Oed (o ddechrau CA3 ymlaen)	Addysgu/Gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg	Yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud	Ddim yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg	Yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig	Cyfanswm
	229	31	90	4	354

Nifer yr athrawon yn ôl eu gallu yn y Gymraeg

Ysgolion Uwchradd ac Ysgolion Gydol Oed (o ddechrau CA3 ymlaen)	Dim sgiliau	Lefel Mynediad	Lefel Sylfaen	Lefel Ganolradd	Lefel Uwch	Lefel Hyfedr	Ni chafwyd gwybodaeth	Cyfanswm
	21	31	22	21	46	198	15	354

Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

- Sicrhau llwybr gyrfa a chefnogaeth i'r athrawon/dirprwy brifathrawon/uwch athrawon hynny sy'n dymuno datblygu'n benaethiaid o fewn yr awdurdod ac sy'n arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg drwy e.e. gymhwyster CPCP.
- Bydd adran Adnoddau Dynol yr awdurdod yn diwygio'i threfniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg dros y cyfnod nesaf er mwyn sicrhau gweithlu digonol i ddiwallu'r galw yn y sector Gymraeg/dwyieithog.
- Cydweithio gydag Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol Cymru er mwyn denu penaethiaid posibl i Geredigion pan bydd rhai o'r rhai presennol yn ymddeol.
- Adnabod a sicrhau cefnogaeth lawn i'r gweithlu perthnasol fydd angen eu uwchsgilio drwy'r Cynllun Sabothol (yn enwedig yn ysgolion cylch Aberystwyth) dros gyfnod y cynllun.
- Llunio rhaglen dreigl er mwyn cefnogi staff addysgu a chynorthwylol y sector uwchradd i ddysgu'r Gymraeg neu i ennyn hyder pellach ynddi (drwy'r Cynllun Sabothol). Adnabod o leiaf 3 – 4 o ymarferwyr yn flynyddol ar gyfer hyn.
- Llunio 'Polisi Iaith' enghreifftiol at ddefnydd pob ysgol yn fewnol gan gynnwys e.e. y disgwyliad pan yn recriwtio o safbwynt y Gymraeg, disgwyliad o ran defnydd o'r Gymraeg, ymddygiad proffesiynol a'r Gymraeg ayyb.

- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc ac ennill cymhwyster ar bob lefel ynddi e.e. defnyddio deunyddiau hyrwyddo yn nosweithiau agored a nosweithiau opsiynau'r ysgolion uwchradd, hyfforddi arweinwyr ysgol ar bob lefel am yr angen i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc.
- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Sefydliadau Hyfforddi Athrawon er mwyn annog disgyblion i ystyried a dilyn gyrfa yn y byd addysg (er mwyn addysgu yn y sector dwyieithog ac i addysgu'r Gymraeg fel pwnc).
- Targedu, cysgodi a mentora disgyblion blwyddyn 10-13 er mwyn eu denu i weld addysgu yn y sector dwyieithog fel gyrfa ddeniadol.
- Mynychu ffeiriau addysg sefydliadau hyfforddi athrawon er mwyn ceisio denu unigolion i addysgu yn Ngheredigion (Bangor, Aberystwyth a Caerfyrddin yn bennaf).
- Cydweithio gyda cholegau addysg bellach er mwyn annog myfyrwyr yno i fanteisio a gwella'u sgiliau iaith er mwyn ennill cyflogaeth yn ysgolion Ceredigion fel cymorthyddion dysgu.
- Sicrhau hyfforddiant lefel uchel i athrawon ar 'Maes Dysgu a Phrofiad - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn ogystal â'r Gymraeg ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad eraill.
- Llunio cynllun o hyfforddiant blynyddol ar fethodoleg dysgu dwyieithog llwyddiannus.

Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Bod gweithlu addysg ALI Ceredigion yn gynyddol ei allu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i addysgu'r Gymraeg fel pwnc.
- Bod cyflenwad o athrawon i allu addysgu'r pynciau presennol sy'n anodd i recriwtio ar eu cyfer e.e. Cymraeg, Gwyddoniaeth(-au), Mathemateg, Ieithoedd Modern, Dylunio a Thechnoleg.
- Bod y gweithlu hwnnw yn ymwybodol o'i rôl wrth gynnig hyder i ddisgyblion i siarad a defnyddio'r Gymraeg yn academiaidd (llafar, darllen ac ysgrifennu) ond hefyd yn gymdeithasol (yn siaradwyr hyderus sy'n teimlo'n rhan/wedi eu hintegreiddio i'w bröydd).
- Bod y gweithlu cyfan yn ysgolion Ceredigion yn gweld y rôl bwysig sydd ganddynt wrth greu disgyblion sy'n siaradwyr hyderus ac sy'n gweld y Gymraeg fel iaith gynhwysol a pherthnasol mewn byd o ieithoedd pwysig eraill.

Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

Bydd y Fforwm yn cyfarfod i gynnig eu barn wrth gynllunio cychwynnol y ddogfen a hynny'n gyntaf ym mis Mai 2021. Unwaith y bydd y ddogfen yn cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru bydd y fforwm yn cyfarfod unwaith bob tymor (ysgol) er mwyn goruchwyllo ei gweithredu a'i gwerthuso.

Bydd oddeutu 10 aelod i'r fforwm gan gynnwys rhan-ddeiliaid y sectorau addysg perthnasol – un pennaeth cynradd ac uwchradd, aelodau o'r tîm addysg sirol, Swyddog Polisi'r Gymraeg a Chydraddoldeb, Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg a chynrychiolwyr o fudiad Rhieni dros Addysg Gymraeg, y Mudiad Meithrin, Blynnyddoedd Cynnar Cymru, Hyfforddiant Ceredigion, Coleg Ceredigion ac Adran Addysg Prifysgol Aberystwyth.

DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Mae'r **Asesiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y cynnig Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Ceredigion 2022-2032

Maes gwasanaeth	Ysgolion a Diwylliant	Pennaeth y Gwasanaeth	Meinir Ebbsworth	Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees
-----------------	-----------------------	-----------------------	------------------	-----------------------	------------

Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Silyn Roberts	E-bost	silyn.roberts@ceredigion.gov.uk	Ffôn	07890540487
----------------------------------	---------------	--------	---------------------------------	------	-------------

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Gymraeg. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Cyhoeddwyd Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 ym mis Medi 2016, a'i nod yw llywio gwelliannau i economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn creu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, yn iach ac egniol, yn uchelgeisiol ac yn dysgu, ac sydd wedi'i huno a'i chysylltu. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethu'r Llywodraeth ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hyn. Maent yn fesurau uchelgeisiol a fydd yn cael effaith ar bawb ar bob cam o'u bywyd.

Mae hefyd yn nodi uchelgais Llywodraeth Cymru o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n ei siarad, yn ogystal â'i hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017. Am y tro cyntaf, gosodwyd gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i ni gynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Dyma'r sbardun ar gyfer dymuniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff y Gymraeg a darpariaeth Cymraeg eu cynllunio yn ein system addysg statudol yng Nghymru.

Tudalen 187



Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg ymdrochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae data ysgolion yn dweud wrthym faint o blant sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, Maent yn ddangosydd allweddol o ran y twf sy'n ofynnol ac yn dangos pwysigrwydd sicrhau ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg. Maent hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg ymdrochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

Bydd angen cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus drwy ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod statudol hyd 7 oed. Bydd y Gymraeg hefyd yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys un continwmm ar gyfer ei dysgu. Drwy gyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 ymlaen, y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod Sir Ceredigion yn gallu cyflawni ei dyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Y cynllun hwn yw'r adnodd cynllunio iaith hirdymor ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn galluogi awdurdod lleol Ceredigion i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn ei hardaloedd mewn ffordd sy'n cyflawni nodau Cymraeg 2050.

Bydd targedau lleol mewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn seiliedig ar y targed hirdymor cyffredinol i sicrhau miliwn o siaradwyr. Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu'r ymrwymiad i gynyddu cyfran y disgyblion ym mhob blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% i 30% erbyn 2032, a bydd y cynnydd cenedlaethol hwn o 8% yn sail i dargedau pob awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Bydd y cynnig hefyd yn cyfrannu at wireddu tri nod strategol 'Strategaeth Iaith Ceredigion' sef:

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu bydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn tuag at nodau llesiant



Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuencid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion o fewn oedran statudol addysg yn ysgolion Ceredigion.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yng Ngheredigion drwy gynnig dewisiadau ychwanegol o ran addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a mwy o gyfleoedd a chymorth i bawb fanteisio arni. Yn ei dro, bydd hyn yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallant eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac, yn enwedig, pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gweithio. Bydd hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wella eu sgiliau Cymraeg.

Bydd y cynnig hwn hefyd yn galluogi awdurdod lleol Ceredigion i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir, a'i gwella, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ledled y sir, heb ystyried y gymdeithas y maent yn byw, eu cefndir nac iaith y teulu, gan sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn meithrin sgiliau Cymraeg y gallant eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Disgwyliwn i unrhyw effeithiau fod yn rhai cadarnhaol, a hynny oherwydd y canlynol:

Bydd plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ni waeth ym mha gymuned y maent yn byw.

Bydd nodau'r cynnig hwn yn cefnogi Cyngor Sir Ceredigion i gyflawni ei ymrwymadau o ran y Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon a chymorthyddion ysgolion cynradd Ceredigion yn gallu siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg. Bydd cefnogaeth lawn yn cael ei gynni i aelodau staff ysgolion wrth weld y cynnydd yn y ddarpariaeth o safbwynt y Gymraeg.

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



RHEOLI'R DDOGFFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
<i>Bydd hyn yn dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses o ddatblygu'r cynnig. Ydych chi wedi ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant, a'u rhoi ar waith?</i>				
Silyn Roberts	Gweithdy Rhanddeiliaid Allweddol	1	27.02.2020	
Silyn Roberts	Cyfarfod: Grŵp Gorchwyl a Gorffen i drafod drafft cyntaf CySGA 2022 - 2032	2	08.02.2021	
Silyn Roberts	Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Iaith: i dderbyn sylwadau	3	Dyddiad i'w drefnu	
Silyn Roberts	Pwyllgor Craffu: er cymeradwyo'r drafft terfynol o'r ddogfen	4	27.05.2021	
Silyn Roberts	Cabinet: er trafod a chymeradwyo'r ddogfen a chaniatâd i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol/statudol	5	15.06.2021	
Silyn Roberts	Cyfnod Ymgynghori Statudol yn dechrau	5	Medi 2021 (8 wythnos)	
Silyn Roberts	Pwyllgor Iaith: i dderbyn sylwadau am unrhyw newidiadau i gynnwys y ddogfen yn sgil yr ymgynghoriad	6	Rhagfyr 2021	
Silyn Roberts	Cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru	7	31.01.2022	
Silyn Roberts	Cyflwyno ffurf derfynol y CySGA i'r Pwyllgor Craffu/Cabinet/Cyngor cyn	8	Gwanwyn a Haf 2022	

Tudalen 190



	ei gyhoeddi yn swyddogol ym mis Medi 2022			
AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?				
Hybu'r Economi	Bydd Ceredigion yn awdurdod lleol bywiog gyda gweithlu hyblyg ac aml-fedrus. <i>Bydd y cynnig yn cyfrannu at aml-fedrusrwydd drwy sicrhau medrau iaith ac amlieithrwydd ymysg disgyblion a gweithlu'r dyfodol. Bydd y cynnig hefyd yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth ehangach i nifer gynyddol o drigolion Ceredigion yn y dyfodol.</i>			
Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl	Bydd Ceredigion yn parhau i fod yn gartref bywiog ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. <i>Bydd dysgwyr y Gymraeg yn y pendraw yn ennill y setiau sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn bod yn weithwyr hyblyg, dwyieithog a gallu addasu i ofynion unrhyw ddarpar gyflogwr.</i>			
Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd	Bydd gan ddinasyddion o bob oed well ansawdd bywyd. <i>Bydd y cynnig yn cyfrannu at well ansawdd bywyd drwy ehangu ar gyfleoedd a chynyddu'r gallu i gyfrannu at gymuned a chymdeithas ddwyieithog.</i>			
Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.	Bydd cymunedau Ceredigion yn dangos gwell cydnerthedd wrth ddelio â heriau amgylcheddol a chymdeithasol. <i>Bydd y cynnig yn cyfrannu tuag at feithrin ymdeimlad cynyddol o falchder yn ein cymunedau lle mae rhwydweithiau yn cydweithio i gefnogi ei gilydd a lle mae gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg a'r amgylchedd naturiol yn cael eu gwneud law yn llaw â'i gilydd a gyda'r un arddeliad.</i>			

Tudalen 191

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gŵynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*



2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?			
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol	Bydd CySGA 2021-31 Sir Ceredigion yn ddogfen fydd yn nodi'r camau i gyflawni'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2031 o fewn y sir. Bydd targedau byr a hir dymor a champau gweithredu pendant yn y byr a'r hir dymor wedi eu nodi dros y cyfnod o 10 mlynedd.	Drwy adeiladu ar CySGA 2014-17 a CySGA 2017-20 bydd y CySGA 10 mlynedd hwn yn gosod amserlen bendant fydd yn gweithredu, ymarferol a chynaliadwy i gyflawni'r nod.	Ni ragwelwn y bydd effeithiau negyddol i'r camau y byddwn yn eu cymryd. Bydd ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'n holl bartneriaid a rhanddeiliaid, ar hyd y cyfnod, yn hynod bwysig wrth i ni weld y datblygiadau yn cael eu gweithredu.
Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau	Bydd cydweithio rhwng partneriaid a rhanddeiliaid yn greiddiol i'r cynllun. Y cydweithio pennaf fydd rhwng swyddogion yr awdurdod a'r ysgolion a'u cyrff llywodraethol yn ogystal â rhieni.	Dyma hanfod y cynllun - bydd yr enghreifftiau o gydweithio wedi eu nodi drwyddo.	I sicrhau cydweithio cadarnhaol, cyson a pharhaus drwy'r gweithredoedd fydd wedi eu nodi yn y cynllun.
Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn	Bydd rhanddeiliaid a phartneriaid yn cael eu cynnwys ar hyd y cyfnod cynllunio ac ymgynghori. Cynhelir gweithdy i'r rheiny sydd â diddordeb yn gynnar yn y broses (26 Chwefror 2020)er mwyn casglu barnau ac unrhyw faterion perthnasol. Bydd y wybodaeth a gesglir bryd hynny yn cael ei ddsbarthu i'r mynychwyr yn y pendraw, er sylwadau pellach. Bydd y broses ymgynghori (Hydref 2020) ei hun yn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 drwy'r ymgynghoriad chyhoeddus statudol. Bydd cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd i fynegi barn am y cynnig bryd hynny. Bydd prif rhanddeiliaid yn derbyn	Bydd amserlen y cynnig a'r angen i ymateb i'r broses ddemocrataidd ar ei hyd yn sicrhau cynnwys barn partneriaid a rhanddeiliaid.	Sicrhau bod y broses gynllunio ac ymateb yn dilyn 'Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu gyda'r Cyhoedd yng Nghymru'.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



	adroddiadau parhaus ar y cynllun ar hyd y cyfnod cynllunio (gweler yr amserlen), a hynny hefyd yn sgil unrhyw newidiadau posibl. Bydd y cynnig terfynol, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Ionawr 2021 wedi cynnwys barnau a syniadau rhanddeiliaid yn sgil cyflwyno copïau drafft o'r cynnig ac yn sgil yr yngyngoriad cyhoeddus.		
Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu	Bydd y dulliau gweithredu fydd yn atal unrhyw broblemau allai godi neu waethygu drwy gyfnod y cynllun, wedi eu nodi ynddo.	Nodir yr adnoddau fydd eu hangen i atal problemau rhag codi yn glir yn y gweithredoedd drwy'r cynllun.	Ymateb i unrhyw bryderon a ddaw drwy ymgysylltu'n barhaus ac yn eglur gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar hyd y cyfnod cynllunio ac ymgynghori.
Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill	Yn ei hanfod mae'r cynnig am gefnogi dyhead Cyngor Sir Ceredigion i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg drwy ei Strategaeth Iaith. Mae'r cynnig hefyd yn cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor a Strategaeth Miliwn Siaradwyr 2050 Llywodraeth Cymru.	Mae'r Gymraeg yn greiddiol i weithrediad Cyngor Sir Ceredigion ac yn ei amcanion strategol.	Ni ragwelir y bydd yna effeithiau negyddol i'r cynnig.

Tudalen 193

3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
3.1. Cymru lewyrchus Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi	Nod hir dymor y cynnig yw cyfrannu at yr egwyddor o ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar	Mae digon o dystiolaeth i ddangos manteision economaidd y Gymraeg, boed hynny ar lefel bersonol neu ar lefel fusnes a hyrwyddo.	Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



	waith addas. Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'r egwyddor yma.		
3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)	Ni fydd y cynnig hwn yn integreiddio bioamrywiaeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mewn ffordd anuniongyrchol, bydd yn gwella'r modd y mae Cyngor Sir Ceredigion, drwy'r system addysg statudol, yn adlewyrchu ein cymunedau ac yn sicrhau bod y system yn cynrychioli blaenoriaethau a phrofiadau amrywiol pob cymuned. Gall y cynnig hwn helpu i ymdrin ag addysg mewn modd sy'n seiliedig ar leoedd. Darpariaeth gymunedol yw rhywfaint o'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y cyfeirir ati yn y cynnig hwn, er enghraifft canolfannau trochi Cymraeg. Defnyddir dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd fel bod y plant sy'n mynychu'r ganolfan yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg er mwyn iddynt allu integreiddio i mewn i system addysg yr awdurdod lleol yn ogystal ag i mewn i'r cymunedau sy'n siarad Cymraeg y maent yn rhan ohonynt.	Bydd gweithredoedd y CySGA yn nodi hyn.	Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.
3.3. Cymru iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd	Nid oes effeithiau uniongyrchol a fydd yn effeithio ar iechyd yn y cynnig. Fodd bynnag, y mae'r gallu i fod yn rhan o gymuned, o ymdeimlad o berthyn a theimlo'r gallu i gyfrannu i'r gymuned honno yn bwysig o ran iechyd meddwl yr unigolyn. Mae'r cynnig yn nodi pwysigrwydd y Gymraeg yn hyn o beth. Mae cryn dystiolaeth bod amlieithrwydd yn ymestyn ar alluoedd ymenyddol yr unigolyn.	Ymchwil rhyngwladol o'r hyn sy'n sicrhau llesiant meddyliol yr unigolyn.	Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.
3.4. Cymru o gymunedau cydlynus	Bydd y cynnig yn galluogi plant i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Bydd y cynnig yn	Bydd ehangu darpariaeth y Gymraeg yn sicrhau y bydd mwy o blant yn caffael ar	Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.

Tudalen 194

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da</p>	<p>sicrhau bod bob plentyn yn cael mynediad llawn i ddysgu'r Gymraeg gan ehangu felly ar ei ddewis ac i'w rymuso ar lefel bersonol ac ar lefel economaidd yn y dyfodol. Bydd y cynnig yn sicrhau cydlynedd cymunedol drwy ehangu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau ymglymiad cymuned ehangach iddi fel iaith leiafrifol.</p>	<p>fedrau fydd yn eu galluogi, yn y dyfodol i fod yn aelodau llawn o'r gymuned maent yn byw ac yn gweithio ynddi. Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith yn galluogi Cyngor Sir Ceredigion i newid y ffordd y caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ei chynllunio a'i chyflwyno, a fydd yn cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n meithrin sgiliau Cymraeg ac yn rhoi'r dewis iddynt fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol cyfrwng Cymraeg.</p>	
<p>3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol</p>	<p>Drwy gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion a Chymru mi fydd yna gyfraniad cadarnhaol at fywyd diwylliannol a ieithyddol fyd-eang/rhyngwladol. Mae hyrwyddo defnydd o iaith leiafrifol fel y Gymraeg yn cael ei weld gan y Cenhedloedd Unedig fel nod holl bwysig. Mae amddiffyn iaith leiafrifol yn ddyletswydd o dan hawliau dynol ac yn ran greiddiol o lywodraethiant da. Mae'n fodd o greu cymdeithas sy'n gymdeithasol ac yn wleidyddol fwy cyfartal.</p>	<p>Mae ieithoedd lleiafrifol, gan gynnwys y Gymraeg wedi eu gwarchod dan ddeddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol e.e. y CU a'r Undeb Ewropeaidd.</p>	<p>Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.</p>

Tudalen 195

<p>3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau</p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p>	<p>Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p>
---	---	--	--

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.</p> <p><i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd: Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</p>				<p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i></p>				<p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>				<p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i></p>			
<p>Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</p>				<p>Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.</p>				<p>Ymgynhorir gyda chynghorau ysgol (cynradd ac uwchradd) yn ystod datblygiad y cynnig. Bydd y cyhoedd yn gyffredinol yn cael eu gwahodd i fynegi barn yn ystod y cyfnod ymgynghori yn yr Hydref 2020.</p> <p>Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar hawliau plant na'u gallu i gymryd rhan ac arfer eu hawliau. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn agored i bawb, ac mae dyletswydd ar awdurdodau lleo, fel un Ceredigion, i hyrwyddo mynediad i bawb, yn ogystal â chynnig cymorth a chyfleoedd anffurfiol i'r rhai hynny sy'n dymuno manteisio arni.</p>				<p>Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.</p>			
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim												
	✓														
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim												
			✓												
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim												
			✓	<p>Nododd Comisiynydd Plant Cymru fod y Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fater o hawliau, ac yn berthnasol i nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Hefyd, nododd y Comisiynydd fod cyswllt clir rhwng iaith a hunaniaeth, ac nad yw'n bosibl gwahanu unrhyw un o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn oddi wrth ystyriaethau ieithyddol.</p>											

Tudalen 196

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg. Un o'r deilliannau yn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yw gwella'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan alluogi mwy o'r rhai hynny y mae angen y cymorth penodol hwnnw arnynt i fanteisio arno drwy gyfrwng y Gymraeg.	Nodir y gweithredoedd fydd yn sicrhau cydraddoldeb i blant gydag ADY o dan un deilliant penodol yn y cynnig.	Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.
Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Nam ar y golwg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Tudalen 197

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Trawsrywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.		
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig. Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.		
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.		

Tudalen 198

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.		
			✓			
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Bydd y cynnig hwn yn rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu a meithrin sgiliau Cymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael cymorth i wneud hynny drwy gydol eu taith addysg. Fel rhan o'r cynnig hwn, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod darpariaeth drochi ar gael i newydd-ddyfodiaid a hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y ddarpariaeth hon yn golygu bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg, ac y bydd y cymorth angenrheidiol ar gael iddo os bydd yn dewis gwneud hynny. Bydd y ffocws cynyddol ar greu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi mwy o ddewisiadau i bobl o bob hil o ran addysg eu plant, yn ogystal â'r opsiwn i integreiddio i mewn i gymunedau sy'n siarad Cymraeg.	Mae canolfannau iaith/trochi Cyngor Sir Ceredigion eisoes yn darparu'r gefnogaeth yma.	Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol gyda'r cynnig.
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
	✓					

Crefydd neu ddim cred			
------------------------------	--	--	--

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig. Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.		
Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Rhyw			
-------------	--	--	--

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynton a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig. Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.		
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig. Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.		
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓			

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran



Bydd rhoi'r cynnig hwn ar waith drwy'r 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion. Bydd yn cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n meithrin medrau Cymraeg ac yn rhoi'r dewis iddynt fanteisio ar gyfleoedd diwylliannol cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig yn annog Cyngor Sir Ceredigion i hybu'r Gymraeg drwy'r system addysg statudol, yn ogystal â helpu i feithrin sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio yn y gweithle yn y dyfodol. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd y plant hynny'n gallu ymgeisio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, gan eu galluogi i fanteisio ar ran o'r farchnad lafur na fyddai fel arall wedi bod yn agored iddynt. Yn ei dro, bydd hyn yn cyfrannu at yr agenda trechu tloti. Hefyd, bydd y cynnig hwn yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r cyfleoedd diwylliannol sy'n gysylltiedig â hi, ac yn annog pob plentyn a pherson ifanc i fanteisio arnynt.

3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?

Dylech ystyried a oes dystiolaeth ar gael sy'n dangos: • Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol • Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol • Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Bydd y cynnig yn sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ni waeth beth fo'u cefndir, yn unol â'r nod llesiant o sicrhau Cymru fwy cyfartal. Bydd y cynnig hefyd yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fwynhau'r iaith a'r cyfleoedd diwylliannol amrywiol y mae'r iaith yn eu cynnig yng Nghymru, a fydd hefyd yn cyfrannu at un o nodau Bil Cenedlaethau'r Dyfodol o weld pobl yng Nghymru yn cymryd rhan yn ein diwylliant a rennir lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae hyn hefyd yn gyson â'r nod llesiant o feithrin iaith, diwylliant a chymunedau gwydn.

3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth

Drwy gynyddu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg, ochr yn ochr â gweithio i gynyddu lle'r Gymraeg yn ein cymunedau, gallai'r cynnig helpu i sicrhau cydlyniant cymunedol rhwng pobl o gefndiroedd ethnig, crefyddau a hiliau gwahanol.

Tudalen 202

<p>3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i></p>	<p>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.</p>	<p>Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?</p>	<p>Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p>
--	---	--	---

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?</p>	<p>Cadarn haol</p> <p>✓</p>	<p>Negydd ol</p>	<p>Dim/Fawr ddim</p>	<p>Cyflwynir y ddogfen (CySGA) a'r holl papurau perthnasol yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy'r cyfnod cynllunio a'r ymgynghori.</p>	<p>Bydd gofynion y broses yn arwain hyn.</p>	<p>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn hyn o beth.</p>
<p>A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?</p>	<p>Cadarn haol</p> <p>✓</p>	<p>Negydd ol</p>	<p>Dim/Fawr ddim</p>	<p>Nod y cynnig fydd cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sector addysg a hynny yn y pendraw yn cael effaith gadarnhaol ar ei defnydd yn gymdeithasol ac yn gymunedol. Bydd yr holl ddeilliannau, sy'n greiddiol i'r cynllun, yn cyfrannu at y nod hwn.</p>	<p>Mae'r system addysg yn allweddol i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg a nodir yn Strategaeth Cymraeg 2050, ac mae'n hollbwysig ein bod yn creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae'r cynnig hwn, sy'n ceisio atgyfnerthu'r broses statudol gyfredol a ddefnyddir gan awdurdod lleol Ceredigion i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, yn rhan hollbwysig o'r broses hon, a bydd yn parhau felly drwy gydol y cyfnod hyd at 2050.</p>	<p>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn hyn o beth.</p>
<p>A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?</p>	<p>Cadarn haol</p> <p>✓</p>	<p>Negydd ol</p>	<p>Dim/Fawr ddim</p>	<p>Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig.</p> <p>Effaith gadarnhaol fydd ar y Gymraeg gan fod y cynnig yn rhan bwysig o strategaeth Miliwn Siaradwyr 2050 Llywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd Deilliant 6 y cynnig yn benodol yn cynllunio ar</p>	<p>Bydd y cynnig yn nodi'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hefyd yn nodi'r gweithredoedd angenrheidiol fydd eu hangen i gryfhau unrhyw un o'r gwasanaethau fel bod modd eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.</p>

Tudalen 203

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



				gyfer gwed cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)		
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r cyfnod addysg statudol yn unig. Holl bwrpas y cynnig yw i gynyddu defnydd y Gymraeg yn ysgolion Ceredigion.	Bydd y cynnig yn nodi drwy'r gweithredoedd yn y saith deilliant a nodir sut y bydd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i chryfhau.	Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.
	✓					
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth lleol?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Mae'r cynnig yn rhan o weledigaeth Llywodraeth Cymru a nodir yn strategaeth Cymraeg 2020. Mae'r welediagaeth yn dymuno gweld Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, rhaid i ni gynyddu nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r	Bydd y cynnig yn nodi drwy'r gweithredoedd yn y saith deilliant a nodir sut y bydd y Gymraeg yn cael ei gwarchod, ei chryfhau a'i hybu.	Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol.

Tudalen 204



				<p>cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Mae'r cynnig yn annog awdurdod lleol Ceredigion i hybu'r Gymraeg drwy'r system addysg statudol, yn ogystal â helpu i feithrin sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio yn y gweithle yn y dyfodol. Bydd y cynnig hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r cyfleoedd diwylliannol sy'n gysylltiedig â hi, ac yn annog pob plentyn a pherson ifanc i fanteisio arnynt.</p>		
--	--	--	--	---	--	--

Tudalen 205

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd
Amherthnasol			



4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.

(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

Gwelwn mai ychwanegu at y ddarpariaeth y bydd y cynnig hwn yn hytrach na chael unrhyw effaith negyddol.

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Byddwn yn monitro'r ymgynghori a'r ymgysylltu am unrhyw effeithiau annisgwyl.

Byddwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid e.e. Fforwm y CySGA, Pwyllgor Iaith, trafodaethau oddi mewn i'r adran addysg (gan gynnwys penaethiaid cynradd ac uwchradd) ayyb.

Cyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol i Lywodraeth Cymru.

5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?

Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd

Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)	Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)	Sgôr risg
Bydd angen sicrhau cyllid a chapasiti staffio digonol er mwyn gwireddu'r cynllun yn llawn	4	3	12

Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?

Na



6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Meinir Ebbsworth		
Pennaeth y Gwasanaeth	Meinir Ebbsworth		
Y Cyfarwyddwr Strategol	Barry Rees		
Deiliad y Portffolio	Y Cynghorydd Ellen ap Gwyn		

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

Adroddiad ar Ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg drafft

2022-2032 Ceredigion



Adroddiad ar Ymgynghoriad Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg Ceredigion (CySGA) 2022 – 32 DRAFFT

Cynnwys

1. Cefndir Cenedlaethol y ddogfen ddrafft.....	3
Deilliant 1 – Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod yr ymatebion i C1 a C2)	4
Cwestiwn 1:.....	4
Cwestiwn 2:.....	4
Deilliant 2 – Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod yr ymatebion i C1).....	45
Cwestiwn 1 :.....	45
Deilliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o’u haddysg statudol i un arall (gweler isod yr ymatebion i C1)	62
Cwestiwn 1.....	62
Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod yr ymatebion i C1 a C2).....	79
Cwestiwn 1.....	79
Cwestiwn 2.....	79
Deilliant 5 – Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol (gweler CW1).....	103
Cwestiwn 1.....	103
Deilliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â’r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)	117
Cwestiwn 1.....	117
Deilliant 7 – Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy’n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg..	128
Cwestiwn 1.....	128
Sylwadau Llais y disgybl CySGA drafft 2022.....	143
Sylwadau Pellach: Ymatebion o dan gwestiynau 19/20 yr holiadur.....	148

1. Cefndir Cenedlaethol y ddogfen ddrafft.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidog Cymru wrth bennu ein targedau.

Nod y cynllun yw dangos ein gweledigaeth a pha weithredoedd bydd Ceredigion yn eu cynnig yn ystod y 10 mlynedd nesaf mewn ymateb i'r saith deilliant a bennir gan Llywodraeth Cymru. Yn sail i'r ddogfen hon mae dogfennau eraill fel Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wrth gwrs y newidiadau cyffrous a welir yn Cwricwlwm i Gymru.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, bu cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ymateb rhwng Medi'r 20fed 2021 a Thachwedd y 12fed 2021. Roedd y ffurflen ymateb yn fyw ar wefan y cyngor ar ffurf digidol neu gellid ymateb ar gopi papur trwy law'r cyngor neu canolfannau hamdden a llyfrgelloedd y cyngor. Roedd copiau print bras ar gael pe dymunir ac yn ôl y galw. Crewyd dogfen disgybl gyfeillgar er mwyn canfod barn disgyblion Ceredigion.

Isod atodir grynodedb o farnau a phwythiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a sylwadau Cyngor Ceredigion mewn ymateb i hynny.

Tudalen 208

Deiliant 1 – Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod yr ymatebion i C1 a C2)

Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y gweithredoedd yn ystod 5 mlynedd cyntaf y cynllun yn cyfrannu at y weledigaeth ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion?

Cwestiwn 2: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y gweithredoedd hyn am roi sail gref i ddisgyblion ar eu taith at ddwyieithrwydd ac wrth iddynt symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol hyd 11 oed ac yn y pendraw i fyd gwaith?

Sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r amcanion ond sydd hefyd yn cynnig ystyriaethau pellach	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion
Mae tystiolaeth yn dangos bod addysg Gymraeg yn fanteisiol i'r dysgwr ac mae cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg i bob dysgwr yn y sir yn darparu gwell sylfaen i bawb. Mae tystiolaeth o Gymru a gwledydd eraill yn dangos bod y dull trochi yn effeithiol dros ben i ddysgwyr o bob cefndir.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Sylfaen dda i ddechrau'r ysgol. Mae dwyieithrwydd yn WYCH!	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Cytunaf yn llwyr bod y gwaith ym mlynedd cyntaf (y cynllun) yn allweddol i gyrraedd y nod o wella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd angen llawer o gefnogaeth ac ewyllys da ond rwy'n teimlo bod y cynllun yn cynnig cyfle arbennig.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Pob plentyn yn cael cyfle cyfathrebu gyda'i gilydd trwy'r Gymraeg, gan wella sgiliau dwyieithog yn gynnar a datblygu sgiliau yn oedran ifanc.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Rwy'n croesawu'r nod o greu dosbarth meithrin CC yn ysgolion Plascrug, Cei Newydd a Chomins Coch. Mae'n galonogol gweld fod y cynllun yn tynnu sylw i'r diffyg gwachodwyr plant CC ac ymrwymiad i gynyddu'r niferoedd hyn. Nid yw'n ymarferol i lawer o rieni anfon eu plant i'r cylchoedd meithrin oherwydd ymrwymadau gwaith a'r amseroedd agor, felly mae gwachodwyr CC yn hanfodol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Rydym yng Nghymru; felly dylai'r Gymraeg gael ei siarad. Dwi'n dod o Loegr ond rydw i'n cefnogi hy	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae angen nodi hefyd bod y Gymraeg yn perthyn i bawb o ba bynnag gefndir.
Dywedir wrthym fod y cyfnod bore oes yn allweddol o ran dysgu iaith a gwyddom fod dysgu iaith yn y cyfnod hwnnw'n	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.

Tudalen 209

<p>haws nag yw e fel oedolyn. Mae'r cynllun yn ymddangos yn bwrpasol ac adeiladol.</p>	
<p>Mae hyn yn bwysig iawn, bod mwy o blant yn cael cyfle i gael eu haddysg/gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn iddynt ymglyfarwyddo â'r Gymraeg cyn gynted â phosibl, yn enwedig plant sy'n dod o aelwydydd di-Gymraeg. Ni all hyn ond fod yn beth cadarnhaol iawn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rwy'n cytuno y dylid addysgu'r Gymraeg/ei hystyried yn bwysicach na'r Saesneg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r egwyddor o ddysgu'r Gymraeg. Nid nod y cynllun yw ystyried un iaith yn bwysicach na'r llall. Cynnig cyfleoedd i ddisgyblion allu siarad y ddwy iaith (Cymraeg a Saesneg) gystal â'i gilydd (dwyieithrwydd) yw nod y cynllun.</p>
<p>Mae dwyieithrwydd yn sylfaen ragorol. Mae'n cynyddu eich cyfalaf diwylliannol ac yn sicrhau eich bod yn cael eich gwreiddio'n llwyr yn eich cymuned.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Po fwyaf y bydd plant yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg o oedran cynnar, yn enwedig y rheini o gefndiroedd lle nad ydynt yn clywed yr iaith ar yr aelwyd, po hawsaf y bydd iddynt ddysgu'r iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Fel cyn Athrawes Fro yng Ngheredigion ac wedi bod yn cyflwyno Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yn y blynyddoedd Cynnar fe wn pa mor bwysig a llwyddiannus yw cyflwyno ieithoedd i blant yn gynnar iawn. Fe fydd y Gymraeg yn cael ei dysgu'n naturiol, gyda mwynhad a phwrpas mewn amgylchedd hwyliog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Bydd y cynigion yn gosod sylfaen i feithrin sgiliau dwyieithog disgyblion a'r gallu i gaffael sgiliau ieithyddol ychwanegol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rydym yn cefnogi addysg ddwyieithog yn llwyr. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac mae'n amlwg y byddai'r cynllun pum mlynedd hwn yn effeithio'n ffafriol ar y targed hwn. Bydd cynllun Cyngor Sir Ceredigion, sy'n cynnwys targed i ddarparu 100% o addysg y sir drwy gyfrwng y Gymraeg, yn amlwg yn cynyddu nifer y disgyblion meithrin a'r plant tair blwydd oed sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Fodd bynnag, fel ysgol, hoffem gael mwy o fanylion am sut y bydd yr addysg feithrin hon yn cael ei darparu yn XXXX. Rydym yn cymryd yn ganiataol y bydd yr AAL a/neu Lywodraeth Cymru'n gallu ariannu'r buddsoddiad sylweddol hwn yn nyfodol ein plant.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae'n fwriad gan y Cyngor i ymgynghori ymhellach ar y bwriad i greu dosbarth meithrin (3 oed) cyfrwng Cymraeg yn Ysgol XXXX yn ogystal â'r ysgolion eraill a nodwyd yn y cynllun. Byddai'r Cyngor yn cefnogi unrhyw ddatblygiad gydag adnoddau addas.</p>
<p>Mae sicrhau bod plant yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg ac yn cael cyfle i'w dysgu a'i hymarfer yn gynharach yn hollbwysig i roi hwb i'w hyder ac i normaleiddio'r iaith fel rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd. Mae hefyd yn cryfhau'r dull o bontio'r cenedlaethau â rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau ehangach o'u teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 210

<p>Mae pwyllgor Cylch Meithrin XXXX yn credu'n gryf yn y canlyniad uchod, ond ein pryder mwyaf yw'r effeithiau hirdymor ar y Cylch Meithrin. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu gwasanaeth i blant 2-4 oed yr ardal drwy ddarparu lleoedd addysg ran-amser, y Cynnig Gofal Plant, a Dechrau'n Deg. O golli addysg ran-amser, byddai'n peri colled ariannol enfawr i'r Cylch, ac yn peri problemau cynaliadwyedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi pum aelod staff amser llawn, gyda dau o'r rheini wedi cymhwyso ar Lefel 5, ac mae gennym 18 o blant ar y gofrestr. Mae naw o'r plant hyn yn cael addysg ran-amser, gyda phedwar o'r plant hynny'n cael y Cynnig Gofal Plant. Mae tri phlentyn arall hefyd yn cael arian drwy'r cynllun Dechrau'n Deg/Allgymorth. O golli'r ddarpariaeth addysg ran-amser, ni fyddai modd i'r plant hynny fanteisio ar y Cynnig Gofal Plant na chael gofal cofleidiol oherwydd problemau iechyd a diogelwch o ran eu cludo i'r ysgol ac oddi yno. Pe bai'r Cylch yn cau yn y dyfodol, byddai'n effeithio'n fawr ar y plant sy'n cael lleoedd Dechrau'n Deg/Allgymorth oherwydd maent yn dibynnu ar ymyrraeth gynnar ac amgylchedd dysgu cyfoethog a diogel. Rydym wedi bod yn aelod o'r Mudiad Meithrin ers dros ugain mlynedd ac rydym bob amser wedi dilyn ei bolisi iaith a'r dull trochi, er ein bod wedi bod yn bwydo Ysgol XXXX (sydd wedi'i dynodi gan Estyn yn ysgol cyfrwng Saesneg â defnydd sylweddol o'r Gymraeg). Rydym eisoes yn Gylch Meithrin cyfrwng Cymraeg sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sy'n dal i ddatblygu ac i osod safonau uchel. Mae gennym hefyd bryderon ynghylch ble y bydd dosbarth meithrin yn cael ei leoli yn Ysgol Gynradd XXXX, oherwydd rydym yn gwybod bod lle'n brin tu mewn a thu allan i'r ysgol. Ar hyn o bryd, rydym yn berchen ar y caban, ac rydym wedi buddsoddi dros £30,000 mewn grantiau i gynnal ac i wella'r amgylchedd tu mewn a thu allan. Mae rhieni ac aelodau o'r gymuned wedi gwneud sylwadau am y gwelliannau diweddar, gan sôn am ba mor groesawgar ac atyniadol y mae'r Meithrin yn edrych nawr. Byddai'n drueni mawr colli'r ddarpariaeth hon yn y gymuned. Rydym yn cynnig y dylai'r Cylch Meithrin barhau i ddarparu addysg ran-amser ac y dylai Ysgol Gynradd XXXX droi'n ysgol cyfrwng Cymraeg. O wneud hynny, bydd yn sicrhau bod addysg Gymraeg yn parhau o ddwy i un ar ddeg oed a thu hwnt.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun ond hefyd yn nodi'r pryderon a godwyd a fyddai'n cael eu hystyried mewn unrhyw ymgynghoriad pellach i sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol XXXX. Mae'r sector nas cynhelir yn chwarae rôl bwysig a byddwn yn ystyried cynaladwyedd y sector mewn ymynghoriadau pellach.</p>
<p>O fyw yng Ngheredigion, mae defnyddio'r Gymraeg o'r pwys mwyaf. Po orau po gynharaf y byddwn yn cyflwyno'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Buddsoddi yn nyfodol siaradwyr Cymraeg. Prifio dwyieithrwydd yn bwysig i'r gymuned a'r economi. Ansawdd y Gymraeg yn uchel oherwydd bod addysg yn yr iaith Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rwy'n credu y bydd cynnig y ddarpariaeth hon yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod yr iaith yn tyfu. Mae plant o'r oedran hwn sydd eisoes yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ffynnu ac maent yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus i ddefnyddio'r iaith wrth iddynt dyfu'n hŷn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 211

<p>Mae'n allweddol bwysig, cynta i gyd gorau i gyd. Pwysig rhoi sail bendant er mwyn iddynt ddatblygu yn unigolion dwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r egwyddor o drochi cynnar (mewn unrhyw iaith) wedi ei brofi'n gadarnhaol drwy ymchwil niferus pan yn ystyried amlieithrwydd a chaffael iaith yn llwyddiannus. Mae'r hyn sy'n cael ei amlinellu yn y cynllun yn cynnig dewis ehangach i blant Ceredigion i fod yn ddwyieithog ac o bosibl yn amlieithog yn y pen draw. Mae'r bwriad i ddatblygu natur ieithyddol dosbarthiadau meithrin ysgolion ardal Aberystwyth a'r Cei Newydd yn greiddiol wrth greu siaradwyr Cymraeg (a Saesneg) ac ehangu'r dewis ieithyddol a manteision dwyieithrwydd i holl ddisgyblion Ceredigion.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae ymchwil yn dangos mai yn yr oed yma y mae plant ifanc yn dysgu iaith yn fwyaf llwyddiannus. Mae disgyblion dwyieithog wedi eu harfogi yn well ar gyfer y byd gwaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae pob un o'r gweithredoedd 5 mlynedd i'w clodfori, ond y pwynt mwyaf allweddol i sicrhau'r weledigaeth yw pwynt 6, sef targedu'r ardaloedd anodd/y talcen caled trwy sicrhau darpariaeth Meithrin Cyfrwng Cymraeg e.e. Cei Newydd, Comins Coch, Padarn Sant, Ysgol Llwyn yr Eos ac Ysgol Plascrug. Mae'r pwynt yn cloi gyda rheswm clir a chadarn: 'byddai pob plentyn sy'n mynychu darpariaeth Cylchoedd Meithrin (MM)/Grwpiau Chwarae (BCC) eraill ar draws y sir yn dilyn llwybr mamiaith gan mai darpariaeth CC fyddai yng nghyfnod sylfaen pob ysgol.' Mae hyn yn taro'r hoelen ar ei phen. Da iawn! Mae targedu marchnata a hyfforddiant ar gyfer darparwyr/hyfforddwyr cyfrwng Cymraeg hefyd yn fodd o sicrhau hyn, ac mae hynny wedi ei nodi'n glir yn nhargedau Ceredigion. Mantais arall y gweithredoedd yw eu bod yn rhoi statws i ddwyieithrwydd, ac amlieithrwydd – mae hyn yn fodd o roi mwy o apêl na gwthio ffiniau Cymraeg yn unig. Mae'n rhoi ystyriaeth i hiliau gwahanol o bobl sy'n ymgartrefu yng Ngheredigion, a thrwy hynny yn gallu ennill empathi a diddordeb yn y Gymraeg, a chreu awyrgylch lle gallant fod yn gartrefol mewn cymdeithas ddwyieithog. Yn wir, mae'n creu apêl o fod yn gartrefol mewn cymdeithas lle ceir defnydd a statws i'r Gymraeg. Gwelir, trwy'r gweithredoedd, y rhoddir sail gref i ddisgyblion ar eu taith at ddwyieithrwydd yn y dyfodol am fod Ceredigion yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill a hefyd yn cydweithio gyda rhieni trwy ddarparu gwybodaeth a chynlluniau hyrwyddo/cymorth mewn dogfennau ac ar y we.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi'r sylwadau cadarnhaol am statws dwyieithrwydd ac amlieithrwydd a hynny ar gael i bawb.</p>
<p>Mae'n amlwg y bydd, ond nid yw'r adran "Ble rydym ni nawr" yn sôn o gwbl am pam fod rhieni'n dewis meithrinfeydd a gofal plant cyfrwng Saesneg â rhywfaint o Gymraeg. A oes tystiolaeth glir mai diffyg darpariaeth yw'r rheswm?</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau. Nodwyd yn y cynllun bod angen ceisio ehangu ar y ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.</p>
<p>Fel cyn Athrawes Fro oedd yn dysgu Cymraeg iaith gyntaf ac ailiaith gwn yn burion pa mor bwysig i'w trochi plant yn y blynyddoedd cynnar hwn. Mae rol y Mudiad Meithrin a'r</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 212

<p>gwarchodwyr plant yn holl bwysig i yn y cynllu i gyfrannu at y weledigaeth hon. Adnoddau dynol yw'r adnodd pwysicaf ar gyfer cyfathrebu. Cytunaf yn gryf bod y gweithredoedd hyn am roi sail gadarn ar gyfer eu taith at ddwyieithrwydd. Po gynharaf fo'r cyflwyniad i iaith, amsugna'r plentyn yr iaith honno yn naturiol. Mae'r gweithredoedd a nodir ar gyfer 5 mlynedd cyntaf y cynllun yn gynhwysfawr am eu bod yn targedu darpariaeth/darparwyr blynyddoedd cynnar yn briodol. Mae'r anogaeth, y gefnogaeth a'r partneriaethau a ddisgrifir i gyd yn addas. Am eu bod i gyd yn cyfrannu at y broses o gyflwyno, cryfhau a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg ym mywydau plant ifanc a rhoi'r hyder angenrheidiol.</p>	
<p>Gorau po gynta y cyflwynir pob plentyn i'r Gymraeg yn ystod eu blynyddoedd cynharaf yn yr ysgol. Rwy'n poeni y byddwn yn colli rhywfaint o'r iaith wrth i blant/rhieni ddewis eu hysgol uwchradd. Mae'r her yn dal i fod yn Nghyfnod Allweddol 2 hefyd wrth ddatblygu'r ymdeimlad o Gymreictod ac wrth iddynt fynychu gweithgareddau tu allan i'r dosbarth a chlybiau ar ôl ysgol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae'r cynllun yn ceisio ymateb i'r pryderon am ddilyniant uwchradd yn neilliant 3.</p>
<p>Mae'n bwysig i ni fel Cymry i amddiffyn ein diwylliant a hefyd ein treftadaeth. Mae hwn yn bosib trwy dysgu ein plant trwy gyfwrng Cymraeg or feithrin lan. Dros y misoedd diwethaf yma efo'r pandemig covid 19 mae 'na mwy o bobol yn symud i'r ardal o Loegr. Mae hi'n bwysig iawn bod ni fel cenedl yn dweud wrthynt sydd yn symud yma eu bod yn symud i wlad arall efo iaith ei hun a hanes ei hun. Dim ond trwy'r addasu yma y gallwn rheoli pwy sydd yn dysgu'r iaith. Mae'n mynd yn galetach i roi perswad ar oedolion o wlad arall i ddysgu ac amddiffyn yr iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae'r Cyngor o'r farn bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yn ddi-wahan os ydynt yn byw yma'n barod neu'n dod yma i fyw ac o ba bynnag gefndir. Nod y Cyngor yw sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a bod disgyblion yn dod yn gwbl ddwyieithog yn y pendraw. Er y gall rhai dysgwyr ddod yn rhugl yn y Gymraeg ar ôl astudio Cymraeg fel Ail Iaith, mae'r dysgwyr hyn yn eithriadau. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg ac sy'n astudio Cymraeg fel Ail Iaith yn dod yn rhugl yn y Gymraeg.</p>
<p>O'r hyn gallaf ei ddarlenn yn y ddogfen mae cyfeiriad clir o ran gweithredu ac allbynnau dros gyfnod y cynllun i gwrdd â'r deiliant hwn. Mae'r gallu i gael mynediad at ddwy iaith yn gynnar mewn bywyd yn ei gwneud yn haws i ddefnyddio'r ddwy iaith mewn addysg wrth fynd trwy'r system addysg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'n bwysig sefydlu arferiad iaith yn gynnar. Os taw siarad Saesneg gyda'i gilydd mae plant yn gwneud yn y blynyddoedd cynnar yna, mae'n siŵr taw parhau yn yr un iaith y gwnawn nhw. Fel y dywedais, unwaith mae'r arfer iaith wedi sefydlu, gobeithio y bydd hynny yn parhau wedyn. 'Habit' yw dewis iaith yn fy marn i.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rwyf cyn athrawes dw i wedi cael y profiad o weld plant yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl er eu bod yn dod o gartrefi di-Gymraeg a gorau po gyntaf y maent yn cael y cyfle i ymsugno'r iaith. Maent yn dysgu trwy gyfrwng chwarae yn y blynyddoedd cynnar felly'n dysgu bron yn ddjarwybod a hynny mewn ffordd bleserus llawn hwyl. Mae hyder mor</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 213

<p>bwysig er mwyn creu siaradwyr da. Nid yw plant mor hunan ymwybodol pan maent yn ifanc iawn felly'n barod i ddefnyddio'r hyn y maent wedi ei ddysgu. O'm profiad i mae mwyafrif y plant sydd ond wedi cael ychydig o Gymraeg cyn eu bod yn 11 oed yn deall rhywfaint ar yr iaith ond yn methu cyfathrebu'n Gymraeg. Canlyniad hyn yw bod Cymry Cymraeg yn newid eu hiaith er mwyn bod yn gwrtais heb sylweddoli bod modd iddynt siarad Cymraeg a chael ateb yn Saesneg. Dirywiad iaith felly!</p>	
<p>Dyma gyfnod pwysicaf dysgu iaith ac mae i blant cael eu trochi wrth ddysgu iaith yn hanfodol i fagu hyder a'r sgiliau anghenrheidiol. Fel uchod, dyma'r cyfnod pwysicaf i blentyn ddysgu iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r strategaeth wedi adnabod bylchau ac anghenion pwysig a ffyrdd i'w diwallu, e.e. ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob darpariaeth gofal plant; llunio rhaglen flynyddol o hyfforddiant i godi hyder y gweithlu gofal plant i ddefnyddio Cymraeg a chynllun hyfforddiant o ran dulliau trochi iaith effeithiol. Mae'r gweithredoedd yn dangos ymrwymiad i gefnogi datblygiad ieithyddol y disgyblion bob cam o'r daith, heb adael i rai fynd trwy'r rhwyd a'u gweld yn colli gafael yn hytrach nag ennill wrth iddynt fynd yn hŷn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae cynyddu'r plant meithrin/ tair oed sydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i'w groesawu ac mae'r targedau yn ymddangos yn rhai ystyrion a chyrraeddadwy. Ystyrir addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn gam allweddol i greu dilyniant ieithyddol i addysg cyfrwng Cymraeg cynradd ac yn natblygiad sgiliau iaith oed berthnasol. Gall nifer o'r camau a amlinellir gyfrannu tuag at hynny. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu hyn, mae'n ymddangos ar brydiau fel bod angen gweithredu mwy rhagweithiol nag yr hyn a amlinellir. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'n eglur os oes asesiad wedi'i gwblhau • Iefelau sgiliau iaith ymysg y darparwyr gwarchodwyr / gweithlu gofal plant cyfredol yng Ngheredigion, yn arbennig felly ymysg darparwyr gofal plant sy'n darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg neu yn Saesneg gydag elfennau o Gymraeg. Byddai asesiad o'r fath yn darparu sail gadarnach er mwyn deall yr anghenion a chynllunio yn fwy pwrpasol yn ei sgil o ran: i) anghenion cynyddu sgiliau cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd drwy hyfforddiant ychwanegol a'r ii) angen i recriwtio a hyfforddi mwy o weithlu cyfrwng Cymraeg i'r sector er mwyn ymgyrraedd â'r targedau. • O ran hyrwyddo'r angen am warchodwyr/gweithlu gofal plant Cymraeg eu hiaith, gellid bod yn fwy rhagweithiol, gan gynnwys cydweithio gyda'r sector uwchradd, yn ychwanegol at y colegau addysgu bellach. • O ran ehangu'r gweithlu, dylid ystyried a oes gwerth i fodolau o ddatblygu hyfforddiant ar gyfer gwarchodwyr / gweithlu gofal plant Cymraeg eu hiaith 	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ond hefyd yn gwerthfawrogi manylder y syniadau a'r wybodaeth ar sail ymchwil yn yr ymateb. Mae asesiad digonolrwydd gofal plant y cyngor yn adnabod bylchau ac yn ymateb i'r galw am gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae asesiad effaith integredig y cyngor hefyd yn mynd i'r afael â hyn.</p>

sy'n rhan fwy integredig o addysg ôl-16 mewn ysgolion uwchradd o fewn y sir.

- Tra cyfeirir at wahanol elfennau o hyfforddiant priodol, mae lle i geisio integreiddio'r pecynnau hyfforddiant i gryfhau ansawdd y ddarpariaeth. Hynny yw, wrth gynyddu'r gweithlu yn y maes cyn-ysgol drwy raglenni gloywi iaith, dylid integreiddio hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a dealltwriaeth o ddulliau trochi i unrhyw hyfforddiant ychwanegol. Mae addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn fwy na newid cyfrwng iaith ac mae'n hanfodol bod gweithwyr yn y maes yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ac arwyddocâd eu gwaith.
- Mae gwaith Revitalise wedi pwysleisio'r angen i fod yn llawn ymatebol i sefyllfaoedd ble bo rhieni'n gweithio amser llawn ac o ran gofal cofleidiol, gellid hefyd ehangu'r ystyriaeth o hyn a cheisio cynllunio yn fwy pwrpasol i sicrhau pontio effeithiol rhwng darpariaeth cylch meithrin ac i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Yn gyffredinol, fel mewn rhannau eraill o'r cynllun, mae angen cyllido digonol i wireddu gwahanol agweddau yn effeithiol e.e. y bwriad yw cynnig rhaglen hyfforddi gloywi iaith i weithlu gofal plant presennol pan fydd y cyllid yn caniatáu. Oni ddylai hynny fod yn elfen allweddol yn galw am ymrwymiad cryfach a chyllideb wedi ei hymrwymo yn flynyddol, yn enwedig ym mlynnyddoedd cyntaf y cynllun? Yn ychwanegol, nid yw'n eglur pam taw yn ardal Aberystwyth yn unig y gwneir y cynnig hwnnw gan y gallai fod yn berthnasol ar draws elfennau o'r ddarpariaeth cyn-ysgol yn y sir. Yn olaf, mae'r camau a awgrymir yma ar gyfer hybu manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd yn rhai braidd yn oddefol a gwan. Mae lle am ymdrechion tipyn mwy rhagweithiol ar ran y sir i annog a hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg, nid yn unig drwy wefan y Cyngor sy'n gofyn i rieni fynd ati i chwilio yn bwrpasol am y wybodaeth a'r negeseuon. Yn hytrach dylid ystyried partneru â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn trefnu ymgyrchoedd hybu mwy rhagweithiol. Gallai hyn gynnwys chwilio am ffyrdd o deilwra ymgyrchoedd cenedlaethol yn y maes hwn i gyd-destun penodol Ceredigion. Noder os gwelwch yn dda ein bod yn cyflwyno'r ymateb hwn ar sail ein hymchwil ym maes polisi a chynllunio iaith ac yn benodol dau brosiect ymchwil: prosiect Revitalise a phrosiect ESRC WISERD ar addysg, iaith a hunaniaeth yng Nghymru ar Alban. Byddem yn hapus iawn i drafod yn bellach unrhyw elfennau o'n hymateb gyda chi. Proses yw dod yn ddwyieithog a sail dechreuol yn unig fydd y cam hwn yn ei ddarparu yn hytrach na sail gref. Mae symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg cynradd yn allweddol i'r daith ddwyieithrwydd. Mae'n bwysig nad yw rhieni dan unrhyw gamddealltwriaeth y bydd addysg drochi cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg yn ddigonol i'w plentyn fod yn ddwyieithog.

Mae angen adeiladu ar y gwaith da a chynyddu'r darpariaeth Gymraeg er mwyn sicrhau bod y cyfnodau sylfaen yn

Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.

Tudalen 215

<p>gyfangwbl Gymraeg. Mae angen anelu at ddilyniant 100% cyfrwng Cymraeg o'r gofal i gylchoedd meithrin i ysgolion Cymraeg i roi'r dechrau gorau i blant ar eu taith at ddwyieithrwydd.</p>	
<p>Mae'n hollbwysig fod plant Ceredigion i gyd yn gallu siarad Cymraeg ac mae hynny ond am ddigwydd gydag addysg Gymraeg lawn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Cysoni ar draws y Sir, a chynnig arbenigedd staff graddedig o 3 oed i fyny. Byddai trochi o 3 oed i fyny yn gymorth mawr i sicrhau fod plant 3 oed yn dechrau dysgu'r Gymraeg yn gywir.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae angen cysoni'r drefn ledled Ceredigion. Ar hyn o bryd mae rhai ysgolion yn derbyn plant yn 3 oed ac eraill yn 4 oed. Hefyd, cynnig arbenigedd staff graddedig - sy'n amrywio o feithrin i feithrin nawr - ar gyfer bob plentyn 3 oed. Mae trochi bob plentyn 3 oed+ gan athrawon yn y Gymraeg yn sicrhau eu bod yn cael eu haddysgu o'r dechrau yn y ffordd gywir. Mae tystiolaeth mae'r Cyfnod Meithrin/Sylfaen yw'r cyfnod/oedran gorau i drochi plant yn yr iaith gan nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng wahanol ieithoedd.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. O dan y drefn bresennol, mae oedran derbyn gwahanol ysgolion yn cael ei ystyried pan fydd gwahanol adolygiadau e.e creu ysgol ardal.</p>
<p>Maen bwysig i blant yn Nghymru i dechrau deall a siarad Cymraeg mor ifanc a phosib.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r Gymraeg yn iaith i bawb ac mae gosod seiliau cadarn yn gynnar yn addysg plentyn yn hanfodol er mwyn magu hyder a balchder mewn bod yn ddinasyddion dwyieithog abl. Mae'r gweithredoedd yn mynd i ganiatau y dechreuad gorau posibl i ddisgyblion a'u harwain at ddyfodol llwyddiannus yn y Gymru ddwyieithog ac amlieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Gorau 'i gyd po gyntad ma nhw'n caffael iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae angen gweithlu gwbl ddwyieithog ar Geredigion a Chymru ac mae mantais anferth yn mynd i fod gyda disgyblion sydd yn rhugl ddwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Bydd cynnig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn gynnar i blant, yn help mawr iddynt ddatblygu'n ddwyieithog, gan bod tystiolaeth yn dangos bod plant ifanc yn dysgu iaith yn haws. Bydd hyn yn rhoi cyfle iddynt fod yn ddwyieithog o oed cynnar, a bydd y Gymraeg yn dod yn fwy naturiol iddynt. Mae rhoi cyfle i holl blant Ceredigion dderbyn eu haddysg yn y Gymraeg yn allweddol er mwyn datblygu plant dwyieithog. Mae tystiolaeth yn dangos bod ymarfer a chlywed iaith yn ddyddiol yn gymorth wrth ddod i ddefnyddio a siarad iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae hyn yn rhoi dechrau da i blant er mwyn gallu bod yn ddwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 216

<p>Mae sicrhau bod bob ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn ystod y cyfnod sylfaen yn gam pwysig at sicrhau bod mwy o blant meithrin / 3 oed yn cael eu haddysg drwy'r Gymraeg. Gobeithio bydd hyn yn cynyddu'r galw am addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen sicrhau dilyniant yn dilyn y cyfnod sylfaen. Mae derbyn addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn darparu sail gref at ddwyieithrwydd. Fodd bynnag, mae angen sicrhau dilyniant iddynt. Mae ymchwil yn dangos os yw plant yn gadael addysg Gymraeg, maent yn annhebygol o ailymuno â hi ac yn colli eu sgiliau iaith, sy'n golygu nad ydynt yn gallu ymuno â'r gweithlu cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn nodi hefyd y sylwadau am bwysigrwydd dilyniant.</p>
<p>Rydyn ni yn croesawu yr ymgyrch farchnata ar gyfer annog mwy o warchodwyr Cymraeg eu hiaith, a'r cyfleoedd hyfforddiant fydd yn cael eu cynnig i ddarparwyr gwasanaethau, gan gynnwys gloywi iaith. Rydyn ni hefyd yn cytuno bod angen rhaglen gefnogol o ddysgu proffesiynol am ddulliau trochi iaith. Credwn, fel sefydliad ei bod yn bwysig i addysgu iaith o fewn cyd-destun diwylliannol a hanesyddol. Gallwn gefnogi ymgais y Cyngor Sir i gynyddu nifer y darparwyr, a'u dealltwriaeth o gyd-destun, trwy gynnig sesiynau hyfforddiant yn rhad ac am ddim i ddarparwyr fel rhan o unrhyw raglen y byddwch yn ei chynllunio. Byddai'r hyfforddiant hwn yn defnyddio casgliadau y Llyfrgell Genedlaethol i roi cyflwyniad i hanes yr iaith, cerrig milltir pwysig, ystadegau iaith, brwydrau dros hawliau, rôl addysg Gymraeg a darlledu, statws yr iaith, a chyd-destun cymdeithasol yr iaith heddiw. Mae'r sefydliad yn cytuno y dylid anelu at darged o 100% o blant meithrin / tair oed Ceredigion yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn blynyddoedd olaf y ddegawd hon, neu yn gynt os yw hynny'n ymarferol bosibl. Yn y pen draw dyma'r ffordd o sicrhau ein bod yn cynhyrchu dinasyddion dwyieithog, ac mae'n sail gadarn ar gyfer y cynlluniau ar gyfer y disgyblion hyn o safbwynt y Gymraeg yn y blynyddoedd wedi hynny - sy'n cael eu hamlinellu yng ngweddill y ddogfen.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae plant bach yn caffael iaith yn gyflym, felly dyma'r cyfnod gorau i drochi'r disgyblion yn y Gymraeg. Yn y cylch meithrin mae'r plant yn caffael yr iaith yn naturiol wrth chwarae, canu a gwneud gweithgareddau amrywiol, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y disgyblion yn teimlo'n hyderus wrth gyfathrebu mewn mwy nag un iaith. Mae hyder ar lafar yn arwain at hunan hyder mewn bywyd.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Cyfrannu at weledigaeth. Mae'n hanfodol bod y Sir yn parhau i hybu'r iaith, rhoi y sgil i'r plant fod yn ddwyieithog. Mae angen cadw'r iaith Gymraeg yn fyw yng nghefn gwlad Cymru. Holl bwysig, drwy cyfnod ysgol, coleg ac ym myd gwaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Dechrau cyflym yn bwysig wrth ddatblygu hwn, ond rhaid nodi fod y cynllun ond yn darparu lefel sylfaenol o'r Gymraeg i bawb. Cytunwn fod yn gam werthfawr ond nid yw'n ddigonol. Mae hwn yn rhoi sylfaen ond nid sail gref i ddisgyblion. Nid yw ddarpariaeth hyd 7 mlwyddyn oed yn unig yn rhoi mynediad</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn nodi hefyd y sylwadau am bwysigrwydd dilyniant.</p>

Tudalen 217

<p>ddigonol ar gyfer mynediad i astudio drwy'r Gymraeg yn yr ysgol uwchradd ac yn sicr ddim yn ddigonol ar gyfer defnyddio'r iaith yn y byd gwaith.</p>	
<p>Mae plant yn deall dwy iaith erbyn yr oedran yma. Mae'n rhoi sail da i ddisgyblion ar gyfer eu dyfodol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae tystiolaeth ymchwil rhyngwladol yn y maes hwn yn dangos fod cyflwyno iaith gymunedol (fel y Gymraeg) yn gynnar yn y system addysg yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r dysgwyr, e.e. lefelau rhugledd uchel ar hyd eu gyrfa yn y sector addysg yn y ddwy iaith swyddogol, teimlad cryf o berthyn cymunedol beth bynnag yw eu cefndir teuluol, sgiliau dwyieithog cryf ar gyfer addysg bellach/uwch.gweithle. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos mai'r dulliau trochi yn ystod y cyfnod hwn yw'r dulliau mwyaf effeithiol o gyflawni'r canlyniadau cadarnhaol a restir uchod. Mae dulliau trochi mewn iaith fel y Gymraeg (e.e. Basgeg, Catalaneg, ac ati) yn caniatáu i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol gyrraedd yr un lefelau o rugledd yn y ddwy iaith swyddogol (e.e. Cymraeg a Saesneg, Basgeg a Sbaeneg, Basgeg a Ffrangeg, Catalaneg a Sbaeneg ayb).</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a phwysigrwydd trochi fel y dull mwyaf effeithiol i gyflawni dwyieithrwydd llawn a hynny ar sail ymchwil ryngwladol.</p>
<p>Mae'r holl argymhellion a nodir yn`Deilliant 1 (a phan caiff y rhain eu gwireddu) yn sicr o gyfrannu ar gyfer gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir o'u chymharu a'r sefyllfa bresennol. Dibynna hyn ar gyllid y Sir ac ar effeithiolrwydd y bobl sydd yn gweithio o fewn y sectorau yma. Dyma her ieithyddol go iawn ym myd addysg cynradd. Wrth i ddisgyblion Meithrin/tair oed dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg gosodir y seiliau iddynt fod yn feidrolion dwyieithog. Yr ifanca' yw'r disgyblion, gore oll. Maent fel sbwng yn medru ymsugno gwybodaeth yn naturiol a'r gobaith ydyw y byddant yn parhau i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae plant yn caffael iaith yn haws yn ystod blynyddoedd cynnar eu haddysg a bydd hyn yn sicr yn cyfrannu at eu hyder a'u rhuglder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y dyfodol. Rhydd hyn sail gadarn iawn a fydd yn eu galluogi i fod yn rhan o weithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â medru cyfathrebu'n hyderus o fewn eu swyddi yn y dyfodol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Er yr ydym yn croesawu'r sylw a roddir i'r cam meithrin, ni ddylid gweld hyn fel amcan ynysig ond hytrach fel rhan o ddarlun llawer ehangach megis parhad disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'r deilliant yn amwys am nag ydy'n cyfeirio at unrhyw darged mesuradwy. Mae hyn yn groes i'r Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol mewn Addysg a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg. Hoffai Gymdeithas yr Iaith, Rhanbarth Ceredigion weld 100% o blant yn cael eu haddysg meithrin trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y 5 mlynedd nesaf. Mae'r tystiolaeth am ddiffyg parhad y disgyblion i astudio trwy'r Gymraeg wrth iddynt fynd trwy'r drefn addysg yn ddychrynlyd. Fel y nodir yn</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn nodi hefyd y sylwadau am bwysigrwydd dilyniant. Mae'n werth tynnu sylw at dargedau deilliant 2 sydd yn sôn am barhad.</p>

Tudalen 218

<p>yr adroddiad, mae dim ond traean yn astudio o leiaf 5 TGAU trwy'r Gymraeg a chwarter yn astudio lefel A trwy'r Gymraeg. Hyn yn un o'r ffactorau mwyaf pwysig o ran deilliannau'r system addysg yn y Sir o ran y Gymraeg. Ni welwn unrhyw arwydd y bydd yr hyn a amlinellir yn fan hyn yn gwneud digon i unioni'r cam. Rydym yn croesawu gwella'r darpariaeth hyd at 7 oed ond mae angen sicrhau bod disgyblion dilyn trywydd Cymraeg yn hwyrach yn eu haddysg hefyd.</p>	
<p>Mae sicrhau bod bob ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn ystod y cyfnod sylfaen yn gam pwysig at sicrhau bod mwy o blant meithrin / 3 oed yn cael eu haddysg drwy'r Gymraeg. Gobeithio bydd hyn yn cynyddu'r galw am addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen sicrhau dilyniant yn dilyn y cyfnod sylfaen. Ar ei ben ei hunan, ni fydd addysg feithrin / 3 oed yn arwain at ragor o bobl ifanc ddwyieithog os ydynt yn mynd ymlaen at addysg yn bennaf drwy'r Saesneg yn dilyn eu haddysg blynyddoedd cynnar. Maent yn annhebygol o allu datblygu eu sgiliau Cymraeg at ruglder llawn oni bai eu bod yn parhau ag addysg cyfrwng Cymraeg fel y mae'r cyfeiriad at ddogfennaeth Llywodraeth Cymru yn ei nodi. Fodd bynnag, nid yw'n glir bydd yr ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg presennol yn cynyddu eu darpariaeth Gymraeg i blant rhwng 7 a 11 oed. Mae derbyn addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn darparu sail gref at ddwyieithrwydd ond ni fydd yn cynhyrchu unigolion dwyieithog sy'n gallu gweithio'n ddwyieithog ar ei ben ei hun. Mae angen sicrhau dilyniant. Dengys ymchwil o fewn Prifysgol Aberystwyth fod plant sy'n gadael addysg Gymraeg yn annhebygol o ailymuno â hi. Nid ydynt yn datblygu eu sgiliau iaith, ac, heb ymarfer, maent yn debygol o golli rhuglder, sy'n golygu nad ydynt yn gallu ymuno â'r gweithlu cyfrwng Cymraeg. Mae Huws (2011: 15) yn egluro pwysigrwydd dilyniant mewn addysg i sicrhau gweithwyr sy'n gallu gweithio yn ddwyieithog. Noda effaith penderfyniad myfyrwyr addysg uwch y Gyfraith sy'n medru'r Gymraeg i ddilyn eu haddysg gyfreithiol drwy'r Saesneg, sef 'diffyg rhuglder proffesiynol gan ddarparwyr [cyfreithiol], gan nad ydynt yn meithrin yr eirfa a'r gystrawen dechnegol drwy ymarfer...'. Huws, C.Ff. (2011). Yr iaith Gymraeg fel model ar gyfer torri'r cylch diffyg defnydd mewn cyd-destun ieithoedd lleiafrifol. Gwerddon, 8: 7-27.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn nodi hefyd y sylwadau am bwysigrwydd dilyniant.</p>
<p>Cytuno'n gryf bod angen cysoni'r ddarpariaeth.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Yn fy marn i mae yn hollol hanfodol. Mae ystadegau yn dangos fod Cymraeg yn helpu tuag at ddysgu ieitheodd eraill.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Ni'n byw yng Nghymru dylai pawb o bob oed gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Y cynhara maent yn dechrau dysgu yr hawsaf bydd ei llwybr addysgol. Os chi di dysgu'r iaith yn gynnar mae'n haws i ddysgu ieithoedd eraill a mae fod yn ddwyiaethog yn ffactor positif i gweddill o'r addysg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae caffael y Gymraeg yn ifanc yn rhoi sylfaen gref i ddatblygu rhuglder.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 219

<p>Mae llawer o blant sydd yn byw mewn cartrefi lle nad oes Cymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd yn gwneud yn dda iawn mewn ysgolion lle mae'r addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai rhoi cyfle i fwy o blant elwa o hyn yn beth da. Mae gan fy wyron nifer o ffrindiau sydd wedi dod i fyw i Gymru yng nghanol oedran cynradd ac oherwydd eu bod nhw wedi cael addysg Gymaeg nawr yn gallu siarad yn rhugl. Mae'n nhw'n gallu chwarae a mwynhau gyda'i gilydd drwy gyfrwng y Gymraeg a does dim rhaid newid iaith chwrae naturiol y plant.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae mor bwysig dysgu unrhyw beth mor ifanc a phosib. Mae ddwyieithrwydd yn agor drysau i well swyddi.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Gore i gyd pwy ifanca yw plant pan yn cael eu cyflwyno i iaith hawdda i gyd yw iddo ei ddysgu. Mae mor bwysig i blant gael pob chwarae teg a chyfle i fod yn barod ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol yng Nghymru.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae ymchwil yn profi bod trochi mewn iaith yn ddull effeithiol o ddysgu. Mae'n bwysig ac ond yn deg i gynnig y cyfleoedd hyn i holl blant yr awdurdod. Bydd gwaddol gwneud hyn yn enfawr ar allu holl blant yr Awdurdod i gyfathrebu a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y sgil effaith hir dymor ar gyfrwng iaith clybiau cymdeithsol pêl droed a rygbi ac ati hefyd yn enfawr. Mae cyflwyno'r iaith fel y 'norm' mewn ysgol yn gynnar yn bwysig tu hwnt ac yn medru cael effaith seicolegol positif ar y ffordd mae plant yn ei defnyddio gyda'i gilydd ac yn cyfathrebu â'u hathrawon. Mae'n llawer anoddach siarad Cymraeg gyda rhywun os ydych chi wedi arfer siarad a chyfathrebu gyda nhw mewn iaith arall. Mae'r cyfleoedd mae hyn yn cynnig i feithrin hyder plant yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sylweddol ac yn y pendraw yn mynd i gael effaith mawr ar wir ddwyieithrwydd.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'n gwneud yn siwr bod plant yn cael ddechrau dysgu'r iaith yn syth wrth iddyn nhw ddechrau'r ysgol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Cyfnod pwysig iawn yn natblygiad ieithyddol plentyn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rwy'n amlieithog. Bydd plant yn dal i ddysgu Saesneg gan ei bod yn rhan o'u bywydau bob dydd hefyd, felly ni fyddant dan unrhyw anfantais.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 220

<p>Rydw i'n croesawu'r argymhellion hyn, sy'n mynd i'r afael â'r niferoedd a hefyd dosbarthiad daearyddol dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn yr oedran meithrin. Serch hynny, mae angen gwerthfawrogi'r nifer o leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant 3 oed ar draws y sir. Ymgyrchoedd codi arian wedi eu trefnu gan bwyllgorau gwirfoddol sy'n ariannu'r lleoliadau hyn yn sylweddol ac maent yn dibynnu ar niferoedd plant. Teimlaf y byddai cyrsiau gloywi iaith er enghraifft o fantais mawr yn y maes yma. Ma nifer o bobl sy'n gweithio yn y sector yma yn gallu siarad Cymraeg yn iawn ond o'm mhrofiad i dydyn nhw ddim yn hyderus yn ei ddefnyddio. Bydd defnyddio dulliau trochi iaith effeithiol o'r oedran yma yn eu annog i ddefnyddio'r iaith a'i gweld yn rhan naturiol o'u bywydau.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn cydnabod bod cynaladwyedd darpariaeth a staff yn y sector nas cynhelir yn medru bod yn heriol ar brydiau. Bydd ymestyn y Cynnig Gofal Plant i'r dyfodol i gynnwys disgyblion 2 oed yn gymorth yn hynny o beth.</p>
<p>Mae fy nwy wyres yn hollol ddwyieithog erbyn hyn. Nid yw ond wedi bod o fudd iddynt.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rwy'n cytuno'n llwyr. Mae'n anochel y bydd hyn yn effeithio ar allu/dyhead plentyn i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn addysg a/neu weithgareddau cymdeithasol. Gallai hefyd annog / gynorthwyo rhieni a gofalwyr nad ydynt yn siarad yr iaith i ddysgu neu i feithrin sgiliau Cymraeg llafar er mwyn iddynt allu defnyddio'r iaith gyda'u babanod / plant.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Bydd llwyddo yn yr ymdrechion hyn yn bendant yn gosod sail gadarn iawn i ddatblygiad dwyieithrwydd y plant yma. Bydd y rhaglenni o ddysgu proffesiynol yn holl bwysig i roi hyder i athrawon ansicr yn y dulliau trochi iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Bydd ymyrraeth gynnar (trochi tan saith oed) yn sicrhau rhuglder a fydd yn parhau i ddatblygu (ac i gael ei ategu gan y nodau a amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru).</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Oherwydd mae angen i bob plentyn yng Nghymru ddysgu Cymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae plant unrhyw wlad Ewropeaidd arall sy'n cyflwyno ail iaith yn gynnar, ar y cyfan, yn wirioneddol ddwyieithog erbyn iddynt gyrraedd eu harddegau.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Bydd caffael sgiliau dwyieithog yn gynnar o fudd i'r disgyblion, a bydd yn gosod sylfaen effeithiol ar gyfer eu haddysg, eu gweithgareddau cymdeithasol a'u cyfleoedd cyflogaeth.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae disgyblion o'r oedran cynnar hwn yn amsugno iaith a bydd y cynllun trochi cyflawn hwn yn sicrhau bod sylfaen gadarn yn cael ei gosod ar gyfer y disgyblion ar eu taith at ddwyieithrwydd. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch hyfforddi'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu a gyflogir yn ein lleoliad ni ar hyn o bryd. Wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno drwy'r Cyfnod Sylfaen, bydd yn hanfodol neilltuo amser ar gyfer cyfnodau sabothol yn y Gymraeg. Bydd angen i'r cyfnodau sabothol hyn fod yn ddigon hir er mwyn i'r staff fagu hyder a rhuglder oherwydd byddant yn modelu'r iaith i'r</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn nodi'r sylwadau am yr angen i gefnogi staff wrth i'r datblygiad symud yn ei flaen. Bydd yr awdurdod yn parhau i nodi lefelau sgiliau Cymraeg staff ac yn datblygu sgiliau a hyder y gweithlu drwy raglen hyfforddiant gynhwysfawr a hyblyg.</p>

Tudalen 221

<p>disgyblion. Rydym yn credu bod dwyieithrwydd o fudd enfawr i'n pobl ifanc (un o'r buddion hynny yw'r ffaith bod y cyfleoedd cyflogaeth gwell y mae'n arwain atynt yn helpu i drechu tlodi yn ein cymdeithas).</p>	
<p>Rwy'n credu ei fod yn gosod sylfaen gadarn ac yn rhoi cyfle i wasanaethau ac ysgolion ganolbwyntio ar gyfnodau pontio a pharhau â'r safonau rhagorol o ran cyfleoedd drwy'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Po gynharaf y mae plant yn dod i gysylltiad â'r iaith drwy ddarpariaeth drochi, po orau. Mae gwledydd eraill wedi gwneud hyn yn llwyddiannus. Rwy'n credu mai mater o hyder ydyw, a'i bod yn hollbwysig meithrin yr hyder hwn o oedran cynnar.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Amlygwyd mai'r ardal oedd yn cynnig yr her fwyaf oedd Aberyswyth, lle mae'r ganran mewn addysg Gymraeg wedi aros o gwmpas 30%, sydd wedi bod yn siomedig. Felly, mae'n galonogol iawn gweld Cyngor Sir Ceredigion yn perchnogi'r cyfrifoldeb hwnnw, gan nodi'r ddyhead erbyn Medi 2032, y bydd pob disgbl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y byddant yn 7 oed. Rydym yn croesawu'r weledigaeth flaengar hon, sy'n ymateb i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru bod siroedd yn anelu i ragori ar y targedau twf a ddisgwylir ganddynt lle bo hynny'n bosibl. Mae'n dda gweld Cyngor Ceredigion yn amcanu i wneud hynny o safbwynt y Cyfnod Sylfaen. Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) yn gwerthfawrogi bod Cyngor Sir Ceredigion yn ymwybodol o'r rôl bwysig sydd ganddi o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yng nghyd-destun amcanion a thargedau Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rydym yn croesawu'r bwriad i lunio ymgyrch flynyddol er mwyn annog mwy o warchodwyr Cymraeg eu hiaith. Beth am i'r Cyngor arwain ar ymgyrch tebyg i'r rhai sy'n cael eu cynnal ar gyfer denu gofalwyr maeth? Byddem yn annog y sir i gymryd unrhyw gamau posib i gynyddu nifer y darparwyr/gwarchodwyr plant Cymraeg eu hiaith. Byddai cynnig cymhelliant neu gefnogaeth ariannol yn hwb mawr i wneud y newid hwn yn ddeniadol i fwy o unigolion cymwys yn y maes.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rydym yn croesawu'n fawr y bwriad i symud tuag at bolisi cynnig rhagweithiol yn unol â'r newidiadau pellgyrhaeddol a ddeisyfir ar gyfer addysg hyd at 7 oed, wrth ymateb i ymholiadau gan rhieni newydd. Ac yn yr un modd y bydd unrhyw rieni newydd sy'n mewnfudo i'r sir yn cael gwybod mai darpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg fydd ar gael o'r blynyddoedd cynnar i ddisgyblion hyd 7 oed.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Bydd ein system bresennol o gefnogi hwyrdyfodiaid trwy'n canolfannau iaith yn parhau gan raeadru adnoddau pwrpasol i gefnogi gwaith ein hysgolion.</p>
<p>Mae'n dda gennym weld cydnabyddiaeth bod angen i'r Cyngor wneud mwy i hyrwyddo a chynyddu ymwybyddiaeth am Addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd. Mae diffyg gwybodaeth am addysg Gymraeg yn fater sy'n parhau i fod</p>	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i farchnata manteisio dwyieithrwydd yn fwy effeithiol, ac yn targedu gwneud hynny fel rhan o'r cynllun hwn.</p>

<p>angen sylw, yn arbennig mewn pocedi o'r sir. Gyda newid mewn demograffeg a'r cynnydd disgwylidig o ran mewnfudwyr i'r sir dros y blynyddoedd nesaf, bydd yn ofynnol dyfeisio a gweithredu cynllun hybu a hyrwyddo yn benodol i ymateb i'r heriau hynny. Mae'r rhieni hynny'n cynnwys unigolion a fagwyd yn y sir yn ogystal â theuluoedd sydd wedi mewnfudo o Loegr ac 5 ardaloedd eraill lle na fyddai ganddynt unrhyw amgyffred am fodolaeth addysg Gymraeg. Mae angen sicrhau bod gwybodaeth am addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd yn hysbys i bawb. Dylid cael cyllideb benodol ar gyfer llunio, datblygu a gweithredu ymgyrch print a digidol effeithiol i hyrwyddo addysg Gymraeg a manteision dwyieithrwydd yn flynyddol.</p>	
<p>Byddai Corff Llywodraethu Ysgol XXXX yn cefnogi'n frwd y cynnig i ddarparu darpariaeth drochi cyfrwng Cymraeg ar draws y Cyfnod Sylfaen yn XXXX. Ar hyn o bryd, mae Ysgol XXXX yn denu cymysgedd o ddisgyblion, rhai ohonynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac eraill yn siarad Cymraeg fel ail iaith neu heb ddod i gysylltiad â'r Gymraeg cyn dod i'r ysgol. O gael darpariaeth drochi gyflawn yn y Gymraeg, rydym yn credu y bydd yn fuddiol dros ben er mwyn i'r disgyblion feithrin dealltwriaeth o'r iaith a meistroli sgiliau ieithyddol yn gyflymach, yn ogystal â helpu i fagu hyder y disgyblion i siarad Cymraeg. O ddod i gysylltiad â'r iaith yn gynnar, hyd yn oed os nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd, rydym yn credu ei fod yn helpu'r plant i gaffael y sgiliau ieithyddol hynny a'i fod yn rhoi mwy o hyder iddynt barhau i adeiladu ar y sgiliau cynnar hyn, gan eu helpu i deimlo'n rhan o'r gymuned. Mae'n ffaith sydd wedi'i chofnodi'n helaeth fod plant sy'n dysgu iaith ychwanegol cyn iddynt droi'n bump oed yn datblygu'r iaith honno yn yr un ffordd â'u hiaith gyntaf, a bod dysgwyr iau yn llai tueddol o gael eu ffrwyno gan ofn gwneud camgymeriadau, neu'n llai ofnus o wneud hynny (rhywbeth sy'n gallu bod yn rhwystr i ddysgwyr hŷn). Bydd hyn yn fuddiol yn ystod y Cyfnod Sylfaen, ond bydd hefyd yn fuddiol dros y blynyddoedd i ddod. O gaffael y Gymraeg yn gynharach, rydym yn credu y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd, gan roi dewis iddynt barhau i gael addysg cyfrwng Cymraeg a, thrwy hynny, roi mwy o ddewis o ysgolion uwchradd iddynt.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r manteision ddaw drwy'r dull trochi a thu hwnt i ddisgyblion.</p>
<p>Fe gefais i f'addysg i gyd mewn ysgolion yng Ngheredigion. Roedd yr ysgolion yn dda iawn ac roedd ynddynt lawer o athrawon gwyb ac ymroddedig. Roedd Ysgol XXXX yn ysgol cyfrwng Cymraeg, tra'r oedd Ysgol XXXX yn ysgol ddwyieithog, fel y mae hyd heddiw o dan ei henw newydd, Ysgol XXXX. Bryd hynny, byddai'r disgyblion yn cael eu gwahanu i wahanol ffrydiau ar sail iaith – cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, a ffrwd gymysg. Fe dreuliais i bron y cyfan o'm cyfnod yn XXXX yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg, fel y gwnaeth cryn dipyn o blant eraill o deuluoedd Saesneg eu hiaith. Serch hynny, oherwydd natur ddwyieithog yr addysg, bu i mi a chyfran fawr o'r plant eraill adael yr ysgol yn gallu mynegi ein hunain yn llawer gwell yn Saesneg nag yn Gymraeg, yn enwedig mewn rhai meysydd.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac i'r pwysigrwydd o gynnig addysg drochi lawn i bob disgybl yn ysgolion Ceredigion.</p>

<p>Dyna'r rheswm dros ysgrifennu'r llythyr ffurfiol hwn yn Saesneg! Hoffwn ddadlau o blaid newid y sefyllfa hon. O blith y saith ysgol sy'n darparu addysg uwchradd yng Ngheredigion, mae pump yn ysgolion dwyieithog, un yn ysgol cyfrwng Cymraeg, ac un yn ysgol cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, mae gan ysgolion dwyieithog record wael iawn o ran creu pobl ddwyieithog. Mae hon yn un o nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at erydu'r Gymraeg, hyd yn oed fan hyn yn ei chadarnle yn y Fro Gymraeg. Hoffwn awgrymu bod yr holl ysgolion dwyieithog yn pontio i fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddai unrhyw blentyn sy'n cael ei fagu yng Ngheredigion ac yn dechrau mynd i'r ysgol ar lefel gynradd yn hollol abl i ddysgu'r Gymraeg fel siaradwr brodorol pe bai'r system addysg yn un cyfrwng Cymraeg. Yr unig blant y byddai angen addysg cyfrwng Saesneg ar eu cyfer fyddai'r rheini sy'n symud i'r ardal pan fydd hi'n rhy hwyr iddynt ddysgu'r Gymraeg at safon ddigonol iddynt gael ei haddysg drwy'r cyfrwng hwnnw. I wirioneddol barchu statws cynhenid y Gymraeg yng Ngheredigion, ynghyd â diwylliant lleol y sir, rhaid mai'r Gymraeg yw'r iaith ragdybiedig ym maes addysg yn y lle cyntaf, yn ogystal, yn fy marn i, â'r maes gweinyddu a meysydd amrywiol eraill. Er bod yn sicr angen inni ddarparu ar gyfer mudwyr Saesneg eu hiaith yma yng Nghymru, siawns na ddylem ni hefyd fod yn edrych ar enghraifft o wlad gyfan gwbl ddwyieithog, fel Sweden neu Norwy, yn nhermau sut i wireddu hyn.</p>	
<p>Mae UCAC yn llwyr gefnogol i ddatganiad yr awdurdod eu bod am sicrhau y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. Mae hyn i'w groesawu'n fawr iawn. Croesawn yn fawr iawn bwriad Ceredigion i ragori ar y targed ystod uchaf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (55%/87% o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032), ac i anelu at 100%. Mae bwriad Ceredigion i sicrhau fod holl blant Ceredigion yn cael mynediad lawn i addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar (3 oed) hyd 7 oed yn ddiwahân yn golygu y daw'r Gymraeg yn iaith naturiol i blant y sir, ac y bydd ganddynt y gallu ieithyddol, yr hyder - a gobeithiwn, y parodrwydd a'r brwdfrydedd - i barhau â'u taith addysgol, a thu hwnt, yn y Gymraeg, fel unigolion hyderus dwyieithog. Mae sefydlu 'norm' o'r fath yn greiddiol i lwyddiant y cynllun. Cytunwn yn gryf iawn â'r bwriad, dros gyfnod y cynllun, i sicrhau y bydd pob ysgol gynradd newydd a gynllunnir yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant 3 oed. Rydym yn cydsynio bod darpariaeth gofal gofleidiol i gyd-fynd â hyn yn hollbwysig; yn sicr mae angen sylw cynyddol i'r agwedd honno o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae Cylch Chwarae XXXX yn cefnogi egwyddorion y strategaeth hon a chanlyniadau cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion. Mae'r cylch chwarae bob amser yn barod i gydweithio â'r awdurdod lleol i roi rhaglenni newydd ar waith ac i ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol gofynnol. Rydym yn tybio bod perthynas waith dda rhyngom.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun. Rydym yn cydnabod bod yna anghysonderau o ran cyfeiriad ac at ddiffiniad y grŵp chwarae yn y ddogfen ddrafft. Bydd hynny'n cael ei ddiwygio yn y fersiwn terfynol yn ogystal â'r cyfeiriad at y grŵp pan</p>

<p>Mae'r ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at Gylch Chwarae XXXX mewn sawl man; fel pwyllgor rheoli, rydym yn teimlo bod y ddogfen hon yn tanseilio ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg a ddarperir ar hyn o bryd gan y lleoliad. Pam fod Cyngor Sir Ceredigion yn enwi Cylch Chwarae XXXX yn ei ddogfen strategaeth fel yr unig leoliad yng Ngheredigion y mae angen ymyrryd i'r graddau hynny ynddo? Rydym yn teimlo bod y strategaeth yn adlewyrchu'n wael ar y cylch chwarae.</p>	<p>sonnir am XXXX "fel lleoliad ar gyfer darpariaeth 2-3 oed (yn y pendraw)". Ymddiheurwn am hyn. Dydy hi ddim yn fwriad i ddarparu addysg feithrin yn Ysgol Gynradd XXXX fel y mae yn ysgolion ardal Aberystwyth. Diolch yn fawr am dynnu ein sylw at y camgymeriad hwn. Yn y ddogfen, nodwyd bod y Grŵp Chwarae yn XXXX yn nhalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg Ysgol Gynradd XXXX. Felly, i bwrpas y cynllun, dros y pum ac yna'r deng mlynedd nesaf, yr hyn a nodwyd yn y ddogfen oedd y byddwn yn cydweithio i weld datblygiad ieithyddol sydd â gogwydd gynyddol o safbwynt y Gymraeg. Mae llwyddiannau'r dull trochi i blant tair oed a 'dwyieithrwydd' llawn wedi eu trafod yn helaeth yn ddogfen hon. Deallwn bod Grŵp Chwarae XXXX wedi ei ganmol gan Estyn o ran ei ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg mewn sefydliad dwyieithog. Adeiladu felly ar y gwaith clodwiw mae'r grŵp chwarae yn ei wneud o safbwynt y Gymraeg yn bresennol ac yn bendant i weithio mewn partneriaeth agos a chadarnhaol yw'r nod.</p>
<p>Sylwadau sy'n anghytuno'n gyffredinol gyda'r amcanion</p>	<p>Ymateb Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>Dylid ymgynghori â phobl Ceredigion ynghylch a yw'r polisi arfaethedig er budd plant a theuluoedd yr ardal yn ei chyfanrwydd, ac nid dim ond a yw'r polisi'n cyflawni nodau a dyheadau'r Cyngor o ran y Gymraeg. Mae Deddf Plant 1989 yn nodi'n glir bod lles y plentyn mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â'r plentyn "o'r pwys mwyaf" (<i>"of paramount importance"</i>). Hynny yw, nid un o'r ystyriaethau pwysicaf. Yr ystyriaeth bwysicaf. Mae'r Ddeddf yn dweud y dylid ystyried lles y plentyn mewn cyd-destun eang. A yw cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er budd pennaf plentyn di-Gymraeg? Sut y byddai'r polisi hwn yn effeithio ar les y plentyn yn gyffredinol? Pa hawliau sydd gan rieni mewn cymuned ddwyieithog i benderfynu ar y modd y caiff addysg ei darparu i'w plant? Fel y dywedais, mae'r rhain yn gwestiynau nad yw'r Cyngor wedi rhoi sylw iddynt yn ei ddogfen ymgynghori. Mae hyn yn eithriadol gan fod y cwestiynau'n hollbwysig fan hyn, a ninnau'n ystyried addysg plant tair i saith oed. Tybir gan lawer mai'r blynyddoedd cynnar hyn yw'r blynyddoedd pwysicaf yn natblygiad plentyn. Os bydd plentyn yn gwireddu'i botensial yn ystod y cyfnod hwn, bydd fel arfer yn gwireddu'i botensial yn ddiweddarach hefyd. Yn fy marn i, byddai'r polisi hwn yn mynd yn groes i'r hawliau sylfaenol hyn. Beth y mae'r polisi hwn yn ei wneud i hawliau rhieni? Er bod Cyngor Sir Ceredigion wedi methu â darparu unrhyw dystiolaeth o gwbl am y cynnydd a wneir gan blant pan fyddant yn cael eu haddysgu mewn ail iaith, rwyn siŵr y bydd yr AALI yn gwybod bod ymchwil berthnasol yn dangos yr hyn y bydd synnwyr cyffredin yn ei</p>	<p>Dywedir bod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft 2022-32 yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth hawliau dynol ar ffurf Deddf Hawliau Dynol 1998.</p> <p>Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi effaith gyfreithiol uniongyrchol yng nghyfraith y DU i hawliau dynol a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn). Y tair hawl a ganlyn a warchodir o dan y Confensiwn yw'r rhai sydd fwyaf perthnasol i bolisi addysg: (1) yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol (Erthygl 8 o'r Confensiwn); (2) yr hawl i addysg (Erthygl 2 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn); (3) gwahardd gwahaniaethu ar seiliau amrywiol, gan gynnwys "iaith" (Erthygl 14 o'r Confensiwn).</p> <p>Nid yw brawddeg gyntaf 'yr hawl i addysg' ynddi'i hun yn cynnwys gofyniad ieithyddol. Nid yw'n nodi'r iaith y mae'n rhaid darparu addysg ynddi er mwyn parhau'r hawl honno i addysg. Nid yw'r hawl i addysg yn Erthygl P1-2 yn cynnwys yr hawl i gael eich addysgu mewn iaith o'ch dewis, ddim hyd yn oed os mai'r iaith a ffeirir yw iaith gyntaf y plentyn. Nid yw'r hawl i addysg ond yn mynd mor bell â sicrhau'r hawl i</p>

ddweud wrthyh: mae plentyn yn gwneud y cynnydd gorau posibl pan fydd yn cael ei addysgu yn ei iaith gyntaf. Nid dim ond mater o synnwyr cyffredin yw hyn. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth gan lawer o sefydliadau, gan gynnwys Achub y Plant. Plant llai academaidd sy'n dioddef yn benodol yn sgil polisi o'r math hwn. Y nhw yw'r plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymuned, a rhaid ei bod hi'n amlwg ichi nad y ffordd orau o ofalu am eu lles (yr hyn a ddylai fod yn brif ystyriaeth i'r Cyngor) yw drwy eu haddysgu mewn iaith nad yw'n cael ei siarad ar yr aelwyd. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod Cyngor Sir Ceredigion yn tybio bod datblygiad cyffredinol y plentyn yn ystyriaeth o'r pwys mwyaf. Mae'n ymddangos mai blaenoriaeth Ceredigion yn syml yw cynyddu nifer y plant sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned. Hyd nes iddynt gyrraedd oedran llawn (ac eithrio pan gânt eu rhoi mewn gofal), eu rhieni sy'n penderfynu ynghylch eu lles yn bennaf. Y rhieni sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb rhianta, a chan rieni y mae'r hawl i benderfynu sut y mae eu plant yn cael eu magu. Mae hyn yn cynnwys addysg. O dan y Ddeddf Hawliau Dynol, mae'r hawliau gwarchoddedig yn seiliedig ar urddas, tegwch, cydraddoldeb, parch ac annibyniaeth. Yn fy marn i, byddai'r polisi hwn yn mynd yn groes i'r hawliau sylfaenol hyn. Mae'n ceisio diddymu hawliau rhieni i ddewis ym mha iaith y mae eu plant yn cael eu haddysgu. Mae'n ymddangos bod angen atgoffa Cyngor Sir Ceredigion ein bod yn gymuned ddwyieithog lle y mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y mwyafrif yn ddi-Gymraeg. Hyd yma, cafodd addysg ei darparu'n gywir iawn i deuluoedd Cymraeg eu hiaith ac i deuluoedd di-Gymraeg. Rydym wedi bod yn ffodus oherwydd, os yw rhieni'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gallant wneud hynny o'r diwrnod cyntaf un yn yr ysgol gynradd hyd nes y diwrnod olaf un yn yr ysgol uwchradd. Yn yr un modd (ond ag anhawster cynyddol oherwydd polisiâu presennol y Cyngor), bu'n bosibl i rieni addysgu eu plant drwy gyfrwng y Saesneg o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Dyna'n union sut y dylai fod mewn cymuned gymysg fel ein cymuned ni. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ceredigion yn dweud nawr, yn bennaf wrth rieni di-Gymraeg sy'n byw yng Ngheredigion: "Nid ydym yn malio dim beth yw'ch barn am yr iaith y dylid addysgu'ch plant ynddi. Beth bynnag fo'ch barn, byddwn yn gorfodi addysg orfodol cyfrwng Cymraeg ar eich plant." Yn fy marn i, mae hyn yn mynd yn groes i hawliau rhieni i ddewis sut y dylid addysgu'u plant mewn cymuned ddwyieithog. Yn anffodus, mae'n ymddangos bod Cyngor Sir Ceredigion yn pryderu mwy am hyrwyddo siarad Cymraeg na chydabod a pharchu hawliau rhieni.

gael eich addysgu yn "un o'r ieithoedd cenedlaethol", ac mae gan y Wladwriaeth ddisgresiwn eang os gellir dadlau bod mwy nag un "iaith genedlaethol" i ddewis o'u plith. Fel yr unig iaith â statws swyddogol yng Nghymru, mae'r Gymraeg yn ddi-os yn "iaith genedlaethol" yng Nghymru at y diben hwn. Felly, pan fydd gwlad, fel Cymru, yn darparu addysg, mae gan ddysgwyr hawl i gael eu haddysgu mewn o leiaf un o ieithoedd cenedlaethol y wlad ohono, ond nid oes unrhyw hawl gyfreithiol i fynnu eu bod yn cael eu dysgu mewn iaith genedlaethol benodol. Pan fo modd dadlau bod mwy nag un iaith genedlaethol, mae gan awdurdodau cyhoeddus fel Ceredigion ddisgresiwn eang i benderfynu pa un o'r ieithoedd cenedlaethol fydd cyfrwng yr addysg mewn rhanbarth penodol neu ardal benodol. Nid yw dewisiadau ieithyddol, ni waeth pa mor daer ydynt, yn "argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol" at ddibenion Erthygl P1-2. Nid yw'r hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol yn Erthygl 8 o'r Confensiwn yn cynnwys hawl i rywun gael ei addysgu yn ei iaith gyntaf.

Ym marn y Cyngor, nid yw'r polisi trochi yn y Gymraeg ar gyfer pob disgybl 3-7 oed yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf oherwydd bydd ysgolion y Cyngor yn agored iddynt yn yr un modd â disgyblion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Bydd disgyblion o'r naill grŵp a'r llall yn cael yr un mynediad at leoliad addysg wedi'i ariannu gan y Wladwriaeth. O ran polisi sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg yn unig tan i blentyn gyrraedd saith oed, gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol fel polisi sy'n fuddiol o ran sicrhau bod yr holl ysgolion sy'n ddibynnol ar y Wladwriaeth yn addysgu yn yr unig iaith â statws swyddogol yng Nghymru, gan nodi amcan polisi Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dywedir hefyd nad yw'r Cyngor yn rhoi sylw i "fudd pennaf" plant pan fydd yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Nid oes unrhyw egwyddor gyfreithiol sy'n gorchymyn dod i'r casgliad bod rhaid i blentyn bob amser gael ei addysgu yn ei iaith gyntaf i ddiwallu "budd pennaf" y plentyn. Gall fod gan riant farn gref am yr iaith y byddai orau ganddo/ganddi i'w blentyn/phlentyn gael ei addysgu ynddi, ond nid oes unrhyw egwyddor gyfreithiol, boed yn cael ei mynegi yn nhermau "budd pennaf" neu fel arall, sy'n peri iddi fod yn ofynnol i'r

	<p>Wladwriaeth weithredu yn unol â'r dewis hwnnw.</p> <p>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Cyhoeddwyd strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017. Am y tro cyntaf, gosodwyd gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae ei hiaith yn ffynnu. Un o nodau allweddol y strategaeth yw creu system addysg statudol sy'n cynyddu nifer y siaradwyr hyderus. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'n ofynnol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael y cyfle i feithrin sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, a hynny'n sylweddol. Dyma'r sbardun ar gyfer dymuniad Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r ffordd y caiff y Gymraeg a darpariaeth Cymraeg eu cynllunio yn ein system addysg statudol yng Nghymru. Mae tystiolaeth ar draws Cymru yn dangos llwyddiant addysg drochi ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae miloedd o blant o gefndir di-Gymraeg yn mynychu ac yn llwyddo yn y drefn honno. Nid y Gymraeg yw eu iaith gyntaf. Mae lles pob disgybl yn allweddol ac yn greiddiol ym mha bynnag gyfrwng ieithyddol a ddilynir boed plant yn dod o ba bynnag gefndir. Mae yna ddisgyblion di-freintiedig yn mynychu'r drefn hon yn eu miloedd ar draws Cymru. Dydy eu deilliannau yn ddim is na deilliannau plant tebyg yn y drefn cyfrwng Saesneg. Mae'r systemau cefnogol iddynt yn bod os ydynt yn dod o gefndir lle siaredir y Gymraeg adref neu ddim. Does dim tystiolaeth bod y Gymraeg yn creu niwed i blant ac yn cael effaith negyddol ar eu lles. Mae yna dystiolaeth eang o ymchwil ryngwladol sydd yn dangos bod system drochi yn llwyddo i greu siaradwyr iaith benodol lle mae'r iaith honno yn gyfrwng i ddysgu. Mae'r Cyngor yn gytûn gyda Llywodraeth Cymru bod y Gymraeg yn perthyn i bawb boed nhw'n byw yma'n barod neu os ydyn nhw'n dod yma i fyw, ac felly bod ei dysgu hi drwy system drochi yn dod yn beth naturiol a chadarnhaol. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod angen i iaith a'r defnydd ohoni fel cyfrwng addysgu a dysgu, gael ei gweld fel ffactor negyddol ond yn hytrach yn rhywbeth cadarnhaol mewn byd aml-ieithog</p>
<p>Bydd hyn yn effeithio ar staff meithrinfeydd nad ydynt yn rhai cyfrwng Cymraeg, a dewis y rhieni yw anfon eu plant i feithrinfa o'u dewis.</p>	<p>Drwy ymgynghori ymhellach gyda rhanddeiliaid, y nod fyddai agor darpariaeth trochi cyfrwng Cymraeg i blant tair oed (meithrin) yn Ysgol</p>

Tudalen 227

	<p>Padarn Sant, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Cei Newydd yn ogystal â sicrhau'r un darpariaeth meithrin yn Ysgol Plascrug ac Ysgol Llwyn yr Eos. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r nod o gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae nifer o ysgolion presennol a mwyaf Ceredigion yn cynnig addysg tair oed cyfrwng Cymraeg i'w disgyblion felly dyna'r egwyddor craidd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn yr hawl, yn y pendraw, i fod yn gwbl ddwyieithog o fewn sir ble mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd. Mae'r Cyngor yn derbyn y byddai'r datblygiad yn newid swyddogaeth y ddarpariaeth yn y lleoliadau nas-cynhelir a ariennir. Cafwyd yr un effaith pan agorwyd ysgolion newydd yn yr awdurdod yn y blynyddoedd diweddar e.e. yn Ysgol Cledlyn neu yn Ysgol T Llew Jones a bydd yr un effaith i'w gweld yn ardal Dyffryn Aeron pan agorir yr ysgol newydd yn y fan honno. Rydym yn gobeithio na fydd effaith negyddol ar aelodau staff. Rydym yn gweld rôl bwysig iawn i aelodau staff y lleoliadau hynny i gynnig lefel sylfaenol iawn yn y Gymraeg i'r plant 2-3 oed yn eu gofal cyn iddynt symud ymlaen i'r cam trochi yn yr ysgolion. Annog trosglwyddiad sylfaenol o'r iaith y byddem yn gobeithio'i weld yn y lleoliadau hyn cyn i'r plant drosglwyddo i addysg drochi meithrin yn yr ysgolion.</p>
<p>Dylid addysgu pob plentyn yn ddwyieithog. O anwybyddu dewis rhieni i'w plentyn ddysgu Saesneg mewn lleoliad dwyieithog, bydd yn effeithio'n fawr iawn ar eu dysgu, ond nid mewn ffordd gadarnhaol. Mae Aberystwyth yn dref brifysgol lle y mae llawer o bobl o bob cwr o'r byd yn byw. Pam ddylai eu haddysg Saesneg ddiweddef oherwydd hyn? Beth am hawliau riant i wneud y dewis hwnnw dros eu plentyn? Beth am yr holl feithrinfeydd a lleoliadau heb siaradwyr Cymraeg rhugl? Beth am yr holl staff a allai gollu eu swyddi oherwydd hyn? Y meithrinfeydd a allai gollu arian? Y staff sydd wedi gweithio'n galed i ennill cymwysterau ond sy'n methu â chael swydd yng Nghymru oherwydd eu dewis iaith ac nid oherwydd pa mor dda ydynt?</p>	<p>Gweler y sylwad cyntaf yn yr adran gwrthwynebiadau yn ogystal (td 20/21). Nid ydym yn cytuno bod addysg drochi na bod yn ddwyieithog yn arwain at effaith negyddol ar fedrau Saesneg. Yn y pendraw, mae disgwyl i ddisgybl gyrraedd yr un man yn 11 oed yn y Saesneg boed mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. Mae dysgu ieithoedd yn gallu ymestyn ar fedrau ieithyddol. Mae nifer o fedrau yn pontio ac yn drosglwyddiadwy rhwng ieithoedd. Eto, mae rôl bwysig iawn i aelodau staff y lleoliadau hynny i gynnig lefel sylfaenol iawn yn y Gymraeg i'r plant 2 oed yn eu gofal cyn iddynt symud ymlaen i'r cam trochi yn yr ysgolion.</p>
<p>Nid yw'r cynnig hwn dim ond yn wael i blant, teuluoedd a'r gymuned; bydd yn cael effaith negyddol ddifrifol ar Gylch Chwarae XXXX. Mae'r cynllun arfaethedig i fynnu bod pob plentyn yn cael darpariaeth drochi cyn-ysgol, ni waeth pa iaith/ieithoedd a siaredir ar yr aelwyd, yn dileu dewis rhieni ac yn anwybyddu'r gymuned ryngwladol/amlddiwylliannol yn llwyr. Mae teuluoedd yn dod i Geredigion o bob cwr o'r byd, weithiau am ddim ond ychydig flynyddoedd. O amddifadu'u plant o'r cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, byddant dan anfantais pan fyddant yn gadael yr ardal, ac fe allai gael effaith</p>	<p>Fel yr uchod. Bydd y Cynnig Gofal Plant arfaethedig i blant 2 oed yn gymorth i gynnaladwyedd y sector nas cynhelir i'r dyfodol.</p>

<p>negyddol enfawr ar allu dau o gyflogwyr mwyaf y sir i recriwtio staff â phlant bach. Mae gan lawer o'r plant yn ein cylch chwarae ni rieni sy'n gweithio yn yr ysbyty neu'r brifysgol. Mae 42% o'n teuluoedd yn siarad iaith ac eithrio Cymraeg neu Saesneg ar yr aelwyd. Yn ogystal â'r broblem o gynnig darpariaeth drochi, byddai'r cynnig i gael meithrinfa yn Ysgol Padarn Sant yn lleihau nifer y plant ar ein cofrestr ac yn peri i'r cylch chwarae fod yn anghynaliadwy. Ar hyn o bryd, rydym yn cael arian 3+ ar gyfer 32% o'r plant ar y gofrestr; mae 26% yn cael eu hariannu ar sail amser llawn. Heb yr arian hwnnw, byddai'r cylch chwarae'n dod i ben. Nid dim ond hynny, ond mae gennym hefyd bryderon, oherwydd prinder lle, y bydd y rhaid defnyddio ein cylch chwarae oherwydd mai dyna'r unig ofod sydd ar gael yn yr ysgol i gael ystafell ddsbarth ychwanegol yn Ysgol XXXX. Ar ben hyn oll, mae ein staff nawr yn pryderu am eu swyddi, oherwydd nid ydynt wedi cael cynnig hyfforddiant digonol i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.</p>	
<p>Mae llawer o'r plant sy'n dod i'n cylch chwarae ni eisoes yn ddwyieithog. Maent wedi cyflawni hyn drwy gael modelau iaith rhugl i ddysgu ganddynt ac i gyfathrebu â nhw. Ni fydd hyn yn cael ei wireddu mewn lleoliad blynyddoedd cynnar os nad yw'r staff wedi cael hyfforddiant digonol, rhywbeth sy'n galw am amser, arian, ac adnoddau. Nid yw'r cynnig hwn yn rhoi sylw digonol i'r un o'r materion hyn.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Oni bai fod Cyngor Ceredigion yn bwriadu talu darparwyr meithrinfeydd i gynnwys cyfnodau astudio Cymraeg yn ystod oriau gweithio'u staff, nid wyf yn credu y bydd modd gwireddu hyn. O'm profiad i, mae staff meithrinfeydd yn darparu gofal sylwgar sy'n galw am egni ac am fod yn effro. Mae gan lawer ohonynt eu teuluoedd ifanc eu hunain neu gyfrifoldebau eraill. Nid yw'n realistig ychwanegu astudio'r Gymraeg at eu llwyth gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth eisoes yn Gymraeg, gyda dewisiadau Saesneg yn Aberystwyth sy'n gydnaws ag anghenion a dewisiadau lleol.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae gan blant ifanc ddigon i ymdopi ag ef o ran ymgartrefu mewn lleoliad gofal plant tu allan i'r cartref, cael eu profiadau cyntaf o gymdeithasu, dysgu i fynegi eu hunain, ac ati. Mae llawer yn dod o aelwydydd di-Gymraeg a byddant yn ei chael yn anoddach, a hwythau mor ifanc, i ymgartrefu mewn lleoliad gofal plant sy'n gweithredu drwy iaith anghyfarwydd yn unig. Aeth fy mab i gylch chwarae dwyieithog yn XXXX ac roedd cydbwysedd perffaith rhwng Saesneg a Chymraeg. Erbyn iddo adael y cylch chwarae i fynd i'r ysgol, roedd yn ddigon cyfarwydd â'r Gymraeg i bontio'n gyfforddus i'r ysgol. Bu iddo ffynnu yn yr ysgol a chadarnhau'r Gymraeg yr oedd wedi'i dysgu yn gyflym iawn heb unrhyw broblem. Rwy'n anghytuno'n frwd â newid y system gyfredol sydd i'w gweld, o'm profiad i a phrofiad rheini eraill yr wyf yn eu hadnabod, yn gweithio'n hollol iawn. Bydd yn peri i blant heb unrhyw ddealltwriaeth o'r Gymraeg fod yn llai tebygol o ymgartrefu yn eu darpariaeth gofal plant, a'i mwynhau, a</p>	<p>Mewn unrhyw ddsbarth trochi ar draws ysgolion Ceredigion mae plant, pa bynnag bo'u cefndir a chefnidir ieithyddol yn cael eu trin gyda pharch, gofal a sensitifwrydd. Mae defnydd naturiol achlysurol o'r Saesneg yn sicrhau hynny. Mae profiad helaeth a thystiolaeth eang o flynyddoedd maith o addysg drochi ar draws Cymru yn dangos ei fod yn llwyddiant wrth gwrdd ag anghenion plant wrth gyrraedd yr ysgol ac wrth iddynt ddysgu. Mae'r llwyddiant i'w weld hefyd yn y deilliannau ieithyddol h.y. y dull trochi yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau pob dydd. Y nod yw cydweithio'n agos a chadarnhaol gyda lleoliadau megis Cylch Chwarae XXXX i gynyddu</p>

Tudalen 229

<p>hynny ar adeg pan fo ganddynt gymaint i ddygymod ag ef o safbwynt datblygol ac emosiynol. At hynny, ers y pandemig, mae llawer o deuluoedd wedi symud i Geredigion o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac rwy'n credu bod pob un ohonynt yn awyddus iawn i'w plant ddysgu'r Gymraeg a dod yn rhugl ynddi yn y pen draw, ond maen nhw, fel minnau sawl blwyddyn yn ôl, wedi troi at y cylch chwarae dwyieithog yn Aberporth oherwydd ei fod yn gyfle i bontio'n fwy esmwyth a graddol at gaffael y Gymraeg. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd y cynnig o dan 'Ddeiliant 1' yn rhwystro rhieni di-Gymraeg rhag cofrestru plant o'r oedran hwnnw ar gyfer darpariaeth gofal plant cyfan gwbl Gymraeg, yn hytrach na symud yn raddol tuag at y Gymraeg fel y mae'r cylch chwarae dwyieithog wedi'i wneud yn achos fy nheulu i. At hynny ac yn bwysicaf oll, mae'r newid arfaethedig yn debygol o effeithio'n andwyol ar y ffordd y mae darpariaeth gofal plant ragorol yn gweithio, yn yr un modd â llawer o leoliadau eraill mae'n siŵr, a hynny ar adeg pan fo darpariaeth gofal plant cyn-ysgol yn brin iawn yn yr ardal, rhywbeth sydd eisoes yn tanseilio cyfleoedd proffesiynol rhieni lleol.</p>	<p>ymhellach ar eu darpariaeth Cymraeg cyn bod y plant yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd leol.</p>
<p>Mater i rieni yw dewis addysg ac iaith eu plentyn.</p>	<p>Mae yna elfennau o orfodaeth mewn unrhyw gyfundrefn addysg e.e darpariaeth cwricwlwm. Mae dwy iaith swyddogol yng Nghymru. Nod yr amcanion yn y cynllun strategol yw i sicrhau bod holl ddisgyblion Ceredigion yn datblygu eu medrau dwyieithog. Cyfrwng fyddai'r Gymraeg yn y cyfnod sylfaen i ddysgu holl agweddau'r cwricwlwm ac nid un pwnc neu faes ynysig. Mae'r cynllun yn cefnogi gweledigaeth Cwricwlwm i Gymru i gynhyrchu disgyblion gwbl rhugl a hyderus ddwyieithog fel yr amlinellir yn y pedwar diben.</p>
<p>Mae digon o amser i ddysgu'r Gymraeg yn ystod yr ardegau. Eto, rydych wedi diddymu'r rhyddid i ddewis. Nid yw'r Gymraeg yn iaith ryngwladol, ydy hi?</p>	<p>Derbyniwn nad yw'r Gymraeg yn iaith ryngwladol ond mae hynny'n wir am y rhan fwyaf o ieithoedd y byd. Nid ydym yn gweld pam y dylai'r ffactor yna fod yn rwystr i ddisgyblion yng Ngheredigion a Chymru i ddatblygu'n ddinasyddion dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid y bwriad yw creu siaradwyr na chael cymdeithas uniaith Gymraeg. Y nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i ddysgu siarad y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
<p>Dylai plentyn gael ei addysgu'n ddwyieithog, ond ni ddylid diddymu ei hawl i ddewis iaith.</p>	<p>Er y gwaith canmoliaethus o safbwynt y Gymraeg fel ail iaith sy'n digwydd yn yr ysgolion 'cyfrwng Saesneg yn bennaf' yng Ngheredigion, nid yw'n arwain at ddisgyblion sy'n gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol h.y. yn gallu siarad y Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl. Er y gall rhai dysgwyr ddod yn rhugl yn y Gymraeg ar ôl astudio Cymraeg fel Ail Iaith, mae'r dysgwyr hyn yn eithriadau. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg ac sy'n astudio</p>

Tudalen 230

	Cymraeg fel Ail iaith yn dod yn rhugl yn y Gymraeg erbyn diwedd eu gyrfa ysgol.
<p>Eto, mae llawer o bobl yr wyf wedi cwrdd â nhw yng Nghymru, a hwythau wedi'u geni yma ac wedi byw yma drwy gydol eu hoes, yn teimlo bod dysgu'r Gymraeg fel pwnc ar wahân yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd yn sylfaen ddigonol i ddysgu ieithoedd. Hefyd, mae llawer o'r rhieni yng Ngheredigion sy'n gweithio yn Ysbyty Bronglais neu Brifysgol Aberystwyth eisoes yn ddwyieithog. Mae perygl y gallai'r cam hwn ddigio gweithwyr hyfedr sydd wedi'u haddysgu at safon uchel ac sydd wedi gwneud ymdrech fawr i sicrhau bod eu plant yn gallu siarad Saesneg a mwynhau addysg yng Nghymru. Hyd yma, nid wyf wedi siarad â neb yn y lleoliadau hyn sy'n fodlon bod y dewis aruthrol hwn yn cael ei dynnu o'u dwylo.</p>	<p>Er y gall rhai dysgwyr ddod yn rhugl yn y Gymraeg ar ôl astudio fel Cymraeg fel Ail iaith, mae'r dysgwyr hyn yn eithriadau. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n derbyn darpariaeth cyfrwng Saesneg ac sy'n astudio Cymraeg fel Ail iaith yn dod yn rhugl yn y Gymraeg. Nid ydym yn cytuno y byddai unrhyw symudiad graddol sy'n ymwneud â dwyieithrwydd lawn h.y. y gallu i siarad y Gymraeg a'r Saesneg yn fodd i rwystro unrhywun rhag symud i Geredigion. Nid oes unrhyw orfodaeth ar oedolion sy'n dod i fyw a gweithio i Geredigion i siarad y Gymraeg. Gobeithiwn bod pobl yn gweld gwerth yn y Gymraeg a'r Saesneg os ydynt yn dod yma i fyw. Does dim angen i unrhyw iaith greu drwgdybiaeth. Mae siarad dwy iaith (neu fwy) yn norm yn y rhan fwyaf o wledydd y byd. Mae'n siwr y byddai mwyafrif helaeth pobl yn gweld gwerth y gymdeithas ddwyieithog ac amlieithog arbennig sydd yma yng Ngheredigion.</p>
<p>Mae arnaf eisiau i'm plant gael dewis i ddatblygu eu hadnabyddiaeth o'r Gymraeg os ydynt yn teimlo y bydd ei hangen arnynt neu y bydd o fudd i'w haddysg neu'u swyddi yn y dyfodol, ond ni ddylid eu gorfodi i ddysgu'r iaith.</p>	Fel uchod.
<p>Rydych yn gorfodi'r iaith ar blant, mae digon o ysgolion Cymraeg ar gael i rieni anfon eu plant iddynt. Rydych yn diddymu rhyddid rhieni i ddewis.</p>	Fel uchod.
<p>Mae dewis ac anogaeth BOB AMSER yn well na gorfodaeth.</p>	Fel uchod.
<p>Rwy'n anghytuno oherwydd rwy'n teimlo y bydd y plant hynny sy'n symud yma (o Loegr, er enghraifft) pan fyddant yn hŷn (wyth oed, dyweder) yn ei chael yn anodd, yn teimlo'n unig ac mewn perygl o gael eu bwlio. Rwy'n teimlo'n gryf y dylai rhywun allu dewis dysgu'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, neu yn Gymraeg yn unig. Hefyd, os bydd plant o'n hardal ni yn symud i Loegr, er enghraifft, ni fyddant wedi cael unrhyw addysg Saesneg sylfaenol, fel dysgu i ddarllen Saesneg. Rwy'n credu y dylem yng Nghymru ddysgu ein plant yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg ac nid dim ond yn Gymraeg. Ond rwy'n parchu'n llwyr y bydd llawer o rieni sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl yn dewis addysgu eu plant drwy'r Gymraeg yn llwyr, ac rwy'n credu y dylai fod mwy o ddewis o ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ysgolion Cymraeg/Saesneg.</p>	<p>Mae canolfannau iaith Ceredigion yn rhai llwyddiannus iawn wrth gefnogi disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgolion ym mlwyddyn 3 ac uwch. Maent yn fannau cynhwysol a gofalgwr. Mae nifer o'r plant sydd wedi eu mynychu yn dod yn rhugl yn y Gymraeg ac nid yw eu cyfnod yno yn cael effaith negyddol ar eu cyflawniad. Ni does tystiolaeth bod addysg drochi cyfrwng Cymraeg ac addysg ddilynol yn cael effaith ar allu darllen Saesneg plant. Mae llawer o'r sgiliau darllen yn drosglwyddiadwy. Ceir enghreifftiau o ysgolion yn defnyddio dulliau trochi ym mhob cwr o'r byd. Mae model Canada ar gyfer gweithredu trochi wedi'i gofnodi'n eang. Mae'n dangos bod angen i ddysgwyr gael eu haddysgu'n llawn drwy'r iaith darged am ddwy i dair blynedd i sicrhau bod cymhwysedd yn cael ei datblygu'n ddigonol yn yr iaith. Wedyn bydd iaith arall yn cael ei chyflwyno. Dyma'r model a ddefnyddir</p>

Tudalen 231

	<p>yngh Nghymru. Mae'n golygu bod dysgwyr yn cael eu haddysgu'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg hyd at a chan gynnwys yr ysgol flwyddyn pryd mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn troi'n saith oed. Mae Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc tua diwedd y Cyfnod Sylfaen, ac fel cyfrwng addysgu i raddau amrywiol.</p>
<p>Mae'n anghywir diddymu rhyddid rhieni i ddewis iaith addysg eu plant. Yn addysgol, bydd yn peri anfantais i rai plant oherwydd byddwch yn cael gwared ar y cymorth y gallent fod wedi'i gael â'u haddysg ar yr aelwyd.</p>	<p>Mae ysgolion Ceredigion wedi arfer cyflwyno cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly ni ddylai hyn achosi unrhyw rwystr o ran deall beth yw'r dysgu mae'n rhaid i'r plentyn ei wneud. Mae ysgolion yn cynnig cyngor ar addysg eich plentyn a byddai nosweithiau rhieni yn eich dewis iaith chi. Byddai'r dysgu yn cael ei osod ar lefel sy'n addas i allu'r disgybl. Mae ymchwil wedi dangos bod plant sy'n cyfieithu tasg i'w rhieni yn cael gwell dealltwriaeth o'r testun dan sylw, gan fod y broses gyfieithu'n atgyfnerthu'r testun hwnnw ym meddwl y plentyn.</p>
<p>Fel yr eglurwyd mewn manylder yn 1A, bydd gorfodi darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn unig o dair oed, heb unrhyw ddewisiadau eraill i deuluoedd di-Gymraeg, yn effeithio'n andwyol ar gaffaeliad y Gymraeg ar lefel ysgol, ac yn tansilio taith ddatblygol plant cyn-ysgol. Nid oes dim byd o'i le â strategaeth ddwyieithog yn fy marn i.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Eto, nid yw'r cwestiwn yn gwneud synnwyr. O brofiad fel athro cyfrwng Cymraeg, rwy'n credu'n gryf nad yw 'un ateb i bawb' yn fuddiol i bob myfyriwr. Gallai beri i ddisgyblion o aelwydydd cyfrwng Saesneg golli diddordeb yn eu haddysg. Gall hyn arwain at berfformiad academaidd gwael a phroblemau ymddygiad.</p>	<p>Nid ydym yn cytuno gyda'r gosodiad bod dysgu dwy iaith yn arwain at anawsterau ymddygiad a pherfformiad academaidd is ac mae tystiolaeth glir bod dwyieithrwydd llawn yn fanteisiol wrth ddatblygu'r ymennydd ac yn y pendraw yn arwain at well canlyniadau.</p>
<p>Sut y gall hon fod yn daith at ddwyieithrwydd pan mai'r nod yw darparu 90% o'r addysg drwy gyfrwng y Gymraeg? Rydych hefyd yn diddymu dewis plant o ran y ffordd y maent am ddysgu a mynegi'u hunain. Bydd eu gorfodi i ddysgu ac i gael eu hasesu bron yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn dân ar eu croen. O ran paratoi ar gyfer y byd gwaith, bydd miloedd o blant Cymru'n mynd i astudio yn Lloegr, yn enwedig o ran pynciau penodol. Byddant ar y droed ôl oherwydd na fyddant wedi dysgu drwy gyfrwng y Saesneg os mai dyna'r hyn y maent am ei wneud. Yn gymdeithasol ac yn emosiynol, gall hyn fod yn andwyol i blant sy'n ei chael yn anodd, neu blant ag anghenion dysgu ychwanegol.</p>	<p>Nod dwyieithrwydd lawn yw rhoi'r arfau i bobl ddefnyddio'r iaith ddewisol sy'n briodol i sefyllfa benodol. Mae digon o dystiolaeth o ddisgyblion sydd wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i brifysgolion Lloegr gan addasu'n llwyddiannus iawn i'r gofynion yno. Yn wir mae yna ddigon o enghreifftiau o fyfyrwr o wledydd Ewrop yn dilyn cwrs gradd drwy gyfrwng y Saesneg ym mhrifysgolion yr ynysoedd yma er nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Nid ydym yn cytuno bod dysgu dwy iaith yn creu nac yn cyfrannu at anawsterau dysgu a chreu anghenion dysgu ychwanegol.</p>
<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar yr opsiynau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu hawl pobl i ddewis pan fo'r dewis eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn</p>	<p>Nid ydym yn meddwl y dylai neb weld dysgu dwy iaith fel bygythiad. Mae natur addysg i fod yn gynhwysol, sensitif a gofalgwr ym mha bynnag iaith yw'r cyfrwng. Dydy addysg drochi ddim yn rhwystro unrhyw riant rhag siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Saesneg gyda'i blentyn. Bydd sgiliau cynnar Saesneg hefyd yn</p>

Tudalen 232

<p>y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>cael eu cyflwyno i ddisgyblion erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae tystiolaeth hir dymor erbyn hyn yn dangos bod plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn gwneud gystal, os nad gwell yn Saesneg â phlant sy'n cael addysg Saesneg.</p>
<p>I fod yn wirioneddol ddwyieithog, mae angen addysgu'r ddwy iaith o'r crud. Mae plant rhieni di-Gymraeg yn debygol o ddeall eu mamiaith ac o gyfathrebu ynddi. Mae angen sefydlu'r iaith hon cyn ychwanegu ail iaith. Mae astudiaethau yn Nenmarc yn dangos na ddylid dechrau gwneud hynny nes bod plant yn naw oed i roi cyfle iddynt sefydlu eu sgiliau ieithyddol yn eu mamiaith. Os oes arnoch wir eisiau i blant ffynnu yn y Gymraeg, dylid dysgu'r iaith mewn ffordd gyffrous sy'n ennyn diddordeb o naw oed ymlaen. Drwy orfodi plant i gael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o dair oed, mae perygl y gallai sgiliau llythrennedd y plant hyn fod yn wannach yn y ddwy iaith ac fe allai achosi cymaint o bryder a rhwystredigaeth iddynt nes eu bod yn dadrithio'n llwyr â dysgu ac addysg.</p>	<p>Nid yw blynyddoedd o dystiolaeth o addysg drochi yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill yn cyd-fynd â'r farn sy'n cael ei nodi yma. Nid oes ysgolion cynradd uniaith Gymraeg yng Nghymru. Mewn sefyllfa drochi, mae pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhagweld y bydd yr ysgolion dan sylw (wedi'r cyfnod trochi yn y cyfnod sylfaen) yn symud i sefyllfa Categori 2 yn unol â'r Categori Ysgolion. Byddai'n golygu cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol i gefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Byddai dysgwyr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu'r cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr. Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai canran sylweddol o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) o flwyddyn 3 – 6 yn Gymraeg. Strategaeth Ceredigion fyddai defnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda'r datblygiad i'r 50% i'w ddarparu wedi'r 7 oed. Mae'r gofynion ar gyfer ysgolion a disgyblion o ran Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yr un fath ym mhob ysgol yng Nghymru, beth bynnag fo cyfrwng dynodedig yr ysgol.</p>
<p>Rwy'n deall bod dyhead i gadw'r Gymraeg i fynd, ac mae hynny'n digwydd, ond nid wyf yn cytuno â'r datganiad bod hyn yn rhoi sylfaen gadarn i ddisgyblion ar gyfer eu haddysg a'u bywyd cymdeithasol. I'r rheini sy'n dod o deuluoedd Saesneg eu hiaith, bydd hyn yn creu mwy o broblemau ar aelwydydd, oherwydd ni fydd rhieni'n gallu helpu'u plant a gall y plant gael eu hynysu. Rwy'n deall yr hyn yr ydych yn ceisio'i wneud, ond dylai fod dewis i'r rheini nad ydynt am roi eu plant ar y llwybr hwn. Fe ddewisais i ysgol gynradd i'm plentyn oherwydd ei bod yn ysgol Saesneg ei hiaith yn gyntaf a'i bod yn dysgu Cymraeg yn ail. Mae'n anghywir diddymu'r dewis hwn!</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Byddaf yn trin a thrafod y mater hwn â'r difrifoldeb y mae wir yn ei haeddu. Mae'r dyhead/weledigaeth/safbwynt polisi yn wallus iawn ar sawl lefel. Fe ofynnaf y rhain fel cwestiynau, gan obeithio y bydd o leiaf rai o'r rheini sy'n darllen yr atebion yn ceisio gwneud hynny:- Pam mynd tu hwnt i darged Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg? Pam diddymu'r holl ddarpariaeth addysg Saesneg i rai 3-7 oed? – A gafodd unrhyw rai o anafanteision pedagogaid (yn hytrach na manteision honedig) y dyheadau (gweledigaeth) eu hystyried? Beth am yr effaith ar sgiliau Saesneg dysgwyr cynnar? O ystyried bod Saesneg yn iaith fyd-eang (er gwell neu er gwaeth), yn enwedig ym meysydd busnes ac addysg, sut y mae hyrwyddo'r Gymraeg yn mynd i effeithio ar ragolygon y bobl ifanc hyn sy'n penderfynu byw eu bywydau tu allan i Gymru? Pa mor gydwbybodol y bydd rhieni di-Gymraeg yn gallu bod o ran cynorthwyo'u plant ifanc â'u haddysg yn yr ysgol, yn enwedig – ond nid yn unig – os bydd angen eu dysgu gartref am gyfnodau hir yn y dyfodol (e.e. yn achos pandemig arall yn y dyfodol)? – Beth fydd yr effaith ar addysgwyr neu gyflogwyr mawr y rhanbarth (e.e. Prifysgol Aberystwyth, Ysbyty Bronglais) o ran denu a chadw staff a myfyrwyr o'r tu allan i Gymru, yn enwedig y rheini â phlant ifanc neu'r rheini sy'n bwriadu cael plant? Yn benodol, beth fydd yr effaith ar staff/myfyrwyr o'r tu allan i Gymru a allai fod yn gweithio yn Aberystwyth ar gontractau tymor byr ac sydd fwyaf tebygol o fyw eu bywydau a dilyn eu gyrfaeod tu allan i Gymru? Sut y bydd addysg drochi yn y Gymraeg o fudd i'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd, yn enwedig y rheini a all fod eisoes wedi bod yn cael rhywfaint o'u haddysg yn y blynyddoedd cynnar yn Saesneg (nid dim ond y rheini o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond hefyd, mewn rhai achosion, y rheini o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig)? – Beth yw sefyllfa'ch dyhead (gweledigaeth) o ran y gyfraith? O ystyried bod Cymru'n wlad ddwyieithog, onid oes arnoch ddyletswydd gyfreithiol i barhau i ddarparu rhywfaint o addysg Saesneg yn y blynyddoedd cynnar? Siawns nad oes gan rywun yr hawl i ddewis cael ei addysgu yn Gymraeg neu'n Saesneg? Yng Ngheredigion, mae'r dewis hwn ar gael ar hyn o bryd, ar lefel gynradd ac uwchradd, felly pam newid hyn? – Ai cwblhau'r cylch yw hyn? Troi'r 'Welsh Not' – sefyllfa hanesyddol drist a digalon – yn 'English Not' mewn addysg yn y blynyddoedd cynnar? Yn anecdotaid, rwyf wedi clywed am blant ifanc yn cael eu dwrdio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg am siarad Saesneg ar yr iard chwarae. A yw hyn yn rhan o'r polisi nad yw wedi'i fynegi? – I ehangu'r ddadl oddi wrth hanes digalon y 'Welsh Not', a oes unrhyw un wedi ystyried y gwersi o hanes sy'n dweud wrthym fod unrhyw ymgais i orfodi pobl i ddysgu iaith yn rhwym o fethu? Beth am ystyried yr orfodaeth i ddysgu Rwsieg yng ngwledydd y Bloc Sofietaidd neu'r ymgais i fynnu bod Afrikaans yn cael ei dysgu yn ysgolion Soweto yn y 70au? Rwy'n cyfaddef bod y rhain yn enghreifftiau eithafol, ond ochr yn ochr â phennod y 'Welsh Not', maent yn darlunio'r drwgdeimlad dwfn ac arhosol sy'n gallu datblygu ymhlith rhannau sylweddol o bobloedd gwlad, ac maent yn dangos yn y pen draw fod ymdrechion o'r fath yn rhwym o fethu. Fel yr ydym yn gwybod, mae Aberystwyth yn

Mae amcanion y cynllun a'r rhesymau amdanynt wedi'u cofnodi'n glir ynddo. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd cenedlaethol yng Nghymru ac yn perthyn i bawb. Nid ydym yn cytuno gyda'r farn am y Gymraeg a chymharu datblygiadau o'i chwmpas i'r gorthrwm ieithyddol a ddiodefwyd yng ngwledydd yr Undeb Sofietaidd ac yn Ne Affrica. Nid oes neb yn diarddel y Saesneg ac mae'r cynllun yn cydnabod yr angen i gael sgiliau cadarn yn y ddwy iaith er budd ein disgyblion. Mae datblygu medrau Cymraeg a Saesneg llwyddiannus disgyblion yn greiddiol i ddwyieithrwydd llawn. Dyna yw nod y cynllun. Mae ennyn balchder mewn disgyblion o ran eu gallu ieithyddol yn y ddwy iaith eto yn nod allweddol. Y nod yw cyfartaledd i'r ddwy iaith a gweld mwy o blant a phobl yn siarad y Gymraeg law yn llaw gyda'r Saesneg. Ni ddylai'r gallu i siarad dwy iaith ychwaith effeithio ar gyflogadwyedd yng Nghymru na thu hwnt. Mae'r rhan fwyaf o bobl y byd yn ddwyieithog os nad yn amlieithog. Nid dyna sy'n creu rhwystr i bobl gael gwaith mewn gwledydd eraill. Mae yna ddigon o enghreifftiau yn rhai o ysgolion Ceredigion ac ar draws Cymru o blant i deuluoedd o wledydd eraill sydd wedi dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg i lefel uchel.

<p>gymuned amrywiol iawn o bobl o bob rhan o’r Deyrnas Unedig, gyda chyfran sylweddol o fyfyrwyr a gweithwyr rhyngwladol, ac mae llawer o ieithoedd yn cael eu siarad yno. Mae’r dref yn elwa’n fawr o’r amrywiaeth ddiwylliannol hon a dylem ochel rhag dyheadau / gweledigaethau / polisïau / targedau (dewiswch eich gair) a allai beryglu’r amrywiaeth hon drwy hyrwyddo un iaith ar draul pob iaith arall. Mae’r cyfeiriad cryno ar dudalen 31 yn hollol annigonol o ran hyn: “Bod y gweithlu cyfan yn ysgolion Ceredigion yn gweld y rôl bwysig sydd ganddynt wrth greu disgyblion sy’n siaradwyr hyderus ac sy’n gweld y Gymraeg fel iaith gynhwysol a pherthnasol mewn byd o ieithoedd pwysig eraill.”</p>	
<p>Fel y nodir uchod, ar hyn o bryd, nid wyf yn gweld fawr ddim tystiolaeth sy’n awgrymu bod angen cynyddu’r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd yng Ngheredigion. Mae mwyafrif helaeth y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a’u teuluoedd yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly nid wyf yn credu bod angen cynyddu’r ddarpariaeth honno. Rwy’n credu bod y newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar ddewis plant a theuluoedd ac, o ganlyniad i’r newidiadau, gallai beri i Geredigion fod yn sir lai deniadol i deuluoedd di-Gymraeg symud iddi i weithio. Ar adeg pan fo anawsterau mawr o ran llenwi swyddi gweithwyr allweddol yn y sir, rwy’n credu y gallai unrhyw fesur a allai rwystro teuluoedd rhag symud i’r ardal fod yn andwyol i’r gwasanaethau allweddol a ddarperir yng Ngheredigion. Yn yr un modd, mae gennyf bryderon o ran manteision addysg uwchradd ddwyieithog i blant, yn enwedig o ran hyrwyddo TGAU a Safon Uwch a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd myfyrwyr yn gadael addysg uwchradd â chymwysterau Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, mae arnaf ofn y byddant dan anfantais fawr os byddant am astudio rhai pynciau allweddol ar lefel addysg uwch, boed yng Nghymru neu yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Mae mewnfudo ac allfudo yn cyfoethogi Ceredigion ac mae'n elwa ohonynt. Dylai fod arnom eisiau i’n pobl ifanc allu gadael Ceredigion ac astudio unrhyw le yn y Deyrnas Unedig neu yng ngweddill y byd cyn dychwelyd i Geredigion yn y dyfodol pan fyddant ar fin dechrau eu teuluoedd eu hunain. Drwy hyrwyddo Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, rwy’n pryderu y bydd yn llesteirio cynnydd academaidd myfyrwyr ac y bydd yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig, gan gau’r drws ar y profiad buddiol o astudio bywyd tu allan i Geredigion.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae’n ymddangos bod y ddogfen yn canolbwyntio ar beri i’r Gymraeg fod yn brif iaith yn hytrach na hyrwyddo dwyieithrwydd. Nid yw’r cynllun yn dweud dim am ansawdd addysg a dysgu cyfrwng Saesneg. Os bydd y Gymraeg yn dominyddu’r amgylchedd addysgu, bydd y gronfa fyd-eang o athrawon yn lleihau’n aruthrol a bydd ansawdd yn dioddef oni bai fod hyn yn cael ei ystyried yn y cynllun – e.e. dwyieithrwydd ar gyrsiau hyfforddi athrawon domestig a derbyn Saesneg fel dewis iaith ar gyfer pynciau penodol. Oni</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 235

<p>ddyldid peri nad yw'r un ysgol yn dysgu'n llwyr drwy gyfrwng y naill iaith na'r llall? Mae'n hollol hanfodol bod rhieni'n cymryd rhan mewn addysg – gallai hyn gael ei ddiddymu'n llwyr drwy beri iddi fod yn orfodol i'r rhan fwyaf o'r addysg gael ei darparu mewn iaith nad yw'r rhieni'n ei deall yn ddigonol.</p>	
<p>Nid taith at ddwyieithrwydd yw hon, ond taith at addysg cyfrwng Cymraeg yn unig. Mae fwy neu lai yn cefnu ar egwyddor dwyieithrwydd, lle y mae pob plentyn yn cael ei ddysgu yn ei ddewis iaith.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Bydd angen i lawer o blant ag anghenion arbennig neu blant sy'n dod o wlad wahanol ddysgu Saesneg gan mai Saesneg yw un o'r ieithoedd pwysicaf. Gallwch deithio i bob rhan o'r byd a'r unig iaith y gellir ei siarad mewn mwy nag un wlad yw Saesneg. Ond hefyd ni ellir disgwyl i'r plant uchod ddysgu iaith arall ar ben Saesneg pan maent eisoes yn ei chael yn anodd dysgu. Mae'n annheg arnynt, ac nid yw'n rhoi'r cyfle gorau iddynt ar gyfer eu dyfodol.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rwy'n gwybod bod llawer o rieni'n gofidio bod y cyfle i ddewis iaith addysg eu plant yn cael ei dynnu o'u dwylo, ac maent yn bwriadu talu am ofal plant preifat, neu adael Ceredigion. Mae'n carfanu rhieni a fyddai wedi bod, fel arall, yn fodlon cefnogi'r Gymraeg hyd at TGAU a thu hwnt, ond a ddewisodd gael eu plant wedi'u haddysgu yn Saesneg, ochr yn ochr â dysgu Cymraeg. Mae'n diddymu cyfle rhieni eraill sydd am i'w plant ddysgu yn Saesneg, ond sy'n hapus i hwyluso camau i'w plant ddysgu Cymraeg ar yr un pryd, i ddewis gofal plant fforddiadwy. Nid oes gan lawer o rieni amser i ddysgu iaith yn ddigon da i gynorthwyo'u plant drwy'r ysgol gynradd, ond maent fel arall yn gwneud ymdrech fawr i ddysgu Cymraeg lafar. O ran sefyllfaoedd personol, roeddwn i'n gyffrous i ddechrau cwrs Cymraeg Dysgu Gydol Oes ochr yn ochr â'm swydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r penderfyniad hwn, y mae'n ymddangos ei fod eisoes wedi'i wneud er gwaethaf yr hyn a ddywedir yn y ddogfen ymgynghori, wedi peri imi gwestiynu ein dyfodol yng Ngheredigion. Mae fy ngŵr yn gweithio gyda XXXX ac rwyf innau'n gweithio yn XXXX. Nawr, rydym yn pendroni a ddylem symud o Geredigion er mwyn i'n plentyn allu mynd i ysgol cyfrwng Saesneg. Yn ogystal â hyn, un o sgilleffeithiau'r pandemig yw cynnydd yn nifer y babanod sy'n hwyr yn siarad, gan gynnwys ein plentyn ni. Ni allaf amgyffred straen mynd i leoliad addysgol sy'n gweithredu drwy gyfrwng iaith newydd pan rydych eisoes yn ei chael yn anodd â'ch iaith gyntaf.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Fi yw'r unig riant ar f'aelwyd sy'n siarad Cymraeg, felly byddai'n rhaid imi ysgwyddo'r holl faich gwaith cartref, yn hytrach na'm gŵr. Nid yw'n siarad Cymraeg ac nid yw fy Nghymraeg innau o safon uchel. Rwy'n credu y dylai fod dewis! Rwy'n annog fy mhlant i ddysgu Cymraeg, ond o wneud popeth yn Gymraeg, rwy'n gwybod y byddwn ni i gyd yn ei chael yn anodd fel teulu.</p>	<p>Peidiwch â phoeni os na allwch siarad Cymraeg gyda'ch plant. Nid oes angen i chi allu siarad Cymraeg i anfon eich plant i addysg drochi cyfrwng Cymraeg. Mae llawer y gallwch ei wneud i helpu eich plant i siarad a defnyddio'r iaith. Ysgolion fydd eich pwynt cyswllt cyntaf o hyd ynghylch dysgu parhaus eich plant. Dylai'r ysgol allu eich cefnogi neu eich cynghori</p>

Tudalen 236

	<p>ynghylch y ffordd orau i gefnogi eich plant i gynnal eu sgiliau Cymraeg. Os gallwch annog eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad â ffrindiau, brodyr, chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu sy'n siarad Cymraeg, bydd hynny'n eu helpu i gynnal eu sgiliau. Gallwch hefyd helpu eich plant drwy eu hannog i fynd i weithgareddau cyfrwng Cymraeg a gwyllo rhaglenni teledu Cymraeg, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, lawrlwytho apiau Cymraeg a gall plant hŷn ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Twitter drwy'r Gymraeg. Y peth pwysig yw bod eich plant yn cael cyswllt â'r iaith mor aml â phosibl. Mae ystod o daflenni gwybodaeth, fideos ac adnoddau eraill i helpu disgyblion a rhieni. Gallwch gael rhagor o wybodaeth a dolenni cyswllt i sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc drwy'r Gymraeg ar Hwb (Llywodraeth Cymru) ac ar wefan Ceredigion. Hefyd yng Ngheredigion mae yma dîm ymroddedig ac arbenigol o staff i gefnogi arweinwyr ysgol, athrawon a chymorthyddion addysgu yn eu gwaith wrth gyflwyno adnoddau o'r radd flaenaf yn y ddwy iaith.</p>
<p>O ganiatáu darpariaeth Gymraeg yn unig, mae'n gwahaniaethu yn erbyn teuluoedd di-Gymraeg ac yn hybu'r syniad bod Saesneg yn llai cyfartal. Nid yw'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn nac ar ddymuniadau teuluoedd. Nid oes dewis na darpariaeth amgen. Mae hefyd yn golygu bod y farchnad swyddi'n gwahaniaethu'n fwriadol yn erbyn unrhyw un sydd am weithio i'r cyngor neu ym maes addysg am resymau gwleidyddol, gan gynnal elitaeth Cymraeg yn unig mewn ardal â chyflogaeth isel heb lawer o swyddi diogel.</p>	<p>Nid oes yna unrhyw ragfarnu ym mwriadau'r cynllun gan taw sicrhau cyfartaledd yw'r nod o ran siarad y Gymraeg a'r Saesneg yng Ngheredigion. Mae caffael ar ddwy iaith yn sgil yr ydym am i ddisgyblion Ceredigion oll ei chael. Y dull trochi yw'r dull gorau i gyflawni hyn fel y mae tystiolaeth ryngwladol yn ei ddangos yn glir.</p>
<p>Nid yw'n rhesymol diddymu dewis rhieni o ran yr iaith y bydd eu plentyn yn cael ei addysgu ynddi. Bydd rhai plant yn ei chael yn anodd prosesu dwy iaith, yn enwedig os oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mewn ardaloedd lle y mae cyfran uchel o'r plant yn cael therapi iaith a lleferydd, mae angen i'r ddarpariaeth fod yn iaith y cartref. Mae'n fwy synhwyrol parhau â'r Cwricwlwm Cymraeg yn yr ardaloedd hyn neu mae perygl y bydd rhieni'n colli diddordeb ac na fydd modd iddynt gynorthwyo'u plant â'u haddysg yn y cartref.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Gall rhai teuluoedd fod am gael addysg cyfrwng Saesneg. Dylid ystyried Saesneg yn iaith fyd-eang, nid yn elyn.</p>	<p>Cytunwn bod y Saesneg yn iaith ryngwladol law yn llaw gyda Mandarin, Sbaeneg a Hindi. Camddehongli bwriadau'r cynllun yw nodi ei fod yn creu gelyniaeth tuag at y Saesneg. Mae yna gydnabyddiaeth amlwg am bwysigrwydd y gallu i siarad y Saesneg a'r Gymraeg (dwyieithrwydd) yn y cynllun.</p>
<p>Rwy'n credu y bydd eich cynllun yn gorfodi cynnydd yn y ddarpariaeth, heb roi sylw i'r hyn sydd orau i'r holl blant, ac</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 237

<p>nid yw'n cydnabod pwysigrwydd dwyieithrwydd, a chynnwys Saesneg.</p>	
<p>Dylai fod modd i rieni ddewis a ydynt am i'w plant gael addysg feithrin mewn lleoliad Cymraeg neu leoliad dwyieithog. Dylai'r dewis dwyieithog fod ar gael i bob rhiant, yn enwedig y rheini y mae eu plant yn siarad Saesneg gartref ac yn ffynnu mewn lleoliad dwyieithog cyn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg. Cafodd manteision magwraeth ddwyieithog eu profi dro ar ôl tro, yn enwedig o ran dysgu ieithoedd eraill yn y dyfodol.</p>	<p>Cytunwn yn llwyr gyda'r gosodiad bod manteision dwyieithrwydd wedi ei brofi dro ar ôl tro ac yna o ran dysgu ieithoedd eraill yn y dyfodol. Unwaith eto, y dull trochi yw'r dull mwyaf llwyddiannus i gyflawni hyn.</p>
<p>Nid oes gennyf unrhyw farn ynghylch a fydd hyn yn gwella addysg cyfrwng Cymraeg. Nid wyf ond yn gwybod bod gwlad y mae Saesneg yn iaith swyddogol ynddi wedi rhoi cyfle, hyd yma, i blant Cymru sy'n siarad Saesneg yn unig ddewis cael addysg cyfrwng Saesneg, a bod y dewis hwnnw'n cael ei ddiddymu nawr.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rwy'n credu y dylai plant allu cael eu haddysg yn yr iaith y maent yn gyfarwydd â hi. Bydd rhai plant yn ei chael yn anodd iawn dysgu a ffynnu os nad ydynt yn gallu cael addysg drwy gyfrwng yr iaith y maent yn ei deall. Mae plant sy'n mynd i feithrinfa'n dechrau dysgu llythrennau a ffoneg. O'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yn eu drysu ac yn peri rhwystredigaeth iddynt. Mae rhai plant yn ei chael yn anodd darllen, ysgrifennu a chyfathrebu yn eu hiaith eu hunain, felly nid oes amheuaeth y byddant yn ei chael yn anodd os byddant yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, gall rhieni ddewis bod eu plant yn dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Os caiff y newidiadau hyn eu gwneud, ni fydd modd i rieni ddewis anfon eu plant i ysgol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Felly, ni chaiff y plant hyn gyfle i ddysgu yn yr iaith y maent fwyaf tebygol o ffynnu ynddi. Byddwch yn eu hamddifadu o fynediad teg at addysg. Mae XXXX yn ysgol boblogaidd. Pe na bai angen/galw am ysgol cyfrwng Saesneg, ni fyddai cymaint yn mynd iddi. Mae disgyblion wedi ymuno â dosbarthiadau fy nau blentyn o ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol oherwydd eu bod yn ei chael yn anodd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n amlwg bod galw am ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rwy'n cytuno y bydd eich cynllun arfaethedig yn cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg, ond rwy'n credu bod hyn yn anghywir! Gan fod 73% o'r plant eisoes yn cael addysg drwy'r cyfrwng hwn, onid ydych yn credu bod y gweddill wedi dewis peidio â gwneud hynny ar fwriad? Pam fod Llywodraeth Cymru'n targedu Ceredigion, lle y mae 73% eisoes yn cael addysg cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na thargedu'r De lle'r wyf yn bur sicr nad yw'r ganran yn agos at 73%? Y rheswm yw y byddai stŵr yn ei gylch. Mae Saesneg yn cael ei defnyddio'n llawer mwy eang yn y byd. Os ydym am baratoi ein plant i fod yn oedolion galluog, dylid eu dysgu'n ddwyieithog. Mae dysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg yn</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 238

<p>unig yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau di-Gymraeg o'u teuluoedd.</p>	
<p>Rwyf wedi ticio'r blwch 'anghytuno' i dynnu sylw at y ffaith nad yw'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i anghytuno â chynigion eang y Cyngor Sir. Rwy'n cytuno'n llwyr fod rhaid i'r Gymraeg fod yn elfen sylfaenol o'r cwricwlwm yng Ngheredigion i fodloni anghenion y Gymraeg a tharged Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, os mai'r nod yw hyrwyddo dwyieithrwydd, nid wyf yn deall sut y mae'n dderbyniol cynnig polisi sy'n gwarafun i blant o gefndiroedd Saesneg wneud unrhyw ddefnydd o'r Saesneg nes eu bod yn saith oed ac, yn y tymor hirach, ar ôl iddynt gyrraedd saith oed, mae'n dadlau o blaid mabwysiadu addysg cyfrwng Cymraeg yn unig ar gyfer mwyafrif y plant. Mae'r holiadur wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n peri mai'r unig ffordd y gallaf fynegi fy mhryderon yw drwy fanteisio ar adran 20 a diystyru'r adrannau yn y canol.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae angen hyblygrwydd ar gyfer plant sy'n ei chael yn anodd ymdopi ag iaith, a phlant y mae eu rhieni'n defnyddio prif iaith arall ac eithrio Cymraeg neu Saesneg. Mae llawer o blant yn ei chael yn anodd darllen ac ysgrifennu Saesneg, a bydd gorfodi'r Gymraeg arnynt yn peri anhawster i fwy o blant.</p>	<p>Mae yna ddigon o dystiolaeth sy'n dangos bod disgyblion sydd wedi dysgu'r Gymraeg drwy'r dull trochi yn dod yn ddysgwyr llawn mor llwyddiannus gan gynnwys eu medrau Saesneg. Mae yna ddigon o dystiolaeth yng Ngheredigion ac ar draws Cymru lle mae plant o gefndiroedd, lle nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn cael ei siarad yn y cartref, yn llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae yna falchder mawr yng Ngheredigion bod plant ffoaduriaid sydd wedi dod yma i fyw yn y blynyddoedd diwethaf yn siarad y Gymraeg a'r Saesneg yn rhugl.</p>
<p>Nid yw gorfodi plant nad ydynt yn cael unrhyw gyfle i ymarfer y Gymraeg gartref i'w siarad fel yr unig iaith yn yr ysgol ond yn arwain at ofn, rhwystredigaeth, ac anfodlonrwydd â'r ysgol a dysgu. Mae'r cynllun arfaethedig yn diddymu dewis rhieni ac yn diystyru'r gymuned ryngwladol/amlddiwylliannol, ac nid yw'n ystyried teuluoedd sy'n siarad iaith ac eithrio Cymraeg neu Saesneg gartref. Mae teuluoedd yn dod i Geredigion, yn aml am gyfnod o ychydig flynyddoedd, o bob cwr o'r byd. O amddifadu'u plant o'r cyfle i ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, byddant dan anfantais pan fyddant yn gadael yr ardal, ac fe allai gael effaith negyddol enfawr ar allu dau o gyflogwyr mwyaf y sir i recriwtio staff â phlant bach. O sôn am fy nheulu fy hun, fe ddaethom yma fel aelwyd ddwyieithog â phlentyn bach chwe blynedd yn ôl. Pe bai'r cynllun hwn wedi bod yn ei le bryd hynny, byddem wedi mynd ati o ddifrif i ailystyried y penderfyniad, oherwydd nid oedd yr un ohonom, fel rhieni, yn gyfarwydd â'r Gymraeg. Bu inni ddewis ysgol cyfrwng Saesneg yn benodol oherwydd nid oeddem yn teimlo y byddem yn gallu helpu ein plentyn â'r gwaith cartref a fyddai'n dod adref yn Gymraeg. Rwy'n falch o ddweud bod fy mhentyn, yn saith oed, yn darllen llyfrau â phenodau yn Saesneg. Ni fyddai'r rhuglder hwn o ran darllen a deall wedi bod yn bosibl yn Gymraeg nac yn Saesneg pe bai wedi mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg oherwydd ni fyddem wedi gallu ei chynorthwyo i</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 239

<p>ddarllen Cymraeg gartref, ac ni fyddai'r ysgol wedi bod yn ei dysgu yn Saesneg. Mae llythrennedd yn dechrau ymhell cyn saith oed, ac mae cydweithredu a chyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol, rhywbeth nad yw'r cynllun hwn yn ei ystyried.</p>	
<p>Nid wyf yn credu bod fawr ddim tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer plant meithrin (tair blwydd oed). Gan fod 73% o'r plant yn yr ystod oedran hon eisoes yn defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bod y gweddill yn defnyddio darpariaeth ddwyieithog, ni allaf weld bod angen cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion. Mae gennyf bryderon bod y targed o sicrhau bod 100% o'r ddarpariaeth gynradd yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg erbyn 2027 i bob pwrpas yn diddymu hawl rhieni i ddewis sut y mae eu plentyn yn cael ei addysgu. Gallai hefyd ddiddymu rhyddid plant i allu eu mynegi eu hunain yn eu dewis iaith, rhywbeth a ddylai fod yn egwyddor sylfaenol o ran darparu'r Cyfnod Sylfaen. Mae gennyf hefyd bryderon sylweddol y gallai'r polisi hwn beri i blant rhieni di-Gymraeg fod dan anfantais, oherwydd ni fydd modd i'r rhieni gynorthwyo'u plant i feithrin eu sgiliau darllen ac ysgrifennu Cymraeg ar ddechrau'u haddysg. Rwyf hefyd yn credu bod posibilrwydd y gallai'r targed o sicrhau bod 100% o'r ddarpariaeth i blant hyd at saith oed yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg atal teuluoedd di-Gymraeg rhag symud i Geredigion. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei chael yn anodd recriwtio staff, ac mae hyn yn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael i'r gymuned. Cafodd Ceredigion ei chyfoethogi drwy iddi ddenu ystod amrywiol o bobl a theuluoedd i'r ardal sy'n gweithio i'r Brifysgol ac i'r Bwrdd Iechyd Lleol. A wnaed unrhyw ddadansoddiad o effaith bosibl y cynigion hyn ar fudo i'r ardal ac ohoni, ynghyd â'r effaith ar recriwtio a chadw gweithwyr allweddol lleol?</p>	<p>Cytunwn bod Ceredigion wedi'i chyfoethogi gan bobl sydd wedi creu cartref iddyn nhw eu hunain yma gan gyfrannu at gymdeithas mewn ffordd gadarnhaol. Nid ydym yn gweld pam y dylai dysgu dwy iaith fod yn rwystr i hynny. Yn wir, mae nifer o'r bobl sy'n dod yma i fyw yn amlieithog eu hunain ac felly yn deall ac yn parchu natur ieithyddol arbennig Ceredigion.</p>
<p>O orfodi plentyn tair oed i fynd i feithrinfa cyfrwng Cymraeg yn unig, bydd yn peri llawer o ofid i blentyn sy'n dod o deulu di-Gymraeg. Yn ogystal â pheri nad yw'r plentyn yn hoffi'r feithrinfa na'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn unig y bydd yn mynd iddi ar ôl hynny nes ei fod yn saith oed, mae hefyd yn debygol o beri iddo beidio â hoffi'r Gymraeg o gwbl. Yn hytrach, mae cyflwyno'r Gymraeg drwy ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn llawer mwy ymarferol ac anogol (i'r rheini o gartrefi di-Gymraeg).</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>O ddysgu mwy o blant tair oed drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd mwy o blant yn gallu siarad Cymraeg. Serch hynny, nid wyf yn cytuno â'r cynlluniau hyn. Rwy'n byw yn Aberystwyth ac rwy'n hoff iawn o'r ffaith bod modd i rieni ddewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg cyfrwng Saesneg â defnydd helaeth o'r Gymraeg. Mae'r ddogfen hon yn sôn cryn dipyn am ddewis ieithyddol, ond mewn gwirionedd mae'n cynnig lleihau dewisiadau pobl o ran addysg eu plant. Mae addysg y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig, yn yr un modd â'r rhan y</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 240

<p>mae rhieni'n ei chwarae yn addysg eu plant. O orfodi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl i anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg, bydd yn peri nad yw'r rhieni'n gallu dysgu eu plant i ddarllen na chwarae rôl sylweddol yn addysg gynnar eu plant.</p>	
<p>Rwy'n credu y bydd llawer o rieni sydd am ddewis iaith eu plant yn symud o Geredigion oherwydd mae'r cynllun yn diddymu pob dewis. Yn y pen draw, bydd llai o blant yn y sir.</p>	<p>Nid ydym yn cytuno bod dysgu dwy iaith yn cael yr effaith yma. Rydym yn gweld dwyieithrwydd fel sgil sy'n cynnig cyfleoedd ac yn fanteisiol i'r unigolyn ac yn rhywbeth sy'n ennyn blachder ymysg disgyblion a phoblogaeth Ceredigion. Mae llawer o fanteision o fod yn ddwyieithog o gyrhaeddiad addysg i gyflogadwyedd ac iechyd. Mae tystiolaeth o well canlyniadau, mae pobl ddwyieithog yn dueddol o fod yn fwy creadigol a hyblyg, ac maent yn ei chael hi'n haws canolbwyntio ar amrywiaeth o dasgau a dysgu ieithoedd ychwanegol. Ar gyfartaledd, mae pobl ddwyieithog yn ennill 11% yn fwy o incwm. Mae medru'r Gymraeg hefyd yn rhoi mynediad i agweddau helaeth ar ddiwylliant, hanes a hunaniaeth Cymru ac ymdeimlad o berthyn.</p>
<p>Er fy mod yn cytuno bod y cynllun hwn yn un cadarn i gynyddu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion, ni allaf gytuno â'r angen i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg. Rwy'n credu'n gryf yn yr hawl i ddewis darpariaeth addysg a bod gan Geredigion (Aberystwyth yn enwedig) gydbwysedd gwych o ran dewisiadau iaith mewn ysgolion. Mae dwy ysgol yn y dref sydd wedi cael sgôr 'rhagorol' gan Estyn – y naill yn ysgol cyfrwng Saesneg a'r llall yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hynny'n rhoi dewis clir i rieni.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae Cymraeg fel ail iaith yn yr ysgol eisoes yn darparu hyn.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rwyf o blaid sicrhau bod plant yn dysgu Cymraeg, ond fel ail iaith. Dewisom anfon ein plant i ysgol cyfrwng Saesneg ac mae'r hawl honno'n cael ei chymryd oddi arnom. O'u hanfon i ysgol/meithrinfa lle nad ydynt yn gyfarwydd â'r iaith nac yn ei deall, bydd yn ddryslyd ac yn peri gofid iddynt. Gallai hyn beri iddynt golli diddordeb a pheidio â bod am fynd i'r ysgol, a hynny pan fo gennyf ddau blentyn hapus a bodlon sy'n mwynhau eu haddysg mewn ysgol/meithrinfa cyfrwng Saesneg gyda rhywfaint o gynnwys Cymraeg.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Fel yr eglurir uchod, nid yw'r cynllun yn ieithyddol nac yn seicolegol gywir. Fel ieithydd a seicolegydd fy hun, gallaf ddweud yn onest nad wyf yn credu y bydd y camau gweithredu ar gyfer cynllun addysg cyfan gwbl Gymraeg o 3-7 oed yn cyflawni'r hyn y bwriedir iddo'i gyflawni. Mae dwyieithrwydd yn seiliedig ar 'newid cod'. Byddai llawer o'r mesurau a ddisgrifir yn y ddogfen gynllunio'n peri nad oes angen i blant newid cod mwyach – yn enwedig os yw'r Gymraeg neu unrhyw iaith ac eithrio Saesneg yn cael ei defnyddio ar yr aelwyd. Mae hyn yn mynd yn groes i'r hyn y</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 241

<p>mae'r cynllun yn bwriadu'i gyflawni ac mae'n rhwym o effeithio'n andwyol ar ddatblygiad gwybyddol.</p> <p>Rwy'n credu mai'r ffordd orau o fagu plant yw mewn lleoliad dwyieithog er mwyn iddynt fod yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg o ddechrau'u taith addysgol. Bydd hyn yn gosod sylfaen dda iddynt ar gyfer eu haddysg, eu gyrfaoedd ac ati yn y dyfodol.</p>	
<p>Nid yw'r rhain yn gynigion ar gyfer dwyieithrwydd felly NID yw'r gweithredoedd hyn yn darparu sylfaen gadarn ar ei gyfer.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Maent yn cyfrannu at y weledigaeth o gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, ond nid wyf yn cytuno â nhw. Dylid gosod nod o gael addysg ddwyieithog drwyddi draw, nid addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Er mwyn i blant fod yn wirioneddol ddwyieithog, mae arnynt angen modelau iaith rhugl yn y ddwy iaith. Mae'r cynnig hwn ar y gorau yn annelwig o ran sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni, pan nad yw staff cyfredol lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn gallu cael mynediad priodol at hyfforddiant, nac amser, i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Bydd y plant hefyd yn 'cymdeithasu' yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus ynddi. Nid yw'r cynnig hwn yn rhoi unrhyw hyder imi mai Cymraeg fyddai'r iaith honno. Rwy'n credu bod angen cyflwyno plant i'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog a difyr tra maent yn cael eu dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg (os mai dyna'r cyfan y maent yn ei siarad gartref). Mae trochi plentyn bach yn y Gymraeg yn unig mewn meithrinfa yn debygol o effeithio'n enfawr ar ei hyder.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Nid yw llawer o'r rhesymau a roddir yn y ddogfen ymgynghori dros gael addysg Gymraeg yn unig yn ieithyddol gywir. Mae llawer o feithrinfeydd eisoes yn darparu amgylchedd gwirioneddol ddwyieithog ac yn llwyddo i annog addysg ddwyieithog yn y ffordd honno. Un enghraifft wych o strategaeth o'r fath yw XXXX yn XXXX. Nid wyf yn credu y dylai'r cynllun ddiddymu'r dewisiadau sydd gan rieni ar hyn o bryd.</p>	<p>Deallwn fod yna leoliadau amrywiol eu natur yng Ngheredigion sy'n gwneud gwaith clodwiw iawn gydag addysg y blynyddoedd cynnar. Wrth gwrs mae eu rôl yn parhau yn hyn o beth yn y dyfodol. Byddai'r plant 3 oed yn mynychu eu haddysg mewn dosbarthiadau/unedau trochi yn yr ysgolion yn y dyfodol (gan ddibyynu ar broses o ymgynghori pellach). Rydym yn dymuno i'r lleoliadau barhau i gynnig y ddarpariaeth bresennol a gweld eu swyddogaeth yn glir mai cynnig lefel sylfaenol o Gymraeg y byddant i'r plant 2 oed y neu gofal cyn iddynt drosglwyddo i'r ddarpariaeth trochi meithrin yn yr ysgolion perthnasol.</p>
<p>Ni fydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer dwyieithrwydd. I osod sylfaen gadarn ar gyfer pob disgybl, mae angen i'r rhaglen addysg ymgysylltu'n llwyr â gwahanol "fathau" o ddwyieithrwydd, h.y. a yw'r plentyn wedi dod i gysylltiad helaeth â'r ddwy iaith ers ei eni, neu a yw wedi gwneud hynny'n ddiweddarach (tair oed yn yr achos hwn). At hynny, mae'n bwysig ystyried cefndir ieithyddol y rhieni, oherwydd y dylanwad cryfaf ar unrhyw blentyn, o reidrwydd, yw'r iaith/ieithoedd a siaredir yn y cartref.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 242

<p>Mae cael mwy o Gymraeg na'r hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd yn llesteirio datblygiad plentyn di-Gymraeg ym mhob maes arall. Rwy'n teimlo'n gryf ynghylch annog fy mhlant i ddysgu'r Gymraeg, ond mae gormod yn andwyol i'w hanghenion dysgu eraill. Rwy'n teimlo bod cydbwysedd ieithyddol hyfryd yng Nghylch Meithrin XXXX.</p>	<p>Mae Cylch Meithrin XXXX yn un sy'n dod dan ofalaeth y Mudiad Meithrin. Ar dudalen flaen gwefan y mudiad, nodi'r y canlynol: <i>Rydym yn angerddol dros roi'r cyfle i bob plentyn chwarae, dysgu a thyfu trwy'r Gymraeg. Trwy roi'r Gymraeg i blant ifanc Cymru, rydym yn gobeithio uno cenedl a datblygu cymuned Gymraeg amlddiwylliannol agored a llawn bywyd.</i> Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gefnogol i'r nodau hyn.</p>
<p>Mae datblygu prif iaith yn gyntaf yn hollbwysig cyn datblygu ail iaith, rhywbeth sy'n cael ei arfer ym mhob gwlad amlieithog arall. Mae cefndir ieithyddol y rhieni'n bwysig iawn, a rhaid ei ystyried, oherwydd y dylanwad cryfaf ar unrhyw blentyn, o reidrwydd, yw'r iaith/ieithoedd a siaredir yn y cartref. Erbyn iddo gyrraedd tair oed, mae'r plentyn ar ganol y broses o ddatblygu ei brif iaith. Nid trochi plentyn o aelwyd ddi-Gymraeg yn y Gymraeg yw'r ffordd orau o ddatblygu'r Gymraeg, ac mae'n sicr o gael effeithiau andwyol eraill (gweler 2). I gynyddu nifer y plant sy'n dysgu'r Gymraeg, rhywbeth rwy'n ei gefnogi'n llwyr, byddai'n well addysgu'r Gymraeg fel iaith mewn ffordd fwy penodol a strwythuredig mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae plant sy'n cael eu haddysgu'n ddwyieithog o oedran cynnar yn debygol o fod yn fwy hyderus o ran defnyddio'r iaith. Fodd bynnag, rwy'n meddwl y dylid rhoi'r pwyslais ar addysg ddwyieithog ac nid addysg 100% cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rwy'n meddwl o brofiad mai iaith y cartref yw'r ffactor bwysicaf. Nid yw'r ffaith bod rhywun yn dysgu Cymraeg yn golygu y bydd yn ei defnyddio tu allan i'r ysgol.</p>	<p>Cytunwn nad yw'r strategaeth o reidrwydd yn mynd i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn gymdeithasol. Er hynny, mae'r cynllun yn nodi'n glir bod ennyn hyder mewn disgyblion a sefydlu medrau dwyieithog llawn yn debygol o godi eu balchder yn y dwyieithrwydd hwnnw ac am eu gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'n fodd i agor drysau i ddau ddiwylliant cyfoethog iawn.</p>
<p>Rwy'n cytuno y bydd, ond mae hyn o ganlyniad i'r swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg yn y cyngor ac ym maes addysg sy'n peri na all disgyblion sydd wedi cael addysg cyfrwng Saesneg gael hyd i waith yng Ngheredigion nac yng Nghymru. Mae'r draen dawn yn ffactor enfawr.</p>	<p>Nid oes tystiolaeth sy'n cefnogi'r datganiad hwn. Dydy allfudiad pobl o Geredigion yn ddim i'w wneud gyda iaith. Fel ardaloedd tlotach drwy'r ynysoedd yma i gyd e.e. Cernyw, rhesymau economaidd sydd, ran amlaf, yn gyrru pobl i symud. Wrth gwrs fod yna gyfran o swyddi yng Ngheredigion a Chymru sy'n gofyn am y Gymraeg fel sgil hanfodol ond mae'r swyddi yna hefyd yn gofyn am y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu Saesneg yn ogystal.</p>
<p>Bydd yn dysgu'r plant bod y Gymraeg yn bwysicach na'r Saesneg pan ddylent fod yn cael eu trin yn gyfartal. Mae angen inni ddysgu ein plant fod pawb yn gyfartal, nid creu mwy o rwyg rhwng y rheini sy'n siarad Cymraeg a'r rheini nad ydynt yn ei siarad yn rhugl. Bydd y camau hyn yn ffafrio'r Gymraeg uwchlaw popeth arall.</p>	<p>Nod y cynllun yw i weld mwy o ddisgyblion yn dod yn siaradwyr y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd ac nid i weld unrhyw iaith yn 'well' na'r llall. Credwn bod y strategaeth yn hybu cydraddoldeb pellach yn hytrach na'i llesteirio.</p>

Tudalen 243

<p>Mae'r cwestiynau hyn wedi'u strwythuro mewn ffordd sy'n dileu pob cyfle i anghytuno â'r mater canolog.</p>	<p>Mae digon o gyfleoedd wedi bod yn y drefn ymateb i gynnig gwahanol farn. Mae nifer ac amrywiaeth yr ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dyst i hynny.</p>
<p>Gofal caredig a meithringar gan staff hyfforddedig â chymhelliad cryf yw'r sylfaen orau ar gyfer unrhyw ddydsu yn y dyfodol. Dim digon o le!</p>	<p>Ni allwn anghytuno gyda'r gosodiad hwn ond nid ydym yn gweld cyfnod o drochi yn y Gymraeg yn groes o gwbl i'r egwyddorion a nodir.</p>
<p>Cafodd fy mhlant lawer o Gymraeg mewn ysgol gynradd Categori B. Fodd bynnag, nid ydynt yn ei siarad yn hyderus, er eu bod yn deall ychydig a bod y ddau wedi cael TGAU gradd A. Rydym yn deulu di-Gymraeg ac ychydig iawn o ffrindiau Cymraeg eu hiaith sydd gennym.</p>	<p>Rydym yn falch iawn bod eich plant wedi llwyddo gystal wrth gyflawni TGAU Cymraeg Ail Iaith. Y nod yw sicrhau bod llwyddiant yn y ddwy iaith yn parhau ond bod disgyblion yn gallu siarad y Gymraeg (ac yn Saesneg) yn hyderus fel y brif sgil. Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050' yn nodi'r amcan o greu Miliwn o Siaradwyr.</p>
<p>I deuluoedd tramor a rhieni di-Gymraeg eraill, bydd dysgu'u plant yn Gymraeg yn bennaf yn peri iddi fod yn amhosibl iddynt gyfathrebu â'u plant eu hunain ar yr aelwyd.</p>	<p>Nod y cynllun yw i weld mwy o ddisgyblion yn dod yn siaradwyr y Gymraeg a'r Saesneg gystal â'i gilydd ac nid i weld unrhyw iaith yn 'well' na'r llall.</p>
<p>Byddai fwy na thebyg yn peri iddynt siarad mwy o Gymraeg yn ddiweddarach yn eu bywydau, ond rwy'n dal i gredu y bydd plant o deuluoedd Saesneg eu hiaith a fyddai wedi dewis addysg cyfrwng Saesneg yn flaenorol yn pontio'n bennaf at addysg cyfrwng Saesneg pan fyddant yn gallu gwneud hynny.</p>	<p>Wedi'r cyfnod trochi yn y cyfnod sylfaen bydd y disgyblion yn yr ysgolion a nodir yn symud (yn 7 oed) i sefyllfa Categori 2 yn unol â'r Categori Ysgolion. Byddai'n golygu cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol i gefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Byddai dysgwyr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu'r cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr. Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai rhan helaeth o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) o flwyddyn 3 – 6 yn Gymraeg. Strategaeth Ceredigion fyddai defnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda'r dilyniant pwrpasol i'w ddarparu wedi'r 7 oed.</p>
<p>Tybir yn y cyd-destun hwn fod dwyieithrwydd yn berthnasol i Gymraeg plws yn unig. Mae'n llawer mwy na hynny a bydd y camau hyn yn llesteirio'n ddifrifol y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd eraill yn ein cymuned amrywiol.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae arnaf ofn y bydd llawer o blant heb lythrennedd Saesneg yn y pen draw – bydd ganddynt rywfaint o Saesneg lafar, ond ni fydd eu Saesneg ysgrifenedig na'u gallu i ddarllen a deall o'r un safon â'u Gymraeg oherwydd bydd y rhain yn cael eu dysgu yn yr ysgol. Felly, nid oes i'r cysyniad o lwyddo'n well 'yn y byd gwaith' sail. Bydd plant o deuluoedd nad ydynt yn siarad</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 244

<p>Saesneg gartref (boed yn siarad Cymraeg neu drydedd iaith) dan anfantais o gael eu haddysgu yn Gymraeg yn unig, a rhaid cyfaddef nad honno yw'r iaith fwyaf defnyddiol i lwyddo mewn economi fyd-eang. O fethu â meithrin llythrennedd Saesneg, bydd hefyd yn atal y plant hyn rhag astudio mewn prifysgolion cyfrwng Saesneg.</p>	
<p>Ni fydd y camau hyn yn gosod unrhyw sylfaen gadarn ar gyfer taith y disgyblion at ddwyieithrwydd, oherwydd maent i bob pwrpas yn cefnu ar ddwyieithrwydd. O'u rhoi ar waith, ni fyddant ond yn creu lleoliadau addysgol uniaith Gymraeg. Felly, mae awgrymu y bydd y camau hyn rywsut yn gosod sylfeini ar gyfer dwyieithrwydd yn gyfan gwbl gamarweiniol. Rwyf eisoes wedi nodi uchod fod y ddogfen yn rhagdybio, heb gyfiawnhad, fod pob plentyn yng Ngheredigion rywsut yn ennill hyfedredd yn y Saesneg yn ddiodyn. Nid yw llawer yn gwneud hyn. Felly, bydd y rheini nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn famiaith iddynt a/neu'n iaith yr aelwyd yn dod i gysylltiad â dau faich ychwanegol o ganlyniad i'r camau hyn. Yn gyntaf, bydd rhaid iddynt gael addysg yn ystod y blynyddoedd cynnar mewn iaith gwbl anghyfarwydd iddyn nhw a'u teuluoedd (Cymraeg). Yn ail, bydd rhaid iddynt ddal i fyny ag iaith nad ydynt wedi cael cyfle i'w dysgu'n naturiol (Saesneg). Mae'n amlwg y bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar eu cyrhaeddiad addysgol.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Nid wyf yn cytuno y bydd y cynllun hwn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer taith disgyblion at ddwyieithrwydd. Nid yw'r cynllun hwn ond yn trafod dwyieithrwydd o ran ieithoedd Prydeinig, ac felly byddai plant Cymru dan anfantais o'u cymharu â phlant Lloegr sy'n dysgu iaith o'r byd ehangach. Rwy'n credu y bydd y dull hwn o drochi plant yn llwyr yn yr iaith yn rhwystro plant rhag dysgu ac yn niweidio'u hyder, ac felly bydd yn effeithio ar eu bywydau cymdeithasol a'u hiechyd meddwl.</p>	<p>Mae tystiolaeth glir o ymchwil ryngwladol sy'n nodi bod dysgu dwy iaith yn sail i ddysgu ieithoedd eraill. Y mae gwybodaeth am iaith yn gallu trosglwyddo o un i'r llall.</p>
<p>Mae i Saesneg a Mathemateg lawer mwy o werth mewn ysgolion amlddiwylliannol fel XXXX.</p>	<p>Dydy dysgu iaith yn ddim i'w wneud gyda thras rhywun. Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac yn iaith gynhenid a swyddogol yng Nghymru law yn llaw gyda'r Saesneg. Mae yna blant yn ysgolion Ceredigion sydd o gefndiroedd amrywiol sydd wedi dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg i safon uchel iawn. Mae yna ysgolion yng Nghymru e.e. Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad yn ardal Bute yng Nghaerdydd sydd mewn ardal aml-ethnig ac aml-ieithog. Mae cyfran uchel o'r disgyblion yno yn dod o'r gefndiroedd rheiny. Nid oes unrhywun yn amau pwysigrwydd y Saesneg. Mae'r ddwy iaith yn gallu agor drysau i gyfoeth o hanes a diwylliant gan wneud pobl yn llawer mwy goddefgar yn y pendraw.</p>
<p>Nid yw'r ddogfen arfaethedig yn dangos ei bod yn ddymunol rhoi pob plentyn yng Ngheredigion drwy'r arbrawf peryglus hwn, ac nid yw ychwaith yn amlinellu llwybr clir at wella'r</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

<p>modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynllunio. Mae hwn yn arbrawf peryglus oherwydd mae'n amlwg y bydd yn niweidio'r rheini sy'n dod o gefndir lle na siaredir Cymraeg na Saesneg. Mae'r ddogfen yn gwneud rhagdybiaethau heb unrhyw gyfiawnhad fod pob plentyn yng Ngheredigion rywsut yn ennill hyfedredd yn y Saesneg yn ddiodyn. Mae hwn yn arbrawf peryglus a fydd hefyd yn niweidio plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, oherwydd bydd yn rhoi beichiau ychwanegol arny'n nhw a'u rhieni, oni bai eu bod eisoes yn dod o gefndir Cymraeg. Beichiau ychwanegol yw'r peth diwethaf sydd eu hangen ar blant a theuluoedd o'r fath. Mae adran Deilliant 1 o'r ddogfen, ar y gorau, yn disgrifio nodau (heb eu cyfiawnhau'n dda) yn helaeth, ond nid yw'n rhoi llawer o sylw i'r hyn sy'n digwydd yn y lleoliadau addysg sy'n bodoli eisoes a sut y dylid cyflawni'r nodau a'u rhoi ar waith. Mae tu hwnt i bob rheswm gosod targed o 100% pan nad oes capasiti ar gael mewn meithrinfeydd ac ysgolion i gyrraedd ffigur o'r fath ar hyn o bryd. Felly, mae'n debygol mai'r canlyniad yn ystod y pum mlynedd gyntaf fydd ailgyfeirio adnoddau sydd eisoes yn brin yn y lleoliadau hyn i fodloni nodau sydd wedi'u mynegi'n wael ac nad ydynt yn ddymunol o'r dechrau'n deg. Rwy'n drysorydd XXXX, meithrinfa nad yw ond yn gweithredu oherwydd ymrwymiad gwirfoddol helaeth nifer o rieni. Rydym yn gwybod nad oes gan y staff presennol na'r rhieni ar y pwyllgor gapasiti i ymgysylltu â nifer o weithgareddau sydd wedi'u mynegi'n annelwig yn Neilliant 1 y byddai angen rhoi mwy o sylw iddynt. Os bydd rhaid i'n staff ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, bydd yn lleihau ansawdd y gofal plant y maent yn ei ddarparu, a bydd yn cynyddu costau rhedeg y feithrinfa. Yn hytrach na gwireddu ei chenhadaeth graidd, bydd rhaid i'r feithrinfa droi ei sylw at baratoi cynlluniau amrywiol, ymateb i ymgynghoriadau, ac ati.</p>	
<p>Os bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, rwy'n pryderu y bydd yn arwain at gyrhaeddiad addysgol hyd yn oed yn is ymhlith y disgyblion hynny sydd eisoes dan anfantais. Rwy'n pryderu na fydd neb yn sylwi ar hyn, oherwydd ni cheir fframwaith asesu ar gyfer y strategaeth arfaethedig, ac felly ni fyddwn yn gweld yr effaith negyddol nes iddi fod yn rhy hwyr i rai cohortau. Rwyf hefyd yn credu'n glir y bydd yn arwain at leihau llesiant disgyblion oherwydd iaith yr unigolyn a'i allu i fynegi'i hun yw rhai o'r pileri sylfaenol ar ein llwybrau dysgu. Bydd yn cael effaith hollbwysig ar y graddau y gall disgybl ymgysylltu'n llwyr â'i addysg. Mae'r cynnig yn ymddangos mwy fel llawlyfr technegol na chynnig sy'n rhoi sylw i'r hyn a ddylai fod yn ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rwy'n anghytuno y bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Ceredigion yn ddigonol i gynyddu ac i wella addysg cyfrwng Cymraeg. I'r gwrthwyneb, nid yw'r newidiadau eithafol ond yn debygol o arwain at gynnydd bach yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyddysg, ond ar yr un pryd bydd yn cael nifer fawr o effeithiau andwyol ar addysg ehangach a llesiant plant. Yn ystod y blynyddoedd cynnar hollbwysig rhwng 3-7 oed, mae ymchwil bedagogaidd i amlieithrwydd</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

<p>wedi sefydlu ers tro bod angen i brif iaith plentyn ennill ei phlwyf CYN i'r plentyn ddysgu ail iaith. Dyna'r rheswm pam nad yw Saesneg yn cael ei dysgu tan yn ddiweddarach yn y rhan fwyaf o wledydd cyfandir Ewrop nes i'r brif iaith ennill ei phlwyf. Mae'n wir dweud os ydych yn dod o aelwyd amlieithog i gychwyn y gall hyn weithio, ond bwriedir rhoi'r cynnig ar waith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lle bydd bron y cyfan yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf/yn ddi-Gymraeg. Pan fydd gennych aelwyd ddi-Gymraeg, gallai trochi plentyn y mae Saesneg yn brif iaith ei aelwyd mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg fod yn niweidiol iawn am sawl rheswm:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Er y bydd rhai plant yn llwyddo'n iawn yn y system arfaethedig hon, mae'n debygol y bydd cyrhaeddiad a datblygiad plant yn gostwng yn gyffredinol oherwydd bydd y Gymraeg yn rhwystr ychwanegol rhag dysgu. - Yn ddi-os, plant o gefndiroedd mwy difreintiedig, lle y gall cymorth a mewnbwn rhieni fod yn fwy cyfyngedig, fydd yn cael yr ergyd fwyaf. - Bydd yn cael effaith ddwbl ar blant ag anawsterau dysgu drwy iddynt wynebu rhwystr ychwanegol oherwydd bod gofyn iddynt ddysgu drwy'r hyn a fydd yn ail iaith iddynt yn ystod y cam hollbwysig hwn. <p>Yn wir, mae diffyg dealltwriaeth o addysgeg a dwyieithrwydd, a'r diffyg canolbwyntio ar lesiant a chyrhaeddiad addysgol ehangach plant, yn peri pryder mawr imi.</p>	
<p>Nid oes gan y cwestiwn (... cyfrannu at gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion) lawer i'w wneud â Deilliant 1. Mae'n syniad da cynyddu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y grŵp oedran hwn, ond byddai hyd yn oed yn well peri i bob lleoliad fod yn gyfan gwbl ddwyieithog. O wneud hyn, byddai'n sicrhau bod plant o unrhyw gefndir, gan gynnwys cefndir rhyngwladol, yn cael cyfle cyfartal i feithrin eu sgiliau ieithyddol. I wneud hyn, bydd angen staff ychwanegol â chymwysterau da ym mhob lleoliad, gyda'r awdurdod lleol yn talu amdanynt.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Nid wyf yn cytuno bod y camau'n angenrheidiol, ond rwy'n cytuno y byddent yn helpu i wella addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Mae'r cyngor wedi nodi eich sylw.</p>
<p>Mae gennyf deimladau cymysg iawn am hyn. Rwy'n credu y byddai'r cynllun yn cyfrannu at gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion, fodd bynnag, nid wyf yn credu y bydd y daith mor esmwyth ag y mae'r ddogfen yn ei ddisgrifio i lawer o blant a rhieni.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi nodi eich sylw.</p>
<p>Fe geisiais ddarllen y ddogfen ymgynghori â meddwl agored. Ond nid ymgynghoriad yng ngwir ystyr y gair mo'r 'ymgynghoriad' hwn. I mi, mae ystyr y term 'dogfen ymgynghori' fel a ganlyn: "Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, yr hyn sy'n cael ei gynnig, hyd a lled y gallu i ddylanwadu, a chostau a buddion disgwylidig y cynigion." Nid yw'r ddogfen ymgynghori honedig hon yn bodloni'r diffiniad hwn. Mae'r ddogfen i bob pwrpas yn datgan safbwynt polisi y mae'n ymddangos y penderfynwyd arno eisoes, sef:</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi nodi eich sylw.</p>

“Erbyn mis Medi 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion yw y bydd pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes y bydd yn saith oed. ... Erbyn 2032, dyhead Cyngor Sir Ceredigion, a hynny drwy ymgynghori’n llawn â rhan-ddeiliaid ar hyd y daith, yw bod y targed o 87% (Ystod Uchaf) a awgrymwyd gan Llywodraeth Cymru yn cael ei ragori ymhellach i 100%.” (tudalen 2). Yna, mae’r ddogfen yn amlinellu’r bwlch rhwng y targed a bennwyd gan y Cyngor ei hun (a elwir yn gamarweiniol uchod yn ddyhead, ac ar y ffurflen ymateb ar-lein yn weledigaeth) a’r hyn y mae angen iddo’i wneud i gyrraedd y targed hwnnw. Nid yw’n ymgynghoriad am gostau a buddion y safbwynt polisi (targed) mewn unrhyw ffordd. Ni fwriedir i strwythur y cwestiynau ar y ffurflen (h.y. ‘a ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno bod y camau i’w cymryd yn ystod pum mlynedd gyntaf y cynllun yn cyfrannu at y weledigaeth...?’) fynd gam yn ôl a gofyn pam y penderfynwyd ar y weledigaeth (dyhead) (e.e. pam mynd tu hwnt i darged Llywodraeth Cymru?), neu – hyd yn oed os yw rhywun yn derbyn y weledigaeth (dyhead) – a yw’r weledigaeth (dyhead) yn synhwyrol neu’n gyflawnadwy. Ni wneir unrhyw ymdrech o gwbl i ystyried costau a buddion go iawn mynd ar drywydd y weledigaeth (dyhead) fel targed polisi (e.e. yn y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir, o ran costau cyfle ac ati). Cyn troi at y materion hyn, gadewch imi ddweud yn glir: mae’r ffurflen ar y we yn amhroffesiynol iawn. Mae’r ddwy frawddeg agoriadol ar y ffurflen Saesneg yn llawn gwallau teipograffyddol a gwallau fformadu (gallaf gyfrif o leiaf bedwar) ac mae’n amlwg na chafodd ei phrawfddarllen: “The above document is open for consultation from the 20th o September 2021 This period comes to an end on November the 12th, 2021. Only official responses on this form will be accepted during the consultation process.” Yng nghwestiwn 21 ar y ffurflen Saesneg, ceir dau wall arall: “21. Please enter name and address 42elow”. Ceir gwall fformadu arall (bwlch diangen rhwng ‘Please’ ac ‘enter’ a gwall teipograffyddol arall). Yn y cwestiwn olaf (rhif 22), nid ydych wedi rhoi opsiwn i rai dros 65 oed roi eu hoedran. Mae hynny mor amharchus i’r rheini yn y grŵp oedran hwnnw. I bob pwrpas, rydych yn dweud nad yw eu barn yn cyfrif, neu mae angen ichi dderbyn eich bod wedi llunio’r ffurflen hon yn fryslog fel ôl-ystyriaeth ac na chafodd ei phrawfddarllen yn iawn. Pa un bynnag, mae’n amhroffesiynol iawn a – braidd yn eironig – nid yw’n gwneud dim i’r darbwyllo bod y broses o benderfynu ar ein polisi addysg mewn dwylo diogel. Mae’n atgyfnerthu’r argraff bod yr ymgynghoriad honedig yn cael ei gynnal dim ond i dynnu sylw at y mater ac na fydd unrhyw ymatebion negyddol na beirniadol yn cael eu cymryd o ddifrif mewn gwirionedd.

Cwestiwn twyllodrus. Dylai ysgrifennu’r cynllun wella’r cynllunio...

Mae’r Cyngor wedi nodi eich sylw.

Tudalen 248

Sylwadau Cyffredinol	
<p>Mae iaith wedi'i lleoli mewn cymuned. Felly, byddai angen cynorthwyo'r gymuned ar lefel leol i wella defnydd o'r Gymraeg, yr ymwneud â hi a'r ymrwymiad iddi. Sylwais mai XXXX sydd â'r nifer fwyaf o blant yn y sir, felly dylai ysgolion a chymuned y pentref hwn fod yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Ceredigion. Mae'n ymddangos yn gyfle delfrydol i gysylltu Ysgol XXXX a'r Hwb i gryfhau'r Gymraeg ac i rwymo'r gymuned i ddysgu'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi nodi eich sylw.</p>
<p>Nid oes gennyf unrhyw broblem â gwreiddio'r Gymraeg mewn addysg. Yr hyn rwy'n pryderu amdano yw bod Cylch Meithrin eisoes wedi datblygu'n dda ac eisoes wedi'i leoli ym mhentref XXXX, felly mae cynnig creu dosbarth meithrin yn yr ysgol i'w weld yn ddibwrpas.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi nodi eich sylw ond yn nodi hefyd ei bod yn fwriad i greu dosbarth trochi 3 oed yn Ysgol XXXX er mwyn bod yn gyson gyda'r datblygiadau yn yr ysgolion 'cyfrwng Saesneg yn bennaf' eraill sy'n rhan o'r cynllun.</p>
<p>Nid yw'r cwestiwn yn gwneud synnwyr! Mae'n gofyn 'i ba raddau yr ydych yn cytuno' ond yr unig opsiynau yw: cytuno, anghytuno neu ddim barn gref ar y mater. Dylai ddweud: Cytuno'n gryf, cytuno rywfaint, ac ati, ac ati. Ni ddylid defnyddio prentisiaethau (tudalen 6) i wneud iawn am brinder staff – dylent fod yn ychwanegol at weithlu sydd wedi'i staffio'n llwyr.</p>	<p>Mae digon o gyfleoedd wedi bod yn y drefn ymateb i gynnig gwahanol farn. Mae nifer ac amrywiaeth yr ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dyst i hynny.</p>
<p>Mae hon yn ddogfen ymgynghori sydd wedi'i chynllunio a'i drafftio'n wael. Mae'n amlwg y bwriedir i eiriad y cwestiynau arwain at ymateb a bennwyd ymlaen llaw. Dyna drueni bod amser ac arian wedi'u neilltuo i'r sawl a luniodd y ddogfen hon.</p>	<p>Mae digon o gyfleoedd wedi bod yn y drefn ymateb i gynnig gwahanol farn. Mae nifer ac amrywiaeth yr ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dyst i hynny.</p>
<p>Mae angen i'r cynllun restru beth yw cyfrwng iaith presennol pobl ysgol o fewn y Sir er mwyn ei gwneud yn gliriach i ddarllenwyr lle mae'r Cyngor arni ar hyn o bryd. Credaf hefyd y dylid ei gwneud yn hollol glir beth fydd cyfrwng iaith pob ysgol unigol ar ddiwedd cyfnod y cynllun.</p>	<p>Mae'r Cyngor wedi nodi eich sylw. Bydd y ddogfen 'Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' a gyhoeddwyd wedi i'r cynllun hwn fynd drwy'r ymgynghoriad statudol cyhoeddus yn arweiniad ar gyfer hynny.</p>

Tudalen 249

Deiliant 2 – Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod yr ymatebion i C1)

Cwestiwn 1 : I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y gweithredoedd a nodir yn cyfrannu tuag at y targed i weld cynnydd yn nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sydd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg?

Sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r amcanion ond sydd hefyd yn cynnig ystyriaethau pellach	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion
Mae hyn yn gwbl gyson gyda gweledigaeth sydd am roi manteision i'r dysgwr unigol ac sydd am hybu sgiliau ar raddfa genedlaethol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Gwella sgiliau dwyieithog yn ifanc.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Calonogol yw gweld cyfeiriad at ddarpariaeth meithrin newydd a throchi ieithyddol hyd saith oed. Hoffwn weld manylion pellach o ran y cynlluniau 7-11oed yn dilyn y trochi, a dewis ar gael i barhau gydag addysg CC / dwyieithog ym mhob ysgol.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun gan nodi'r hyn sy'n cael ei fynegi am ddilyniant ieithyddol.
Mae'n rhesymol i gasglu mai dyna fydd y canlyniad.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Ydy.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Unwaith eto fydd y Gymraeg yn cael ei dysgu'n naturiol, gyda mwynhad a phwrpas mewn amgylchedd hwyliog ac o ganlyniad fe fydd agwedd y plant at y Gymraeg yn cryfhau ac n dangos cynnydd naturiol wrth ddysgu unrhyw iaith. Wedi'r cyfan cyfrwng yw iaith NID gwers,.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Cam cadarnhaol iawn i Geredigion. Dylai pob sir yng Nghymru wneud hyn.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae pob Cyngor yn gorfod ymateb yn unol â'r sefyllfa a'r amgylchiadau yn y sir benodol honno. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn un o siroedd Gorllewin Cymru sy'n ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae'r datblygiadau yn y cynllun yn ymateb i'r ffaith honno yn ogystal â'r hyn sy'n ddisgwylidig yn nodau llesiant cenedlaethol Cymru ac at nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.
Bydd pob disgybl yn cael cyfle i gael mynediad at yr iaith, a bydd yn sicrhau bod pawb yn cael cynnig cyfartal.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.

Tudalen 250

<p>Bydd y cynigion yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae darparu cymorth ieithyddol ychwanegol a Chanolfan Iaith yn Aberystwyth yn gam pwysig i ddatblygu capasiti arbenigol i gynorthwyo teuluoedd di-Gymraeg sy'n symud i'r ardal. Mae'r Brifysgol, ynghyd â chyflogwyr lleol eraill, gan gynnwys Ysbyty Bronglais, yn recriwtio i swyddi arbenigol yn rheolaidd, yn ogystal â chyflogi gweithwyr ar gontractau byrion a chyfnod penodol. Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'n gryf y bwriad i fuddsoddi mewn Canolfan Iaith newydd yn Aberystwyth. At hynny, rydym yn awgrymu y dylid adolygu capasiti'r Ganolfan newydd yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn ateb gofynion lleol a'r potensial yn ein tyb ni i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn lleol, ochr yn ochr â mentrau arloesi'r Brifysgol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac hefyd y sylwadau pellach am y ganolfan iaith yn Aberystwyth.</p>
<p>Mae hanner ysgolion Cymru'n dysgu drwy gyfrwng y Saesneg a dylai pob plentyn ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Ysgolion Ceredigion yw cyfrifoldeb y Cyngor ac felly mae'r CSGA yn gynllun sy'n berthnasol i'r sir hon yng ngoleuni arweiniad Llywodraeth Cymru.</p>
<p>Mae'r gweithredoedd a nodir yn cyfrannu tuag at y targed, yn arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal rhaglen addysg drochi lawn yn y Gymraeg, er mwyn sicrhau bod cynhaliadaeth ar gael i bawb; • Targedu'r talcen caled, sef yr ardaloedd anodd – gweler ymateb i Rif 2; • Mae datblygiadau XXXX eisoes yn cadarnhau'r modd mae'r gweithrediadau hyn yn llwyddiannus; • Y ffaith taw disgyblion y dosbarthiadau meithrin fyddai'n cael blaenoriaeth ar gyfer mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion cynradd; • Cydweithio agos rhwng Powys, Sir Gâr a Phenfro, i sicrhau nad yw disgyblion ar y ffiniau yn mynd ar gyfeiliorn o safbwynt iaith eu haddysg; • Arbenigedd ac effeithiolrwydd y Canolfannau Iaith – mae'r rhain yn allweddol, ac yn gallu llwyddo gyda disgyblion uwchradd yn ogystal â chynradd yng Ngheredigion, ac mae cynlluniau ar waith i ddiweddarau ac uwchraddio'r gwasanaeth yn gyson yn ôl yr angen. • Os llwyddir yn y cynllun 5 mlynedd hwn, yna bydd 100% disgyblion Blwyddyn 1 Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, ac ymhen 10 mlynedd bydd 100% disgyblion Ceredigion wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg hyd at 7 oed, a derbyn anogaeth ar sut i barhau felly. Mae hwn yn gam cadarn iawn. 	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'n amlwg y byddai'r cynllun hwn, gyda'i darged o sicrhau bod 100% o'r addysg yn addysg cyfrwng Cymraeg, yn cynyddu nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 1 sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg. O dan y cynllun strategol, byddem yn cadw ein nodwedd neilltuol fel ysgol ffydd, ond byddem yn gallu rhoi dewis o ysgol i deuluoedd Catholig Cymraeg eu hiaith yn yr ardal. Rydym yn credu na fydd y cynllun hwn ond yn gweithio os caiff ei gyflwyno drwyddi draw ledled Ceredigion ac os</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Y nod fyddai i gael cynllun trochi yn y cyfnod sylfaen (3-7 oed) yn Ysgol XXXX ac yna rhagwelwn y byddai gweddill yr ysgol yn datblygu yn un Categori 2 yn unol â'r Categori 1 Ysgolion. Byddai'n golygu cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol i gefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Byddai dysgwyr mewn ysgol o'r</p>

Tudalen 251

<p>bydd yn cynnwys pob ysgol sy'n cael ei dynodi fel ysgol cyfrwng Saesneg â darpariaeth Gymraeg sylweddol.</p>	<p>categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrandao yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu'r cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr. Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai rhan helaeth o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) o flwyddyn 3 – 6 yn Gymraeg. Strategaeth Ceredigion fyddai defnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda'r datblygiad i'w ddarparu wedi'r 7 oed. Mae'r gofynion ar gyfer ysgolion a disgyblion o ran Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 yr un fath ym mhob ysgol yng Nghymru, beth bynnag fo cyfrwng dynodedig yr ysgol. Byddai'r cyngor yn cynllunio hyn fel y byddai pob ysgol sy'n bresennol yn ysgol 'cyfrwng Saesneg yn bennaf' yn datblygu yn unol â'r un amserlen.</p>
<p>Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cytuno gyda strategaeth Cymraeg 2050, sydd yn nodi'n glir mai addysg drochi lawn yn y Gymraeg yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau pob dydd. Rydyn ni'n croesawu y targed o 100% o blant 5 oed (Blwyddyn 1) sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2026-2027, a bod hyn yn mynd i ddigwydd trwy broses ymgynghori gyda rhanddeiliaid mewn rhai ardaloedd ac ysgolion. Unwaith eto, rydyn ni'n pwysleisio ei bod yn bwysig i addysgu iaith o fewn cyd-destun diwylliannol a hanesyddol. Gallwn gefnogi'r ymgais i gyrraedd y targed uchod trwy gynnig sesiynau hyfforddiant yn rhad ac am ddim i athrawon Blwyddyn 1 fel rhan o unrhyw raglen y byddwch yn ei chynllunio. Byddai'r hyfforddiant hwn yn defnyddio casgliadau y Llyfrgell i roi cyflwyniad i hanes yr iaith, cerrig milltir pwysig, ystadegau iaith, brwydrau dros hawliau, rôl addysg Gymraeg a darlledu, statws yr iaith, a chyd-destun cymdeithasol yr iaith heddiw.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun gan werthfawrogi a deall y pwysigrwydd i addysgu iaith o fewn cyd-destun diwylliannol a hanesyddol.</p>
<p>Ceir dulliau ysgol gyfan a dulliau gwasanaeth cyfan o fynd i'r afael â llawer o agweddau pwysig, fel iechyd meddwl, ADY – ac ni ddylai'r ddarpariaeth Gymraeg fod yn wahanol. Mae ar blant a phobl ifanc angen ymyrraeth bwrsasol a chynnar, ac felly o wreiddio'r Gymraeg, bydd yn eu cynorthwyo â'u taith drwy addysg. Fodd bynnag, dylid ystyried disgyblion yn ne'r sir nad yw'r deiliant hwn yn rhoi sylw iddynt.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Cytunaf yn gryf y bydd y gweithredoedd yn cyfrannu yn naturiol at y targed a nodwyd. Gyda'r bwriad o drochi plant, lle bo'r iaith yn gyfrwng ac nid yn wers bydd y plant yn defnyddio'r iaith mewn sefyllfa ddydd i ddydd, gan ddysgu a</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 252

<p>mwynhau'r iaith yn naturiol drwy weithgareddau difyr a heriol.</p>	
<p>Mae'r un egwyddorion yn berthnasol i ddisgyblion blwyddyn 1. Po fwyaf y maent yn clywed ac yn ymarfer, po fwyaf y maent yn dysgu ac yn magu hyder. Nid yw cael gwers Gymraeg bob wythnos yn ddigon; mae angen eu trochi yn yr iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Credwn fod dysgu Cymraeg i rieni yn gam allweddol wrth gynllunio i gynyddu nifer plant y blynyddoedd cynnar sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (deilliannau 1 a 2). Gall hynny roi mwy o hyder i rieni i gefnogi eu plant, yn ogystal ag atgyfnerthu'r hyn a ddysgir yn yr ysgol ym mywyd y teulu. Datblygwyd adnodd newydd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddysgu Cymraeg i deuluoedd. Nod yr adnodd yw croesawu teuluoedd i'r gymuned Dysgu Cymraeg, ac agor y drws i ddarpariaethau pellach maes o law. Mae'r cwrs yn gyfeillgar a chroesawgar ac yn cyflwyno geirfa syml a defnyddiol i oedolion sydd wedi dewis anfon eu plant i addysg Gymraeg yn benodol. Mae'r cwrs hefyd yn cyflwyno teuluoedd i wasanaethau megis Cyw a phartneriaid perthnasol eraill. Yn anffodus yn sgil effaith y pandemig ni lwyddwyd i ymgysylltu cymaint ag ysgolion a ragwelwyd yn wreiddiol, felly nid ydy'r rhaglen i hyrwyddo'r adnodd wedi bod yn weithredol, ond bydd hyn yn ffurfio rhan bwysig o gynllun Cymraeg yn y Cartref gan y Ganolfan Genedlaethol i'r dyfodol. Bydd Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gâr (Prifysgol Aberystwyth) hefyd yn hyrwyddo'r adnodd hwn, ac yn awyddus i gydweithio â Chyngor Ceredigion ac ysgolion lleol yn y sir i gynllunio cyrsiau 'Cymraeg yn y Cartref' yn benodol i rieni, neu i ddenu rhieni i'r cyrsiau cymunedol cyffredinol. Buom yn gweithio'n agos â nifer o ysgolion cynradd yng Ngheredigion i wneud hynny cyn y pandemig, a bwriadwn ail-gydio yn y gwaith hwn cyn gynted ag y bydd amgylchiadau'n caniatáu. Adnabyddir mai rhieni di-Gymraeg sy'n dewis danfon plant i addysg Gymraeg yw'r prif gynulleidfa ar gyfer cyrsiau Cymraeg yn y Cartref. Mae'r cyrsiau Cymraeg yn y Cartref yn aml wedi cynnwys gofalwyr a hefyd staff gofal neu ategol ysgolion, e.e. staff amser cinio, a bu hynny hefyd yn gyfrwng i atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgolion. Cydweithiwn yn agos â Mudiad Meithrin i gynllunio dilyniant ar gyfer rhieni sy'n mynychu sesiynau Clwb Cwtsh. Argymhellwn y dylai'r CySGA gyfeirio at y cyfleoedd hyn a gosod nod i gydweithio â Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr (Prifysgol Aberystwyth).</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn nodi'r awgrymiadau o safbwynt dysgu Cymraeg i rieni.</p>
<p>Cytuno ag addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae datblygu natur ieithyddol y cyfnod sylfaen hyd 7 oed yn ysgolion cylch Aberystwyth a Chei Newydd yn gam naturiol a phwysig wrth i'r disgyblion hynny sydd wedi eu trochi yn y Gymraeg yn y dosbarthiadau meithrin symud i flwyddyn 1 a thu hwnt. Mae angen i'r pwyslais fod ar siarad Cymraeg a chreu hyder ym medrau llafar y disgyblion. Mae creu</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 253

<p>siaradwyr hyderus yn greiddiol yn y cyfnod hwn er mwyn annog dilyniant pellach.</p>	
<p>Bydd angen llawer o waith er mwyn sicrhau digon o staff a fydd yn medru'r Gymraeg. Credaf mai cael staff i gysgodi staff profiadol sydd angen gwella eu sgiliau Cymraeg yw'r ffordd orau er mwyn datblygu iaith thema/benodol y dosbarth.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae Deilliant 7 yn nodi'r camau tuag at gynllunio gweld cynnydd yn nifer y staff sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>Fel y nodwyd yn fy atebion uchod. Gyda mwy o bobl o Loegr yn symud fewn i'r sir. Mae hwn yn amser peryglus iawn i'n iaith a diwylliant.</p>	<p>Mae Ceredigion yn croesawu pobl o bob man i fyw a gweithio yn ein sir. Bydd y CSGA yn fodd o sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg ar gael i bob plentyn ac o ba bynnag gefndir.</p>
<p>Mae'n amlwg fod na fwriad i greu deialog gyda'r ysgolion perthnasol ddylai esgor ar berthynas iach a dealltwriaeth o'r bwriad - cynllun trochi lwyddiannus hefyd i barhau.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Fel cyn Athrawes Fro, roeddwn yn addysgu mewn Canolfan iaith i Hwyrddyfodiaid ac er bod y plant 7-11 oed roeddwn yn eu dysgu yn dod yn siaradwyr o fewn rhyw ddau dymor trwy eu trochi yn y Gymraeg gallwn weld bod brodyr a chwiorydd iau yn dysgu cymaint yn gynt e.e. o fewn tymor. Golygai hyn bod y disgyblion yn gallu dilyn pob gwers yn y dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy feistrol'r iaith yn gynt nid ydynt yn teimlo eu bod yn wahanol i blant eraill.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r camau yma yn angenrheidiol i sicrhau'r Gymraeg fel prif iaith yr ardal. Bydd hefyd yn sicrhau fod gan y plant y sgiliau ieithyddol a'r hyder i ymdopi gyda dysgu ieithoedd eraill hefyd. Mae'r elfen gydweithio gyda'r ysgolion yn glir a'r amserlen yn gadarn. Dengys y strategaeth ymrwymiad i roi chwarae teg i bob disgybl yn ddiwahân er mwyn cynnig yr un fantais ddwyieithog i bawb, ac nid i rai carfanau'n unig. Mae lle i groesawu'n arbennig y buddsoddiad yn y canolfannau iaith a'r gefnogaeth i hwyrddyfodiaid.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Y nod yw sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad i ddwyieithrwydd llawn drwy'r dull trochi. Sicrhau siaradwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg yw'r nod.</p>
<p>Mae'r cyfeiriad at strategaeth Cymraeg 2050 (t. 9) yn sefydlu'n glir taw 'addysg drochi lawn yn y Gymraeg – hynny yw, addysg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Cymraeg yn bennaf – yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd.'</p> <p>Dau gwestiwn allweddol i'w hystyried felly yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> -Beth yw'r model gorau i gynyddu addysg drochi? -Pa drefniadau sydd angen eu rhoi mewn lle er mwyn gwireddu'r nod o gynyddu nifer y plant sy'n mewn addysg drochi? Yn sgil dyfynu Cymraeg 2050, cam rhesymegol fyddai dechrau drwy amlinellu asesiad o gapasiti addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y sir, cynnig camau gweithredu ar sut i ddatblygu, ehangu a chodi ansawdd y ddarpariaeth honno, a sut i hyrwyddo ei gwerth er mwyn sicrhau bod mwy o blant yn derbyn addysg drochi lawn. Fodd bynnag, does fawr sylw i hyn yn y deilliant hwn. Tra bod y camau a awgrymir yn fodd o gynyddu nifer y plant sy'n derbyn eu haddysg dosbarth derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg, nid yw'r bwriad y tu ôl i'r model hwn o gynyddu'r nifer o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn 	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Yn unol â'r hyn a nodwyd yn y ddogfen 'Categori 2 Ysgolion' (a gyhoeddwyd wedi i'r cyfnod ymgynghori statudol ar y CSGA ddod i ben), rhagwelwn y byddai'r ysgolion dan sylw yn datblygu yn rai Categori 2. Byddai'n golygu cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol i gefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Byddai dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrandao yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu'r cyfleoedd dysgu (cwricwlaid ac allgyrsiol) sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr. Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd</p>

Tudalen 254

<p>cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl glir. Y prif reswm yw taw'r prif gamau gweithredu a argymhellir yw datblygu dewis ieithyddol mewn ysgolion sydd ar hyn o bryd wedi'u diffinio fel ysgolion cyfrwng Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg, neu mewn ysgolion sydd eto i ddatblygu defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Felly, mae angen mwy o eglurder o ran union nod y camau hyn o ran datblygiad ieithyddol y plant a'r ysgolion a drafodir ac egluro mwy o ran i sut i fynd ati i wireddu llawn botensial darpariaeth cyfrwng Cymraeg y sir. Fel rhan o'r diffyg eglurder presennol, nid yw'r nod ar gyfer yr ysgolion a restrir ar dudalen 9 yn eglur. Ai'r bwriad yw eu datblygu i fod yn ysgolion dwy ffrwd? Os taw cynnig trochi ieithyddol yn y blynyddoedd cynnar hyd saith oed yn unig yn yr ysgolion yw'r nod a bod y plant wedyn yn cwblhau eu haddysg gynradd yn yr ysgolion hynny trwy gyfrwng y Saesneg, beth yn hollol yw gwerth hynny o ran datblygu dwyieithrwydd? Dangosodd ymchwil arbenigwyr mewn dwyieithrwydd megis Colin Baker taw yn 11 oed y byddai plant mewn addysg drochi yn cyrraedd lefel rhuglder o ran gwranddo a darllen sy'n cyfateb i blant iaith gyntaf ac na fyddent o reidrwydd yn cyrraedd yr un lefel mewn sgiliau llafar ac ysgrifenedig erbyn y pwynt hwnnw. O ganlyniad, mae angen ystyried beth yw sail y cynllun i ddewis canolbwyntio ar ddarparu addysg trochi cyfrwng Cymraeg hyd at 7 oed yn unig o fewn yr ysgolion hyn. Pam nad oes bwriad i barhau i gynnig addysg cyfrwng Cymraeg ar fodel trochi yno tan 11 oed? Rhaid cydnabod hefyd ei bod hi'n anhebygol y bydd plant yn newid ysgol wedi 7 oed er mwyn parhau mewn addysg cyfrwng Cymraeg. O symud ymlaen i wireddu model trochi yn yr ysgolion hyn hyd at 7 oed neu hŷn, bydd gofyn am gynllunio manwl iawn. Ymysg yr elfennau eraill sydd angen eu hystyried ar gyfer yr ysgolion hyn fydd yn wahanol i ysgolion cyfrwng Cymraeg mae:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae'n debyg taw model addysg drochi cyfangwbl fyddai hyn gyda dim/prin plant o deuluoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn wahanol i ysgolion cyfrwng Cymraeg ble mae o leiaf cyfran o blant o deuluoedd cyfrwng Cymraeg - Anghenion hyfforddiant, staffio a chefnogaeth ychwanegol ar lefel sirol i ysgolion wireddu'r model hwn - Natur perthynas rhieni a'r ysgol a natur cefnogaeth i'r plant - Gwrthgyferbyniad rhwng y model addysgu ac elfennau eraill y ddarpariaeth addysgol yr ysgol, awyrgylch ieithyddol o fewn yr ysgol, defnydd iaith plant y tu allan i'r dosbarth. 	<p>cyfrwng Cymraeg Categori 3. Byddai rhan helaeth o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) o flwyddyn 3 – 6 yn Gymraeg. Strategaeth Ceredigion fyddai defnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda'r datblygiad i'w ddarparu wedi'r 7 oed.</p>
<p>Mae angen targedu'r datblygu yn ardal Aberystwyth a Cei Newydd er mwyn sicrhau bod holl blant Ceredigion yn cael mynediad lawn i addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd 7 oed, a byddai estyn Ysgol Gymraeg Aberystwyth gan ychwanegu 30 o lefydd ychwanegol yno a Chanolfan Iaith yn gam ymlaen gan ddilyn llwyddiant Cannolfannau trochi eraill.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae'n hollbwysig fod plant Ceredigion i gyd yn gallu siarad Cymraeg ac mae hynny ond am ddiwydd ydychydag addysg Gymraeg lawn.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 255

Yn anochel fydd mwy yn dod i siarad Cymraeg po gynharaf maent yn dechrau.	Fel yr uchod.
Gorau po fwyaf o blant 3 oed+ sydd gennym, bydd hyn yn cynyddu'r nifer 5 oed sy'n derbyn addysg gyfrwng Gymraeg.	Fel yr uchod.
Mae'r weledigaeth gref o 100% cyfrwng Cymraeg yn un i'w chanmol ac yn sicrhau ecwiti a chyfleoedd cyfartal i bawb. Ni ellir "dewis iaith addysg" os taw ond un iaith sydd gyda chi!	Fel yr uchod.
Yn bendant.	Fel yr uchod.
Er mwyn annog disgyblion i fod yn ddwy-ieithog, mae angen rhoi sylfaen gadarn iddynt. Trwy gynnig addysg Cyfrwng Gymraeg i flwyddyn 1, bydd yn rhoi cyfle i blant ddatblygu ar eu dealltwriaeth o'r Gymraeg o'r hyn maent wedi ei dderbyn yn y meithrin.	Fel yr uchod.
Mae'n bwysig bod plant ifanc yn cael y cyfle i dderbyn addysg yn y Gymraeg. Dyma'r oedran lle maent yn dysgu ieithoedd orau.	Fel yr uchod.
Mae sicrhau bod bob ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn ystod y cyfnod sylfaen yn gam pwysig at sicrhau bod mwy o blant blwyddyn 1 yn cael eu haddysg drwy'r Gymraeg. Gobeithio bydd hyn cynyddu'r galw am addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen sicrhau dilyniant yn dilyn y cyfnod sylfaen.	Fel yr uchod.
Bydd y plant yn fwy tebygol o barhau gydag addysg cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 1 os ydynt wedi derbyn sail gadarn yn eu sgiliau ieithyddol yn barod. Mae angen cynnwys y rhieni yn y broses, fel eu bod yn llwyr ymwybodol o gynnydd eu plentyn yn yr iaith.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn nodi'r sylw am bwysigrwydd cynnwys rhieni am gynnydd eu plant fel sy'n ddisgwyliedig i bod ysgol ei wneud ar hyn o bryd.
Cytuno, mae angen neud gymaint sy'n bosib i gyrraedd y nôd o gael mwy o siaradwyr Cymraeg ac maen bwysig i ddechrau yn ifanc.	Fel yr uchod.
Mae'r targedau yn addas ond heriol. <i>Nid oes eglurhad o sail y targedau yma (na chwaith mewn deilliannau eraill) a heb hwn mae naid sylweddol o 15% rhwng 2024-25 a 2025-26 yn ymddangos yn od.</i>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth ond hefyd am yr eglurder o gwmpas y targedau.
Wrth gwrs yn cyfrannu. Mae'n bwysig iawn i ddisgyblion ifanc cael eu trochi yn yr iaith mor gynnar a phosib.	Fel yr uchod.
Cytuno gyda'r datganiad cychwynnol am 'Cymraeg 2050' sy'n allweddol ond mae rôl yr adran mynediadau yn hwn yn cael ei anwybyddu yma - rhaid cryfhau'r wybodaeth sy'n cael ei rannu gyda rhieni er mwyn iddynt ddeall manteision dewis un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol sy'n medru darparu addysg yn y Gymraeg trwy eu gyrfa ysgol. Bydd creu ysgolion Cymraeg hyd 7 wedyn dwyieithog/ Saesneg yn cymhlethu'r	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth ond hefyd am y manylion pellach a godwyd e.e. o gwmpas rhannu gwybodaeth i rieni, cefnogaeth i ddisgyblion CA3 ayyb.

<p>sefyllfa a rhaid sicrhau bod rhieni o du allan i Geredigion a rhai o du allan i Gymru yn deall y manteision. Mae'r Gymraeg yn iaith i bawb a rhaid sicrhau bod ymgyrch i werthu addysg trwy'r Gymraeg i rieni o bob cefndir cenedlaethol ac ethnig. Rhaid sicrhau ein bod yn cefnogi rheini o gefndiroedd gwahanol fel eu bod yn deall pwysigrwydd yr iaith i ddyfodol eu plant a'u cyfleoedd. Mae'r adran yn cyfeirio at ganolfannau iaith ond nid yw'r rhain yn bwysig i ddisgyblion iau yn unig. Rhaid cael darpariaeth leol ar gyfer disgyblion sydd yn bwriadu trosglwyddo i CA3 neu hwyrddyfodiad sy'n dod i'w ardal yn hwyr yn eu haddysg gynradd / cynnar yn eu haddysg uwchradd neu rieni sy'n gwneud penderfyniad i'w plant trosglwyddo i'r sector. Nodir gloywi uwchradd yn ysgol Bro Teifi ond nid yng ngogledd y sir. Er mwyn staffio'r newid bydd angen cydweithio agos gydag ysgolion uwchradd yn ogystal â cholegau i sicrhau llwybrau i gymwysterau a phrofiadau addas mewn meysydd gofal plant. Bydd rhaid cael ffocws clir ar ddatblygu'r holl weithlu yma - mae cael awyrgylch Cymreig ble mae staff y safle, staff y ffreutur, staff gweinyddol a holl athrawon a chynorthwyr yn meddu'r medrau angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r iaith.</p>	
<p>Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos fod addysg cyfrwng Cymraeg yn arwain at sgiliau ieithyddol mwy cytbwys ar draws y boblogaeth ysgol yn y ddwy iaith swyddogol na'r un model arall o addysgu (ee.dwyieithog neu cyfrwng Saesneg). Mae hyn hefyd i'w weld drwy dystiolaeth mewn gwledydd eraill sydd â dwy iaith swyddogol - y naill yn briod iaith i'r diriogaeth fel y Gymraeg a'r llall yn iaith y wladwriaeth hefyd fel Saesneg. Mae data penodol o Wlad y Basg dros y 40mlynedd diwethaf (ers cyflwyno Basgeg i ysgolion y rhanbarth yn ystod y 1980au) yn dangos y newid yng nghanran y plant a addysgwyd yn y modelau gwahanol dros y degawdau a'r sgiliau yn y ddwy iaith swyddogol. Model A (cyfrwng Sbaeneg gyda Basgeg fel pwnc), Model B (Basgeg a Sbaeneg fel cyfryngau dysgu ac fel pynciau) a Model C (cyfrwng Basgeg a Sbaeneg fel pwnc). Mae cyd-destun sosioieithyddol yr iaith Basgeg yn debyg iawn i'r Gymraeg, gyda rhai plant yn byw mewn cartrefi ble smae'r iaith yn cael ei siarad, eraill yn byw mewn cartrefi Sbaeneg, eraill yn byw mewn cartrefi ble siaredir iaith heblaw Basgeg a Sbaeneg (e.e. Arabeg, Rwmaneg) ac eraill yn byw mewn cartrefi ble siaredir cyfuniad o ieithoedd. Mae Sbaeneg - fel Saesneg - yn iaith ryngwladol gyda llawer iawn o gynnwys ynddi y mae'r dysgwyr yn ei ddefnyddio y tu allan i'r ysgol, ac mae'r cyfuniad hwn - Basgeg fel cyfrwng addysg a Sbaeneg fel iaith sydd a phresenoldeb cryf ym mywydau'r dysgwyr - yn sicrhau fod eu sgiliau dwyieithog mor gytbwys a phosibl wrth iddyn nhw gwblhau addysg statudol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth ond hefyd am yr hyn a nodwyd o ran tystiolaeth ryngwladol sy'n dangos llwyddiant dulliau trochi i sicrhau siaradwyr dwyieithog llawn a chytbwys.</p>
<p>Er mwyn cyrraedd y nod o miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n bwysig bod plant o'r oedran yma yn cael cyfle da i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd ac yn ei gweld fel rhywbeth naturiol iddyn nhw. Mae fy mhlant (7 a 5 oed) yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'n amlwg bod dulliau trochi yn gweithio ymysg eu ffrindiau o gartrefi di-Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth ac am yr enghraifft yma o lwyddiant y dull trochi. Mae'r disgyblion yma hefyd, wrth gwrs, yn gallu troi o un iaith i'r llall yn naturiol gan ddibynnu ar y cyd-destun.</p>

Tudalen 257

<p>Pan mae'r plant yma yn siarad gyda fi a fy mhlant mae nhw'n naturiol yn troi i'r Gymraeg ac yn ei ddefnyddio yn hollol naturiol ac yn rhugl.</p>	
<p>Mae'r camau sydd yn cael eu hamlinellu yn y cynllun yn rhai cyrraeddadwy iawn ac ond yn mynd i fod o gymorth i ddisgyblion yn y pendraw. Mae bod yn ddwyieithog yn cael effaith gadarnhaol ar allu cyffredinol plant i ddysgu.</p>	Fel yr uchod.
<p>Mae dechrau plant yn gynnar yn meddwl bod nhw'n dysgu heb wybod gan bod yr iaith o'u cwmpas i gyd. Mae hyn llawer fwy effeithiol na unrhyw ffordd arall. Os ydyn ni am gyrraedd nod y Llywodraeth a cael cymdeithas lle mae pawb yn medru defnyddio'r iaith yn gymdeithasol, mae'r deilliannau hyn yn syniad da. Mae'r cynlluniau yn synhwyrol ac ond yn mynd i helpu plant.</p>	Fel yr uchod.
<p>Dyw cael addysg drwy'r Gymraeg ddim yn golygu taw dim ond y Gymraeg sy'n cael ei dysgu. Maent dal yn cael gwersi Saesneg a dysgu i ddarllen Saesneg, felly sain gweld problem. Mae e jyst yn rhoi mantais i'r plant o allu bod yn ddwyieithog.</p>	Fel yr uchod.
<p>Mae sicrhau bod bob ysgol yn darparu addysg Gymraeg yn ystod y cyfnod sylfaen yn gam pwysig at sicrhau bod mwy o blant blwyddyn 1 yn cael eu haddysg drwy'r Gymraeg ac mae'n bosib bydd hyn cynyddu'r galw am addysg Gymraeg. Fodd bynnag, mae angen sicrhau dilyniant hyd at addysg uwch. Ni fydd plant o gefndiroedd di-Gymraeg sydd wedi gadael addysg Gymraeg yn 7 oed yn debygol o ddatblygu fel unigolion dwyieithog, ac, mewn gwirionedd, mae'n debygol y byddant yn colli eu sgiliau Cymraeg fel y nodir uchod.</p>	Fel yr uchod.
<p>Er gymaint yr ydym yn croesawu'ch amcanionn ynglŷn â hyn, mae'r deiliant yn amwys am nag ydy'n cyfeirio at unrhyw darged mesuradwy. Mae hyn yn groes i'r Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol mewn Addysg a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg. Hoffai Gymdeithas yr Iaith, Rhanbarth Ceredigion weld 100% o blant yn cael eu haddysg CA1 trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y 5 mlynedd nesaf. Fodd bynnag, mae rhaid pwysleisio nag ydy addysg Gymraeg i fod orffen ar ôl blwyddyn 2. Nodwn mae'r dilyniant trwy gydol yr ysgol yn wael fel y mae, gyda llai a llai o ddisgyblion yn cael addysg Gymraeg wrth iddynt parhau yn yr ysgol. Os na fydd cynnydd nes ymlaen, bydd hyn ond yn creu trothwy fwy rhwng CA1 a CA2.</p>	Fel yr uchod.
<p>Wrth gyflwyno'r Cynllun Iaith i blant meithrin/tair oed tybiaf mai'r broses o fynd o gam i gam yn bwyllog o'r Meithrin i'r Derbyn ac yna i Bl 1 fydd yn cyfrannu'n bositif tuag at y targed o weld cynnydd yn nifer disgyblion Bl 1 fydd yn derbyn addysg drwy'r Gymraeg. Rhaid wrth weithgor/staff hyderus yn y Gymraeg i gyflawni hyn.</p>	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn cytuno bod angen gweithio mewn partneriaeth agos a gyda'r egwyddor o eglurder llawn ar hyd y daith.

Tudalen 258

<p>Mae sicrhau addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth dda pan yn cychwyn ym mlwyddyn 1 a'u bod mewn sefyllfa i fedru datblygu eu defnydd a'u dealltwriaeth o'r Gymraeg ymhellach ym mlwyddyn 1.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rydym yn croesawu'n fawr y weledigaeth a'r cynigion uchelgeisiol sydd wedi'i hamlinellu yn yr adran hon. Mae'r bwriad i weithredu'n arloesol o ran cychwyn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn sicr yn rhoi arweiniad i siroedd eraill yng Nghymru.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'n allweddol bod croesyfeirio clir ac eglur rhwng y Cynllun a'r Cynllun Datblygu Lleol er mwyn dangos pa effaith y bydd hynny'n ei gael ar y galw am addysg Gymraeg. Mae'n rhaid i'r Cynllun ddangos sut y bydd yn ymateb i'r newidiadau hynny a fydd yn rhwym o drawsnewid 7 demograffeg rhannau helaeth o'r Sir dros y blynyddoedd nesaf. Un ystyriaeth fawr arall, yw'r cynnydd tebygol o ran mewnlifiad i'r Sir, a goblygiadau hynny ar y galw am addysg Gymraeg – dyma her a chyfle – ac mae'n debygol o ddwysáu'r angen am ehangu'r gefnogaeth ieithyddol i nifer cynyddol o hwyrddyfodiaid. Credwn y bydd yn rhaid i'r Sir roi lle blaenllaw i hynny wrth lunio a gweithredu'r Cynllun hwn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r manylion pellach sydd wedi'u cynnig.</p>
<p>Cytunwn yn gryf mai addysg drochi lawn yn y Gymraeg yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion dwyieithog, felly mae'r ffaith fod y cynllun hwn wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth honno yn hynod o galonogol. Mae'n amlwg fod yr awdurdod wedi adnabod yr ysgolion penodol ble mae'r mwyaf o botensial am ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae amlinelliad clir o'r camau a'r amserlen ar gyfer cyflawni hynny, gan gynnwys unrhyw geisiadau am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p style="text-align: center;">Sylwadau sy'n anghytuno'n gyffredinol gyda'r amcanion</p>	<p style="text-align: center;">Ymateb Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>Siawns nad dewis y rhieni yw hwn, ac mae'n peryglu swyddi staff di-Gymraeg.</p>	<p>Mae dwy iaith genedlaethol yng Nghymru. Nod yr amcanion yn y cynllun strategol yw i sicrhau bod holl ddisgyblion Ceredigion yn datblygu eu medrau dwyieithog. Cyfrwng fyddai'r Gymraeg yn y cyfnod sylfaen i ddysgu holl agweddau'r cwricwlwm ac nid un pwnc neu faes ynysig. Gan y byddai yna ddosbarthiadau trochi meithrin wedi eu cynllunio yn yr ysgolion dan sylw, yn unol â'r strategaeth, yna fel ag a nodwyd eisoes dan Deilliant 1, byddai cyfrifoldeb rhai o'r lleoliadau nas-cynhelir presennol a ariennir yn newid. Rydym yn gobeithio na fydd effaith negyddol ar aelodau staff. Rydym yn gweld rôl bwysig iawn i aelodau staff y lleoliadau hynny i gynnig lefel sylfaenol iawn yn y Gymraeg i'r plant 2 oed yn eu gofal</p>

Tudalen 259

	<p>cyn iddynt symud ymlaen i'r cam trochi yn yr ysgolion. Nid ydym yn gweld bod angen i unrhyw aelod staff i boeni am hyn. Annog trosglwyddiad sylfaenol o'r iaith y byddem yn gobeithio'i weld yn y lleoliadau hyn cyn i'r plant drosglwyddo i addysg drochi meithrin yn yr ysgolion.</p>
<p>Rwy'n anghytuno â phob agwedd ar y llanastr hwn, lle y mae'r lleiafrif yn diddymu rhyddid rhieni i ddewis.</p>	<p>Fel yr uchod yn ogystal â'r hyn nodwyd eisoes yn Deilliant 1. Mae'r Gymraeg, yn ogystal â'r Saesneg yn iaith genedlaethol yng Nghymru. Cytunwn gyda'r ffaith nad oes gan neb yr hawl yng Nghymru i beidio â dysgu sut i siarad, darllen ac ysgrifennu ynddi os ydynt yn mynychu addysg statudol. Yma yng Ngheredigion, mae'r Cyngor o'r farn bod angen i ddisgyblion gael y cyfle i ddysgu sut i siarad y Gymraeg ac yn credu mai'r dull trochi yw'r dull mwyaf llwyddiannus o wneud hynny.</p>
<p>Mae blwyddyn 1 yn dal i fod yn gynnar iawn yn natblygiad sgiliau darllen, ysgrifennu a siarad plentyn. Fe ddewisais anfon fy mhlant i ysgol cyfrwng Saesneg i gadarnhau'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu o fewn y teulu. Rwy'n teimlo nad ydych wedi ystyried y cymhlethodau y bydd plant a'u rhieni/gofalwyr yn eu hwynebu os byddwch yn gorfodi'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Sut ydym ni i fod i gynorthwyo ein plant i ddysgu a'u haddysgu pan nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf inni?</p>	<p>Mae miloedd o blant o gefndiroedd di-Gymraeg ar draws ysgolion Cymru yn llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae yna wybodaeth ac adnoddau cefnogol ar gael i rieni a byddai ysgolion yn sicrhau bod rhain ar gael.</p>
<p>Beth os yw rhiant yn dewis cael ei blentyn wedi'i addysgu yn Saesneg?</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae'n amlwg bod rhaid ichi gytuno â'r datganiad hwn oherwydd bydd eich gweithredoedd yn sicrhau bod y datganiad hwn yn gywir. P'run a yw rhieni'n dymuno i hynny ddigwydd ai peidio. Ble mae'r dewis, yn enwedig i ddysgwyr Saesneg fel iaith Ychwanegol?</p>	<p>Fel yr uchod. Mae disgyblion o bob cefndir yn llwyddo i ddysgu Cymraeg. Gwelwyd tystiolaeth o hyn o fewn cyd destun ein hysgolion a'n canolfannau iaith i hwyrddyfodiaid.</p>
<p>Mae mwyafrif llethol plant pump oed Ceredigion yn cael eu haddysg yn Gymraeg. Nid oes angen i hyn gynyddu, oherwydd o wneud hynny byddwch yn lleihau dewis sydd eisoes yn gyfyngedig i rieni a phlant.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae llawer o'r pwyntiau a godwyd uchod hefyd yn berthnasol i'r grŵp oedran hwn. Drwy ychwanegu at y problemau ieithyddol uchod, bydd diffyg dewis yn peri iddi fod yn anodd i rieni o ardaloedd â ffactorau amddifadedd lluosog gynorthwyo â gwaith cartref a helpu'u plant. O ystyried bod yr ysbyty a'r brifysgol yn ceisio recriwtio staff o safon uchel o ardaloedd eraill yn Lloegr, yr Undeb Ewropeaidd, yr Unol Daleithiau ac India, ni allaf weld sut y byddai addysg gyfan gwbl Gymraeg i blant pump oed yn economaidd fuddiol i Geredigion, ac i Aberystwyth yn enwedig. Bydd staff yn osgoi Ceredigion os bydd symud yma'n golygu bod gan eu plant lai o ragolygon addysgol pan fyddant yn gorfod gadael ar ôl cwpl o flynyddoedd.</p>	<p>Fel yr uchod ac yn yr hyn a gofnodwyd dan Deilliant 1. Nid oes unrhyw sail bod dysgu iaith yn cyfrannu at broblemau dysgu nac ychwaith at ddyfodol o gyfleoedd cyfyngedig. Mae tystiolaeth eang a rhyngwladol yn dangos bod dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael.</p>

Tudalen 260

<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar yr opsiynau Saesneg yn unig, rydych chi'n diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu hawl pobl i ddewis pan fo'r dewis eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw yn ddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>Fel yr uchod. Nid ydym yn gweld bod angen i neb ystyried iaith arall fel rhywbeth negyddol. Dwyieithrwydd llawn yw'r nod ac mae siarad y Gymraeg a'r Saesneg yn rhan o hynny.</p>
<p>Mae'r gweithredoedd yn gorfodi plant i gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn anghywir ac mae'n rhaid bod dewis. Dylid canolbwyntio ar gynorthwyo ac annog rhieni i ddewis ysgol cyfrwng Cymraeg os mai dyna sy'n iawn i'w plentyn nhw, yn hytrach na gorfodi plant i ddysgu Cymraeg drwy gael gwared ar unrhyw opsiwn arall.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Rwy'n credu y dylai plant allu cael eu haddysg yn yr iaith y maent yn gyfarwydd â hi. Bydd rhai plant yn ei chael yn anodd iawn dysgu a ffynnu os nad ydynt yn gallu cael addysg drwy gyfrwng yr iaith y maent yn ei deall. Mae plant sy'n mynd i feithrinfa'n dechrau dysgu llythrennau a ffoneg. O'u dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd yn eu drysu ac yn peri rhwystredigaeth iddynt. Mae rhai plant yn ei chael yn anodd darllen, ysgrifennu a chyfathrebu yn eu hiaith eu hunain, felly nid oes amheuaeth y byddant yn ei chael yn anodd os byddant yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, gall rhieni ddewis bod eu plant yn dysgu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Os caiff y newidiadau hyn eu gwneud, ni fydd unrhyw ddewisiadau i rieni anfon eu plant i ysgol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Saesneg. Felly, ni chaiff y plant hyn gyfle i ddysgu yn yr iaith y maent fwyaf tebygol o ffynnu ynddi. Byddwch yn eu hamddifadu o fynediad teg at addysg. Mae XXXX yn ysgol boblogaidd. Pe na bai angen/galw am ysgol cyfrwng Saesneg, ni fyddai cymaint yn mynd iddi. Mae disgyblion wedi ymuno â dosbarthiadau fy nau blentyn o ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol oherwydd eu bod yn ei chael yn anodd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n amlwg bod galw am ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth.</p>	<p>Fel yr uchod a'r hyn gofnodwyd yn Deilliant 1.</p>
<p>Mae'r camau a nodir yn cyfrannu at hyn, ond nid wyf yn cytuno â'r strategaeth hon a byddai'n dal i fod arnaf eisiau cael dewis o ran addysg fy mhientyn.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae'n amlwg y bydd, ond nid yw'r adran "ble rydym ni nawr" yn sôn o gwbl am pam fod rhieni'n dewis ysgolion Saesneg gyda darpariaeth Gymraeg. A oes tystiolaeth glir mai diffyg darpariaeth yw'r rheswm? Neu ai eu dewis sy'n peri problem i'r Cyngor fan hyn?</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Os na fyddwch ond yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn un, bydd mwy o ddisgyblion blwyddyn un yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 261

<p>Fel y nodwyd uchod, ar hyn o bryd nid wyf yn credu bod fawr ddim tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cynradd yng Ngheredigion. Gan fod 73% o'r plant yn yr ystod oedran hon eisoes yn defnyddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bod y gweddill yn defnyddio darpariaeth ddwyieithog, ni allaf weld bod angen cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion. Mae gennyf bryderon bod y targed o sicrhau bod 100% o'r ddarpariaeth gynradd yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg erbyn 2026 i bob pwrpas yn diddymu hawl rhieni i ddewis sut y mae eu plentyn yn cael ei addysgu. Gallai hefyd ddiddymu rhyddid plant i allu eu mynegi eu hunain yn eu dewis iaith, rhywbeth a ddylai fod yn egwyddor sylfaenol o ran darparu'r Cyfnod Sylfaen. Mae gennyf hefyd bryderon sylweddol y gallai'r polisi hwn beri i blant rhieni di-Gymraeg fod dan anfantais, oherwydd ni fydd modd i'r rhieni gynorthwyo'u plant i feithrin eu sgiliau darllen ac ysgrifennu ar ddechrau'u haddysg. Rwyf hefyd yn credu bod posibilrwydd y gallai'r targed o sicrhau bod 100% o'r ddarpariaeth i blant hyd at saith oed yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg atal teuluoedd di-Gymraeg rhag symud i Geredigion.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae mynnu bod pob plentyn tair oed yn mynd i feithrinfa cyfrwng Cymraeg yn unig yn mynd i greu gwrthdaro ar gyfer plant a rhieni nad ydynt ond yn siarad Saesneg (neu iaith arall heblaw'r Gymraeg) gartref. Rwy'n anghytuno ac yn pryderu am eu gallu i gael "mynediad" at addysg yn y lle cyntaf os yw'n cael ei darparu mewn iaith nad ydynt yn rhugl ynddi. Rwyf hefyd yn eithriadol o bryderus na fydd y dull hwn o weithredu'n cael ei asesu. Y cwestiwn yw sut y bydd ADY yn cael eu pennu; ai disgybl sy'n siarad Cymraeg annigonol iawn neu ddisgybl y mae angen ymyrraeth gynnar arno ar fyrder?</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Nid wyf yn deall y cwestiwn. Os byddwch chi'n bwrw ymlaen â hyn, siawns na fydd gan fwy o blant o oedran derbyn ddewis ond cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yng Ngheredigion. Nid wyf yn gwrthwynebu cynnwys y Gymraeg fel rhan annatod o addysg y blynyddoedd cynnar/addysg gynradd, ond mae'n anghywir dileu Saesneg, ac eto dehongli hyn fel 'dewis'.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Nid yw'r targed o 100% yn ddigon hyblyg. Mae'n uwch na'r targed cenedlaethol ac efallai na fydd yn briodol i bawb. Dylai fod dewis.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Gallwch gynyddu'r Gymraeg mewn lleoliad dwyieithog, ond nid wyf yn cytuno â lleoliad cyfan gwbl Gymraeg ar gyfer plentyn. Ni fyddai arnaf i eisiau hyn ar gyfer fy mhientyn ieuengaf.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Eto, mae llawer o'r rhieni yr wyf wedi siarad â nhw yn bwriadu symud o Geredigion, ac o bosibl o Gymru, os bydd y cynnig hwn yn cael ei roi ar waith. Nid wyf yn rhagweld y bydd llawer</p>	<p>Fel yr uchod a'r hyn gofnodwyd yn Deilliant 1.</p>

Tudalen 262

<p>o rieni a fyddai fel arall wedi addysgu eu plant yn Saesneg yn bennaf yn fodlon eu haddysgu yn hytrach yn Gymraeg.</p>	
<p>Mae teuluoedd Cymraeg eu hiaith yn peri anfantais i'w plant os ydynt yn cael llai o fynediad at yr iaith fyd-eang, Saesneg. Dylid cynorthwyo pob plentyn yn y ddwy iaith a'u derbyn am yr hyn ydyn nhw, nid pwy sy'n cydweddu â'r agenda wleidyddol bresennol.</p>	<p>Nid oes yna unrhyw gofnod yn y cynllun yn nodi nad yw'r Saesneg yn bwysig. Y nod yw gweld disgyblion Ceredigion yn gwbl ddwyieithog yn ieithoedd swyddogol Cymru sef y Gymraeg a'r Saesneg. Ydy, mae'r Saesneg yn iaith ryngwladol. Dydy'r rhan fwyaf o ieithoedd y byd ddim felly ond dydy hynny ddim yn eu gwneud yn llai pwysig nag yn llai gwerthfawr. Nid ydym yn cytuno mai agenda wleidyddol sy'n gyrru'r datblygiad hwn.</p>
<p>A minnau wedi dysgu'n lleol am sawl blwyddyn ac yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd yn fy swydd bresennol, rwy'n gwybod bod prinder difrifol o athrawon yn gyffredinol, heb sôn am athrawon sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai'r athrawon hynny sy'n agosáu at oedran ymddeol nad ydynt yn teimlo'n hyderus i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg adael eu swyddi. A fydd athrawon eraill yn colli eu swyddi os na allant ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg? A ydych chi wedi ystyried faint y bydd hyn yn ei gostio o ran tâl diswyddo a diswyddo annheg, gan eich bod i bob pwrpas yn newid telerau ac amodau'r swydd?</p>	<p>Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynnig, y bwriad yw y byddai'r datblygiad yn cael ei gyflwyno'n raddol fel y mae'r CSGA drafft yn ei nodi. Byddai disgyblion 3 oed yn cael mynediad i'r dull trochi yn gyntaf ac yna'n parhau felly hyd 7 oed. Ni fyddai unrhyw effaith ar ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn her. Mae hon yn her ledled Cymru. Mae Deiliant 7 y CSGA yn cyfeirio'n benodol at hynny. Ni fyddai unrhyw athro yn cael ei effeithio gan y datblygiadau yn y strategaeth. Mae'n ddyletswydd ar y cyngor i recriwtio a chefnogi staff o fewn ei ysgolion e.e. anghenion hyfforddi ayyb.</p>
<p>Wel, mae'n cyfrannu at y targed, ond eto, mae'n symud oddi wrth ddwyieithrwydd.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Maen nhw – nid yw'n golygu bod hynny'n iawn. Nid wyf yn gweld pam fod Llywodraeth Cymru'n gwahaniaethu yn erbyn Saesneg, mae'n annoeth.</p>	<p>Nid yw'r Cyngor yn cytuno bod y datblygiadau yn rhagfarnu yn erbyn y Saesneg. Y nod yw sicrhau dwyieithrwydd llawn i ddinasyddion ardal o Gymru ble mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd bob dydd.</p>
<p>Wrth i ddysgu ddod yn fwy heriol, mae gwneud hynny mewn iaith nad yw'n cael ei siarad na'i deall gartref yn cynyddu'r her honno'n esbonyddol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon ynglŷn â gallu rhieni di-Gymraeg i helpu gyda dysgu eu plant. Ledled Cymru, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cyflwyno llawer o strategaethau i helpu rhieni i gefnogi eu plant gyda'u dysgu, gan sicrhau nad yw disgyblion i rieni di-Gymraeg o dan anfantais. Hefyd, dangoswyd ei bod o fudd i blant allu trafod eu dysgu yn Saesneg gyda'u rhieni oherwydd bod dwyieithrwydd yn cynorthwyo datblygiad cysyniadol. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â gweithredu'r datblygiadau, byddai'n gweithio gyda'r ysgolion yn rhan o'r broses bontio i nodi'r cymorth sydd ei angen ac i sicrhau bod trefniadau ar waith i gynnig darpariaeth briodol i gefnogi rhieni / teuluoedd. Gallai hyn gynnwys gwersi Cymraeg i rieni, defnydd effeithiol o TG i ddarparu cymorth gyda dysgu cartref, adnoddau</p>

Tudalen 263

	ychwanegol, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned a mentrau eraill.
<p>Heb sylfaen gadarn, nid yw dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond yn mynd i fynd yn anoddach wrth i'r pwnc a'r disgwyliadau fynd yn gynyddol gymhleth.</p>	Fel yr uchod.
<p>Rwy'n cytuno y byddwch yn bodloni targed Cyngor Sir Ceredigion (CSC) gyda'r polisi hwn, ond nid dyna'r broblem fan hyn. Mae'r targed o 100% yn anghywir, dyna'r broblem. Nid yw Llywodraeth Cymru'n gofyn i CSC am 100%, ond am gynydd o 83% i 87%. Mae popeth sy'n 100% yn unbeniaethol ac yn peri anfantais i rywun. Nid mudwyr o Loegr i Gymru fydd y rheini a fydd dan anfantais o ganlyniad i ddarparu 100% o'r addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngheredigion – maent yn fodlon anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg eisoes, gan groesawu manteision dwyieithrwydd (maent yn darparu ar gyfer llythrennedd Saesneg yn y cartref). Plant mewnfudwyr nad ydynt yn siarad Saesneg, fel minnau, fydd yn dioddef. Drwy iddynt beidio â siarad Saesneg gartref a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn yr ysgol, bydd y plant hyn dan anfantais yn economi fyd-eang yr 21ain ganrif. Bydd y cynllun hefyd yn peri i blant tlotach Cymraeg eu hiaith– y byddai rhai o'u plith yn mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg – fod yn anllythrennog yn y Saesneg. Yn olaf, bydd cymuned gyfan y sir yn dioddef. Yn gyntaf, mae llawer o weithwyr gofal plant ac athrawon – wedi'u geni a'u magu yng Nghymru – nad ydynt yn gallu gwneud eu swyddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Mae syniad CSC y byddant yn mynd ar gyfnod sabothol i ddal i fyny yn hurt. (Rwyf wedi bod yn gweithio ar fy Saesneg ers degawdau ac ni fyddwn yn gadael i mi fy hun ddysgu plant ifanc sy'n datblygu eu sgiliau ieithyddol o hyd, oherwydd mae'n anochel y byddwn yn trosglwyddo gwallau iddynt.) Yn ail, bydd y gymuned yn dioddef oherwydd bydd Ysbyty Bronglais a Phrifysgol Aberystwyth yn ei chael yn anodd recriwtio staff proffesiynol o'r tu allan i'r sir / wlad. Eu plant nhw, yn bennaf, sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg Aberystwyth ar hyn o bryd. I ddarlunio'r sefyllfa, ni fyddwn i fyth yn dod yma gan wybod na fyddai fy mhlentyn yn gallu mynd i ysgol cyfrwng Saesneg. Rwy'n caru'r syniad y byddai'n dysgu Cymraeg, ond dim ond yn ychwanegol at Saesneg.</p>	<p>Mae gweld datblygiad yn yr ysgolion a enwyd yn y cynllun yn golygu bod 100% o holl blant 5 oed (Derbyn) Ceredigion yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cyngor o'r farn mai gweld datblygiad ar y cyd yw'r dull gorau o symud ymlaen yn effeithiol. Mae tystiolaeth eang yn dangos nad yw dysgu iaith drwy'r dull trochi yn creu anfantais. Yn wir, mae'n dangos manteision clir dwyieithrwydd. Nid yw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dileu'r Saesneg. Mae'r Saesneg yn rhan greiddiol a gorfodol o'r cwricwlwm. Mae disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg fod yn cyrraedd yr un safonau yn eu medrau Saesneg ac y mae eu cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae'r dystiolaeth ar draws Cymru yn dangos bod plant o bob cefndir ieithyddol yn llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Maent yn ddisgyblion sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn gweld rôl bwysig iawn i aelodau staff presennol y lleoliadau blynyddoedd cynnar i sefydlu geirfa sylfaenol iawn y Gymraeg gyda'r plant yn eu gofal cyn eu bod yn trosglwyddo i addysg drochi yn yr ysgolion lleol. Credwn bod cyflwyno e.e. geirfa a chaneuon sylfaenol fel hyn o fewn cyrraedd a gallu pawb yn y system. Ni fyddem yn disgwyl i'r aelodau staff yn y lleoliadau hyn (plant 2 oed) fod, o angenrhaidd yn siaradwyr y Gymraeg. Yn wir, ni fyddai gan yr awdurdod lleol unrhyw reolaeth dros hynny ond byddem yn gobeithio y gallem gydweithio i geisio bod y lleoliadau yn fan cychwyn cadarnhaol o safbwynt ieithyddol ac o ran gofal y blynyddoedd cynnar.</p>
<p>Rwy'n cael hyn yn anodd iawn oherwydd rwy'n cytuno ei fod yn cyfrannu at gynyddu nifer y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, ond rwy'n anghytuno'n llwyr â'r targed! Nid yw'n ymddangos bod cyfle i anghytuno â'r polisi o addysg drochi yn y Gymraeg.</p>	<p>Fel yr uchod. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn sgil yr ymgynghoriad statudol hwn yn dyst bod pobl wedi bod yn barod iawn i fynegi eu barn, boed hynny o blaid neu yn erbyn y datblygiadau a gynlluniwyd yn y CSGA drafft. Bydd cyfnod o ymgynghori pellach wrth i'r datblygiadau fynd i'r cam nesaf.</p>
<p>Mae'r cwestiwn uchod (Pwynt 5; Deilliant 2; Cwestiwn 1) wedi'i eirio'n wael iawn ac mae'n gamarweiniol iawn. Os yw'r cyngor yn mynnu bod pob plentyn yng Ngheredigion yn cael addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y mae'r cynllun arfaethedig yn ei wneud), yna nid yw ond yn bosibl ateb "cytuno". Bydd y targed yn sicr o gael ei gyflawni, ond bydd yn effeithio'n eithriadol o negyddol ar lesiant a</p>	Fel yr uchod.

Tudalen 264

<p>chyrraeddiad addysgol y plant hynny am y rhesymau yr wyf eisoes wedi sôn amdanynt yn yr ymateb i bwytiau 2 a 4. Os yw'r cyngor am feddwl am blant fel gwrthrychau ei dargedau yn unig, bydd bwrw ymlaen â'r cynllun yn cyflawni'r swyddogaeth honno. Ar y llaw arall, os yw eu llesiant a'u haddysg o bwys iddo, ni fydd yn eu rhoi drwy'r arbrawf peryglus hwn.</p>	
<p>Eto, rwy'n cytuno y bydd y cynllun hwn yn sicrhau y bydd plant yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nid wyf yn cytuno mai hon yw'r ffordd gywir o weithredu.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Bydd. Yn amlwg, os byddwch yn cael gwared ar yr holl addysg cyfrwng Saesneg yng Ngheredigion i rai 3-7 oed, bydd o reidrwydd yn cynyddu nifer y disgyblion blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, mae angen deall effeithiau ehangach hyn. Gallai'r polisi drafft fod yn niweidiol iawn i ddatblygiad addysgol plant a fyddai fel arall yn dewis mynd i ysgol cyfrwng Saesneg drwy gydol eu haddysg. Mae'n debygol y bydd yn lleihau mynediad at addysg oherwydd, o gael eu dysgu mewn iaith sy'n wahanol i brif iaith y cartref, ac un y maent yn llawer llai hyddysg ynddi, bydd yn amlwg yn cael amrediad eang o effeithiau. Yn wir, mae diffyg dirnadaeth o hyn yn y polisi drafft, a'r effaith ar lesiant a datblygiad craidd plant, yn peri pryder eithriadol. Cofiwch – dylai addysg statudol ganolbwyntio ar ddysgu a datblygu ar raddfa eang. Bydd y polisi arfaethedig yn peri i'r iaith fod yn ganolbwynt a bydd yn niweidio datblygiad yn y blynyddoedd hollbwysig hyn. Mae'n amlwg yn anghywir.</p>	<p>Fel yr uchod ond mae'r Cyngor am nodi mai cyfrwng y byddai'r Gymraeg drwy'r dull trochi i ddysgu ac addysgu holl feysydd Cwricwlwm i Gymru sy'n addas i ddisgyblion 3-7 oed. Nid ond dysgu iaith y byddai'r disgyblion hyn ond yn dysgu drwy iaith.</p>
<p>Mae'n amlwg y byddai'r cam yn cyfrannu at gynyddu niferoedd y disgyblion Blwyddyn 1 sy'n dysgu yn Gymraeg oherwydd rydych chi'n peri i hynny fod yn orfodol! Eto, rydych chi'n gofyn y cwestiwn anghywir... dylech ofyn 'A yw yn syniad da?' Mae llawer o blant Ceredigion eisoes yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, felly i gynyddu niferoedd y disgyblion sy'n gymwys yn y Gymraeg, dylai pob lleoliad fod yn ddwyieithog. Mae'n hollbwysig addysgu sgiliau darllen ym mlynnyddoedd 1 a 2 ac yn y dosbarth derbyn, ac yn ddelfrydol dylid gwneud hynny yn iaith y cartref fel nad yw'r rhai â gallu islaw'r cyfartaledd dan anfantais. Os na fydd disgyblion yn dechrau darllen Saesneg tan Gyfnod Allweddol 2, yna bydd angen arian ac adnoddau i sicrhau bod athrawon yn y Cyfnod Allweddol hwn yn gymwys i ddysgu darllen a fhoneg, eto i sicrhau na wahaniaethir yn erbyn y rheini o gefndiroedd difreintiedig a'r rheini â gallu is.</p>	<p>Defnyddir y term 'dwyieithog' weithiau i ddisgrifio'r ddarpariaeth yn rhai o ysgolion Ceredigion. Mae hyn yn gamarweiniol. Mewn ysgolion Saesneg yn bennaf ble addysgir y Gymraeg fel ail iaith, eithriadau prin yw'r disgyblion sy'n dod yn ddwyieithog h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai 'dwyieithog' felly yn derm mwy priodol i ddisgrifio ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle mae pob disgybl sy'n defnyddio'r ysgol yn dod yn ddwyieithog h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. O ran darllen Saesneg, mae disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg led-led Cymru yn llwyddo i wneud hynny gan ddarllen yn rhugl erbyn iddynt gyrraedd 11 oed (fel sydd yn ddisgwyliedig) ac yn gyson gyda disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg. Y nod yw sicrhau dysgwyr sy'n ddwyieithog ac felly yn gallu cael mynediad i gyfoeth o lyfrau a thestunau yn y ddwy iaith.</p>
<p>Nid wyf yn cytuno bod angen newid.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Dyna gwestiwn twyllodrus arall – mae'n hunangyflawnol.</p>	<p>Fel yr uchod. Mae'r ymatebion sydd wedi dod i law yn sgil yr ymgynghoriad statudol hwn yn dyst bod pobl wedi bod yn barod iawn i fynegi</p>

Tudalen 265

	<p>eu barn, boed hynny o blaid neu yn erbyn y datblygiadau a gynlluniwyd yn y CSGA draft. Bydd cyfnod o ymgynghori pellach wrth i'r datblygiadau fynd i'r cam nesaf. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau penodol am y cynllun drafft y CSGA ac am y deilliannau perthnasol.</p>
<p>Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y camau hyn i gynyddu adnoddau i gyflawni unrhyw un o'r targedau uchelgeisiol hyn. Heb adnoddau ychwanegol, bydd yr holl sgiliau, pynciau a datblygiad yn cael eu gwanhau.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Byddai cofnod manwl o'r adnoddau fyddai eu hangen i wireddu'r datblygiadau yn y CSGA drafft yn dilyn wedi i'r CSGA gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.</p>

Tudalen 266

Deiliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall (gweler isod yr ymatebion i C1)

Cwestiwn 1 – Mae 'Cwricwlwm i Gymru' yn nodi'n glir bod angen i ddisgyblion ddilyn continwmm ieithyddol bendant. Ydych chi'n credu bod y gweithredoedd a nodir yn sicrhau'r dilyniant hwnnw?

Sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r amcanion ond sydd hefyd yn cynnig ystyriaethau pellach	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion
Ydy.	Nodwyd y sylw.
Ydw. Mae'n bwysig iawn sicrhau dilyniant o ran y cyfleoedd hyn. Mae gennyf lawer o ffrindiau a aeth i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ond a benderfynodd (yn achos y mwyafrif, oherwydd nad oedd eu rhieni'n gallu siarad Cymraeg) fynd i Ysgol XXXX yn hytrach nag Ysgol XXXX. Erbyn hyn, maent yn dweud mai'r hyn y maent yn gresynu ato fwyaf o ran eu haddysg yw'r ffaith na fu iddynt gael eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Er eu bod yn dal i allu cael sgysiau elfennol yn Gymraeg, maent yn sôn am y ffordd y mae hyn wedi effeithio ar eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol (oherwydd i'w gallu i ddysgu yn Gymraeg gael ei ffrwyno ar ddiwedd yr ysgol gynradd), a'r ffordd y mae wedi effeithio ar eu rhagolygon gyrfa ar ôl dychwelyd i Geredigion i fyw ac i weithio. Maent yn bwrw golwg yn ôl ac yn dweud y byddai'n dda ganddynt pe baent wedi cael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Continwmm ieithyddol yn hollbwysig i gynnal diddordeb yn y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Mae hybu dilyniant ar gontinwmm ieithyddol yn nod cymeradwy iawn sydd o les i'r dysgwyr unigol ac yn cyd-fynd gyda'r Cwricwlwm i Gymru.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Sicrhau dilyniant o ran y ddarpariaeth i blant 7+, gan adeiladu ar y sylfeini cadarn sy'n cael eu gosod gan y darparwyr presennol. Digon o gymorth i sicrhau bod modd i hyn ddigwydd.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Ymddengys fod y Cwricwlwm yn hanfodol i gyflawni hyn.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Yn sicr mae dilyniant wrth ddysgu unrhyw beth yn hanfodol ac er mwyn caffael unrhyw sgil rhaid wrth hynny, Nid drwy hap a damwain mae dysgu popeth a rhaid wrth y camau a strategaeth priodol er mwyn adeiladu ar y seiliau cadarn a osodir yn y Cyfnod Sylfaen.	

Tudalen 267

<p>Mae'r dyhead i wella'r cyfraddau dilyniant yn amlwg a bydd angen cydweithrediad llwyr yr ysgolion cynradd ac uwchradd. O gynyddu'r cyfraddau dilyniant, bydd yn cefnogi'r cyfle i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-16, gan gynnwys mewn addysg uwch.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Ydw, ond nid wyf yn teimlo y gall y sir gefnogi'r hyn y mae'n ceisio'i wneud a rhoi addysg dda i'n plant.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Yng Ngheredigion mae yma dîm ymroddedig ac arbenigol o staff i gefnogi arweinwyr ysgol, athrawon a chymorthyddion addysgu yn eu gwaith wrth gyflwyno addysg ac adnoddau o'r radd flaenaf yn y ddwy iaith.</p>
<p>Angen annog y plant (a'r rhieni) i barhau gyda'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Yn Gymraeg, ydw. Yn Saesneg, nac ydw, Felly, yn ddwyieithog, nac ydw.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Byddai'r disgyblion yn gwneud cynnydd wrth iddynt symud ar hyd y continwmm ieithyddol arfaethedig. Fodd bynnag, bydd yn bwysig ariannu'r Cwricwlwm i Gymru oherwydd bydd angen hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar ein staff a bydd angen adnoddau Cymraeg ar yr ysgol i gefnogi'r continwmm ieithyddol. Byddai clybiau gwaith cartref cyfrwng Cymraeg yn ddarpariaeth ychwanegol a fyddai'n cael ei chroesawu i gynorthwyo disgyblion o gartrefi di-Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac yn cytuno bod angen cefnogaeth amrywiol ar yr ysgolion wrth weld cynnydd yn y ddarpariaeth Cymraeg.</p>
<p>Fel y dywedwyd eisoes, mae angen bod yn glir a chynllunio'n bwrpasol ar gyfer trefniadau pontio sy'n gwreiddio'r Gymraeg fel rhan o lesiant a chyrraedd ad-dysgol ehangach pob disgybl.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Byddwn yn nodi fan hyn nad yw plant uwchradd yn enwedig yn defnyddio'u Cymraeg tu hwnt i amgylchedd cul yr ysgol. Dylid gwneud rhywbeth i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ond yn bwysicach na hynny, mae angen cyfleoedd ar bobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg tu allan i'r amgylchedd cul a ddarperir gan ysgolion. Byddai'n fuddiol pe bai gweithleoedd, clybiau ieuenctid a gweithgareddau hamdden ar gael yn Gymraeg, fel nad oes raid iddynt deimlo bod angen newid i'r Saesneg yn llwyr.</p>	<p>Mae'r hyn a gofnodwyd yn Deilliant 5 y CSGA yn mynd i'r afael â hyn. Mae cael disgyblion i fod yn hyderus wrth siarad y Gymraeg a gweld gwerth ynddi yn hynod bwysig. Maent felly yn fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol.</p>
<p>Mae'r gweithredoedd yn yr arfaeth yn argoeli'n ffafriol tuag at hyn, ond mae'r rhain yn weithredoedd anodd iawn oherwydd eu bod yn ddibynnol ar hyfforddi staff digonol ar gyfer safon dda, a hefyd newid agweddau disgyblion, rhieni ac athrawon. Mae ffigurau 2017/18 a 2018/19 ar gyfer disgyblion Mamiaith ac Ail iaith diwedd CA3 yn gosod sail da ar gyfer adeiladu arno oherwydd bod 100% o'r disgyblion yn dilyn naill drywydd addysg neu'r llall – does neb yn disgyn drwy'r rhwyd a heb gael ei asesu yn y Gymraeg. Mae cynlluniau clir ar y gweill ar gyfer datblygu continwmm ieithyddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • o'r cyfnod sylfaen drwy gyfnod allweddol 2 yn yr ysgolion mwy Seisnig; 	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 268

<ul style="list-style-type: none"> • ehangu ar ddarpariaeth CA3 cyfrwng Cymraeg; • anelu at sicrhau dilyniant ym Mathemateg a Gwyddoniaeth ym XXXX trwy gydweithio; yn ogystal â • sicrhau darpariaeth lawn ôl 16. <p>Mae hyn oll yn cadarnhau bod cynllun datblygedig ar waith. Rhaid canmol y weledigaeth gyfoes yn y targed o gynllunio cynnydd mewn disgyblion sy'n cael eu hasesu mewn pynciau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd; ac 'adeiladu ar hyder disgyblion CA3 drwy gefnogaeth hyfforddiant sirol, cefnogaeth allgyrsiol, cefnogaeth gwaith cartref (datblygiad 'ap' ar lefel sirol/genedlaethol), hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff a disgyblion blwyddyn 7, 8 a 9 ayyb) gyda chyswllt pendant yma gydag ymgyrch HYDER sirol.' Mor hanfodol yw mynd ar ôl dulliau megis 'ap', cefnogaeth gwaith cartref ayyb.</p>	
<p>Eto, heb sylfaen gadarn, mae addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn ymddangos yn annhebygol iawn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae cryn feddwl wedi mynd i'r gweithredoedd hyn, ac maent yn rhoi cyfleoedd cyraeddadwy i blant ddod yn gyfan gwbl ddwyieithog drwy gydol eu taith addysgol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae cryn feddwl wedi mynd i'r gwaith hwn. Yn sicr mae'r gweithredoedd hyn, os y cant eu hariannu'n ddigonol ynghyd ag adnoddau dynol hanfodol, yn siwr o o sicrhau'r dilyniant hyn. Rhaid wrth sail gadarn yn y cyfnod Sylfaen wrth gwrs, fel bo'r agwedd a'r 'normaleiddio' ac wedi ei sefydlu. Mae rôl y rhanddeiliaid yn hynod bwysig.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cytuno gyda'r angen i sicrhau dilyniant wrth drosglwyddo o un cyfnod o addysg statudol i'r llall. Rydyn ni'n ymwybodol o'r colli tir sy'n digwydd yn genedlaethol o safbwynt ieithyddol wrth drosglwyddo o un cyfnod allweddol i'r nesaf, yn enwedig o'r cynradd i'r uwchradd, ac ar ddiwedd CA3. Rydyn ni'n cefnogi'r gweithredoedd a nodir er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae sicrhau dilyniant o un cyfnod i'r llall wedi bod yn her ers nifer o flynyddoedd ac mae'n parhau felly. Nawr, mae'n dda gweld bod y cynllun hwn yn cynnwys camau gweithredu clir i geisio mynd i'r afael a hyn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Yn yr Arolwg i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Awst 2021) argymhellwyd y dylai'r Ganolfan a Llywodraeth Cymru gwmpasu ehangu'r ddarpariaeth a'r cylch gwaith i gynnwys pobl 16-25 oed sydd wedi astudio'r Gymraeg fel pwnc yn y sector ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i weithredu'r argymhelliad hwn yng Nghynllun Gweithredu Cymraeg 2050 ar gyfer 2021 i 2026. Mae'r Cynllun yn cynnwys y pwynt gweithredu canlynol: Datblygu cynigion i warantu bod pobl ifanc 16 i 25 oed yn gallu cael mynediad am ddim i gyrsiau Cymraeg i oedolion, er mwyn iddyn nhw allu adeiladu ar y sgiliau a gawson nhw drwy addysg statudol, fel bod gan bob person ifanc yr un cyfle i ddod yn siaradwr hyderus. Yn ei hymateb i'r argymhellion,</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r manylion sydd wedi'u cynnwys.</p>

Tudalen 269

<p>ychwanega'r Llywodraeth: Ar hyn o bryd darparu gwersi Dysgu Cymraeg i oedolion dros 18 mlwydd oed sydd yng nghylch gorchwyl y Ganolfan. I sicrhau bod y Ganolfan yn gallu chwarae rhan lawn mewn gwireddu'r polisi hwn, fe fyddwn yn edrych i ymestyn cylch gorchwyl y Ganolfan i gynnwys oed 16 i 18. Byddwn yn trafod gweithrediad y polisi hwn gyda'r Ganolfan i sicrhau bod rhanddeiliaid eraill o'r sectorau ysgolion, addysg bellach, ac addysg uwch yn cael eu cynnwys yn y cynllunio. Fel darparwr rhanbarthol, mae Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr (Prifysgol Aberystwyth) yn awyddus i gydweithio â phartneriaid lleol i wireddu'r amcan hwn, ac awgrymwn y byddai'n fuddiol i ystyried y cyfleoedd hyn yn CySGA Ceredigion.</p>	
<p>Bydd continiwm yn sicrhau nad oes bylchau yn eu datblygiad. Pwysigrwydd y Gymraeg ar draws y Cwricwlwm.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r bwriad i ddatblygu ysgolion uwchradd yn unol â'r categoreiddio diwygedig (LIC) yn holl-bwysig er mwyn i bopeth oddi mewn i'r system e.e. continwmm ieithyddol Cwricwlwm i Gymru, blethu i'w gilydd a sicrhau nad rhywbeth ymylol yw'r Gymraeg yn y sector hwnnw. Mae hyn, unwaith yn rhagor yn mynd i gyfrannu at hyder y disgyblion fel siaradwyr dwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Credaf y bydd angen canllawiau clir o ran canran y gwersi fydd yn cael eu dysgu yn Gymraeg/ Saesneg er mwyn sicrhau chware teg parhaol i'r Gymraeg o un cyfnod i'r llall.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Bydd y ddogfen 'Canllawiau ar gatedoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru) yn arweiniad ar yr hyn a nodwyd am hyd a lled y ddarpariaeth Cymraeg.</p>
<p>Yr ydwyf yn dod nol i'r un ateb . Yr ydyn mewn amser peryglus iawn i'n iaith a'n diwylliant ac ein treftadaeth.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae'n amlwg fod na ystyriaeth i fwriadau clir y cwricwlwm newydd a chynllun clir o ddatblygu strwythur dilyniant ieithyddol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Y duedd yn y gorffennol yw bod dirywiad yn digwydd wrth i ddisgyblion drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Yn aml, mae hyn yn digwydd oherwydd nad oes digon o gyfle i'r disgyblion ddefnyddio eu Cymraeg yn ddyddiol. Os dewisir dilyn pynciau trwy gyfrwng y Saesneg nid yw'r disgyblion o gartrefi di-Gymraeg hyd yn oed yn clywed yr iaith er mwyn adeiladu ar y sail gadarn a gawsant yn y sector gynradd. Rhaid cael arweiniad pendant er mwyn sicrhau bod pob athro yn deall beth yw gofynion y swydd wrth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae angen cefnogaeth ar ddysgwyr a rhieni wrth i ofyniadau addysg ddyfnhau felly mae angen buddsoddi yn y broses a'r adnoddau.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>

Tudalen 270

<p>Gyda'r targedau a nodir yn y cynllun, mae'r Sir yn dangos ymrwymiad uchelgeisiol a chyraeddadwy i sicrhau bod bron pob plentyn yn cael yr un cyfle i ddilyn continwwm ieithyddol sy'n gyfoethog erbyn 2025. Bydd hi'n dda iawn gweld y targed hwn yn cynyddu i 100% maes o law. Mae'r pwyslais ar gydweithio'n allweddol, ac mae cyfuno hyn ag arweiniad yn bwysig – fel yn achos alinio polisiâu (megis y Ddogfen Addysg a'r CySGA). Yn benodol o ran Cwricwlwm i Gymru, rhaid cofio bod y continwwm ieithyddol yn cwmpasu tair iaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac am y sylw o ran y disgwyliad i gyflwyno trydydd iaith.</p>
<p>Mae'r deilliannau'n adeiladu ar y sail a osodwyd yn y cyfnod sylfaen fel bod disgyblion 7-11oed yn ysgolion ardal Aberystwyth a Chei Newydd yn medru parhau i ddatblygu eu medrau ieithyddol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae angen sicrhau fod yr ysgolion cynradd i gyd a'r rhai cyfrwng Cymraeg a fod yr ysgolion uwchradd i gyd yn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r ddogfen 'Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru) yn arweiniad ar hyn.</p>
<p>Oes angen edrych ar y cyfleoedd i ddilyn addysg di-Gymraeg ym mlwyddyn 7? Pam ei gynnig ar gael o gwbl mewn ysgolion uwchradd sy'n cael eu bwydo gan ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg?</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mewn ysgolion uwchradd, ble mae ffrwd di-Gymraeg, pam mae hyn yn bodoli ble mae ysgolion gynradd gyfrwng Gymraeg yn bwydo mewn i'r ysgolion uwchradd rheini? Mae'r drefn 3-16 neu 3-19 yn sicrhau dilyniant rhwng bl6 a bl7, gyda phlant yn trosglwyddo'n naturiol rhwng cyfnodau.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae ymarfer a datblygu sgiliau ieithyddol yn bwysig ac mae sicrhau digon o gyfleoedd i ymarfer y sgiliau hynny yn bwysig o fewn yr ysgol a thu allan.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r 4 diben yn dweud yn blwmp ac yn blaen bod angen datblygu siaradwyr hyderus dwyieithog - dyma'r ffordd mwyaf effeithiol o wneud hyn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae angen gwneud cynlluniau mwy clir i sicrhau bod ysgolion yn symud ar hyd y continwwm iaith - e.e. sicrhau bod bob ysgol uwchradd sy'n cael ei bwydo gan ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn rhoi addysg Categori 3 (80% o'r cwricwlwm yn cael ei dysgu drwy'r Gymraeg) erbyn dyddiad penodol.</p>	<p>Fel yr uchod.</p>
<p>Mae angen cynorthwyo plant i wella ar eu sgiliau Cymraeg - bydd hyn yn y pen draw yn arwain at blant hyderus sy'n hapus i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Cytunwn bod llawer o'r gweithredoedd a nodir yn cyfrannu tuag at sicrhau dilyniant ar y continwwm ieithyddol. Ar yr un pryd, mae lle i fod yn fwy cyson ac yn fwy uchelgeisiol yn y maes yma, fel a ganlyn:</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun a'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymateb.</p>

- Mae cyflwyniad y data yn y rhan hon yn fwy aneglur nac mewn rhannau eraill o'r ddogfen. Yr argraff yw nad yw'r targedau ar dudalen 15 yn ddigon uchelgeisiol, a hyn yn cael ei gadarnhau gan y lefel gyson yn y targedau rhwng 2023-26, dim ond 1% o gynydd rhwng 2026 a 2028. Dyma rai materion mewn perthynas â'r targedau penodol a gyflwynir ar t. 13:

- Os oes targedau ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cynradd cyfrwng Cymraeg i addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd, yna dylent fod mewn lle ar draws Ceredigion, nid yn ardal Aberystwyth yn unig.
- Nid yw'r trefniadau ieithyddol 7-11 oed ar gyfer disgyblion o'r ysgolion a restrir yn yr ail darged yn eglur. Nid yw'n eglur bod ystyriaeth wedi ei roi i'r anghenion cefnogaeth ychwanegol ar gyfer trosglwyddo plant o'r ysgolion hynny i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod modd iddynt ddal i fyny o ran eu sgiliau ieithyddol gyda'r plant sydd wedi bod mewn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd at 11 oed (a'r buddsoddiad ychwanegol fydd hyn yn ei olygu i'r ysgolion). Hefyd, os nad oes darpariaeth ychwanegol i'w cefnogi, pa neges mae hyn yn ei gyfleu o ran gwerth addysg cyfrwng Cymraeg trochi yn yr ysgolion cynradd? Yn gysylltiedig â hyn (ar dudalen 10) dim ond yn Ysgol Bro Teifi y bwriedir sefydlu cefnogaeth gloywi uwchradd i hwyrddyfodiaid. Mae gofyn cynllunio am ddarpariaeth gyfatebol yng ngogledd y sir hefyd, ac nid ar y lefel cynradd yn unig. Mae newidiadau o ran darpariaeth bynciol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg fel XXXX yn holl bwysig. Mae ein hymchwil WISERD yn awgrymu bod dysgu pynciau yn y Saesneg (yn enwedig pynciau fel gwyddoniaeth a maths sy'n cael eu hystyried fel rhai statws uchel) yn effeithio ar argraff disgyblion o statws y Gymraeg, yn golygu eu bod yn ei hystyried yn fwy israddol ac yn cyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Saesneg o fewn yr ysgol. Dylid ystyried newidiadau o'r fath yn ehangach na dim ond yn Ysgol Penweddig, e.e. Ysgol Bro Teifi. O ran cynyddu dilyniant ieithyddol ar draws yr ysgolion uwchradd eraill (targed 4 ar t. 13) gellid gosod targedau blynyddol mwy penodol o ran cynyddu'r dilyniant ieithyddol. Ar t. 14 mae lle i gyfeirio at deilliant 4 a'r targedau mwy penodol o ran pynciau. O ran cynllunio datblygiad ieithyddol yn Ysgol Uwchradd XXXX, mae gofyn am eglurder pellach o ran beth yn hollol yw bwriad hyn yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer Ysgol Gyfun XXXX fel ysgol cyfrwng Cymraeg. Un prif gwestiwn tebyg i hwnnw yn Neilliant 2: beth yw'r nod hir dymor? Ysgol dwy ffrwd? Mae lle i'r cyngor sir fod yn gadarnach ynghylch eu dyheadau mewn perthynas ag ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion uwchradd er mwyn cwrdd â gofynion C3, yn enwedig gan fod y fframwaith cenedlaethol yn cael ei roi mewn lle i alluogi diwygiadau o'r fath. Mae'r broses Derbyniadau yn ganolog i alluogi a hwyluso parhad ar y continwmm ieithyddol. Mae lle i'r cyngor fod tipyn fwy hyderus a rhagweithiol yn annog gwerth addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yma. Nid oes llawer o bwyslais ar hyn yn y fersiwn gyfredol o'r 'Llawlyfr Gwybodaeth i Rieni', yn y llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Addysg, yn y rhannau dechreuol. Yn gyffredinol, wrth i'r Cyngor gymryd camau pwysig er mwyn cynyddu addysg

Tudalen 272

<p>cyfrwng Cymraeg, mae'r cynlluniau cyfredol yn cynnig ystod o wahanol gyfuniadau o fodelau o addysgol. Sut fydd rhieni'n gweld a dehongli'r modelau? Mae'n bwysig bod y cyngor yn darparu arweiniad clir ar werth y gwahanol fodelau a bod hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth ar y graddau y bydd y modelau yn debygol o ddatblygu hyfedredd yn y Gymraeg. Bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyflwyno'r digwydiadau mewn modd sydd ddim yn arwain at leihau'r niferoedd yn mynychu addysg drochi lawn Gymraeg mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg sef y model cydnabyddedig.</p>	
<p>Mae'r gweithredoedd yn nodi'n glir pa gamau sydd angen eu dilyn er mwyn sicrhau'r dilyniant. Rwyf yn teimlo bydd categorieddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sicrhau eglurdeb, yn enwedig i'r rhieni a'r gymuned.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae darpariaeth hyd at 7 mlwydd oed yn werthfawr ond os nad oes ddarpariaeth CA2 yn yr un ysgol mae'n annhebygol bydd rhieni yn mynd i symud eu plant i barhau gyda darpariaeth yn y Gymraeg. Ydy'r datganiad am 'adeiladu ar y sail a osodwyd yn y cyfnod sylfaen' yn ddigon cryf? Oes modd sicrhau ffrwd Gymraeg CA2 yn yr ysgolion hyn a chefnogi hwn trwy gydweithio rhwng ysgolion ac adeiladu ar y cryfderau sydd eisoes yn y sector. Ar gyfer trosglwyddo i'r uwchradd yng nghylch Aberystwyth mae'r targedau'n aneglur – ydy targed 2024 yn wall? Cytunwn fod angen pennu targedau heriol ar gyfer yr ardal ond bydd angen ystyried targedau tebyg tu allan i Aberystwyth gyda disgyblion yn medru croesi ffin i dderbyn addysg Saesneg tu allan i'r sir. Cytuno'n llwyr gyda dilyniant ieithyddol ar gyfer Ysgol XXXX yn y gwyddorau a mathemateg, ond rydyn ni'n ansicr o bwrpas y cyfeiriad at Ysgol XXXX gydag ysgolion dwy ffrwd y sir yn y datganiad cyffredinol am ddilyniant ieithyddol mewn pynciau eraill. Nid oes cyfeiriad at ysgol XXXX yma ac ystyriwn dylai XXXX a XXXX yn cael eu trin mewn moddau tebyg yn y trafodaethau uwchradd. Mae'r broses yn nodi bod angen ystyried categori iaith XXXX, ond bydd y broses hon yn gorfod digwydd llaw yn llaw gydag ystyriaeth o'r ysgolion eraill sy'n rhannu neu yn cyffwrdd gyda'r un dalgylch.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun a'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymateb.</p>
<p>Mae parhad yn ofynol.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae'n holl bwysig fod sgiliau iaith plant yn datblygu wrth iddyn nhw ddatblygu dros eu taith addysgol i fod yn oedolion ifanc. Mae cynnal mynegiant ar lafar ac yn ysgrifenedig er mwyn gallu cyfleu eu syniadau, eu profiadau, eu barn a'u dadansoddiad o'r byd o'u cwmpas yn y ddwy iaith yn allweddol i fod yn oedolion dwyieithog ble gallant wneud dewisiadau annibynnol ar sail set gyflawn o sgiliau ieithyddol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae dilyn `continwrm ieithyddol bendant` yn sicrhau fod y disgyblion yn anelu at sicrhau parhad a dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r gweithredoedd a nodir yn sicr yn ategu at ddilyniant, ac yn gamau positif i'r cyfeiriad cywir i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

<p>Mae'r deilliant yn amwys am nag ydy'n cyfeirio at unrhyw darged mesuradwy. Mae hyn yn groes i'r Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol mewn Addysg a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn gweld hyn fel un o'r prif faterion fel croesawn y sylw iddo a galwn am fesurau mwy. Mae'r ystadegau yn y ddogfen yn dorcalonus. Dim ond traean o'r disgyblion sy'n astudio o leiaf 5 pwnc TGAU trwy'r Gymraeg a rhyw chwarter sy'n astudio trwy'r Gymraeg ar gyfer lefel A. Mae hyn yn ymddangos yn ryfedd iawn wrth ystyried bod 73% o ddisgyblion yn astudio'r Gymraeg fel mamiaith ar gyfer TGAU. Mae hyn yn awgrymu efallai mae tua hanner yr holl disgyblion yn meddu ar y sgiliau ieithyddol i astudio eu pynciau TGAU trwy'r Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny. Am hyn mae angen camau mwy i sicrhau dilyniant o ran addysg Gymraeg. Ymysg pethau na thraddodwyd hyd y gwelwn, mae angen estyn allan at rieni i chwalu'r delwedd bod angen astudio pynciau trwy'r Saesneg os ydy disgybl am fynd ymlaen i'r Brifysgol. Mae hefyd angen helpu'r gweithlu i gyflawni'r amcanion. Hoffem ni weld bob ysgol yng Ngheredigion yn ysgol cyfrwng Cymraeg, neu o leiaf Cymraeg yn bennaf yn achos yr ysgolion uwchradd, erbyn 2032.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau am ddilyniant a manylion eraill yn yr ymateb. Bydd y ddogfen 'Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru) yn arweiniad ar hyn.</p>
<p>Mae angen gwneud cynlluniau mwy clir i sicrhau bod ysgolion yn symud ar hyd y continwwm iaith. Er enghraifft, gellid gosod dyddiad pendant ar gyfer sicrhau bod bob ysgol uwchradd sy'n cael ei bwydo gan ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn rhoi addysg Categori 3 (80% o'r cwricwlwm yn cael ei dysgu drwy'r Gymraeg), a dyddiad pendant ar gyfer sicrhau bod bob ysgol gynradd yn darparu yn bennaf drwy'r Gymraeg hyd 11 oed. Mae hefyd angen gosod targedau mwy eang ar gyfer ysgolion i ddarparu pynciau academiaidd statws uchel, megis pynciau STEM, ieithoedd modern, seicoleg, ayyb, drwy'r Gymraeg, a normaleiddio astudio'r pynciau hyn drwy'r Gymraeg ymhob ysgol uwchradd, er mwyn annog rhagor o bobl ifanc i barhau â'u hastudiaethau ar lefel addysg uwch drwy'r Gymraeg. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer creu gweithlu proffesiynol dwyieithog fel y mae gwaith Huws (2011) yn ei awgrymu. Dylid hefyd gosod targedau ar gyfer darparu rhagor o gymwysterau galwedigaethol drwy'r Gymraeg yn eang ar gyfer pobl ifanc nad ydynt, o angenrheidrwydd, yn mynd ymlaen at astudio ar lefel addysg uwch, ond yn dilyn hyfforddiant yn y gweithle mewn meysydd allweddol megis gofal, amaethyddiaeth, addysg, lletygarwch a hamdden. Yn ogystal, dengys ymchwil diweddar gan Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth, a gwblhawyd ar gyfer Llywodraeth Cymru, yw bod angen ystyriaeth bellach i sut mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyfathrebu gyda rheini di-Gymraeg, yn enwedig ynglŷn â materion academiaidd. Mae llawer o arfer da ond mae lle i wella a datblygu y berthynas ymhellach drwy wneud y sgwrs yn fwy effeithiol a hefyd drwy ddefnydd gwell o dechnegau fel trawsieithu. Drwy wella cyfathrebu gyda rhieni, yn enwedig rhieni di-Gymraeg, gobeithir y gwelir rhagor o rieni yn parhau i ddewis addysg Gymraeg i'w plant wrth iddynt symud o un cyfnod addysg i'r nesaf.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau am ddilyniant a manylion eraill yn yr ymateb. Bydd y ddogfen 'Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru) yn arweiniad ar hyn.</p>

Tudalen 274

Hen bryd i sgiliau ieithyddol holl ddisgyblion Ceredigion ddilyn yr un safonau.	Nodwyd y sylw.
Credaf fod Cwricwlwm i Gymru yn hanfodol tuag at y dasg o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.	Nodwyd y sylw.
Mae angen dal i ddysgu yn Gymraeg wrth drosglwyddo oherwydd maent dal mewn addysg.	Nodwyd y sylw am ddilyniant.
Mae'r cynlluniau yn meddwl bydd gan pob plentyn y cyfle i ddod yn hollol ddwyieithog. Mae'n helpu datblygu hyder plant.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Mae'r cynllun yn rhoi gwell siaws i bob plentyn ddatblygu yn llwyddiannus ar hyd y continiwm iaith. Mae'n anodd dysgu iaith mewn ffordd 'achlysurol'.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Mae cadw a chynnal disgyblion o fewn y sector cyfrwng Cymraeg yn arbennig o bwysig ac yn un o gonglfeini targedau'r Llywodraeth. Mae angen darparu cyfleoedd i deuluoedd ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg mor gynnar â phosib a bod y ddarpariaeth honno ar gael yn hwylus er mwyn sicrhau dilyniant cadarn a di-dor drwy pob cyfnod addysgol. Ac mae'n gymeradwy bod ymgais i gael gwared ar y rhwystrau sy'n llesteirio hynny wrth galon y cynllun hwn. Mae'n dda gweld bod y symud traddodiadol tuag at y Saesneg rhwng CA2 ac CA3 yn cael ei leihau. Ond nodwn bod bylchau o ran yr ystadegau mwyaf diweddar ac felly mae'n anodd gwybod yn union beth yw'r sefyllfa bresennol. Mae hynny'n wendid sylfaenol wrth geisio cael gorolwg cywir o'r sefyllfa ddiweddaraf.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r pryderon pellach sydd wedi'u cynnwys.
Mae angen targedau pendant a mesuradwy o fewn hyd bywyd y cynllun hwn fydd yn symud yr ysgolion ar hyd y continwm ieithyddol a chynyddu ystod y pynciau a ddysgir trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ysgol unigol. Awgrymwn y dylid paratoi polisi penodol ar gyfer cynnal a chryfhau dilyniant ieithyddol ar draws y cyfnodau addysg yn yr holl ysgolion. Mae gwaith sylweddol i'w wneud yn y deilliant hwn, er mwyn cynnal ac adeiladu ar y sail gadarn sydd yn yr arfaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Byddai methiant i wneud hynny yn rhwym o danseilio unrhyw ymdrechion a wneir yn y blynyddoedd cynharaf.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon pellach sydd wedi'u cynnwys.
Byddai'n dda pe bai Cyngor Sir Ceredigion yn gallu adeiladu ar y weledigaeth glodwiw sydd ganddynt ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gyda gweledigaeth yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y sector uwchradd.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon pellach sydd wedi'u cynnwys.
Er bod gwybodaeth ddefnyddiol a chynigion adeiladol yn yr adran hon, teimlwn fod angen mwy o fanylder er mwyn gallu cynllunio'n hyderus ar gyfer cynnydd, a mesur y cynnydd hwnnw. Er enghraifft, o ran data, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod beth yw'r cyfraddau trosglwyddo rhwng CA3 a 4 (i ryw raddau), a rhwng CA4 a 5 (yn arbennig) yn ogystal â'r ffigyrau rhwng CA2 a 3 a gyflwynir yn y Cynllun drafft.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r pryderon pellach sydd wedi'u cynnwys.

Tudalen 275

<p>Croesawn yn fawr y bwriad i wella'r dilyniant ieithyddol mewn perthynas â: Mathemateg a Gwyddoniaeth yn Ysgol XXXX, y meysydd sy'n cael eu cynnig yn ysgolion uwchradd y sir yn gyffredinol, a chynllunio datblygiad ieithyddol Ysgol XXXX dros gyfnod y Cynllun. Byddai'n dda gweld uchelgais yn yr adran hon sy'n gydnaws ag uchelgais y deilliannau blaenorol, ac yn gwneud cynigion pendant ynghylch symud ysgolion uwchradd y sir yn eu blaenau ar hyd y continwmm ieithyddol, ac yn benodol mewn perthynas â'r categorïau ieithyddol arfaethedig. Nid yw'n dderbyniol bod gymaint o bwyntiau pontio ble mae medrau ieithyddol plant y sir yn llithro am yn ôl. Nid ydym am weld gwaith a gweledigaeth flaengar yr awdurdod yn y Cyfnod Sylfaen yn cael eu tanseilio gan ddiffyg gweithredu neu dargedau a bwriadau pendant yn y cyfnodau allweddol dilynol. Am y rheswm hynny rydym yn gofyn am fwy o fanylder yn yr adran hon.</p>	
<p>Sylwadau sy'n anghytuno'n gyffredinol gyda'r amcanion</p>	<p>Ymateb Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>Diddymu rhyddid rhieni i ddewis; mae pob plentyn yn haeddu cael ei ddysgu mewn iaith y mae'n ei deall.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Rwy'n credu bod y ffordd y mae ysgolion nawr yn dda. Dylai plant a phobl ifanc allu penderfynu a ydynt am fynd i ysgol Gymraeg neu i ysgol Saesneg ac ni ddylent gael eu gorfodi na'u cyflyru i feddwl fel arall. Eu bywyd nhw yw e ac fe ddylen nhw allu dewis beth maen nhw am ei siarad.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Nid ydych yn derbyn y dewisiadau yr ydym yn eu gwneud fel rhieni pan fyddwn yn dewis meithrinfa ac ysgolion. Rwy'n pryderu am les meddwl fy mhlant os byddwch yn gorfodi'r newidiadau hyn. Dylai plentyn allu dewis yn yr ysgol uwchradd a yw am barhau i ddysgu'r Gymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Rwy'n anghytuno oherwydd mae gennym gymaint o bobl o ddiwylliannau gwahanol a phobl sy'n siarad ieithoedd gwahanol yn byw yn ein hardal, ac nid oes gan lawer ohonynt lawer o Saesneg, heb sôn am Gymraeg. Hefyd, o ran plant ag anghenion dysgu ychwanegol y mae eu rhieni'n siarad Saesneg yn unig, rwy'n teimlo'n gryf y dylai'r bobl hyn gael dewis, ond hyd yn oed wedyn, rwy'n teimlo y dylent ddysgu'n ddwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, nid yn Gymraeg yn unig.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Os caiff plant eu dysgu'n ddwyieithog, bydd pob dewis yn agored iddynt pan fyddant yn trosglwyddo i gam nesaf eu haddysg, o ran cyfrwng y dysgu a pha leoliad y maent am fynd iddo.</p>	<p>Gweler yn flaenorol. Defnyddir y term 'dwyieithog' weithiau i ddisgrifio'r ddarpariaeth yn rhai o ysgolion Ceredigion. Mae hyn yn gamarweiniol. Mewn ysgolion Saesneg yn bennaf ble addysgir y Gymraeg fel ail iaith, eithriadau prin yw'r disgyblion sy'n dod yn ddwyieithog h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddai 'dwyieithog' felly yn derm mwy</p>

Tudalen 276

	priodol i ddisgrifio ysgolion cyfrwng Cymraeg, lle mae pob disgybl sy'n defnyddio'r ysgol yn dod yn ddwyieithog h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.
Nac ydw, rwy'n credu ei fod yn eu gorfodi i gontinwmm, yn hytrach na'u hannog i fod eisiau dysgu'r Gymraeg, mynegi'u hunain ynddi a mwynhau ei defnyddio.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).
Dylai dewis y rhieni bennu'r continwmm addysgol, neu o leiaf fod yn brif ffactor ynddo, ac nid cyngorau anghynrychioliadol sy'n cael eu rheoli a'u harwain yn wael.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).
Rwy'n cytuno. Ond rwy'n meddwl bod lle i fynd ati mewn ffordd fwy gofalus, yn hytrach na throchi llwyr. Rwy'n credu'n gryf y dylid bod modd dewis iaith y ddarpariaeth a chadw ysgol cyfrwng Saesneg ragorol fyddai'r ffordd ymlaen. Mae'r cynllun yn dweud bod 72.9% o blant Blwyddyn 1 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond 42.9% o boblogaeth Ceredigion sy'n siarad Cymraeg. Felly, mae ysgolion Ceredigion eisoes ymhell uwchlaw'r boblogaeth gyffredinol. O anelu at gael darpariaeth addysg gyfan gwbl Gymraeg, byddai'n codi gwrychyn mwy na hanner y boblogaeth (mwy o bosibl gan mai canrannau o'r boblogaeth gyfan yw'r rhain, nid dim ond y teuluoedd).	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).
Nac ydw – bydd yn creu dilyniant cymysglyd a drslyd i'r disgybl. Bydd plant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn bennaf, yn dod o gefndiroedd ac aelwydydd Saesneg eu hiaith neu rai eraill di-Gymraeg hyd nes eu bod yn dair oed. Yna, byddant yn symud o'r Saesneg (neu iaith arall) i'r Gymraeg, ac yna yn ôl i'r Saesneg, rhywbeth nad yw'n llwybr clir nac yn gontinwmm ieithyddol. Fy mhryder ehangach yw y bydd y polisi hwn, ymhen amser, yn cael ei ddefnyddio i erydu'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg ymhellach i fyny'r gadwyn addysg. Mae hyn yn foesebol anghywir ac yn gyfreithiol amheus, gan fod gan Gymru ddwy iaith gyntaf. Mae gan ddinasyddion Cymru hawl i gael eu haddysgu yn y naill iaith neu'r llall. Nid yw diddymu'r hawl i ddewis yn y blynyddoedd cynnar yn gyfreithiol gadarn.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).
O gyflwyno'r polisi'n raddol, mae'n dileu'r cysyniad o ddewis iaith mewn addysg ym mhob cyfnod dilynol, fel y mae'r gair 'continwmm' yn ei awgrymu.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).
Rwy'n meddwl y byddai'n ormod o her i ddisgyblion sy'n dod o aelwydydd lle y siaredir Saesneg neu'r rheini nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Os caiff disgyblion eu gorfodi i ddysgu'r Gymraeg yn dair oed, nid ydynt yn debygol o'i hoffi pan fyddant yn camu ymlaen i'r blynyddoedd dilynol.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).
Ni fydd plant sy'n cael eu gorfodi i fynd i ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg heb unrhyw gymorth â'r iaith gartref fyth yn dod yn wirioneddol rhugl yn yr iaith; felly, bydd addysg uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg yn anoddach byth. Yn	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).

Tudalen 277

<p>anffodus, erbyn hynny, bydd y niwed wedi'i wneud, a gall addysg uwchradd drwy gyfrwng y Saesneg fod yr un mor anodd.</p>	
<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Nac ydw. Hyd yn oed os byddant yn cael eu haddysg yn Gymraeg, bydd myfyrwyr o gartrefi di-Gymraeg yn fwy hyderus yn dysgu drwy gyfrwng y Saesneg, a bydd rhai sydd wedi dewis addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn dewis ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg oherwydd eu hanghenion, eu huchelgeisiau neu'u dyheadau eu hunain i gael profiad academaidd mwy Seisnig.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Gall disgyblion ddilyn continwmm ieithyddol clir heb fod mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, cyhyd ag y bo'r athrawon Cymraeg i gyd yn frwdfrydig ac yn ddigon da (ar hyn o bryd, mae llawer yn gyndyn o ddysgu Cymraeg fel ail iaith ac maent yn feiriadol o ddysgwyr Cymraeg) a bod ethos Cymreig cadarnhaol yn yr ysgol. Drwy gyfyngu ar ddewis ac annog neu orfodi disgyblion i fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg, rydych yn debygol o feithrin dichter ymhlith rhai disgyblion a'u rhieni, a bydd hyn yn mynd yn groes i'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran sgiliau iaith a'r defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd. Os bydd ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg Aberystwyth yn lleihau, byddwch yn lleihau'r elfen o ddewis sydd ar gael i ddisgyblion Ceredigion ar draul eu cyrhaeddiad academaidd, eu hiechyd meddwl a'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae llawer o rieni'n hapus iawn i'w plant ddysgu Cymraeg a dod yn ddwyieithog yn yr ysgol gynradd, ond nid ydynt am i'w plant barhau â'u haddysg uwchradd, lle y mae'r eirfa'n dod yn arbenigol ac y mae'n well datblygu syniadau'n llwyr yn y famiaith, drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes fawr ddim gwerth economaidd mewn astudio pynciau arbenigol yn Gymraeg os nad honno yw'ch mamiaith, a'r plant mwy difreintiedig a'r rheini â gallu is fydd dan anfantais eto. Problem arall yw darparu athrawon â chymwysterau addas. Nid yw gofyn i bobl ddysgu digon o Gymraeg mewn dwy flynedd i allu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn realistig. Mae llawer o bobl yr wyf yn eu hadnabod sy'n rhugl mewn Cymraeg llafar yn dweud na fyddai ganddynt hyder i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os byddwch yn peri i'r ysgol cyfrwng Saesneg ddirywio a thrwy hynny'n colli athrawon, rydych yn debygol o wanhau'r addysgu yn y chweched dosbarth yn sylweddol, gan leihau ystod y pynciau a gynigir a pheri i lai o bobl ifanc fynd i'r prifysgolion gorau. Eto, nid yw hyn yn deg oherwydd mae'n cyfyngu ar gyfleoedd bywyd ac mae'n debygol o</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>

<p>ddylanwadu'n negyddol ar benderfyniadau pobl sy'n cael cynnig swyddi yma ac yn ychwanegu'n sylweddol at fywyd a diwylliant Ceredigion. Mae swm yr arian sydd ei angen i roi hyd yn oed ran o'ch cynllun ar waith yn iawn yn sylweddol, ac fe ddylech ofyn i chi eich hunain a yw hon yn ffordd dda o ddefnyddio'ch adnoddau prin, gan eich bod eisoes yn ariannu disgyblion ysgol uwchradd yn llai ffafriol nag a wneir yn Lloegr. Rydych yn fwy tebygol o gynyddu gallu pobl i siarad Cymraeg a'u parodrwydd i'w defnyddio mewn bywyd bob dydd drwy eu hannog yn hytrach na'u gorfodi a'u bwlio i bob pwrpas. Mae hyn yn golygu y dylech ganiatáu iddynt fod yn hollol rhydd i ddewis cyfrwng eu haddysg uwchradd, a chefnogi'r ysgolion yn gyfartal. Dylid parchu llesiant a chyfleoedd bywyd pob plentyn, heb wahaniaethu yn eu herbyn ar sail eu gallu yn y Gymraeg.</p>	
<p>Fel y nodir uchod, ar hyn o bryd, nid wyf yn gweld fawr ddim tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel addysg gynradd yng Ngheredigion. Mae mwyafrif helaeth y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a'u teuluoedd yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly nid wyf yn credu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth honno. Rwy'n credu bod y newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar ddewis plant a theuluoedd ac, o ganlyniad i'r newidiadau, gallai beri i Geredigion fod yn sir llai deniadol i deuluoedd di-Gymraeg symud iddi i weithio. Ar adeg pan fo anawsterau mawr o ran llenwi swyddi gweithwyr allweddol yn y sir, rwy'n credu y gallai unrhyw fesur a allai rwystro teuluoedd rhag symud i'r ardal fod yn andwyol i'r gwasanaethau allweddol a ddarperir yng Ngheredigion. Yn yr un modd, mae gennyf bryderon o ran manteision addysg uwchradd ddwyieithog i blant, yn enwedig o ran hyrwyddo TGAU a Safon Uwch a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd myfyrwyr yn gadael addysg uwchradd â chymwysterau Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, mae arnaf ofn y byddant dan anfantais fawr os byddant am astudio rhai pynciau allweddol mewn addysg uwch, boed yng Nghymru neu yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Mae mewnfudo ac allfudo yn cyfoethogi Ceredigion ac mae'n elwa ohonynt. Dylai fod arnom eisiau i'n pobl ifanc allu gadael Ceredigion ac astudio unrhyw le yn y Deyrnas Unedig neu yng ngweddill y byd ac yna gallu dychwelyd i Geredigion yn y dyfodol pan fyddant ar fin dechrau eu teuluoedd eu hunain. Drwy hyrwyddo Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, rwy'n pryderu y bydd yn llesteirio cynnydd academaidd myfyrwyr ac y bydd yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig, gan gau'r drws ar y profiad buddiol o astudio bywyd tu allan i Geredigion.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (dan Deilliant 1 a 2). Nid yw'r Cyngor yn cytuno gyda'r farn bod dilyn y gwyddorau drwy gyfrwng y Gymraeg yn creu anawsterau neu ddiffygion academaidd wrth symud ymlaen i addysg bellach. Mae mwyafrif o ddarpariaeth cyrsiau prifysgolion Cymru ar gael yn y Gymraeg drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Os yw disgybl yn penderfynu astudio mewn prifysgol yn rhywle arall yn yr ynysoedd hyn yna mae'r ffaith eu bod yn ddwyieithog yn golygu eu bod yn gallu trosglwyddo eu medrau o un iaith i'r llall ac mae'r dewis ganddynt i wneud hynny. Mae ganddynt ddwy iaith yn hytrach nag un. Mae'r dadl hon yn cael ei defnyddio'n aml i rwystro datblygiadau ym maes dwyieithrwydd a chynnydd mewn addysg Gymraeg. Mae yna enghreifftiau o ddisgyblion e.e. o Ffrainc sydd yn/wedi astudio'r gwyddorau drwy'r Ffrangeg yn eu hysgolion yn dod i brifysgolion yr ynysoedd yma ac yn astudio meysydd cymhleth megis 'Cudd Wybodaeth' drwy'r Saesneg. Nid yw dysgu drwy'r Ffrangeg felly wedi bod yn rwystr iddynt. Cytunwn gyda'r gobaith y bydd pobl ifanc yn dychwelyd i Geredigion i setlo unwaith yn rhagor wedi iddynt fod mewn addysg bellach y tu hwnt i Gymru. Wrth ddychwelyd, gobeithio y byddant yn gweld pwysigrwydd y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yn y gymdeithas honno a'u bod yn falch eu bod wedi cael y cyfle i fod yn hyderus ddwyieithog ynddi.</p>
<p>Mae continwmm ieithyddol eisoes ar gael i blant sy'n siarad Cymraeg drwy'r dewis o ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae arnaf ofn mai'r hyn y mae'r cynlluniau'n ei wneud yw mynd ati'n fwriadol i darfu ar gontinwmm ieithyddol plant sy'n siarad Saesneg. Mae gennyf bryderon difrifol am y cynigion yn fwy cyffredinol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>

Tudalen 279

<p>Wel, byddai, byddai continwwm nes i blant gyrraedd saith oed. Yna, byddai gan rieni ddewis o hyd p'run a fyddai eu plentyn yn elwa mwy o fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol cyfrwng Saesneg. Y cyfan y mae'r cynllun yn ei wneud yn hyn o beth yw symud y dewis o dair oed i saith oed.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Rwy'n credu bod Cymraeg sylfaenol o fantais mewn ysgolion meithrin, ond nid Cymraeg rhugl.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Mae'n dweud hynny, ond byddai addysg ddwyieithog yn fwy buddiol fel y mae ymchwil ddiweddar wedi dangos (Prifysgol Bangor). Felly, os ydym am gael y gorau i'n plant, dylem ddilyn yr wyddoniaeth. Bydd plant yn llithro ar ei hôl hi o ran eu haddysg. O beidio â chael eu dysgu i ddarllen nac i ysgrifennu Saesneg, byddant mor bell ar ei hôl hi pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol uwchradd a byddant eisoes yn ei chael yn anodd ceisio addasu o hyd i'r Saesneg. Rwy'n dal i gredu bod dwyieithrwydd yn bwysig.</p>	<p>Nid ydym yn sicr pa adroddiad y cyfeirir ato fan hyn. Yr hyn a ddeallwn yw bod Prifysgol Bangor yn ystyried 'dwyieithrwydd' yn unol â'r hyn a gofnodwyd eisoes ac nid sefyllfa lle mae disgyblion yn dysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Yn 'Ennill Iaith – Astudiaeth o Sefyllfa Drochi yn 11-16 oed' (Prifysgol Bangor), mae'r rhagair yn dweud yr hyn a ganlyn: "Os yw gwleidyddion a gweinyddwyr addysg o ddifrif ynglŷn â gweld dwyieithrwydd yn dod yn norm yn ystod y ganrif yma, ac am weld holl blant a phobl ieuainc Cymru'n cael yr un cyfle i ddatblygu eu dwyieithrwydd, rhaid gwneud y Gymraeg (yn ogystal â'r Saesneg) yn gyfryngau dysgu byw a real yn ein hysgolion uwchradd."</p>
<p>Unwaith eto, mae perygl y bydd hyn yn peri i rieni symud o Geredigion i ardaloedd eraill lle na fyddai'r cam 'arfaethedig' hwn yn broblem, oherwydd byddai canran fach o ysgolion yn dal i fod ar gael iddynt sy'n fodlon dysgu drwy'r Saesneg.</p>	<p>Nid ydym yn gweld pam y dylai dysgu iaith arall a bod yn ddwyieithog fod yn achos i unrhywun symud o Geredigion.</p>
<p>Beth am y plant y mae angen cymorth arnynt gyda'u Saesneg?</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Mae'n portreadu meddylfryd clir sy'n gwrthwynebu pobl o'r tu allan.</p>	<p>Mae bod yn ddwyieithog yn rhywbeth y byddem yn gobeithio y byddai pawb yn ymfalchio ynddo. Nid yw'r Gymraeg (na'r Saesneg) yn perthyn i un garfan o'r boblogaeth. Mae'r ddwy iaith yn perthyn i bawb yma ac i unrhywun sy'n dewis dod yma i fyw. Rydym yn croesawu pawb i'n sir.</p>
<p>Dylid parhau i ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn rhai ysgolion.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>OND, bydd disgyblion yn parhau â'u dilyniant ieithyddol, hyd yn oed os yw'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Nid ydych ond wedi cynllunio ar gyfer canolfannau iaith yn Aberystwyth a Llandysul – beth am weddill y sir? Mae honno'n daith eithriadol o hir i rai disgyblion. Bydd canlyniadau academaidd disgyblion cyfrwng Saesneg sy'n symud i'r sir ym Mlwyddyn 7/8 yn is oherwydd byddant wedi colli cyfle i ddilyn y cwricwlwm arferol i gael eu trochi yn y Gymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (dan Deilliant 1 a 2). Byddai'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn debyg iawn i'r hyn sy'n digwydd nawr. Mae hwnnw'n gefnogaeth ymatebol gan ddibynnu ar sefyllfa'r plentyn ac yn sensitif i'w anghenion. Darperir y sesiynau hyn yn y canolfannau cynradd yn Felinfach ac Aberteifi.</p>

Tudalen 280

<p>Rwy'n credu bod pob sgîl iaith yn bwysig. Mae'r Gymraeg yn iaith brydferth ac, wrth gwrs, dylai gael ei dysgu a'i gwarchod, ond rydym yn ceisio rhoi'r addysg, y cymorth a'r hyder gorau posibl i'n plant ar gyfer eu bywydau. Rydym yn mawr obeithio bod y byd i gyd o'u blaenau ac, yn ystadegol, byddant yn gwneud eu swyddi/yn dilyn eu gyrfaoedd yn Saesneg os byddant yn aros yn y DU, ac mewn ieithoedd eraill, efallai, os byddant yn mynd dramor, ond nid yn Gymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Bydd yn sicrhau bod plant yn siarad Cymraeg. Ond bydd hynny'n peryglu'u sgiliau Saesneg a bydd hynny yn eu rhoi yng nghefn y ciw ar gyfer unrhyw swyddi, yn enwedig os byddant yn dewis symud i Loegr. Ni fydd cwmnïau mawr na llywodraethau'n barod i'w cyflogi â llythrennedd Saesneg gwael.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Mae plant sy'n ymddiddori mewn dysgu yn fwy tebygol o ffynnu ym mhob pwnc, gan gynnwys ieithoedd. Rwy'n credu y bydd y newidiadau arfaethedig yn peri rhwystredigaeth a dryswch i lawer o blant, gan beri iddynt golli diddordeb mewn dysgu.</p>	<p>Cytunwn gyda rhan cyntaf y sylw. Er hyn, nid oes tystiolaeth bod dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (yn fwy na'r Saesneg neu unrhyw iaith arall) yn gadael plant yn rwystredig, yn ddrislyd gan achosi iddynt ymgysylltu o'u dysgu. Mae addysgu a dysgu da yn greiddiol ym mha bynnag iaith yw'r cyfrwng.</p>
<p>Fwy na thebyg, ond dylai fod continwmm ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2). Continiwmm o ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig, mae continiwmm o gynnydd yn bwysig ym mhob iaith, fel a nodir yn Cwricwlwm i Gymru</p>
<p>Nac ydw, mae'r camau a awgrymir yn gwneud y gwrthwyneb, mae'n creu llwybr addysg ieithyddol digysylltiad. Bydd Saesneg neu iaith arall wedi bod yn brif iaith i'r rhan fwyaf o'r disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg nes iddynt droi'n dair oed (sef y rheswm nad ydynt mewn ysgol cyfrwng Cymraeg), yna bydd y cynnig yn rhoi'r Gymraeg yn unig iddynt rhwng 3-7 oed, ac yna byddant yn symud at addysg ddwyieithog o saith oed ymlaen. Nid yw'r llwybr hwn yn creu "continwmm ieithyddol clir" ar gyfer y Gymraeg na'r Saesneg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Y cwestiynau hyn! Fel gwyddonydd cymdeithasol sydd wedi cael fy hyfforddi i greu holiaduron, gallaf weld nad oes gennych wir ddiddordeb mewn dysgu unrhyw beth nad yw'n cadarnhau'r penderfyniad/nod a wnaed/bennwyd gennych eisoes. Nid ydych ond yn bendant am fesurau hyd at saith oed, yna rydych yn dawel am oedrannau 8-11, ac yna mae gennych ragor o gynlluniau annelwig o 11 oed ymlaen. Ond mae unrhyw un sy'n gallu darllen dogfennau polisi yn gallu gweld mai'r bwriad yw mynd at'n raddol i ddod ag addysg cyfrwng Saesneg i ben yn llwyr ym mhob cyfnod yng Ngheredigion, gan ddechrau gyda'r Cyfnod Sylfaen a pharhau drwy bob cyfnod arall. Felly, pam ydych chi'n gofyn inni a ydym yn meddwl y bydd y camau hyn yn sicrhau'r dilyniant hwnnw? Maent yn rhy annelwig i'r un ohonom farnu a ydynt ai peidio, ond mae eich nod yn y pen draw yn glir: rydych chi am gael continwmm ieithyddol o'r dechrau i'r diwedd. Ni ddylech holi'r cyhoedd am y dulliau, penderfynu ar y nodau</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>

Tudalen 281

<p>ddylai'r cyhoedd ei wneud. Nid yw'r cwestiynau hyn yn gofyn dim am y nodau.</p>	
<p>Mae'r camau arfaethedig yn mynd yn uniongyrchol groes i'r syniad o gontinwwm ieithyddol clir. Hyd nes eu bod yn dair oed, bydd o leiaf rai plant mewn lleoliadau gofal plant lle na fyddant yn dod i gysylltiad â'r Gymraeg. Yna, byddant yn cael eu rhoi mewn lleoliadau addysgol Cymraeg yn unig rhwng 3-7 oed, a bydd rhai'n symud i leoliadau cyfrwng Saesneg yn y pen draw. Nid continwwm mo hwn yn ôl unrhyw ddiffiniad o'r gair. Bydd y camau arfaethedig hefyd yn rhoi terfyn ar y posibilrwydd o gontinwwm ieithyddol clir ar gyfer y rheini sy'n symud i Geredigion a'r rheini a fydd yn symud o Geredigion.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Nid yw rhieni'n cael eu hystyried o gwbl. Nid yw llawer ohonynt yn siarad gair o Gymraeg ac ni fydd modd iddynt lywio na chynorthwyo'u plant yn academaidd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn datgan yn glir: "Bydd angen i ysgolion ystyried y canlyniadau sydd fwyaf addas i'w dysgwyr o ran cyrhaeddiad yn y Gymraeg." "Bydd angen i leoliadau ac ysgolion gynllunio er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol yn Gymraeg, yn Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol." Nid wyf yn gweld unrhyw beth yn y cynllun hwn sydd hyd yn oed yn sôn am yr hyn sydd fwyaf addas i'r dysgwyr. Mae'n amlwg ei fod yn trafod yr hyn sydd fwyaf addas i'r cyngor.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1 a 2).</p>
<p>Rwy'n ysgrifennu ar ran Llywodraethwyr Ysgol XXXX, gyda'u dealltwriaeth a'u cefnogaeth lwyr. Rydym yn pryderu'n fawr iawn am gynlluniau arfaethedig y Cyngor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngheredigion, yn enwedig o ran yr amserlen eithriadol o fer yr ydych wedi'i phennu i gyflawni hyn, ac nid ydym yn credu eich bod wedi ystyried yn llwyr ganlyniadau'r newidiadau arfaethedig os cânt eu rhoi ar waith fel y maent wedi'u disgrifio. Ni all targed Deilliant 3 i gynyddu cyfran y disgyblion sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i 90% o fewn pedair blynedd "yn ardal Aberystwyth" ond olygu cynnydd yn nifer y plant sy'n mynd i XXXX a gostyngiad andwyol cysylltiedig yn y nifer sy'n mynd i XXXX. Byddai hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yng nghyllid yr ysgol ac felly at ostyngiad yn nifer y staff addysgu a'r staff cymorth yn XXXX dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Rydym yn deall mai dim ond dyhead yw ffigur targed, ond rhaid i'r gwaith cynllunio ariannol ddigwydd gryn amser ymlaen llaw, ac mae'n amlwg mai bwriad cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg i ddysgu plant iau yw annog mwy o addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach. Mae Ysgol XXXX eisoes yn ei chael yn anodd recriwtio staff addysgu â chymwysterau addas i ddod i'r ardal, ac mae'n debygol y bydd y sefyllfa'n gwaethygu oherwydd prinder athrawon cyfrwng Cymraeg rhagorol, yn enwedig mewn pynciau arbenigol. Mae hyn yn golygu bod addysg pobl ifanc yr ardal yn debygol o ddiodef. Mae Aberystwyth yn gymuned aml-ddiwylliannol, cymuned sy'n cael ei meithrin gan yr ysbyty, y brifysgol a chyflogwyr</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 4, 5 a 6). Mae'r targed a'r data rydyn ni'n credu eich bod yn cyfeirio ato yn gyfeiriad at y disgyblion hynny sy'n mynychu'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal Aberystwyth ac nid yr ysgolion sydd wedi eu categorio fel y rhai 'Saesneg yn bennaf'. Yn 2020 bu i 79% o'r disgyblion hynny symud ymlaen i addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd. Mae hyn, fel y gwelwch yn golled i'r sector cyfrwng Cymraeg o 21% ac felly mae'n briodol i'r awdurdod, ac i bwrpas y CSGA hwn yn Deilliant 3, i nodi sut y bydd yn gweithredu i weld gwelliant. Nid ydym yn credu y byddai'r nifer o ddisgyblion sydd wedi eu cynnwys yn y cynnydd canrannol hwn yn cael effaith andwyol ar y materion a godwyd yn Ysgol XXXX. Bydd rhieni yn parahu i fedru dewis ysgol uwchradd i'w plant yn 11 oed, a bydd trafndiaeth yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi cludiant y sir. Mae'r cynlluniau i gyflwyno'r dull trochi a datblygu categori'r ysgolion Saesneg yn bennaf presennol yng nghylch Aberystwyth yn broses fydd yn cael ei gyflwyno'n raddol, o flwyddyn i flwyddyn. Golyga hynny y bydd disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgolion ar hyn o bryd yn parhau i gael y ddarpariaeth hon nes</p>

Tudalen 282

mawr eraill yr ardal. Mae llawer o weithwyr gwadd yn dod â'u teuluoedd gyda nhw am gyfnodau byrion, ac mae plant y teuluoedd hynny'n elwa o'r addysg ragorol yn Ysgol XXXX drwy gyfrwng y Saesneg. O leihau gallu XXXX i ddarparu'r addysg honno, bydd yn rhwystr mawr rhag denu staff hyfedr i ardal sydd eisoes yn ei chael yn anodd recriwtio. Rydym yn pryderu bod yr Aseiad Effaith Integredig a wnaed yn wallus oherwydd nid yw wedi pennu'r holl randdeiliaid y bydd y cynnig yn effeithio arnynt, er enghraifft, rhieni a gwarcheidwaid plant o oedran addysg statudol yng Ngheredigion. O ddiddymu dewis ystyrion ar gyfer yr iaith y mae plant yn cael eu haddysgu ynddi yn Aberystwyth, rydym yn pryderu bod y Cyngor yn mynd yn groes i nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o greu Cymru fwy cynaliadwy. Rydym yn cytuno bod y Gymraeg a dwyieithrwydd yn eithriadol o bwysig, ond bydd y newidiadau arfaethedig – ac yn enwedig amserlen gyflym y newidiadau arfaethedig – yn rhwystr sylweddol rhag cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd y sir. Mae angen dewis go iawn ar gyfer cyfrwng addysg plant Aberystwyth; yr hyn y bydd y cynigion yn ei wneud yn y pen draw yw rhoi dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg fan hyn neu addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall.

iddyn nhw adael yr ysgol. Y plant cyntaf i fynd drwy'r dull trochi fyddai'r rhai y byddem yn gobeithio byddai'n gweld manteision dwyieithrwydd llawn ac felly yn manteisio ar y cyfle i ddatblygu eu medrau ieithyddol ar hyd eu taith addysgol. Wrth gwrs, bydd hyn yn cymeryd rhai blynyddoedd. Mae'n ddyletswydd i'r Cyngor i gynyddu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg am y rhesymau a nodwyd eisoes. Mae'n ddyletswydd hefyd ar y Cyngor i weld datblygiad ieithyddol ymhob ysgol yn unol â'r ddogfen 'Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg'. Mae'r targed a gofnodwyd ar gyfer Ysgol XXXX yn y CSGA drafft 2022-32 yn ymateb i'r datblygiad tebygol wrth i ddisgyblion ddilyn continwmm ieithyddol o'r ysgolion cynradd i'r uwchradd yn Abersytwyth.

Tudalen 283

Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler isod yr ymatebion i C1 a C2)

Cwestiwn 1 – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod yr hyn a nodir yng ngweithredoedd Deilliant 4 yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar allu dysgwyr i astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg?

Cwestiwn 2 - I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y gweithredoedd yn cefnogi holl blant a phobl Ceredigion i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau drwy'r Gymraeg a'r Saesneg?

Sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r amcanion ond sydd hefyd yn cynnig ystyriaethau pellach	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion
Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn gwybod am bwysigrwydd gallu siarad Cymraeg yn y rhan fwyaf o weithleoedd Ceredigion, neu'r fantais sy'n dod yn sgil bod yn ddwyieithog yng Ngheredigion. O ddysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, ni all ond wella eu rhagolygon o fod yn oedolyn cyfan gwbl ddwyieithog.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Mae polisiâu a Chynllun Llesiant Ceredigion (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) yn datgan bod i'r Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal, felly ni ddylai fod unrhyw addysg unieithog yng Ngheredigion.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Pwysig iawn bod holl blant y sir yn cael y cyfleoedd hyn.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Mae cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau lefelau hyfedredd mwy cytbwys yng nghyswllt dwyieithrwydd y dysgwr unigol. Mae cymwysterau hefyd yn fanteisiol wrth barhau gydag addysg ôl 16 ac i mewn i'r byd gwaith yng ngolwg llawer o gyflogwyr. Mae cymwysterau ffurfiol yn cadarnhau'r sgiliau dwyieithog a enillwyd ar hyd y continwwm ieithyddol ac mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod manteision niferus, gan gynnwys gwybyddol, i ddwyieithrwydd.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Hyder i blant cwblhau cymhwysterau trwy'r Gymraeg. Meithrin sgiliau dwyieithog.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.
Rydym yn credu y bydd ein plant a phobl ifanc yn dod yn llawer mwy hyderus mewn byd dwyieithog. Bydd y disgyblion yn magu hyder i siarad Cymraeg os byddant yn cael eu trochi yn yr iaith o oedran cynnar. Fodd bynnag, byddai angen darpariaeth eang o ysgolion iaith i sicrhau bod disgyblion sy'n dod i'r sir heb unrhyw Gymraeg yn cael eu cynorthwyo i ddatblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog.	Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac am y sylwadau pellach am yr angen i gefnogi disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgolion pan yn hŷn.

Tudalen 284

<p>Caiff dilyniant ar gyfer disgyblion sy'n dilyn continwwm ieithyddol ei sicrhau drwy raglen gymorth gynhwysfawr i ddysgwyr ac i addysgwyr, a darpariaeth ar gyfer pynciau sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'n bosibl mai hwn yw'r unig lwybr a ddisgrifir yn y ddogfen sy'n arwain i unman. Dylai fod gan Fagloriaeth Cymru ac ati le amlycach yn narpariaeth gyffredinol yr ysgolion. Ond mae hyn hefyd yn golygu y bydd angen i Lywodraeth Cymru gryfhau'r ddarpariaeth o bynciau a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgolion.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau am y fagloriaeth. Mae disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn dod yn ddwyieithog – yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn gallu defnyddio'r ddwy iaith yn eu haddysg yn y dyfodol neu yn eu dewis o yrfa, boed hynny yng Nghymru, Lloegr neu tu hwnt. Mae cyfleoedd i astudio yn y Gymraeg ym mhob prifysgol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cael eu datblygu'n barhaus. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a sefydlwyd yn 2011, yn cynllunio ac yn cefnogi darpariaeth Addysg Uwch Gymraeg ar draws prifysgolion Cymru, gan weithio gyda darparwyr i sicrhau a datblygu mwy o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr yng Nghymru.</p>
<p>Mae'r rhestr o weithredodd yn ymddangos yn gynhwysfawr a phwrpasol. Anodd gweld sut y gall y strategaeth addysg fynd ymhellach tuag at gyflawni hynny.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Yn sicr bydd y dilyniant yn y llwybr ieithyddol yn allweddol yn ogystal ag adnoddau ariannol a dynol. Bydd y gefnogaeth o hyfforddiant i'r rhai perthnasol yn y daith addysgol yn cynnig hyder ac anogaeth i'r dysgwyr a'r addysgwyr wrth gael eu cyflwyno i'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y cydweithio rhwng rhieni, disgyblion addysgwyr a'r holl asiantaethau perthnasol o fewn Ceredigion yn gaffaeliad mawr tuag at hyrwyddo, hybu a chodi hyder yn y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach.</p>
<p>Mae'n ymddangos bod yr ystod o weithredoedd a amlinellir yn targedu'r agwedd hon mewn ffordd gadarnhaol. Cynigir camau pellach yn Rhaglen Waith Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2026 a allai fod yn berthnasol hefyd. Gallai hefyd fod modd i Brifysgol Aberystwyth gefnogi'r ymdrechion i dynnu sylw at fanteision parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch. Rydym yn croesawu'r dyhead i gynyddu'n sylweddol y nifer sy'n astudio Cymraeg fel pwnc Safon Uwch (iaith gyntaf ac ail iaith) ac rydym yn awgrymu y dylid rhoi sylw i ba mor ddeniadol yw cwricwlwm y pwnc.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach am berthnasedd cynnwys cwricwlaidd Safon Uwch y Gymraeg. Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru sy'n gyfrifol am gynnwys manylebau TGAU a Safon Uwch ac nid Cynghorau sir unigol.</p>
<p>Eto, bydd hyn yn cryfhau'r iaith ac, yn sgil hynny, y gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer yr awdurdod yn y tymor hir.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun. Mae bod yn ddwyieithog yn amlwg yn gallu bod yn fanteisiol yn economaidd ac yn ddiwylliannol.</p>
<p>Mae'r gweithredoedd yn gydnaws â nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm. Fe'i hategir gan ddarpariaeth y Coleg Cymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 285

<p>Mae'r gweithredoedd yn gydnaws â'r nod hwn. Ar hyn o bryd, mae gormod o blant yn colli allan ar gyfleoedd cyfrwng Cymraeg i ddysgu ac i ehangu eu haddysg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae ystod y gweithredoedd yn eang ac yn greadigol - da gweld, e.e. y cyfeiriadau at gynnal ffocws ar hyn drwy'r Cynllun Datblyu blynyddol; sefydlu is-bwyllgor penodol i Lywodraethwyr; cynnal partneriaethau a'r Coleg Cymraeg a Gyrfa Cymru etc; cynnig cefnogaeth i athrawon di-hyder.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Ar hyn o bryd, mae'r ganran sy'n astudio cyfrwng Cymraeg yn CA5 yn isel (24%), ond o sicrhau continwmm llwyddiannus, fe ddylai hyn godi. Mae cynlluniau yn yr arfaeth i dargedu hyn, a'r rhai mwyaf blaengar efallai, yw'r gefnogaeth o safbwynt cymorth i ddisgyblion ac athrawon e.e. hyfforddiant dynol a chyllid - hyfforddiant Gloywi Iaith i staff; cwrs sabothol i gefnogi athrawon di-hyder yn ieithyddol; dealltwriaeth o anghenion cymwysterau TGAU yn sgil Cwricwlwm i Gymru a chadarnhad bod TGAU Cymraeg yn gyfwerth ag un TGAU a hanner. Mae Ceredigion yn sefydlu pwyllgor a chyfarfodydd a gyfer Llywodraethwyr sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg er mwyn mireinio eu rôl a chryfhau atebolrwydd – mae hyn yn allweddol gan fod angen un meddylfryd clir i gynllunio ar gyfer ysgol os am lwyddo, a rhaid bod statws i'r person sy'n arwain ar hynny. Hefyd, cam cadarnhaol ac allweddol iawn yw'r ffaith bod Ceredigion yn penodi swyddog Cefnogi Gyrfa Gynnar athrawon. Mae cefnogaeth Cered hefyd yn allweddol i sicrhau abledl ieithyddol disgyblion oherwydd bod Cered, drwy weithgareddau cyfoethog ac amrywiol yn gallu cryfhau hyder a rhuglder disgyblion trwy brofiadau a mwynhad. Mae'r ffaith bod prentisiaethau a swyddi'r sir yn nodi pwysigrwydd y Gymraeg hefyd yn darged pwysig iawn, ac yn mynd i fod yn ysgogiad i ddysgwyr weld gwerth mewn parhau i ddatblygu yn ieithyddol yn y Gymraeg. Mae'r ffaith bod profiadau pobl go iawn yn cael eu defnyddio i rannu pwysigrwydd dwyieithrwydd yn gymorth i ieuencid Ceredigion ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, trwy weld llwyddiant mewn esiamplau real. Mae Cynnal Ffair Yrfaoedd/Byd Gwaith yn dangos bod y continwmm ieithyddol yn parhau i fyd ar ôl ysgol, a bod dwyieithrwydd yn cynnig dwy waith y cyfleoedd. Hefyd, mae defnyddio uned 'Tro'r trai mewn trideg mlynedd' y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel modiwl gyda'r holl ddisgyblion yn arf bellach i sicrhau dysgwyr sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol gyweiriau a lleoliadau drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid canmol y ffaith bod cynlluniau penodol ar gael hefyd i bwysleisio manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc i rieni a disgyblion, gan rannu fideos LIC mewn nosweithiau dewisiadau, creu fideos astudiaethau achos eu hunain; heb anghofio arweiniad, anogaeth ac ysbrydoliaeth Cardi Iaith a Cered. Cofier bod Prifysgol Bangor wedi cyhoeddi ffrwyth ymchwil ar ddwyieithrwydd, sef bod dysgwyr dwyieithog yn medru addasu i newid ffocws gweithgareddau a newid mewn sgiliau yn llawer haws a chyflymach na'r dysgwr uniaith.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau manwl pellach.</p>

Tudalen 286

<p>Nodir y byddwch yn "Ymgynghori ar newid categori un ysgol uwchradd i ddynodiad 3 yn unol â 'Categori ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru)". Dylid nodi enw'r ysgol, neu o leiaf enw dalgylch yr ysgol dan sylw, er mwyn ei gwneud yn gliriach i ddarllenwyr at ba ysgol y mae'r cam gweithredu yma yn cyfeirio ati.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Defnydd effeithiol o Gymraeg fel cyfrwng. O ddilyn continwmm iaith, bydd pob unigolyn yn derbyn darpariaeth addas.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'n hollol angenrheidiol gwneud y Gymraeg yn gyfoes, gyffrous a deniadol a dyna ble mae dysgu cyfrwng yn rhagori fel modd o ddysgu unrhyw iaith, yn enwedig fel bo'r disgyblion yn aeddfedu. Rhaid wrth y llwybrau ieithyddol cadarn hyn i gyflawni hyn. Daw statws yr iaith yn beth arferol yn lle derbyniol gan esgor ar y dewis i ddilyn gyrfa drwy'r Gymraeg. Cytuno'n gryf. Drwy'r holl fonitro, ymgynghori a chasglu gwybodaeth bydd modd canfod rhagoriaethau a gwendidau y ddarpariaeth. Gobeithio y bydd cyllid didonol i annog a chefnogi'r gweithlu yn eu rol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Datblygu'r disgyblion i fod yn ddwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Law yn llaw gyda'r datblygiadau yn y deilliannau eraill, gobeithiwn y bydd y gweithredoedd yn cael yr effaith angenrheidiol i alluogi'r dysgwyr i astudio'r cymwysterau dan sylw. Os yw'r disgyblion yn hyderus i siarad Cymraeg, yn cymryd balchder ynddi ac yn ei gweld fel iaith sy'n berthnasol iddynt yn eu bywyd bob dydd, yna mae'n fwy tebygol o lawer y byddant yn ei hastudio ac am ennill cymwysterau ynddi. Gobeithio'n wir y bydd modd i'r awdurdod fuddsoddi mewn amrywiol ffyrdd i gefnogi'r datblygiadau yma.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Bydd gwneud cymhwyster yn sicrhau fod mwy yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth angenrheidiol ar gyfer swyddi yn y dyfodol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Dim siwr a oes eisiau hwb i'r Saesneg i bobol cael cyfathrebu. Mae na ddigon o nhw yma.</p>	<p>Bydd sgiliau iaith Saesneg disgyblion yn parhau i gael ffocws o fewn cwricwlwm ysgol.</p>
<p>Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn croesawu y targed o weld mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg fel pwnc, a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell yn cynnig sesiynau Cymraeg a dwyieithog i ysgolion cynradd ac uwchradd Ceredigion a gweddill Cymru ar bynciau amrywiol, ac mae ar gael i gynnig cefnogaeth i ysgolion i hwyluso mynediad at ein casgliadau wrth ddatblygu themau. Mae'r Gwasanaeth Addysg wedi cydweithio ar brosiectau gyda'r Cyngor Sir yn y gorffennol (ee Gŵyl Darllen Miliwn o Eiriau - Theatr Felinfach, Arddangosfa Dilyn y Fflam, Cynllun Pontio ysgolion cylch Aberystwyth). Byddai'n croesawu'r cyfle i weithio ar brosiect sy'n hyrwyddo thema neu weithgaredd benodol gyda holl ysgolion y sir all eich cynorthwyo i gyrraedd y targed hwn yn y dyfodol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau ymarferol eraill a gyflwynwyd.</p>

Tudalen 287

<p>Mae na elfennau posib fan hyn sydd y tu hwnt i allu y Cyngor sir i reoli ond mae'r hyn sydd yn cael ei amlinellu yn rhoi cynllun mewn lle i sicrhau fod cymaint a ellir ei wneud yn cael ei wneud gyda rhai syniadau blaengar. Mae yna ystod o weithgaredd yn cael ei amlinellu yma ddylai helpu unrhyw berson ifanc i ddatblygu i allu cyfrannu'n effeithiol yn ddwyieithog i gymuned - posib y gellir gweld rhwyfaint mwy o bwyslais i helpu rheiny na fyddai'n dilyn y llwybr addysgiadol traddodiadol er mae na grybwyll cydweithio gyda Gyrfa Cymru.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach o ran cydweithio gyda phartneriaid.</p>
<p>Mae angen gweld yr iaith fel arf yn hytrach na phwnc ar wahân. Felly mae astudio pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig. Rhaid i ddisgyblion weld pwrpas go iawn i'r iaith yn hytrach na iaith mewn dosbarth gwersi Gymraeg yn unig.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>O wneud y Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd pob dydd gwersi ac ysgol mae'n amlwg y bydd disgyblion yn manteisio oblegid bydd yr hyder ganddynt i barhau gydag astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae iaith y Cymry Cymraeg yn dirywio oherwydd maent yn addasu eu hiaith gyda'r dybiaeth nad yw dysgwyr y Gymraeg yn eu deall. Pe byddai'r plant i gyd yn cael eu haddysgu o dan yr un drefn fe ddylent sylweddoli bod dysgwyr y Gymraeg yn aml lawn mor rhugl ag ydyn nhw.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rhaid sicrhau'r adnoddau gorau a'r safonau dysgu gorau posib. Y manteision o ddysgu'r Gymraeg eisoes wedi eu nodi yn y cwestiynau blaenorol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Rwy'n croesawu'n fawr y pwyslais ar gefnogi disgyblion i astudio'r Gymraeg fel pwnc. Mae'r canrannau presennol yn isel, ac mae hon yn broblem genedlaethol. Dylai'r Cwricwlwm i Gymru hwyluso'n fawr y cyfle i dynnu'r muriau rhwng Cymraeg mamiaith a Chymraeg ail-iaith ac mae cefnogi athrawon i ennill hyder yn eu sgiliau Cymraeg yn allweddol yn hyn o beth yn bwysig. Mae ennill yr hyder hwn yn dod o feithrin canfyddiadau cadarnhaol tuag at dwy ac amlieithrwydd. Mae'n rhaid deall 'iaith' fel cynneddf sy'n mynd ymhell y tu hwnt i 'bwnc' academaidd. Mae cynyddu'r nifer o bynciau a astudir drwy'r Gymraeg yn sicr yn mynd i helpu yn hyn o beth, oherwydd drwy hynny, mae cyfleoedd y dysgwyr i glywed ac i siarad y Gymraeg hefyd yn cynyddu. Er mwyn dod yn gyfathrebwyr effeithiol mae creu cyfleoedd i ddefnyddio iaith mewn cyd-destun allgyrsiol hefyd yn hanfodol. Byddai'n dda gweld cyfeiriad at drydedd iaith yma hefyd, ac yn hynny o beth, byddai'n braf gweld cydweithio rhwng y Sir a'r Brifysgol i ddatblygu addysgeg amlieithog effeithiol. Byddai hyn yn fodd o sicrhau bod disgyblion ac athrawon y sir yn gwneud y mwyaf posib o'r 'fantais ddwyieithog' sydd yn aml 'o dan yr wyneb' ond sydd, o'i amlygu, yn gallu arwain at hwyluso dysgu ieithoedd eraill ac at ddatblygu cymwyseddau rhyng-ddiwyllynnol - set o sgiliau</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac am y sylwadau pellach o ran y 'fantais ddwyieithog' yn enwedig o ran dysgu ieithoedd eraill ac at ddatblygu cymwyseddau rhyng-ddiwyllynnol er mwyn gweld cymdeithas deg a chroesawgar.</p>

Tudalen 288

<p>pwysig wrth i ni gyrchu'r nod o feithrin cymdeithas deg a chroesawgar.</p>	
<p>I wireddu'r cynlluniau hyn, mae cefnogi'r datblygiadau o ran staffio yn allweddol. Gellid ystyried gwahanol fodelau o wireddu hyn, gan gynnwys cyrsiau cyfunol. Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y deilliant hwn a gwireddu Deilliant 3 gan taw yma y gellir bod yn fwy penodol mewn cynllun deg mlynedd o ran y targedau ar gyfer asesu cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ysgolion uwchradd. Mae'n anodd gwerthuso'r gweithredoedd a'r targedau yn llawn gan fod bylchau yn y data ayb. Mae lle i'r targedau fod yn fwy uchelgeisiol yma ar gyfer yr uwchradd a hefyd gynnwys targedau penodol ar gyfer eistedd asesu TGAU/ CA4 ac Uwch-Gyfrannol/ CA5 trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n ymddangos bod y prif bwyslais ar CA4 ac nad oes targedau CA5 heblaw am astudio'r Gymraeg fel pwnc. Os nad oes ffocws digonol ar astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel CA5, mae risg y bydd disgyblion yn dilyn llwybrau cyfrwng Saesneg mewn amrywiol bynciau ac yna yn penderfynu peidio ag astudio yn Gymraeg mewn addysg uwch gan effeithio ar eu hyfedredd ieithyddol i gwblhau swyddi yn y byd gwaith gwbl hyderus yn ddwyieithog. Fel prifysgol, rydym yn gyfarwydd â myfyrwyr sy'n gallu siarad Cymraeg ac wedi cael addysg Gymraeg (gan gynnwys yn yr ardal hon) yn dewis astudio modiwlau israddedig drwy gyfrwng y Saesneg yn unig ac yn anfoddog i astudio modiwlau gyda ni yn Gymraeg. Un o'r prif resymau a roddir yw eu bod wedi astudio pynciau Lefel-A drwy'r Saesneg. Golyga hyn bod cyfnod olaf astudio yn yr ysgol CA4 a CA5 yn allweddol i sicrhau bod disgyblion yn parhau i fod yn hyderus ac yn astudio ddwyieithog os am wireddu'r weledigaeth ar dudalen 2: eu bod yn barod i wynebu byd gwaith yn gwbl ddwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun a'r sylwadau pellach sy'n nodi'r hyn sydd ei angen i'w wireddu. Mae sicrhau bod disgyblion yn hyderus ddwyieithog yn un o brif amcanion y cynllun.</p>
<p>Heb os, mae angen annog mwy o ddisgyblion CA3 i ddilyn eu pynciau yn y Gymraeg ac ystyried colli'r opsiwn i ddilyn y pwnc drwy gyfrwng y Saesneg. Dylai ein hysgolion gynyddu canran y pynciau a gynigir yn y Gymraeg, ni ddylai ein hysgolion Cymraeg gynnig e.e. 'History' yn lle 'Hanes' yn TGAU. Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a lleihau ar y ddarpariaeth Saesneg sydd angen yma.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun a'r sylwadau pellach am addysgu a dysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
<p>Angen cynnig popeth yn Gymraeg, ond a yw'r staff ar gael i ddarparu? Pob sefydliad yn wynebu heriau gwahanol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol. Mae Deilliant 7 yn mynd i'r afael â'r angen i gynyddu nifer staff sy'n medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac fel pwnc.</p>
<p>Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar argaeledd staff sy'n medru dysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, mae'r nifer sy'n dilyn pwnc Cymraeg A2 yn lleihau ledled Cymru - i gymharu a lefel A Saesneg sy'n boblogaidd (ac o bosib yn fwy cyfoes?). A oes gorbwyslais ar ddeunydd hynafol, e.e. trosi o'r hen Gymraeg? yn hytrach nag edrych ar destunau mwy perthnasol a chyfoes. Angen ysbrydoli ein plant a phobl ifanc. Bydd y Cynllun yn cefnogi ysgolion uwchradd i gynyddu'r nifer o gymwysterau y medrir eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>

Tudalen 289

<p>ac ar ddiwedd y 10 mlynedd, y disgwyliad yw bydd 6 o'r 7 ysgol uwchradd yn cyrraedd dynodiad 3. Mae heriau gwahanol gan ysgolion gwledig i gyfateb a rhai trefol, falle, ond y nod cyffredinol ydy bod ein disgyblion yn hollol rhugl yn y ddwy iaith erbyn bl 6. Mae'r dyheadau a dymuniadau'n sy'n dod lawr o'r Awdurdod yn glir iawn.</p>	
<p>Mae angen sicrhau bod digon o gefnogaeth a sgiliau staff digonol ar gyfer medru darparu cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen hefyd sicrhau ymgyrch sy'n hybu dewis cyfrwng Cymraeg ymysg rhieni a disgyblion. Gyda gwahanol gategorïau o ysgolion nid yw'r cyfleoedd yn hafal ond os fydd y continiwm yn llwyddiannus dylai hyn weithio.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun a'r sylwadau pellach.</p>
<p>Trwy gynnig addysg Gymraeg i holl ddisgyblion Ceredigion, mae'n rhoi statws i'r iaith. Mae holl ddisgyblion Ceredigion, hyd yn oed mwyafrif y rhai o gartrefi Cymraeg yn clywed Saesneg yn eu bywyd dyddiol, ac mae eu gallu a'u hyder yn y iaith yn datblygu, beth bynnag eu cefndir. Nid felly'r Gymraeg, dydy'r holl blant ddim yn cael cyfle i glywed a defnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol, ac o ganlyniad, maen nhw'n llai hyderus wrth siarad, ac mae hyn yn eu rhwystro i ddatblygu'n siaradwyr dwy-ieithog. Mae cynnig addysg Gymraeg i holl blant Ceredigion yn holl bwysig er mwyn datblygu sgiliau dwy-ieithog holl ddisgyblion Ceredigion.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>
<p>Mae hyn yn edrych yn addawol. Gwelir bod nifer o ysgolion ar hyn o bryd yn cynnig rhan fawr o'r cwricwlwm drwy'r Saesneg, hyd yn oed mewn ysgolion dwy ffrwd / cyfrwng Cymraeg, gyda chanran mawr o fyfyrwr yn newid cyfrwng eu haddysg mewn pynciau gwyddonol i'r Saesneg cyn cyrraedd TGAU. Mae ymchwil yn dangos bod y myfyrwyr hyn yn dueddol o fynd ymlaen i'r brifysgol i astudio drwy'r Saesneg, gan gollir manteision ariannol a chyflogawydd sy'n dod ag astudio rhan o'ch addysg uwch yn Gymraeg. Mae hyn hefyd yn annog allfudo o Geredigion/Cymru gan bobl ifanc gan nad ydynt yn dymuno manteisio ar addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae angen targedau mwy pendant ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd, ar y lefelau uchaf. Ar hyn o bryd, mae diffyg darpariaeth Gymraeg ar y lefel hon yn golygu bod cyflogwyr lleol yn cael trafferth recriwtio staff sy'n medru gweithio'n ddwyieithog yn hyderus. Gwelir hyn wrth edrych ar weithgareddau hamdden (e.e. chwaraeon sydd ar gael i blant - maent yn tueddu i redeg yn Saesneg), a'r diffyg darpariaeth Gymraeg sydd ar gael o fewn siopau, banciau, derbynfydd meddygfeydd a busnesau lleol eraill.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun a'r sylwadau pellach. Er cymaint y byddem yn dymuno disgyblion yn mynychu prifysgolion yng Nghymru a gweld cynnydd yn y nifer sy'n astudio cyrsiau addysg bellach drwy gyfrwng y Gymraeg mae'n bywsig nodi mai hyfedredd ieithyddol yn y ddwy iaith sy'n cael ei weld yn greiddiol i'r cynllun. Mae dwyieithrwydd llawn yn sicrhau bod y dewis ar gael i fyfyrwyr astudio ym mhle bynnag. Os ydyn nhw'n dewis astudio yn Lloegr neu'r Alban neu thu hwnt, gobeithiwn y byddant yn dychwelyd oherwydd eu gwreiddiau a'u gafael o'r Gymraeg a'r Saesneg a bod swyddi ar gael iddyn nhw i weithio yn y Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith.</p>
<p>Os yw plentyn yn derbyn addysg cyfrwng Gymraeg cynradd, maent yn fwy tebygol o barhau gydag addysg cyfrwng Cymraeg yn yr uwchradd. Mae hyn i'w weld yn effeithiol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg De Cymru. Mae'r gweithredoedd yn rhoi ffocws ar ddatblygu dwyieithrwydd mewn gwahanol leoliadau. Mae nifer o swyddi yn nodi fod gallu'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol. Bydd dilyn modiwl "Tro'i'r Trai</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>

Tudalen 290

<p>mewn tri deg mlynedd" yn rhoi ffocws ar bwysigrwydd sgiliau da yn y Gymraeg wrth fynd i'r byd gwaith.</p>	
<p>Mae'r cyswllt rhwng addysg yn y Gymraeg a chyflogaeth yn un pwysig ac mae'r camau nodwyd yn y maes yn glir. Dylid egluro, annog a gwerthu dilyniant ieithyddol trwy holl brosesau'r sir ac o fewn? ysgolion, gan gynnwys prosesau mynediad. Mae cyflwyno pwrpas addysg Gymraeg i rieni a'r gweithlu addysg yn bwysig wrth sicrhau brwdfrydedd pawb wrth i bawb gweithredu'r cynllun hwn. Mae'r ffocws ar staffio yn allweddol, gan fod hwn yn broblem ym mhob sector addysg. Mae cefnogaeth datblygu a gloywi iaith ar gyfer staff yn gam addas ond bydd angen ystyried cyrsiau mwy dwys wrth edrych ar feysydd arbenigol, gyda chysiau sabothol o dymor yn annigonol i athrawon sy'n dechrau gydag ond ychydig o'r Gymraeg. Efallai byddai cyrsiau cyfunol sy'n hyfforddi ac wedyn dechrau cyflwyno staff i Gymraeg yn y gweithle dros gyfnod o flwyddyn yn angenrheidiol ar gyfer staff arbenigol. Mae'r targedau hir dymor yn glir a bydd y camau yn sicrhau bod ysgolion yn cyrraedd y rhain. Nid yw data'r sefyllfa gyfredol yn glir felly mae'n anodd asesu'r targedau. Serch hynny nid yw'r targedau yn ymddangos yn ddigon heriol ar gyfer y sector uwchradd, a bydd diffyg targedau meintiol tymor byr a thymor canol yn broblem wrth dracio'r cynnydd. Gyda'r camau yn y cynradd disgwylir gweld effeithiau'r newidiadau ym mlynnyddoedd cynnar yr uwchradd erbyn diwedd cyfnod y cynllun.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>
<p>Angen i ddysgwyr cael cymaint o gymwyserau â phosib fel eu bod yn hyderus i siarad Cymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>
<p>Hoffwn gynnig un awgrym pellach at yr hyn a nodir fel gweithredoedd ar gyfer Deilliant 4, sef prosiect ymchwil ansoddol i ddeall yn well beth yw'r rhesymau pam fod disgyblion (a'u teuluoedd yn dewis llai o Gymraeg (fel pwnc neu fel cyfrwng dysgu) ar hyd eu taith addysgol. Mae'r ffactorau a enwir eisoes yn dybiaethau rhesymol, synhwyrol a chyflawn iawn. Fodd bynnag, efallai gall ffactorau ychwanegol neu ffactorau newydd ddod i'r golwg drwy gynnal gwaith ymchwil yn y maes hwn, neu bwyslais penodol ar rai ffactorau yn fwy na'r hyn a dybiwyd. Mae'r gweithredoedd yn gynhwysfawr iawn ac yn rhoi ystyriaeth i ystod eang o lwybrau addysgol i blant a phobl ifanc Ceredigion. Mae'r gweithredoedd hefyd yn gryf o ran partneriaethau a manteisio ar arbenigeddau cyrff eraill.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun a'r sylwadau pellach am y prosiect ymchwil posibl.</p>
<p>Pan fydd y seiliau yn cael eu gosod a'r gweithredoedd a nodir yn Deilliant 4 yn cael eu datblygu mae'n gyfle i ddysgwyr astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynllunio manwl a 'manageable' yn angenrheidiol. Mae'r argymhellion yn nodi sut mae modd cefnogi ysgolion uwchradd i feithrin holl blant a phobl ifanc Ceredigion i ddatblygu'n feidrolion dwyieithog. Campus o gyfle i'r rhieni hefyd sydd eisieu dysgu'r Gymraeg i wneud hynny.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>

<p>Mae'r deiliant yn amwys am nag ydy'n cyfeirio at unrhyw darged mesuradwy. Mae hyn yn groes i'r Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol mewn Addysg a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn gweld hyn fel un o'r prif faterion fel croesawn y sylw iddo a galwn am fesurau mwy. Mae'r ystadegau yn y ddogfen yn dorcalonus. Dim ond traean o'r disgyblion sy'n astudio o leiaf 5 pwnc TGAU trwy'r Gymraeg a rhyw chwarter sy'n astudio trwy'r Gymraeg ar gyfer lefel A. Mae hyn yn ymddangos yn ryfedd iawn wrth ystyried bod 73% o ddisgyblion yn astudio'r Gymraeg fel mamiaith ar gyfer TGAU. Mae hyn yn awgrymu efallai mae tua hanner yr holl disgyblion yn meddu ar y sgiliau ieithyddol i astudio eu pynciau TGAU trwy'r Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny. Wrth ystyried mae dyma yw'r sefyllfa presennol, ni welwn bod yr hyn sydd yn y ddogfen yn mynd i unioni'r cam. Mae angen bod yn llawer mwy radical a gosod targedau uchelgeisiol mesuradwy gyda chmau clir i'w cyflawni. Pwynt penodol hoffem godi yw bod y ddogfen yn sôn am y posibilad o symud un ysgol i fyny'r continwmm ieithyddol o fewn y 10 mlynedd nesaf. Dydy hyn ddim yn ddigon i wneud gwahaniaeth sylweddol i'r sefyllfa. Hoffem ni weld bob ysgol yng Ngheredigion yn ysgol cyfrwng Cymraeg, neu o leiaf Cymraeg yn bennaf yn achos yr ysgolion uwchradd, erbyn 2032. Rydym hefyd yn rhyfeddu ar y targedau ieithyddol ar gyfer lefel TGAU ar dudalen 20. Bydd dim ond chwarter y plant yn cael eu holl addysg trwy'r Gymraeg a bydd traean o'r plant yn cael llai na 20% o'u haddysg trwy'r Gymraeg. Na fydd hyn yn cyrraedd yr amcanion yr ydych chi eisiau gweld o ran deilliannau a chael to newydd o ddisgyblion yn siaradwyr Cymraeg hyderus sydd hefyd yn gallu trin a thrafod amryw pynciau trwy'r Gymraeg. Does fawr ddim byd yn yr adran yn fesuradwy ac hoffem ni weld mesurau llawer mwy cadarn ac uchelgeisiol.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau a'r manylion o bryder a gyflwynwyd. Bydd y ddogfen 'Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru) yn arweiniad ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chymwysterau wrth symud ymlaen. Byddai manylion pellach i'r hyn a gofnodwyd yn y CSGA drafft yma yn ffurfio cynllun gweithredu blynyddol o fis Medi 2022 ymlaen.</p>
<p>Gwelir bod nifer o ysgolion ar hyn o bryd yn cynnig rhan fawr o'r cwricwlwm drwy'r Saesneg, hyd yn oed mewn ysgolion dwy ffrwd / cyfrwng Cymraeg, gyda chanran mawr o fyfyrwyr yn newid cyfrwng eu haddysg mewn pynciau gwyddonol i'r Saesneg cyn cyrraedd TGAU. Mae angen targedau mwy uchelgeisiol i wrthdroi'r tueddiad hyn. Ar hyn o bryd, mae'r Cynllun yn nodi targed o 45% o ddisgyblion uwchradd yn astudio 50% o'u pynciau drwy'r Gymraeg erbyn 2031/32, sy'n golygu bydd y mwyafrif o ddisgyblion yn astudio ar lefel uwchradd yn bennaf drwy'r Saesneg. Mae ymchwil mewnol gan y Brifysgol yn dangos bod y myfyrwyr hyn yn dueddol o fynd ymlaen i'r Brifysgol i astudio drwy'r Saesneg, gan gollir manteision ariannol a chyflogadwyedd sy'n dod ag astudio rhan o'ch addysg uwch yn Gymraeg. Er enghraifft, dengys data ar gyrchfannau graddedigion Prifysgol Aberystwyth fod graddedigion sydd wedi astudio o leiaf un modiwl drwy'r Gymraeg yn fwy tebygol o fod mewn swydd lefel raddedig neu astudio ar lefel uwchraddedig 6 mis ar ôl graddio o'u cymharu â myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg ond nad ydynt wedi astudio drwy'r Gymraeg a myfyrwyr di-Gymraeg. Mae nifer uchel y darpar fyfyrwyr sy'n astudio drwy'r Saesneg mewn ysgolion</p>	<p>Nodwyd y sylwadau a'r manylion o bryder a gyflwynwyd.</p>

Cymraeg a dwyieithog yn y sir yn effeithio'n negyddol ar recriwtio i'r Brifysgol gan eu bod yn fwy tebygol o adael y sir ac astudio drwy'r Saesneg mewn prifysgolion dros y ffin. Gwelir bod recriwtio cyfrwng Cymraeg yn gryfach o ysgolion yn y de-orllewin, de-ddwyrain a Gwynedd, yn hytrach nag ysgolion lleol. Mae hyn yn mynd yn groes i brofiadau Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant. Mae'r Cynllun yn sôn am ymchwil Dr Lowri Cunnington Wynn (Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg) ond dylid nodi bod canfyddiadau'r prosiect hwn yn fwy eang nag y mae'r Cynllun yn ei awgrymu. Mae Ysgol Henry Richard yn un astudiaeth achos yn yr astudiaeth ond gellid cynhwyso'r canlyniadau yn fwy cyffredinol. Yn benodol, mae'r profiadau cymunedau lle mae rhai plant yn mynd drwy addysg Gymraeg tra bod eraill yn mynd drwy addysg Saesneg yn arwain ffurfio grwpiau iaith, gyda'r grwpiau heb afael sicr ar y Gymraeg yn llai tebygol o deimlo eu bod nhw'n perthyn o fewn eu cymunedau sy'n gallu bod yn ffactor sy'n arwain at rai pobl ifanc yn allfudo (gweler Cunnington Wynn, 2019). Un elfen bwysig iawn sydd angen sylw hefyd yw addysgu Cymraeg fel pwnc mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae angen cyfleodd pellach i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a chyda eu hathrawon. Mae felly angen i gefnogi a hyfforddi staff mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gyda phwyslais pellach ar ddatblygu sgiliau Cymraeg athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fel bod Cymraeg yn rhan sylweddol o'r addysgu a'r defnydd ohoni yn rhan bwysig o ddiwylliant yr ysgol. Mae'r targedau yn golygu y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion uwchradd Ceredigion heb y sgiliau iaith i weithio'n broffesiynol yn ddwyieithog (Huws, 2011). Yn ogystal, mae angen edrych ar y cyd-destun ehangach wrth hyrwyddo addysg Gymraeg. Er enghraifft, mae defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd a lefel cymhathu rhieni yn y gymuned leol yn ffactorau sy'n annog defnydd o'r Gymraeg (gweler Cunnington Wynn, 2019). Noda Davies (2020: 74) bod angen gwerthfawrogi a dathlu dwyieithrwydd 'y tu hwnt i allu siarad dwy iaith, [ac] ar wahân i'r agwedd o hwyluso mynediad at gyflogadwyedd'. Mae diffyg gwerthfawrogiad a dathlu dwyieithrwydd yn ehangach na sgiliau iaith a chyflogadwyedd yn annhebygol 'o wreiddio gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd yn ddwfn ym mhersonoliaeth y dysgwyr, gan beri iddynt fod eisiau defnyddio'r Gymraeg yn ehangach (t.74)'. Awgrymu Davies (2020: 74) fod: 'Angen i'r gyfundrefn addysg fynd y tu hwnt i bortreadu dwyieithrwydd fel y gallu i siarad dwy iaith, gan wneud mwy na phortreadu deddfau iaith a safonau, hefyd. Byddai rhaglen ymwybyddiaeth iaith yn fodd o ehangu'r neges hon. Mae angen i raglen o'r fath gyfleu bod dwyieithrwydd yn arwain at ddealltwriaeth o gymdeithas a diwylliant dwyieithog, a phrofiad o fyw dwyieithrwydd. Eglura Baker a Jones (1998: t. 54), er enghraifft, fod dwyieithrwydd yn ennyn sensitifrwydd i anghenion cyfathrebu sefyllfaoedd. Ymhelaetha García (2009: tt. 98–100) ar hyn gan dynnu sylw at allu pobl ddwyieithog i gyfathrebu mewn ffordd hyblyg, a phwysleisia bwysigrwydd hyn o fewn cyd-destun globaleiddio.

Tudalen 293

<p>Mae cynnig mwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwyig yn enwedig pynciau ymarferol galwedigaethol. Mae angen hefyd chwalu'r ddamcaniaeth taw iaith gwyddoniaeth a thechnoleg yw Saesneg. Nid yw astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais os rhywbeth mae'n fantais.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>
<p>Rhoi hunaniaeth i'r dysgwyr a chaniatau iddynt gymhathu â'r ardal leol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>
<p>Rwy'n teimlo fod angen i'r cynllun fod yn llawer fwy beiddgar. O edrych ar ganran cyfredol o ddisgyblion CA5 astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg (24%) byddai'n ddiddorol gwybod pa nifer oedd yn astudio'r Gymraeg fel pwnc. Hoffwn weld y Cyngor yn sicrhau fod amrediad o bynciau yn cael eu cynnig yn y Gymraeg. Mae problem fawr o ran nifer y pynciau STEM sy'n cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig yn CA5 – hyd yn oed mewn ysgolion lle ry'n ni'n eu hystyried yn rhai Cymraeg. Nid yw hi'n ddigonol datgan bod modd i ddysgwyr ddewis sefyll cymhwyster yn y Gymraeg os nad iaith y dosbarth yw'r Gymraeg. Mae angen sicrhau fod dosbarthiad daearyddol deg o ysgolion sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg mewn pynciau STEM. Hyderaf fod rhai athrawon fyddai'n gallu cynnig hyn gyda'r amser i gynyddu eu hyder. Mae hyn yn hollbwysig os am sicrhau'r continwwm ieithyddol. Gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae nifer o bynciau gwyddonol yn cael eu cynnig yn y Gymraeg yn mhrifysgolion Cymru, ond prin fydd y myfyrwyr fydd yn dewis manteisio ar hyn os nad iaith eu haddysg yn yr Ysgol yw'r Gymraeg. Rwy'n cydnabod fod y system e-sgol yn mynd i ehangu'r ystod o bynciau cyfrwng Cymraeg safon Uwch. Dylid gochel rhag dibynnu'n helaeth arno, oherwydd nid pob disgybl fydd yn gwerthfawrogi dibyniaeth ar addysg ddigidol, ac o bosib yn dewis astudio yn y Saesneg er mwyn manteisio ar y cyswllt wyneb yn wyneb ag athro. Tybed a fyddai modd penodi athrawon sy'n bencampwyr yn eu meysydd ac yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan rhoi bri i'r ddarpariaeth Gymraeg?</p>	<p>Nodwyd y sylwadau a'r manylion o bryder a gyflwynwyd.</p>
<p>Mae'r cynllun hwn yn cefnogi plant i allu cyfrannu at weithgreaiddau yn ddwyieithog ac yn bennaf datblygu'r hyder i gymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n hyfforddi gyda chlwb pél droed ac yn unol á phwyslais yr FAW yn sicrhau bod plant yn medru mwynhau y gé m drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal á'r Saesneg. Byddai cyfleoedd yma i wneud yn siwr bod pob plentyn yn cael datblygu hyder i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol yn gwneud hyn dipyn yn haws, gyda pob plentyn oedran cynradd led led yr Awdurdod yn cael cyfle i ddatblygu i fod yn gwbl ddwyieithog.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r cynlluniau yma yn hanfodol er mwyn sicrhau tegwch i ddisgyblion sydd am ddilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda mwy o ddisgyblion mewn sefyllfa o safbwynt eu sgiliau i fedru cael mynediad at gymwysterau drwy'r Gymraeg bydd y ddarpariaeth yn cynyddu.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>

Tudalen 294

<p>Mae'n bwysig bod plant yn cael cyfle i ddatblygu y sgiliau i wneud unrhyw bwnc drwy'r Gymraeg, ond hefyd bod cyfleoedd gyda nhw i ddysgu unrhywbwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynllun yn cefnogi hyn yn dda.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r cynllun.</p>
<p>Use it or lose it!</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae fod yn ddwyieithog yn ffactor bositif nid yn un negyddol! Mae'n rhoi sylfaen i chi ddysgu mwy o ieithoedd yn haws ac hefyd yn agor cyfleon.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Ansicr. Mae ein rhesymau yn debyg iawn i'r rhai rydym wedi'u hamlinellu ar gyfer Deilliant 3 uchod, gan gynnwys yr angen am ddadansoddiad fesul ysgol. Yn ogystal, gwyddom nad yw Addysg Bellach yn dod dan gwmpas uniongyrchol yr awdurdod, ond teimlwn nad yw adran sy'n ymwneud â chymwysterau yn gyflawn heb ymdriniaeth o'r maes, a'r berthynas rhwng ysgolion a Choleg Ceredigion, gan gynnwys unrhyw gydweithio. Mae lle i ymhelaethu ar feysydd galwedigaethol yn ogystal. Rydyn ni'n anghytuno bod y gweithredoedd yn cefnogi holl blant a phobl ifanc Ceredigion i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon pellach sydd wedi'u cynnwys.</p>
<p style="text-align: center;">Sylwadau sy'n anghytuno'n gyffredinol gyda'r amcanion</p>	<p style="text-align: center;">Ymateb Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>Mae'n glir fod angen rhoi sylw manwl i ysgolion uwchradd o ran disgyblion sy'n dysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma adran wannaf addysg iaith gyntaf yng Ngheredigion. Drwy'r sir ychydig dros hanner o ddisgyblion iaith gyntaf sy'n astudio o leiaf ddau bwnc trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn debygol o arwain at golli sgiliau ieithyddol. Mae canrannau isel iawn o ddisgyblion iaith gyntaf yn sefyll 5 neu ragor o bynciau TGAU trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn wendid mawr eto. Ymhellach at hynny, dim ond 24% o ddisgyblion Safon Uwch y sir sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a'r pryderon pellach sydd wedi'u cynnwys.</p>
<p>Mae'n diddymu hawliau rhieni i ddewis ym mha iaith y mae eu plant yn cael eu dysgu.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Cafodd fy merch hynaf, a aeth i leoliad dwyieithog, ei rhoi yn y set uchaf ar gyfer Cymraeg yn ei hysgol uwchradd, ac mae fy ail ferch yn y set uchaf nawr. Dylai fod modd iddynt ddewis dysgu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Sut y gall rhywbeth gorfodol gael effaith gadarnhaol? Mae'n digio llawer o weithwyr hyfedr sy'n cyfrannu llawer at Geredigion ac yn gorfodi'r rheini nad oes ganddynt adnoddau ariannol i adael yr ardal i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr. Byddai llawer o'r teuluoedd hyn wedi bod yn fwy na bodlon i gefnogi gwersi Cymraeg i'w plant, ond nawr maent yn wynebu sefyllfa lle na fyddant yn gallu helpu'u plant â'u</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Does yna ddim tystiolaeth o gwbl i ddweud nad yw'r Gymraeg yn addas i'w defnyddio o fewn y gwyddorau a hynny at lefel uchel. Mae gan Gymru nifer o wyddonwyr presennol (ac yn hanesyddol) sy'n gallu ymdrin â'r maes yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pob iaith</p>

Tudalen 295

<p>gwaith cartref, lle bydd rhaid trefnu cyfieithwyr ar gyfer nosweithiau rhieni ac athrawon, a lle byddant yn teimlo'n gyffredinol eu bod wedi'u heithrio o addysg eu plant eu hunain. Hefyd, nid yw rhai pynciau'n addas i'w dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. O weithio mewn meysydd gwyddonol penodol a siarad â'r rheini sy'n cyhoeddi'u hymchwil yn Gymraeg, mae llawer o eiriau, peiriannau a chysyniadau gwyddonol y mae'n llawer anoddach eu mynegi yn Gymraeg.</p>	<p>yn addasu yn gyson ac yn bathu geirfa newydd wrth wynebu newid technolegol neu wyddonol ac mae'r Gymraeg yn gwneud hynny'n gyson.</p>
<p>Fel y nodir uchod, ar hyn o bryd, nid wyf yn gweld fawr ddim tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel addysg gynradd yng Ngheredigion. Mae mwyafrif helaeth y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a'u teuluoedd yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly nid wyf yn credu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth honno. Rwy'n credu bod y newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar ddewis plant a theuluoedd ac, o ganlyniad i'r newidiadau, gallai beri i Geredigion fod yn sir llai deniadol i deuluoedd di-Gymraeg symud iddi i weithio. Ar adeg pan fo anawsterau mawr o ran llenwi swyddi gweithwyr allweddol yn y sir, rwy'n credu y gallai unrhyw fesur a allai rwystro teuluoedd rhag symud i'r ardal fod yn andwyol i'r gwasanaethau allweddol a ddarperir yng Ngheredigion. Yn yr un modd, mae gennyf bryderon o ran manteision addysg uwchradd ddwyieithog i blant, yn enwedig o ran hyrwyddo TGAU a Safon Uwch a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd myfyrwyr yn gadael addysg uwchradd â chymwysterau Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, mae arnaf ofn y byddant dan anfantais fawr os byddant am astudio rhai pynciau allweddol mewn addysg uwch, boed yng Nghymru neu yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Mae mewnfudo ac allfudo yn cyfoethogi Ceredigion ac mae'n elwa ohonynt. Dylai fod arnom eisiau i bobl ifanc allu gadael Ceredigion ac astudio unrhyw le yn y DU neu yng ngweddill y byd cyn dychwelyd i Geredigion yn y dyfodol pan fyddant ar fin dechrau'u teuluoedd eu hunain. Drwy hyrwyddo Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, rwy'n pryderu y bydd yn llesteirio cynnydd academiaidd myfyrwyr ac y bydd yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig, gan gau'r drws ar y profiad buddiol o astudio bywyd tu allan i Geredigion.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Gallai hyn gynyddu'r gallu i astudio am gymwysterau Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ar draul ffactorau llesiant eraill. Dylai fod modd i blant ddewis eu hunain, ac nid cael eu llywio gan y ffordd y mae'r Cyngor yn dehongli polisi Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae holl ddisgyblion Ceredigion eisoes yn sefyll arholiadau Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. O ran sefyll arholiadau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, ni fyddai'r rhan fwyaf o'r rhieni a'r disgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn gweld unrhyw fantais o wneud hyn. Saesneg yw iaith y rhan fwyaf o'r cyrsiau prifysgol a'r rhan fwyaf o'r swyddi, felly mae'n hanfodol bod yn rhugl mewn termau arbenigol a gallu</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>

Tudalen 296

<p>mynegi'ch hunan yn hyderus. Fel y dywedwyd eisoes, darpariaeth wirioneddol ddwyieithog yw'r cynllun sydd fwyaf tebygol o annog myfyrwyr i ddefnyddio'u Cymraeg, oherwydd gallant sefyll yr arholiad yn yr iaith y maent fwyaf hyderus ynddi. Mae myfyrwyr yn dewis pynciau Safon Uwch am resymau amrywiol, fel diddordeb a chyfleoedd gyrfa, ac nid ydynt yn debygol o ddewis Cymraeg dim ond oherwydd eu bod yn gallu siarad yr iaith, yn yr un modd nad yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dewis Saesneg dim ond oherwydd eu bod yn siarad yr iaith. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr am sgorio mor uchel â phosibl yn eu harholiadau a bydd yn dân ar eu croen os byddant yn cael eu gorfodi i wneud Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg os nad ydynt yn teimlo'n alluog i ysgrifennu Cymraeg. Bydd gradd is yn peri anfantais iddynt pan fyddant yn gwneud cais i fynd i'r brifysgol.</p>	
<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae hyn yn diddymu hawliau'r plant, ac fe allai niweidio eu dyfodol. Nid yw dyfodol pob plentyn yng Nghymru. Ac ni ellir datblygu pob pwnc arbenigol yng Nghymru. Onid ydynt yn cyfrif? Rydych yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Fel y soniais eisoes, bydd plant ag ADY, a phlant sy'n wynebu anawsterau cymdeithasol ac emosiynol, yn cael hyn yn anodd iawn.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Dylai unigolyn fod yn rhydd i ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) nid cael ei orfodi gan Gyngor neu Lywodraeth.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Wrth gwrs byddai dysgu plant yn Gymraeg yn unig yn peri iddynt fod yn siaradwyr Cymraeg gwell. O ddysgu mathemateg yn unig, byddai'n peri iddynt fod yn well mathemategwyr. Yn sicr, dylid dysgu Cymraeg i blant, ond nid ar draul yr holl bethau eraill y dylent fod yn eu dysgu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n annheg ac yn amhriodol i'r AALL fynnu bod rhaid i ddisgyblion ddilyn llwybr iaith a bennwyd ymlaen llaw ar gyfer eu harholiadau. Byddwch yn cosbi myfyrwyr ac yn peri anfantais enfawr iddynt o'u cymharu â'u cymheiriaid dros y ffin sy'n cystadlu am yr un lleoedd prifysgol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Efallai y bydd mwy o blant yn dewis cymwysterau Cymraeg a phynciau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd, ond mae hyn yn dibynnu'n fawr ar ddyheadau unigolion, y graddau y maent yn dod i gysylltiad â'r iaith gartref, a'u profiad o'r byd mawr. Allwch chi ddim gorfodi hyn. Mae'n syfrdanol eich bod yn eithrio pobl dros 65 oed ar ddiwedd y ffurflen hon!!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Roedd camgymeriad wedi digwydd ar ddiwedd y ffurflen ymateb Saesneg. Yn yr un Cymraeg roedd y blwch yn nodi 65+ ond rhywsut fe gollwyd y symbol hwnnw yn y ffurflen Saesneg. Ymddiheurwn am hynny.</p>

Tudalen 297

<p>Byddaf yn annog fy mhlant i ddysgu Cymraeg, ond nid wyf yn teimlo y bydd eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o oedran cynnar pan nad ydynt yn dod o deulu sy'n siarad Cymraeg o fudd i addysg y plant; gallai beryglu eu hiechyd meddwl oherwydd bod arnynt bwysau i ddysgu ac i gael eu dysgu mewn iaith anghyfarwydd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Bydd gennyf un mab a fydd wedi methu'r newid hwn a bydd yn parhau yn ôl yr hyn sy'n briodol yn fy nhyb i. Yna, bydd ar fy mab iau bwysau enfawr i wneud ei waith i gyd yn Gymraeg! Annheg iawn.</p>	<p>Cyflwyno'r cynllun yn raddol yw'r dull sydd wedi ei gynllunio gan y Cyngor. Ni fydd yn effeithio disgyblion presennol yr ysgolion. Y plant cyntaf fyddai'n cael mynediad i'r dull trochi fyddai plant 3 oed a hynny yn sgil cyfnod o ymgynghori pellach.</p>
<p>Eto, rwy'n teimlo y bydd plant penodol dan anfantais, yn enwedig os ydynt wedi symud yma ac mai Saesneg yw eu hunig iaith. Rwy'n teimlo bod y plant hyn yn cael eu cau allan. Rhaid inni dderbyn bod pobl yn symud i Geredigion ac ohoni, yn enwedig y rheini sy'n mynd i'r brifysgol, a bod angen dewis arnynt i gael eu plant wedi'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, gan fod llawer yn bwriadu dychwelyd i Loegr ar ôl gorffen yn y brifysgol. Rwy'n teimlo'n gryf nad yw'r cynllun cyfan mor syml ac esmwyth ag yr ydych yn ei awgrymu.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Mae symudedd pobl yn ffaith sy'n gyffredin i nifer iawn o ardaloedd. Ni ellir peidio a chynllunio darpariaeth ar y sail hwnnw. Y nod yw gweld disgyblion sy'n ddwyieithog (yn gallu siarad a chyfathrebu yn y ddwy iaith) ac mae rhan yr ysgolion, rhieni a'r gymuned wrth hyrwyddo hynny yn bwysig iawn.</p>
<p>Ond yn gyffredinol, mae'n sicr yn annhebygol y bydd ymdrechion i gyfathrebu'n cael eu cryfhau drwy ddiddymu dewis. Pe bai hwn yn bolisi gwirioneddol ddwyieithog, byddai'n mynd rywfaint o'r ffordd at gryfhau'r nifer sy'n dysgu'r Gymraeg a'r gallu cyffredinol o ran dwyieithrwydd. Nid yw'n gwneud hyn fel y mae ar hyn o bryd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>O ran disgyblion uwchradd, byddant yn gwybod pa iaith y maent am fwrw ymlaen â hi, ac mae'n anghywir ceisio gorfodi mwy ohonynt i ddilyn y llwybr Cymraeg. Caniatewch ddewis!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Gofynnaf ichi gydnabod y plant nad ydynt yn gwneud yn dda gydag ieithoedd, plant nad yw eu rhieni'n ddwyieithog, a'r rheini nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn brif iaith iddynt. Rwyf hefyd yn pryderu y bydd gorfodi mwy o Gymraeg o oedran cynnar yn rhwystro gweithwyr proffesiynol rhag dod i weithio yng Nghymru, e.e. mewn ysbytai, yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn y Brifysgol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Fel y nodir uchod, ar hyn o bryd, nid wyf yn gweld fawr ddim tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>

<p>cyfrwng Cymraeg ar lefel addysg gynradd yng Ngheredigion. Mae mwyafrif helaeth y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a'u teuluoedd yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly nid wyf yn credu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth honno. Rwy'n credu bod y newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar ddewis plant a theuluoedd ac, o ganlyniad i'r newidiadau, gallai beri i Geredigion fod yn sir llai deniadol i deuluoedd di-Gymraeg symud iddi i weithio. Ar adeg pan fo anawsterau mawr o ran llenwi swyddi gweithwyr allweddol yn y sir, rwy'n credu y gallai unrhyw fesur a allai rwystro teuluoedd rhag symud i'r ardal fod yn andwyol i'r gwasanaethau allweddol a ddarperir yng Ngheredigion. Yn yr un modd, mae gennyf bryderon o ran manteision addysg uwchradd ddwyieithog i blant, yn enwedig o ran hyrwyddo TGAU a Safon Uwch a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd myfyrwyr yn gadael addysg uwchradd â chymwysterau Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, mae arnaf ofn y byddant dan anfantais fawr os byddant am astudio rhai pynciau allweddol ar lefel addysg uwch, boed yng Nghymru neu yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o berthnasol i bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Mae mewnfudo ac allfudo yn cyfoethogi Ceredigion ac mae'n elwa ohonynt. Dylai fod arnom eisiau i'n pobl ifanc allu gadael Ceredigion ac astudio unrhyw le yn y Deyrnas Unedig neu yng ngweddill y byd cyn dychwelyd i Geredigion yn y dyfodol pan fyddant ar fin dechrau eu teuluoedd eu hunain. Drwy hyrwyddo Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, rwy'n pryderu y bydd yn llesteirio cynnydd academaidd myfyrwyr ac y bydd yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig, gan gau'r drws ar y profiad buddiol o astudio bywyd tu allan i Geredigion.</p>	
<p>Rwy'n meddwl y bydd yn peri i lawer o blant ifanc nad ydynt ond yn siarad Saesneg ar yr aelwyd beidio â hoffi'r ysgol a pheidio â hoffi'r Gymraeg. Mae gennym blentyn tair oed ac mae gwneud iddo fwynhau'r feithrinfa a rhoi digon o hyder iddo fynd yno wedi bod yn ddigon o her, heb sôn am ei daflu i amgylchedd lle nad yw'n siarad yr iaith.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Yr hyn yr wyf yn ei chael yn anodd deall yw'r ffaith bod y cynllun yn cyfeirio o hyd at werth dwyieithrwydd, ac eto mae'r camau gweithredu'n ceisio gorfodi system addysg unieithog. Nid wyf yn gwybod digon am weddill Ceredigion, ond mae gennych system berffaith yn Aberystwyth: gall pobl sy'n meddwl y bydd eu plant yn elwa fwyaf o gael addysg cyfrwng Cymraeg anfon eu plant i XXXX; gall y rheini sy'n meddwl y bydd eu plant yn elwa fwyaf o addysg cyfrwng Saesneg yn bennaf eu hanfon i XXXX. Mae fy merch ym Mlwyddyn 2 yn XXXX ar hyn o bryd, ac mae'n cael addysg gyflawn gan athrawon rhagorol mewn dosbarth cyfeillgar ac amrywiol o fyfyrwyr. Mae hi hefyd yn dysgu digon o Gymraeg yno, sy'n wych – ond mae hi'n dysgu llawer o bethau diddorol eraill hefyd. Mae hi'n cael cymaint o hwyl ar y Gymraeg erbyn hyn, drwy ei haddysg cyfrwng Saesneg, nes fy mod wedi dechrau cael gwersi fy hun er mwyn imi allu ymuno â hi pan fydd hi'n siarad yr iaith gartref. Ond rwy'n gwneud hynny o ddewis;</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Dydy hi ddim yn nod gan y Cyngor i greu system uniaith.</p>

Tudalen 299

<p>byddwn i'n cymryd y dysgu'n llawer llai o ddifrif pe bawn i'n teimlo fy mod yn cael fy ngorfodi i wneud hynny. Rwyf hefyd yn ffodus iawn o fod mewn sefyllfa lle'r wyf yn gallu cael gwersi. Ni fydd gan rieni pob plentyn amser na chyfle i wneud hynny, ac mae'n siŵr y byddai hynny'n peri anfantais ddifrifol i'r plentyn pe na bai modd i'w rieni ei helpu â'i waith ysgol gartref.</p>	
<p>Nid wyf yn credu bod barn pob rhiant wedi'i hystyried.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Rwy'n anghytuno'n llwyr â hyn. Mae Ceredigion yn symud tuag at ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Mae hyn yn cau'r Saesneg allan ac yn peri y bydd gan blant fwy o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg sy'n iaith fyd-eang fwy defnyddiol. Bydd penderfyniad Cyngor Ceredigion yn rhwygo cymunedau a theuluoedd yn y dyfodol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>O ddysgu'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, bydd yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad llafaredd a llythrennedd Saesneg rhai plant. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ddwys ar daith addysgol rhai disgyblion. Lluniwyd rhaglen y Cyfnod Sylfaen i wella cyrhaeddiad addysgol ac i gynyddu cydraddoldeb mewn addysg yng Nghymru. Mae'r camau arfaethedig yn mynd yn groes i ddelfrydau craidd rhaglen y Cyfnod Sylfaen drwy awgrymu y dylid dysgu rhaglen y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. I lawer o ddisgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg, nid Cymraeg yw eu mamiaith ac mae'n anochel y bydd yn anodd iddynt gael mynediad at addysg a ddarperir yn Gymraeg yn unig. Dylai fod pryder go iawn y byddant yn colli diddordeb mewn addysg, a dylai hyn fod wedi cael sylw/cael ei ystyried yn y cynnig. Byddai'r cynllun arfaethedig hefyd yn arwain at sefyllfa lle nad yw rhieni'n gallu cynorthwyo'u plant i ddysgu ac felly byddant yn cael eu gorfodi i golli diddordeb. Nid yw rhiant heb ddiddordeb yn rhywbeth y dylai unrhyw system addysg fod yn anelu ato, yn wir, dylai fod yn anelu i'r gwrthwyneb. Mae rhieni sy'n dangos diddordeb ac yn teimlo'n gadarnhaol ynghylch amgylchedd dysgu'u plentyn yn hollbwysig i'r broses o siapio'r disgyblion a'u hagwedd at ddysgu gydol oes, ac nid wyf yn tybio bod y cynllun arfaethedig wedi rhoi sylw i hyn o gwbl.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Fel uchod. Nid ydych ond yn holi'r cyhoedd ynghylch eich dulliau arfaethedig i gyflawni'r nod yr ydych yn benderfynol o'i gyrraedd, heb roi cyfle iddynt drafod y nod hwnnw. Fel cymuned ddemocrataidd, dylem fod yn trafod y nod hwnnw, oherwydd dyna sy'n effeithio ar fywyd fel yr ydym yn gyfarwydd ag ef yn y sir mewn ffordd sylweddol – ac, fel yr wyf yn dadlau, mewn ffordd sy'n gwahaniaethu yn erbyn rhai ac yn anfanteisiol i'r gymuned gyfan. Mae Ysbyty Bronglais eisoes yn ei chael yn anodd recriwtio meddygon – a ydych chi'n meddwl y bydd meddyg ymgynghorol newydd y galon yn dod yma pan fydd hi'n dod i wybod bod rhaid i'w phlant fynd i ddsbarth trochi yn y Gymraeg ac yna dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig?</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Nid ydym yn gweld y dylai cyflwyno'r Gymraeg mewn sefyllfa ysgol fod yn rwystr i bobl broffesiynol ddod i fyw a gweithio yn Aberystwyth ac yn Ngheredigion. Mae yna bobl felly ar draws Cymru sydd wedi anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac wedi dysgu'r Gymraeg eu hunain yn ogystal. Mae'n siŵr eu bod yn deall natur ieithyddol Cymru ac yn gweld manteision setlo mewn cymdeithas ddwyieithog.</p>

Tudalen 300

<p>Mae'r gweithredoedd yn y ddogfen hon yn mynd yn uniongyrchol groes i'r nod o ddatblygu dysgwyr galluog ac uchelgeisiol sy'n hyddysg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r lleoliadau addysgol unieithog y mae'r cynllun hwn yn bwriadu eu datblygu, er ei fod yn esgus cefnogi dwyieithrwydd, yn addas i gyflawni canlyniad o'r fath. At hynny, bydd nifer sylweddol o ddisgyblion yn cael eu gorfodi i astudio drwy gyfrwng iaith nad ydyn nhw na'u teuluoedd yn ei deall ac nad ydynt yn gyfarwydd â hi. Ni all hyn ond effeithio'n negyddol ar eu gallu i fod yn ddisgwyr galluog ac uchelgeisiol. Ni fyddant yn gallu cael cymorth yn ôl y gofyn gartref. Sut y mae'r sawl sydd wedi llunio'r ddogfen yn rhag-weld, er enghraifft, y bydd rhieni di-Gymraeg yn gallu helpu'u plant i feithrin eu sgiliau darllen pan na fyddant yn deall y llyfrau y bydd y plant yn dod adref â nhw o'r ysgol? Mae'r camau arfaethedig hefyd yn debygol o beri i rai rhieni/gwarcheidwaid golli diddordeb yn addysg y disgyblion hynny oherwydd ni fyddant yn deall iaith y dysgu. Ni fydd y camau arfaethedig yn arwain at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. At hynny, byddant hefyd yn creu anghydraddoldebau newydd ac yn dwysáu'r rhai sy'n bodoli eisoes.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Na fydd. Er y bydd yn cynyddu nifer y plant ifanc sy'n siarad Cymraeg, rhaid canolbwyntio ar y graddau y bydd y cynnydd o ran siarad Cymraeg yn digwydd ar draul ffactorau eraill. Mae'n debygol o greu llawer o blant sy'n llai hyddysg yn y Saesneg oherwydd yr effaith ar ddatblygiad y Saesneg rhwng 3-7 oed, yn ogystal â chael effaith ddofn ar eu dysgu ehangach hefyd (h.y. rhwystrau ychwanegol rhag mynediad a dysgu). Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen i wella cyrhaeddiad addysgol ac i gynyddu cydraddoldeb mewn addysg yng Nghymru. Mae'r camau arfaethedig yn mynd yn groes i ddelfrydau craidd rhaglen y Cyfnod Sylfaen drwy awgrymu y dylid dysgu rhaglen y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. I lawer o ddisgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg, nid Cymraeg yw eu mamiaith ac mae'n anochel y bydd yn anoddach iddynt gael mynediad at addysg a ddarperir yn Gymraeg yn unig. Nid yw'n ymddangos bod y gwendidau amlwg hyn wedi cael sylw yn y cynnig, gan mai'r cyfan a geir ynddo yw datganiadau bras am agweddau cadarnhaol dwyieithrwydd (nad ydynt mewn cyddestun oherwydd eu bod yn aml yn cyfeirio at ddwyieithrwydd a ddatblygir mewn gwledydd sy'n deall yr angen i ddatblygu prif iaith disgyblion yn gyntaf).</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Bydd yn digalonni llawer o blant, yn enwedig yn yr ysgol uwchradd, oherwydd bod yr iaith yn cael 'ei gwthio i lawr eu cynn gyddfau'. Efallai y gwnewch chi ddarganfod eich bod yn creu cryn dipyn o ddicter a rhwygiadau ymhlith pobl ifanc, yn hytrach na hyrwyddo hoffter o'r iaith a defnydd ohoni. Mae angen ichi eu darbwylllo ei bod hi'n werth yr ymdrech, ac fe allai hyn fod yn anodd iawn. Am drueni... pwysleisio rhuglder mewn Cymraeg lafar yw'r ffordd ymlaen, gan mai dyna'r maes y mae dysgwyr Cymraeg fwyaf tebygol o ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol ynddo yn y gwaith ac mewn lleoliadau cymdeithasol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi pwyslais gref ar lafaredd ac ymwybyddiaeth o gymdeithas aml ieithog Cymru.</p>

Tudalen 301

<p>Dywedir y bydd disgyblion yn “[d]datblygu yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy’n ... gallu cyfathrebu’n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy’r Gymraeg a’r Saesneg”. Ond nid o’u gwirfodd gan fod y cynllun yn datgan: “Sicrhau bod pob disgybl sy’n astudio cymhwyster mamiaith yn cael ei asesu ar gyfer y Fagloriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.” Felly, nid yw’r disgyblion hyn yn cael dewis i gyfathrebu’n effeithiol drwy gyfrwng y Saesneg oherwydd byddwch yn “sicrhau” y byddant yn gwneud y Fagloriaeth yn Gymraeg. A fyddant yn “uchelgeisiol” pan fyddant yn sylweddoli mai’r ffordd orau o sicrhau eich bod yn dod yn bennaeth ysgol yw drwy fod yn “arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg”? A fydd yn cynorthwyo pob plentyn i fod yn ddysgwr effeithiol yn y ddwy iaith os oes gennych dargedau penodol i gynyddu cymwysterau cyfrwng Cymraeg, neu a fydd yr ysgolion dan bwysau i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei dargedau? A yw targedau o ran cymwysterau’n helpu’r ysgolion i ddatblygu dysgwyr galluog?</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Eto, nod dwyieithrwydd llawn yw sicrhau bod disgyblion yn gallu cyfathrebu wrth siarad, darllen ac ysgrifennu a gnweud dewisiadau pellach yn y Gymraeg a’r Saesneg.</p>
<p>Mae’n rhagfarnllyd disgwyl i bawb sy’n byw yng Nghymru fod yn siaradwyr Cymraeg!!</p>	<p>Nod Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweld bod ganddo ran wrth gefnogi a hyrwyddo’r nod hwn.</p>
<p>Mae’n lleihau gallu rhieni i helpu os ydynt yn ddi-Gymraeg, ac fe all wneud drwg i’r disgyblion hynny sydd am barhau â’u haddysg yn Lloegr neu mewn man arall.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid yw’r cwestiwn hwn yn rhoi sylw i’r mater ehangach, sef pam fod rhaid dysgu’r Gymraeg fel iaith gyntaf – sut y bydd Prydain ar ei hennill o wneud hynny?</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Mae gan Gymru ddwy iaith genedlaethol. Eto, y fantais o allu siarad y Gymraeg a’r Saesneg yng Nghymru sy’n greiddiol i’r cynllun.</p>
<p>Rwy’n meddwl, fel uchod, y dylai fod yn ddwyieithog. Rwyf wedi clywed lawer tro am y ‘Welsh not’ a’r ffordd y taflwyd gwg at blant Cymru am iddynt siarad Cymraeg yn hytrach na Saesneg. Onid yr un peth yw hyn? Rhaid inni beidio â gwahaniaethu, a dyna’r wers y mae arnaf i eisiau i’m plant ei dysgu yn anad dim.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Yn y gwyddorau, mae llyfrau Saesneg yn cael eu defnyddio mewn ysgolion Cymraeg yn unig hyd yn oed. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o bobl sy’n gallu dysgu at safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Mae sicrhau cyflenwad o destunau Cymraeg addas yn fater i ysgolion unigol ac i CBAC. Mae’r hyn sy’n cael ei nodi am brinder staff yn derbyn sylw pellach dan Deilliant 7.</p>
<p>Rwy’n meddwl bod annog diwylliant Cymru yr un mor bwysig â’r iaith. Dylid gwneud mwy gyda’r Eisteddfod, cerddoriaeth Cymru, chwaraeon Cymru, ac ati, ac annog agweddau eraill ar yr hyn y mae’n ei olygu i fod yn Gymro/Gymraes. Mae llawer o bobl nad ydynt ond yn siarad Saesneg yn dal i deimlo’n Gymry; drwy ganolbwyntio ar yr iaith, rwy’n pryderu ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn y rheini sy’n teimlo eu bod yn Gymry/wedi’u geni yng Nghymru ond nad oes ganddynt hyder i siarad Cymraeg.</p>	<p>Cytunwn bod yr elfennau yma’n holl bwysig. Os ydych yn siarad Saesneg yn unig (neu unrhyw iaith arall) yng Nghymru ni ddylai fod hynny’n sail i unrhyw ragfarn. Mae’r Gymraeg yn perthyn i bawb a dyna pam mae’r cyngor am i blant, drwy’r dull trochi, i gael y cyfle i fod yn ddwyieithog yn y dyfodol. Mae annog mwy o oedolion i ddysgu’r Gymraeg hefyd yn bwysig. Mae caffael y Gymraeg a’r Saesneg yn cyflwyno pobl i drysor o ddiwylliant ehangach.</p>
<p>Bydd, ond nid yw’r ddogfen yn nodi unrhyw effaith (os o gwbl) y bydd hyn yn ei chael.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 302

<p>Mae'r rheini sy'n bwriadu mynd i goleg/prifysgol mewn gwlad arall yn llai tebygol o fod eisiau cael addysg bellach na chwblhau pynciau yn y Gymraeg; yn hytrach, byddant am ddilyn pwnc sy'n fuddiol i'w dewisiadau ar gyfer eu bywydau a'u cyfleoedd gyrfa.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid yw'r ffaith bod rhywun yn rhugl yn y Gymraeg yn golygu ei fod yn ymgeisydd mwy addas.</p>	<p>Mae nifer cynyddol o swyddi, ar draws Cymru, yn gofyn am y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r rheiny, yn aml, yn fedrau ychwanegol i ofynion craidd y swyddi yna. Nid yw cyflogwr yn debygol o benodi ymgeisydd i swydd ar y sail ei fod yn gallu siarad mewn iaith benodol heb sicrhau ei fod yn gymwys yn y gofynion craidd hefyd.</p>
<p>Bydd yn helpu siaradwyr Cymraeg i siarad ac i ysgrifennu Cymraeg safonedig yn hytrach na thafodieithoedd amrywiol bendigedig yr ardal. Mae hyn yn peri i'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg yr wyf yn eu hadnabod deimlo nad ydynt yn ddigon da!</p>	<p>Nid yw'n dilyn bod tafodiaith yn cael ei effeithio drwy'r dull trochi. Yn wir, mae'n fodd o gyflwyno iaith 'leol' i ddisgyblion na fyddai'n ei derbyn fel arall.</p>
<p>Nid yw'n amlwg beth yw'r rheswm/cyfiawnhad pam fod TGAU Cymraeg yn gyfwerth ag 1.5 TGAU. Pam fod y Gymraeg yn bwysicach na mathemateg neu wyddoniaeth, er enghraifft? Bydd dysgu'n ddwyieithog yn well i blant na dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Mae'r newidiadau yn nwylo y cyd bwyllgor addysg.</p>
<p>Ni all pobl astudio rhywbeth nad ydynt yn ei ddeall!</p>	<p>Holl bwrpas y cynllun yw sicrhau bod mwy o blant yn gallu siarad y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
<p>Ni fydd dysgu plant o dan saith oed yn Gymraeg o reidrwydd yn peri iddyn nhw ddilyn cymwysterau Cymraeg ddegawd yn ddiweddarach.</p>	<p>Drwy roi'r dechrau gorau i blant i fod yn gwbl ddwyieithog yna'r nod yw gweld mwy ohonynt yn teimlo'n ddigon hyderus i astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg i lefel cymhwyster.</p>
<p>Eto, rwy'n cytuno, ond mae gan Geredigion eisoes record gref o ran darparu cymwysterau Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Gweler y rhesymeg yn y cynllun ac yn nisgwyliadau Llywodraeth Cymru.</p>
<p>Bu imi ddysgu gwyddoniaeth (hyd at a chan gynnwys Gwyddoniaeth TGAU) drwy gyfrwng y Gymraeg am dair blynedd. Hon yw fy ail iaith, felly cefais fy anfon ar gwrs Gloywi iaith gan Gyngor Sir Ceredigion. Bu imi ddysgu llawer o idiomau, ond dim byd pwnc-benodol. Byddai wedi bod yn well pe bawn wedi cael athro gwyddoniaeth cyfrwng Cymraeg arall i'm mentora a'm cynorthwyo â'r derminoleg wyddonol. Ychydig iawn o adnoddau gwyddoniaeth cyfrwng Cymraeg DA sydd ar gael (hyd yn oed yn yr Hwb). Ar ôl treulio gwyliau'r haf i gyd yn cyfieithu f'adnoddau dysgu i'r Gymraeg gan ddisgwyl dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, bu i'r Uned Gyfieithu wrthod prawffdarllen unrhyw rai o'm hadnoddau. O edrych yn ôl, sawl blwyddyn yn ddiweddarach, gallaf weld gwallau nawr. Rwy'n rhugl i bob pwrpas, ond bu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ychwanegu'n helaeth at fy llwyth gwaith. A fyddwch chi'n darparu mwy o amser CPA i athrawon er mwyn iddynt wella'u Cymraeg? Ni ddylid disgwyl i athrawon fynd ar gyrsiau Cymraeg yn eu hamser eu hunain oherwydd mae hynny'n peri</p>	<p>Nodwyd y sylwadau am y cynllun sabothol ac am y syniad o gysgodi aelod arall o staff. Mae yna gydnabyddiaeth bod angen ehangu ar adnoddau ond mae'r sefyllfa'n gwella. Ni ddylai athrawon ddefnyddio eu hamser prin i bwrpas cyfieithu maith. Mae cefnogi athrawon mewn unrhyw gyfnod o newid yn fater pwysig i'r Cyngor.</p>

Tudalen 303

<p>anfantais anghymesur i athrawon benywaidd sy'n fwy tebygol o fod yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofal plant.</p>	
<p>PAM???? Siawns nad yw'n bwysicach bod plentyn yn gallu sefyll arholiadau yn yr iaith sydd fwyaf cyfarwydd iddo/iddi ac y mae'n rhugl ynnddi er mwyn iddo/iddi allu gwireddu ei botensial/photensial. Awgrym cyfan gwbl hurt.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Rwy'n credu bod digonedd o gyfleoedd i astudio i ennill cymwysterau Cymraeg yng Ngheredigion eisoes.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Rwy'n anghytuno â'r targed. Nid wyf yn gweld pam fod angen i ddisgyblion sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid oes unrhyw lwybr achosol clir yn y ddogfen sy'n egluro pam y gallai'r arbrawf peryglus hwn gael unrhyw effaith gadarnhaol o'r fath. Yn wir, mae llawn cymaint o siawns y bydd yr effaith yn negyddol, yn enwedig o ystyried y ffordd y bydd y camau arfaethedig yn tarfu ar gontinwmm ieithyddol clir.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Fel uchod. Nid yw'r cwestiwn hwn wedi'i eirio'n dda. Nid yw'n caniatáu trafodaeth am y nod, dim ond gofyn am fodd o asesu'r dull. Nid yw'r cymwysterau'n cael sylw manwl yn y cynllun.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Nid oes gennym ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i sicrhau y bydd disgyblion yn gallu astudio i ennill cymwysterau Cymraeg. A ydych chi'n mynd i hyfforddi staff? Rwyf wedi siarad â staff ac nid ydynt wedi cael gwybod am hyfforddiant. Beth os nad yw aelod staff yn meddu ar y sgiliau ieithyddol i ddysgu i siarad Cymraeg yn rhugl – cynorthwywyr addysgu ac athrawon? A allai aelodau'r Drefn Reoli Aur ddysgu i siarad Rwsieg, er enghraifft? A ydych chi'n mynd i hyfforddi neu ddiswyddo staff? A fyddai hynny'n gyfreithlon? A yw'r undebau wedi'u cynnwys yn y broses hon?</p>	<p>Mae Deilliant 7 yn mynd i'r afael â materion staffio a chefnogaeth iddynt wrth ymwneud â'r Gymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid ydym yn gweld bod swyddi'r staff addysgu presennol yn ysgolion Ceredigion dan unrhyw fygythiad. Y nod yw gweld cynnydd yn nifer y disgyblion fydd yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>Mae gennyf bryderon difrifol am y cynigion yn fwy cyffredinol. Mae'r cynlluniau'n sôn yn aml am yr angen i athrawon ddysgu pynciau academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddweud y bydd hyn yn cael ei ategu gan gyrsiau sabothol i sicrhau bod modd iddynt gaffael sgiliau ieithyddol. I allu addysgu drwy gyfrwng iaith benodol, rhaid ichi fod yn hollol rhugl, ac nid wyf yn credu ei bod yn realistig disgwyl i staff feithrin sgiliau ieithyddol digonol yn ystod y cyfnodau byrion a bennir.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>O ystyried bod llawer o weithwyr hyfedr, gan gynnwys addysgwyr prifysgol, yn ystyried gadael Ceredigion nawr, ni allaf weld sut y bydd hyn yn helpu'r genhedlaeth nesaf i ddatblygu i fod yn ddysgwyr galluog.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid oes gan y Gymraeg fawr ddim i'w wneud â darparu addysg uchelgeisiol i ddysgwyr uchelgeisiol pan nad oes fawr ddim darpariaeth mewn unrhyw bwnc unrhyw le yn y sir. A ydych</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 304

<p>chi wedi gweld ymhle y mae'r ysgolion a'r colegau wedi'u lleoli a'r hyn y mae'n amlwg NAD yw ar gael iddynt ei astudio, os gallant gyrraedd yno o gwbl gan ddefnyddio system gludiant sydd wedi'i threfnu'n affwysol o wael.</p>	
<p>Ni fydd y rheini sy'n ei chael yn anodd dysgu yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y naill iaith na'r llall.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Gall disgyblion fod yn ddsygwyr uchelgeisiol a galluog drwy gyfrwng y SAESNEG.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae'r cyfan oll yn ymwneud â phlant yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n awgrymu mai Saesneg yw'r iaith israddol. Mae'n creu anghydraddoldeb. Dylid canolbwyntio ar greu plant dwyieithog a darparu amgylchedd dysgu cadarn.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid oes un system ddelfrydol ar gael – mae pob dysgwr yn wahanol. Rwyf wedi dysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru, ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae Cymraeg dysgwyr cyfrwng Saesneg yn aml yn is na'r safon, ond mae'r un peth yn wir am Saesneg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Rwyf wedi dysgu cyrsiau gwyddoniaeth Lefel 3 drwy gyfrwng y Saesneg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg a byddai'r myfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf yn aml yn ei chael yn anodd dehongli'r hyn yr oedd cwestiwn yn ei ofyn – roeddent yn meddu ar y gallu academaidd ond nid oeddent yn gyfarwydd â thermau Saesneg cyffredin. Roedd hyn yn arwain at raddau nad oeddent yn adlewyrchu'u gallu academaidd. Gallech ofyn pam na fyddwn wedi dysgu'r cwrs Lefel 3 drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyntaf, ceir prinder mawr o athrawon gwyddoniaeth, heb sôn am athrawon gwyddoniaeth sydd hefyd yn gallu dysgu'u pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ail, roedd ar y myfyrwyr EISIAU astudio cyrsiau UG/Safon Uwch/Lefel 3 drwy gyfrwng y Saesneg oherwydd eu bod yn bwriadu mynd i brifysgolion yn Lloegr neu eisiau mynd i astudio ar gyrsiau Meddygaeth / Milfeddygaeth / Deintyddiaeth sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. Ni ellir astudio fy mhrif bwnc (Cemeg) yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg gan fod Adran Gemeg Prifysgol Bangor wedi cau. Mae angen darparu geirfa pwnc-benodol yn Gymraeg ac yn Saesneg ym mhob gwrs. Nid yw e-sgol yn lliniaru'r ffaith bod prinder athrawon mewn pynciau ymarferol fel gwyddoniaeth, ac mae'r cyfnod clo wedi dangos mai dysgu wyneb yn wyneb sydd orau.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3). Noda'r ymateb bod disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn astudio'r gwyddorau drwy gyfrwng y Saesneg a'u bod yn cael trafferth i dehongli cwestiynau ar sail y ffaith nad oeddent yn gwybod y termau Saesneg cyffredin. Bydd darpariaeth effeithiol yn medru cyflwyno termau yn ddwyieithog er mwyn bod o gymorth i ddisgyblion wneud cysylltiadau rhwng ieithoedd. Ni ellir dysgu am dermau heb y cyd-destun gwyddonol cywir. Fe ddylai'r disgyblion fod yn deall termau mewn pwnc ym mha bynnag iaith y cyflwynir y dysgu. Mae'r hyn sydd wedi ei nodi am addysg prifysgol a darpariaeth y gwyddorau yn Gymraeg wedi ei gofnodi eisoes.</p>
<p>Bydd sgiliau Saesneg plant yn dioddef.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Rwy'n meddwl bod y cynlluniau hyn yn esgeuluso dysgu Saesneg a bod dysgu yn y ddwy iaith yn allweddol i ddatblygiad plant.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Os byddwch yn rhoi'r Gymraeg fel cyfrwng, ni fydd y Saesneg yn cael ei defnyddio yn yr ysgol cymaint â'r Gymraeg. Rhaid i'r naill roi lle i'r llall.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>

Tudalen 305

<p>Nid wyf yn gwybod a fydd yn ddigon cefnogol – bydd angen ichi helpu'r oedolion di-Gymraeg!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Rwy'n credu y bydd y newidiadau hyn yn peri anfantais fawr i lawer o blant. Fel y dywedwyd uchod, nid yw'r plant hynny sy'n ei chael yn anodd darllen/ysgrifennu a chyfathrebu yn eu mamiaith yn mynd i elwa o'r newidiadau hyn.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid oes gan deuluoedd adnoddau i gynorthwyo'u plant i ddysgu yn y ddwy iaith. Mae llawer o deuluoedd yn dod yma ac maent eisoes yn siarad Saesneg fel ail iaith. Nid yw'r cynllun yn darparu ar gyfer helpu teuluoedd i gynorthwyo'u plant gartref. Ni fydd hyn ond yn arwain at rwystredigaeth, canlyniadau dysgu gwael, ac arbrawf aflwyddiannus ar ddyfodol ein plant.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Byddai'n gwella'u galluoedd, ond beth am y byd tu allan i Geredigion... ai'r Gymraeg neu'r Saesneg sydd fwyaf gwerthfawr?</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae'r cynllun yn datgan y bydd pob plentyn, yn ddieithriad, yn cael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwy'n credu y bydd hyn yn peri anawsterau enfawr i unrhyw blant ag ADY, plant sy'n dod i'r system addysg yn hwyr, a'r plant hynny nad yw Saesneg/Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt. O dreulio cymaint o amser a gwario cymaint o adnoddau ar Ganolfannau Iaith i sicrhau bod plant yn gallu 'dal i fyny' â'u Cymraeg, byddwch yn camgyfeirio arian. Mae adnoddau a chymorth ychwanegol mewn ysgolion eisoes yn brin ac rwy'n meddwl y byddai modd gwario a thargedu'r arian hwn yn well. Yn gyntaf, mae ar blant angen cymorth â'u holl ddysgu ac mae'r cynllun hwn yn mynd ati'n fwriadol i gyfyngu ar fynediad plentyn at ddysgu. Mae datgan y bydd arian ysgol gan Lywodraeth Cymru'n dibynnu ar dargedau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn destun pryder mawr.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Ni allaf weld sut y bydd eu Saesneg yn gwella os ydynt yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Siŵr iawn, bydd ysgolion cynradd Cymraeg yn unig yn creu mwy o siaradwyr Cymraeg mewn cyd-destun, e.e. yn yr ysgol, ond, os rhywbeth, rwy'n credu y gallai hyn danseilio hunanhyder rhai disgyblion a'u diddordeb yn eu haddysg. Mae llawer eisoes yn ei chael yn anodd ymdopi â darllen, mathemateg a sillafu yn eu hiaith gyntaf. At hynny, ni all rhieni di-Gymraeg ddarparu cymaint o gymorth.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid yw pob plentyn yn dod o gartref lle y siaredir Saesneg, ac efallai mai'r ysgol fydd yr unig le y gall ddysgu Saesneg. Siawns na fyddai lleoliad ag elfennau Cymraeg a Saesneg yn fwy buddiol i'r plant hynny na lleoliad cyfrwng Cymraeg llwyr.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae'r camau gweithredu'n blwyfol, byddant yn peri anfantais i blant, ac maent yn anwybyddu manteision sgiliau ieithyddol</p>	<p>Mae ymchwil rhyngwladol yn dangos yn glir bod dysgu ieithoedd yn hwyluso dysgu</p>

Tudalen 306

<p>eraill. Mae plant llawer o ysgolion yn siarad dros ddeg ar hugain o ieithoedd. Beth amdanyn nhw?</p>	<p>ieithoedd eraill sydd yn bwysig yng Nghymru gan bod cyflwyno trydydd iaith i bob disgybl yn rhan o ddisgwyliadau Cwricwlwm i Gymru. Dydy'r ffaith bod plant yn cael eu cyflwyno i'r dull trochi ddim yn anwybyddu eu cefndiroedd aml-ethnig ac aml-ieithog. Mae gweld nifer o ieithoedd, yn ogystal â'r Gymraeg, yn rhywbeth i ymfalchio ynddo yn ysgolion Ceredigion.</p>
<p>Nid oes gan deuluoedd adnoddau i gynorthwyo'u plant i ddysgu yn y ddwy iaith. Mae llawer o deuluoedd yn dod yma ac maent eisoes yn siarad Saesneg fel ail iaith. Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i helpu teuluoedd i gynorthwyo'u plant gartref, ac ni fydd hyn ond yn arwain at ofn, rhwystredigaeth a chanlyniadau dysgu gwael.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae'n debygol y bydd y cynigion hyn yn galluogi defnydd o'r iaith, ond mae arnaf ofn y byddant yn amharu'n ddifrifol ar allu plant rhieni di-Gymraeg i ddatblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog oherwydd ni fydd rhieni'n gallu eu helpu i ddarllen ac i ysgrifennu yn ystod y blynyddoedd cynnar.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Nid yw'n glir o'r adroddiad beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol drwy gyfrwng y Saesneg ac i sicrhau eu bod yn cael digon o addysg i ysgrifennu Saesneg ffurfiol er mwyn iddynt allu mynd i brifysgol tu allan i Gymru neu lwyddo mewn busnes tu allan i Gymru os ydynt am wneud hynny.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Ar y gorau, nid yw'n trafod hyder, uchelgais na gallu o ran y Saesneg ac, ar y gwaethaf, mae'n eu bychanu.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3).</p>
<p>Mae angen ichi brofi bod gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg o fantais hirdymor er mwyn i rywun barhau ymhellach. Dangoswch enghreifftiau o fywyd go iawn i blant, nid dim ond fideos o'r hyn y mae'r llywodraeth am ei wireddu.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Cytuna'r Cyngor bod angen dangos beth yw manteision siarad y Gymraeg a'r Saesneg. Mae yna enghreifftiau niferus o glipiau fideo ac adnoddau i'w cael sy'n dangos manteision dwyieithrwydd yn y tymor hir. Mae gwefan Ceredigion yn gallu eich cyfeirio at rhai enghreifftiau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynhyrchu gwybodaeth debyg.</p>
<p>Dyna fwriad y cynllun hwn.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag addysg uwchradd, felly nid ydym am fynegi barn.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 307

Deiliant 5 – Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol (gweler CW1)

Cwestiwn 1 – Ym mha fodd y byddech yn gweld cyfleoedd pellach i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol (ac yn gymdeithasol) yn ychwanegol at yr hyn sydd wedi'u nodi eisoes?

Sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r amcanion ond sydd hefyd yn cynnig ystyriaethau pellach	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion
<p>Mae'n dda gweld bod y cynllun yn adnabod faint mor bwysig mae creu cyfleoedd i bobl ifanc allu defnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth yn ogystal â tu mewn. Rwy'n meddwl byddai cyfleoedd fel hyn yn helpu i waredu unrhyw "stigma" sydd yn gallu (ar adegau) perthyn i bobl ifanc sy'n dewis i siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau. Clybiau Ieuencid, clybiau chwaraeon ag ati. Da iawn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae iaith wedi'i lleoli mewn cymuned. Felly, byddai angen cynorthwyo'r gymuned ar lefel leol i wella defnydd o'r Gymraeg, yr ymwneud â hi a'r ymrwymiad iddi. Sylwais mai Penparcau sydd â'r nifer fwyaf o blant yn y sir, felly dylai ysgolion a chymuned y pentref hwn fod yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Ceredigion. Mae'n ymddangos yn gyfle delfrydol i gysylltu Ysgol XXXX a'r Hwb i gryfhau'r Gymraeg ac i rwymo'r gymuned i ddysgu'r Gymraeg. O gysylltu llwybrau beicio a llwybrau troed yn well ym Mhenparcau, byddai'n cysylltu cymunedau ac yn cefnogi dysgu a siarad Cymraeg. Byddai'n dda pe bai rhywbeth fel taith gerdded ar Fryngaer Pen Dinas ar gael yn Gymraeg i gefnogi'r dysgu.</p>	<p>Nodwyd y sylw ac rydym yn cytuno gyda'r egwyddor o weld y Gymraeg yn iaith gymunedol gyda hanes a chysylltiadau lleol yn cael eu meithrin o fewn dalgylch ysgolion i gefnogi cynnydd yn ei defnydd.</p>
<p>Dylech sicrhau bod modd i bob gweithgaredd yn y sir fod yn ddwyieithog (Gofyn yn Gyntaf, h.y. defnyddio'r Gymraeg yn ddiodyfyn lle bo modd gyda staff dwyieithog y Brifysgol, y Llyfrgell Genedlaethol, partneriaid masnachol ledled y sir, e.e. cludiant, hamdden a lletygarwch) ac ymrwmo i Siarter Iaith Ceredigion sy'n pennu 'Defnyddio'ch Cymraeg' fel un o nodau craidd unrhyw ryngweithio wyneb yn wyneb.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach.</p>
<p>Byddai modd creu sesiynau ar ôl yr ysgol er mwyn i blant ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae angen mwy o glybiau ar gyfer plant a phobl ifanc er mwyn iddynt allu siarad yn hyderus yn y ddwy iaith.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Gwnewch mwy o ddefnydd o brifysgolion lleol sy'n darparu gweithgareddau allgymorth dwyieithog. Rhowch ddewis iddynt. Ewch ati i'w gwobrwyo am ddefnyddio'r iaith. Darparwch weithgareddau hwyliog sy'n ysbrydoli i'w hannog i</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 308

<p>fod eisiau defnyddio'r iaith. Defnyddiwch ddiwylliant y byd, nid dim ond diwylliant Cymru.</p>	
<p>O ran y rhaglen o weithgareddau, byddai'n fuddiol nodi pa mor bwysig yw sicrhau bod pobl ifanc yn chwarae rhan ganolog o ran arwain a pherchnogi cynifer o'r mentrau â phosibl.</p>	<p>Nodwyd y sylw a cytunwn bod gan bobl ifanc rôl bwysig wrth berchnogi'r datblygiadau.</p>
<p>Mae Prifysgol Aberystwyth yn rhanddeiliad ac yn bartner ers tro, a gallai gydweithredu ar weithgareddau amrywiol. Mae'r cyfleoedd yn cynnwys gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ar y cyd â Chanolfan y Celfyddydau, y Ganolfan Chwaraeon a'r Ganolfan Gerdd. Gall fod cyfleoedd galwedigaethol sy'n gysylltiedig â phrofiad gwaith a chyfleoedd i fyfyrwyr wirfoddoli y gellir eu cynllunio mewn ffordd sy'n rhoi mwy o hyder iddynt ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Hen Goleg hefyd yn addo bod yn ganolfan a fydd yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc. Cyn bo hir, bydd yn cyflogi Swyddog Ymgysylltu â Phobl Ifanc, wedi'i ariannu gan y Loteri. Fel Prifysgol sy'n cael ei harwain gan ymchwil, gall fod cyfleoedd i ddatblygu ymchwil ac arloesedd ac i gyfnewid gwybodaeth o ran yr agwedd hon ac agweddau eraill ar gynigion y strategaeth.</p>	<p>Nodwyd y sylw o gefnogaeth a'r syniadau adeiladol a gyflwynwyd.</p>
<p>Rydym yn credu y bydd ein disgyblion yn gallu chwarae llawer mwy o rôl ym mywyd Catholig Cymru, a hynny yn ein plwyf mawr o safbwynt daearyddol ac ar lefelau uwch (yr esgobaeth a Chymru gyfan). O groesawu'r Gymraeg a dysgu mwy am hanes a diwylliant Ceredigion, byddant yn dod i wybod mwy am hanes a hunaniaeth ddiwylliannol yr esgobaeth, ac am gysylltiad yr eglwys â'i gwreiddiau hynafol yn y rhan hon o Gymru. Mae rhai o'n plant wedi defnyddio'u Gymraeg a chwarae rhan amlwg mewn digwyddiadau Catholig pwysig yn Esgobaeth Menefia, ac maent wedi cyfrannu at raglenni BBC Radio Cymru. Mae'r eglwys yn darparu llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus, a gallwn gynorthwyo ein pobl ifanc i siarad yn gyhoeddus (mewn lleoliadau ffurfiol) ac i ymgysylltu â'r gymuned ehangach.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach.</p>
<p>Mae'r Cynllun yn adnabod ystod dda o gyfleoedd sydd wedi'u datblygu dros y blynyddoedd diwethaf i hybu ymwybyddiaeth iaith a datblygu'r hyder i ddefnyddio'r iaith. Dyma un o'r amcanion sy'n parhau'n heriol a byddwn yn annog gweithio mewn partneriaeth, parhau i arloesi a pharhau i fuddsoddi yn y cyfleoedd hyn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Codi hyder i drafod pethau yn Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae angen mwy o sylw ar rhaglenni cerddoriaeth a chwaraeon CC tu hwnt i'r ysgol. Rydym fel teulu wedi symud o Gaerdydd yn ôl i Geredigion yn ddiweddar ac mae'r gwahaniaeth o ran argaeledd gweithgareddau i blant (CC) tu hwnt i'r ysgol yn glir. Hoffwn weld partneriaeth rhwng y</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>

Tudalen 309

<p>Cyngor, yr Urdd a'r Fenter Iaith er mwyn cynnig rhaglen o weithgareddau CC i blant a phobl ifanc (tu hwnt i'r ysgol).</p>	
<p>Fedraf i ddim cynnig ychwanegiad.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Rwyf yn hollol hapus gyda'r hyn a gynigir yn Neilliant 5 yn y ddogfen drafft.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae rhoi cyd-destun cymdeithasol i'r Gymraeg yn allweddol i ddatblygu dwyieithrwydd.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Trwy siarad Cymraeg yn ddigon cyson mi fyddai plant/dysgwyr yn siared e fwy yn gymdeithasol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r holl ddatganiadau yn Deilliant 5 yn glodwiw – yn cwmpasu ystod lawn o brofiadau a chyd-destunau (byddwn i'n tybio)! Campus! Gweledigaeth arbennig gan Ceredigion. Ni allaf feddwl am gyfleoedd pellach.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Penodwyd Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg Mewn Addysg i arwain gwaith 'Y Siarter Iaith'. Yn naturiol bydd hyn yn greiddiol wrth geisio datblygu rol y rhan-ddeiliaid o annog defnydd anffurfiol a naturiol o'r Gymraeg ymysg disyblion. Gydag uniad yr Adran Ysgolion a'r Adran Ddiwylliant rhydd hyn sawl cyfle allgyrsiol a chymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p><u>Codi Hyder</u> Mae Deilliant 5 yn cyfeirio ar Ymgyrch Hyder o Fedi 2022. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn awyddus i beilota cynllun i osod tiwtor llawn amser gydag un ysgol, neu glwstwr o ysgolion, mewn tair ardal gwahanol (tebyg i'r cynllun Tiwtor Cymraeg Gwaith sydd ar waith yng Nghyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd), er mwyn gweld a yw'r buddsoddiad o gyflwyno Tiwtor Llawn Amser i gynnal cyrsiau Cymraeg yn y Cartref i rieni yn fodel llwyddiannus o ymgysylltu â nifer uchel o rieni. Byddai'n bwysig sicrhau dewis ardal â nifer uchel o rieni di-gymraeg er mwyn gallu sicrhau apêl gwrs lefel Mynediad Cymraeg yn y Cartref. Mae'r Ganolfan hefyd yn awyddus i beilota cynllun Codi Hyder ar gyfer rhieni goddefol, gan ddilyn model cyrsiau Codi Hyder Cymraeg Gwaith a sefydlwyd ar sail prosiect Ymchwil Prifysgol Bangor. Nod y cyrsiau hyn yw newid arfer y siaradwyr goddefol dros gyfres o 10 sesiwn 2 awr. Byddai Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys Sir Gâr (Prifysgol Aberystwyth) yn awyddus i gydweithio â Chyngor Ceredigion i ddatblygu cynlluniau fel hyn oddi mewn i'r sir, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac am yr hyn a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg.</p>
<p>Dwi'n croesawu pob ymgais i normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd ac unrhyw ymgais i helpu pobl ifanc ddeall y ddeinmaeg sy'n dylanwadu ar eu defnydd iaith. Sonnir, am rol sesiynau 'Seicoleg Iaith' e.e. ac mae hynny yn llawn potensial o ran hogi dealltwriaeth am hynt a hanes a statws y Gymraeg fel iaith leiafrifol. Gall y ddealltwriaeth</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 310

<p>honno feithrin cydymdeimlad ac o wreiddio hynny wedyn mewn cyd-destun ysgol a chymdeithas lle mae'r Gymraeg i'w gweld yn fywiog a pherthnasol, mae 'na botensial go iawn.</p>	
<p>Deall bod y Gymraeg yn iaith fyw a ddefnyddir bob dydd tu allan i'r ysgol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Clybiau ar ôl ysgol. Gwersylloedd yr Urdd. Mynd allan i'r gymuned (cartrefi hen bobl).</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld yn berthnasol ym mywydau pobl ifanc yn holl bwysig os yw hi am ddatblygu fel iaith sy'n cael ei defnyddio'n gymdeithasol. Mae ei chysylltu gyda'r ymdeimlad yna o berthyn a balchder mewn ardal yn hynod bwysig. Mae angen iddi fod yn iaith gynhwysol a chyfoes nad yw'n gwyro tuag at agweddau ynysig nag at ffurfiau cyfyng ar ddiwylliant y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Er bod hyn wedi gwella mae angen mwy o ymwelwyr eto i allu siarad y Gymraeg e.e mae angen cefnogaeth fydd yn sicrhau fod mwy eto o rieni yn dewis dysgu'r Gymraeg (mae yn anodd mewn ysgol fach lle does dim lle/staff i gynnal sesiynau Cymraeg i rieni yn ystod oriau ysgol, er mai dyma'r lleoliad a'r adeg mwyaf cyfleus i rieni).</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Llawer o gyfleoedd i blant i wneud pethau gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg: Clybiau pêl droed, rygbi, syrffio, nofio, natur gwyllt a llawer o weithgareddau awyr agored.</p>	<p>Nodwyd y sylw am y gweithgareddau amrywiol ac am bwysigrwydd gweithgareddau awyr agored.</p>
<p>Mae nifer wedi eu henwi e.e. cydweithio gyda mudiadau fel y Ffermwyr Ifanc, yr Urdd ac Arad Goch a byddwn yn awgrymu adeiladau ar y perthnasau hynny fel bod na gyfrannu at gfryhau y mudiadau a'r sefydliadau hynny hefyd - sydd eto o fudd i ddatblygu'r iaith yn cael ei defnyddio yn y gymuned.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cytuno gyda'r angen i roi llawer mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol. Dylid hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob maes o fywyd yr ysgol, o'r ethos sy'n cael ei greu gyda phethau fel arwyddion a iaith gyfarch, i'r gwersi, cyfleoedd hamdden a chwarae. Credwn ei bod yn bwysig hefyd bod disgyblion yn gweld gwerth cymdeithasol yr iaith, ac rydyn ni'n croesawu y cyfleoedd creadigol sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion o fewn a'r tu hwnt i'r ysgol gan asiantaethau sy'n dod o dan ambarel y Cyngor Sir ei hun fel Cered a Theatr Felin-fach, ac asiantaethau allanol fel yr Urdd, y Ffermwyr Ifanc ayb.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun ac am yr hyn a gynigir gan y Llyfrgell Genedlaethol i gefnogi'r deilliant hwn.</p>
<p>Defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd go iawn sy'n hanfodol e.e. yn y gymuned/ gweithgareddau allgyrsiol/ yn y cyfryngau. Mae angen i ddisgyblion i weld, yn uniongyrchol, sut mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn fanteisiol iddyn nhw e.e. cyfweiliadau gyda phobl sydd wedi bod drwy'r system addysg a sy'n defnyddio eu Cymraeg o ddydd i ddydd e.e. plymwr lleol/person busnes/swyddog mewn swyddfa h.y. y</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>

Tudalen 311

<p>bobl oedd yn eu sefyllfa nhw rhai blynyddoedd ynghynt. Pobl sydd efallai heb adnoddau iaith perffaith, ond sy'n ei defnyddio o ddydd i ddydd yn rhan o'u gwaith/yn gymdeithasol ayyb.</p>	
<p>Gwersi chwaraeon yn yr ysgol. Gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. gemau tim. Dosbarthiadau amrywiol yn cael eu cynnal y tu allan i furiau ysgol a hynny yn seiliedig ar ddiddordebau disgyblion . Oherwydd y diffyg dilyniant sydd yn digwydd ar hyn o bryd mae llawer o gyn ddisgyblion yn gyndyn i ddefnyddio eu Cymraeg felly rydym yn colli rhai a fyddai'n arweinwyr gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Sicrhau fod sgysiau yn digwydd gyda phobl ifanc i weld be mae nhw eisiau gweld - boed yn fiwsig, ymarfer corff, drama, bwyd, teithio neu prosiectau amgylchedd neu gwirfoddoli. Mae angen i ddydysgu a defnyddio'r Gymraeg fod yn hwyl a phobl ifanc yw'r pobl orau i benderfynu be sy'n cynrychioli 'sbort' iddyn nhw.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Mae manylion fel y cyfeiriad at sicrhau bod holl staff Gwasnaethau Hamdden y Sir yn medru'r Gymraeg yn allweddol ac yn dangos bod y strategaeth yn un cynhwysol. Dylai menter fel datblygu cais Dinas Llên Unesco ddod â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau newydd hefyd; cyd-destunau a all ehangu gorwelion y disgyblion a datblygu ynddynt gariad at iaith ac ieithoedd drwy fyd llenyddiaeth.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Mae ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol yn holl bwysig. Mae'n bositif iawn bod y cynllun hefyd yn rhoi pwyslais ar gyfleon cymdeithasol drwy'r Gymraeg ac mae lle i gryfhau'r pwyslais hwn. Mae ein hymchwil WISERD yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau nad iaith fel iaith ysgol yn unig mae disgyblion ble nad oes Cymraeg yn y cartref yn gweld y Gymraeg, a phwysigrwydd gweithgareddau cymdeithasol er mwyn annog cyfleon defnydd iaith ac i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at y Gymraeg ymysg disgyblion. Yn hyn o beth mae'r nod o weithredu o fewn yr ysgol ochr yn ochr â datblygu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol i'w groesawu'n fawr. Mae'r bwriad o gyd-gysylltu gyda strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg yn allweddol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod ariannu digonol i gefnogi'r camau hyn os ydynt am fod yn ystyrlon a chyfoethog o ran dylanwadu ar ddefnydd iaith Gymraeg ac annog agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion. I raddau, mae'r dadansoddiad o 'ble rydyn ni nawr?' yn amlinellu camau polisi diweddar perthnasol sy'n rhai cadarnhaol ond nid yw'n cynnig dealltwriaeth helaeth o natur y sefyllfa gyfredol o ran y cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg na chwaith yn rhoi synnwyr o berspectif disgyblion eu hunain o'r profiadau hyn. Mae'r rhai o'r cyrff y cyfeirir atynt o ran cytundeb lefel gwasanaeth (t. 22) yn awgrymu diffyg ffofws strategol o ran</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a manwl a gyflwynwyd.</p>

hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg. Er bod rhai elfennau cyfoethog iawn o'r cyfleoedd cyfredol i ddysgwyr drwy'r Gymraeg o fewn y sir, e.e. darpariaeth Arad Goch neu Ffermwyr Ifanc, gellid awgrymu bod ystod darpariaeth yma yng Ngheredigion yn fwy cyfyngedig a phytiog na fyddai'r disgwyl oherwydd shifft ieithyddol mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden a lleihad mewn gweithgareddau wedi eu trefnu yn wirfoddol, e.e. adrannau Urdd. Hefyd, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg penodedig yn fwy cyfyngedig mewn meysydd fel chwaraeon, cynlluniau chwarae ayb o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru ble mae Mentrau Iaith yn chwarae rôl mwy rhagweithiol, neu ble mae'r awdurdod lleol a chlybiau yn (parhau) i ddarparu mwy yn Gymraeg. Dyma rai materion i'w hystyried o ran datblygu cynnwys y deiliant hwn:

i) Mae llawer o fanylion o ran camau i'w cymryd ar t. 23-25. Tra bod rhai yn strategol, mae eraill yn benodol iawn sydd efallai'n briodol ar gyfer cynllun ychydig o flynyddoedd ond efallai llai ar gyfer cynllun 10 mlynedd fel hwn.

ii) O berspectif y gwahanol agweddau ac amcanion i ymyrraethau cynllunio ieithyddol, mae'r camau a amlinellir (t. 23-25) yn gyfuniad sy'n cynnwys: casglu data i ddatblygu dealltwriaeth well; annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg disgyblion yn yr ysgol; ymestyn cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol; codi hyder siaradwyr Cymraeg; ac annog agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Er bod gor-gyffwrdd clir rhwng rhai o'r rhain (e.e. cynyddu defnydd a'r effaith ar agweddau), gallai gwahaniaethu cliriach rhwng y gwahanol agweddau arwain at gynllunio yn fwy strategol a sicrhau gwell ystyriaeth o'r cydbwysedd rhwng gweithredu yn y gwahanol agweddau.

iii) O ran cynyddu'r cyfleon i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, mae ein hymchwil WISERD yn cadarnhau gwerth cyfleon diwylliannol a'r celfyddydau i annog defnydd iaith ac agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Yn sgil ffocws cynyddol ar anghenion cwricwlaidd a'r pwysau cysylltiedig ar athrawon, mae tuedd i ysgolion neilltuo llai o amser i weithgareddau allgyrsiol o'r fath: corau, cyfleon cystadlu mewn Eisteddfodau a chynyrchiadau a chyngherddau ysgol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. O ystyried gwerth y gweithgareddau hyn i annog defnydd iaith ymysg disgyblion, byddai'n werth ystyried sut i gefnogi ysgolion i barhau a chryfhau darpariaeth fel hyn. iv) Yn sicr, mae lle i gynyddu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc, a hefyd i gryfhau cydlynu'r ddarpariaeth ar draws y gwahanol gyrff a restrir er mwyn bod yn fwy effeithiol a sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth, a bod modd o ymateb i'r anghenion penodol mewn rhannau gwahanol o'r sir. Gan adlewyrchu canfyddiadau gwaith Revitalise, mae'n allweddol bod y Gymraeg yn cael ei (hail)normaleiddio yn y llefydd hynny ble mae plant a phobl ifanc yn treulio eu hamser hamdden, e.e. darpariaeth chwaraeon. O'r herwydd, croesawn y pwyslais ar ddatblygu elfennau o gryfhau darpariaeth yn Gymraeg a ddarperir mewn canolfannau hamdden ac annog cyrff eraill fel Prifysgol Aberystwyth sy'n

<p>darparu ar gyfer yr oedrannau hyn i gynnig mwy o ddarpariaeth yn Gymraeg. Yn ogystal, mae lle i ymestyn y pwyslais i ddatblygu cynlluniau i gynyddu hyder cyfrwng Cymraeg hyfforddwyr a'r cyfleon yn Gymraeg a gynnigir gan glybiau chwaraeon. Mae cynlluniau hynod o lwyddiannus o'r math hyn wedi eu datblygu yng Ngwlad y Basg. v) Elfen arwyddocaol yng Nghymru yw'r diwylliant poblogaidd cyfrwng Cymraeg a'r Sin Roc Gymraeg, profiadau fel gigs a Maes-B i bobl ifanc. Mae'n werth manteisio mwy ar y cyfleon i ddefnyddio'r rhain i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog cymdeithasu yn Gymraeg, yn enwedig ymysg yr oedrannau hyn. Mae'r Prosiect Cerddoriaeth i'w groesawu a phosibiliadau o ehangu hyn yn bellach. vi) Byddai'n fuddiol hefyd ceisio mapio natur y ddarpariaeth i'r gwahanol grwpiau oedran. Y duedd yw i ganolbwyntio mwy ar yr oedrannau cynradd a bod ystod darpariaeth yn crebachu wrth i bobl ifanc fynd yn hyn heb lawn ystyried y goblygiadau i'r cyfleon i bobl ifanc gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg. Yn yr oedrannau cynradd hyd at tua 14 oed, mae cyfle hefyd i gynnwys mwy o ystyriaeth o'r cyfleon o ran gofal a sesiynau ar ôl ysgol sy'n cael eu darparu gan Fentrau Iaith mewn rhannau eraill o Gymru fel modd o ymestyn cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg ac i hwyluso penderfyniadau teuluodd i ddewis bod eu plant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gellid ystyried ymyrraethau pwrpasol mewn grwpiau oedran hyn fel 16-18 pan fo pobl ifanc yn y cyfnod addysg a hyfforddiant ôl-statudol. Yn ôl ein hymchwil WISERD ni, mae tuedd i bobl ifanc chweched dosbarth fabwysiadu agwedd mwy cadarnhaol at y Gymraeg yn y cyfnod hwn a dangos mwy o awydd i ddefnyddio'r iaith. Gall fod yn adeg allweddol i ddylanwadu'n bositif ar eu harferion ieithyddol yn y cyfnod hwn sy'n debyg o effeithio arnynt yn y cyfnod ôl-18.</p>	
<p>Clybiau ar ôl yr ysgol.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mwy o gymorth i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, a digwyddiadau lle y gall rhieni a phlant ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Mae cefnogaeth rhieni a meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu iaithoedd yn holl bwysig i lwyddiant y cynlluniau.</p>
<p>Mae angen bo dyn ofalus gydag holiaduron am ddefnydd iaith i blant, yn enwedig sut mae brawddegau'n cael eu ffurfio. Wrth wrando ar ymatebion fy mhlant (sy'n CA2) i'r cwestiynau - sy'n blant o aelwyd Gymraeg, mae'n amlwg nad yw'r cwestiynau wedi'u hysgrifennu'n gywir er mwyn sicrhau cywirdeb i'r data, gwerth i'r holiadur ac unrhyw sesiynau am ymwybyddiaeth iaith. Atebodd fy mab nad oedd e'n meddwl bod iaith yn bwysig ond wrth i mi ofyn iddo petawn i'n tynnu ei iaith oddi wrtho a nad oedd modd iddo ddefnyddio'r Gymraeg o gwbl, fe sylwodd ei phwysigrwydd. Mae angen mwy o ymchwil wrth gasglu data ac efallai sesiwn ymwybyddiaeth lle mae'r plant yn teimlo perchnogaeth ar a phwysigrwydd at yr iaith Gymraeg. Mae gwaith yma i ddatblygu brwdfrydedd, balchder, cariad a ffyddlondeb i'r iaith Gymraeg - mae hyn yn digwydd trwy enghreifftiau fel Welsh not, Tryweryn ayb ond hefyd trwy ddangos llwyddiant y</p>	<p>Nodwyd y sylw ac eto am y manylion a gyflwynwyd.</p>

<p>Gymraeg ar lefel rhyngwladol e.e. enwogion, chwaraeon. Mae'r Cymru fodern yn gallu bod yn fwy soffistigedig ac mae angen dangos hyn. Rwy'n croesawu'r datblygiad o apiau a gwefannau ond efallai rheadru gwybodaeth yn unig yw nod yr arlwy presennol, yn hytrach nag ystyried datblygu cynnwys newydd. Beth am brosiect i ddatblygu fideos youtube Cymraeg - gemau fideo ac unigolion i fedru cyflwyno rhain yn y Gymraeg ayb? Beth am brosiect i ddatblygu sgiliau technegol cyfryngol - creu fideos/sail/golygu? Mae gwersi offeryn cerddoriaeth fy merch yn Saesneg - er iddi fynychu Ysgol XXXX - mae hyn yn siomedig. Dydw i ddim eisiau i fy merch feddwl am gerddoriaeth trwy gyfrwng y Saesneg. Mae angen mwy o waith i ddenu siaradwyr Cymraeg i rôl gwersi cerdd peripatetig.</p>	
<p>Ceir cyfeiriadau da at waith ieuentid ac at wasanaethau ehangach i gynorthwyo pobl ifanc. Mae gwaith ieuentid yng Nghymru'n seiliedig ar ymgysylltu'n wirfoddol â phobl ifanc fel partneriaid sydd wedi'u grymuso. Mae'n dechrau ar ba bynnag bwynt y mae'r bobl ifanc yn eu bywydau, mae'n cydnabod ac yn ceisio datblygu a gwireddu eu potensial, ac mae'n ymrwymo i gydraddoldeb a chynhwysiant. Mae gwaith ieuentid yn gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar hawliau, gan fynd ati ar yr un pryd i gynorthwyo pobl ifanc i fynd i'r afael â'r cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyo a'r gofynion y disgwylir iddynt eu hateb. Drwy fanteisio ar gyfleoedd nad ydynt wedi'u cynllunio, a chynllunio cyfleoedd tu allan i'r systemau addysg ffurfiol, mae gwaith ieuentid yn hwyluso dysgu, gan gynnwys dysgu sy'n arwain at achrediad a chydabyddiaeth lle bo'n briodol. Yn ei hanfod, mae gwaith ieuentid yn darparu amgylchedd diogel ac yn cefnogi datblygiad a llesiant pobl ifanc. Mae gwaith ieuentid yn cydnabod pwysigrwydd iaith a diwylliant, yn enwedig iaith a diwylliant Cymru, ynghyd â'r angen i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Mae cyfleoedd a phrofiadau gwaith ieuentid yn cyfrannu at uchelgeisiau Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg (2017) drwy ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol tu hwnt i gât yr ysgol neu'r cartref. Mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran cyflawni rhai o ymrwymadau pwysig Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018), gan sicrhau cydraddoldeb o ran canlyniadau iechyd corfforol ac iechyd meddwl drwy gynorthwyo pobl ifanc i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw a'u cyfeirio at gymorth.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd. Mae cyfleoedd amrywiol i ieuentid ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol a'u cael i deimlo perchnogaeth dros y Gymraeg yn holl bwysig.</p>
<p>Rwy'n credu eich bod wedi trafod pob maes.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae'n bwysig fod yr ysgolion yn gweld eu rôl cymunedol ac yn cyfeirio eu disgyblion at gyfleoedd Cymraeg yn y gymuned.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Sicrhau bod profiad gwaith ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n hollbwysig datblygu cyrsiau cynenedigol cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â chydweithio â sefydliadau cyn-ysgol.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 315

<p>Yn rhan annatod o'r Cwrwicwlwm Newydd - ac eisoes - i ddefnyddio'r Gymraeg. Yr her yw i gadw'r defnydd "gymdeithasol" ar y coridor.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae cyfleoedd fel hyn yn ran annatod o'r Cwrwicwlwm i Gymru. Lan at CA2 mae popeth yn y Gymraeg beth bynnag. Yr heriau ydy defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol - yn y coridorau, yn yr iard chwarae. Anodd cadw'r momentwm i fynd trwy'r amser gyda chymdeithasu'n y Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Mae'n gynllun sy'n dangos ôl meddwl da ac mae'n darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r cyfleoedd a nodir yn eang ond dylid sicrhau cydweithio gyda mudiadau fel Cered, CFFI ac yn y blaen.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Dylai clybiau cyn ac ar ôl yr ysgol fod yn ddwyieithog. Yn anffodus, nid yw llawer o'r oedolion sy'n rhedeg clybiau a gweithgareddau a ddarperir gan elusennau neu glybiau chwaraeon yn siarad Cymraeg. Mae angen darbwylllo mwy o oedolion sy'n siarad Cymraeg i wirfoddoli i redeg clybiau'n ddwyieithog.</p>	<p>Nodwyd y sylw a'r angen i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg i glybiau a gweithgareddau gyda'r hwyr ayyb.</p>
<p>Cydweithio gyda asiantaethau allanol a chreu rhaglen dreigl effeithiol.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Yn ogystal â galluogi mynediad i holl ddisgyblion Ceredigion at addysg gyfrwng Cymraeg, mae angen annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned hefyd. Fel a nodir, mae angen annog mwy o warchodwyr plant cyfrwng Cymraeg, a hefyd mae angen annog y defnydd o'r Gymraeg yn lleol - yn y siopau (e.e sialens y siarter iaith), a bod mwy o glybiau Cymraeg ar gael - mae llawer mwy o glybiau cyfrwng Cymraeg i blant ar gael erbyn hyn, ond mae dal lle i wella ar hyn.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Mae'r gweithgareddau yn y ddogfen yn edrych yn dda iawn. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei normaleiddio fel iaith hamdden yng Ngheredigion ac nid yw defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfyngu i weithgareddau 'dwyieithog' sy'n defnyddio'r Saesneg fel prif iaith y grŵp, gyda'r Gymraeg ond yn cael ei ddefnyddio'n symbolaidd (e.e. cyfarchion) ac yn achlysurol rhwng unigolion. Mae angen hefyd rhagor o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gan fod angen sgiliau Cymraeg mewn llawer o swyddi, ac mae angen i bobl ifanc weld defnydd at eu sgiliau iaith y tu hwnt i'r ysgol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd o ran gweithgareddau hamdden.</p>
<p>Mae nifer fawr o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, ac o fewn y gymuned, fel a nodir yn neilliant 5. Mae'r siarter iaith hefyd yn annog y dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>

Tudalen 316

<p>Cytuno'n llwyr gyda'r egwyddorion amlinellwyd yma ond bydd rhaid sicrhau ariannu digonol a chefnogi'r camau hyn. Mae rôl y swyddog hyrwyddo'n allweddol ond wrth i ni ail-gydio mewn addysg fwy normal rhaid cryfhau'r partneriaethau rhwng addysg a sefydliadau allanol ac mae'n braf gweld nifer o'r rhain yn cael eu henwi. Bydd angen sicrhau cydlynu'r ddarpariaeth er mwyn osgoi bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r ffocws ar chwaraeon yn bwysig, ond rhaid cynnwys y clybiau chwaraeon yn y drafodaeth. Ble mae hyfforddwyr yn y clybiau yn darparu'r trwy'r Saesneg caiff hwn ei adlewyrchu yn iaith y disgyblion ar y cae. Rhaid hefyd pwysleisio effaith yr elfennau allgyrsiol eraill ar hyder a medrau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod rhieni di-Gymraeg yn gweld gwerth y gweithgareddau.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Sesiynau chwaraeon cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae pwyslais clir yn y rhan hon ar y celfyddydau mynegiannol ac mae hyn yn briodol iawn gan fod cyswllt pendant rhwng y meysydd hyn â sgiliau ieithyddol, datblygu hunaniaeth, ymateb a dadansoddi'r byd o'n cwmpas. Mae pwyslais ar chwaraeon o bob math hefyd yn allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu sgilau ieithyddol ac adeiladu hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn yn yr iaith Gymraeg. Mae chwaraeon hefyd yn cynnig amrediad o foddau cyfathrebu (un-i-un, un-i-lawer, llawer-i-lawer, llawer-i-un) sydd yn caniatáu dulliau arbrefol o weithio gyda mwy nac un iaith - a mwy na dwy iaith - ar draws poblogaeth sydd â lefelau gwahaol o sgiliau ieithyddol.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Y modd mwyaf naturiol ydyw i'r dysgwyr glywed yr iaith yn cael ei siarad ar lawr dosbarth, y coridorau, y ffretur, yr iard ac yn y blaen. Cynnal sesiynau tebyg i'r hyn sy'n cael eu cynnal yn Theatr Felinfach yn ardal Aberystwyth. Ysgolion Cylch Aberystwyth i gynnal cystadleuthau megis pel-droed, rygbi, pel-rwyd, hoci, eisteddfod yn erbyn ei gilydd. Sesiynau hwyllog ar ol oriau'r ysgol - chwaraeon potes ag ati. Cystadleuaeth Cwis Llyfrau Cymraeg. Bu hwn yn effeithiol ac yn llwyddiant yn y gorffennol - astudio llyfr gosodedig. Ysgolion i gwblhau'r Siarter iaith - a mynd am yr Aur.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd.</p>
<p>Y Gymraeg fel iaith hamdden yn un ffordd amlwg. Ond mae hefyd angen gweithgareddau ym mhob maes trwy'r Gymraeg. Mae'r gweithgareddau yn y ddogfen yn edrych yn addawol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei normaleiddio fel iaith hamdden yng Ngheredigion ac nid yw defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gyfyngu i weithgareddau 'dwyieithog' sy'n defnyddio'r Saesneg fel prif iaith y grŵp, gyda'r Gymraeg ond yn cael ei ddefnyddio'n ymylol (e.e. i gyfarch y grŵp) a sgwrsio rhwng unigolion. Mae'r model hwn wedi'i ddefnyddio mewn sefyllfaoedd dysgu dwyieithog o fewn ysgolion ac mae profiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi dangos nad yw'n datblygu siaradwyr hyderus sy'n mynd ymlaen i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol. Mae angen hefyd rhagor o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun a'r sylwadau pellach a gyflwynwyd yn enwedig o safbwynt manteision dwyieithrwydd a'r byd gwaith.</p>

Tudalen 317

<p>gweithle, gan fod angen sgiliau Cymraeg mewn llawer o swyddi, ac mae angen i bobl ifanc weld defnydd at eu sgiliau iaith y tu hwnt i'r ysgol. Er enghraifft, ceir problemau o fewn y Brifysgol wrth recriwtio staff anacademaidd sy'n medru gweithio'n ddwyieithog yn hyderus o fewn swyddi sy'n darparu gwasanaethau i fyfyrwyr a'r cyhoedd (e.e. lletygarwch, diogelwch, gwasanaethau llety, cyllid a TG) y mae rhaid i'r Brifysgol ddarparu drwy'r Gymraeg o dan y Safonau. Dengys Davies (2020) fod rhai disgyblion yn erbyn negeseuon am fanteision dwyieithrwydd yn y gweithle ond nad ydynt yn egluro pam mae'n fanteisiol. Gellid defnyddio enghreifftiau o gyflogwyr lleol a lled-leol sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith dydd i ddydd y sefydliad, symud at ddefnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith dydd i ddydd neu'n darparu gwasanaethau drwy'r Gymraeg, megis y Llyfrgell Genedlaethol, Llywodraeth Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Byrddau Iechyd, Menter a Busnes, Mudiad Meithrin a Chylchoedd Meithrin, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Gaerfyrddin ynghyd â busnesau bach megis siopau, gweisg, cyfreithwyr a chyfrifwyr lleol. Byddai amlygu unrhyw adrannau o fewn Cyngor Sir Ceredigion sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith dydd i ddydd hefyd yn gyfle i arwain drwy enghraifft.</p>	
<p>Syniadau da fan hyn- mater arall yw cael disgyblion i fanteisio ar y cyfleoedd.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Yn galluogi plant i fynychu clybiau'r Urdd.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Byddant yn gallu siarad yn Gymraeg a Saesneg yn dibynnu ar y sefyllfa, bydd yn agor mwy o gyfleoedd iddynt ac hefyd yn dangos taw nid jyst iaith dosbarth yw'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mae'r cynllun yn cynnwys llawer o syniadau fydd yn cefnogi gallu plant i allu defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd gwahanol. Beth am gynnig cystadleuathau a gwobrau yn ogystal â rhai yr Urdd i ddisgyblion sydd yn gwneud yn dda ac yn dysgu'r iaith ac yn ei ddefnyddio?</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Mewn sefyllfaoedd cymdeithsol ar lefel awdurdod mae'r plant hynny sydd heb dderbyn addysg sydd yn cynnig gwir ddwyieithrwydd yn achosi iaith gwethgareddau i newid. Mae hyn yn achosi anhegwch i ddisgyblion sydd am fyw eu bywydau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Gobeithiwn y bydd yr hyn a gynlluniwyd yn Deilliant 5 yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.</p>
<p>Byddwn yn gweld hyn fel cyfle arbennig i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd o'i bywydau, a dangos bod gallu siarad Cymraeg yn agor drysau i llawr mwy o gyfleoedd a swyddi yn y pen draw.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Dyma adran gref iawn o ran ei gweledigaeth a'r targedau manwl, cydlynus a chynhwysfawr sy'n cael eu cynnig er mwyn gwireddu'r nod. Mae'n amlwg bod y cysyniad o weithio mewn partneriaeth wedi'i wreiddio'n ddwfn yma a dealltwriaeth gref o gyfraniad rhanddeiliad allweddol yn y gwaith o symud yr iaith tu hwnt i furiau'r ysgol, trwy greu a chynnig cyfleoedd i'w</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>

Tudalen 318

<p>defnyddio, a thrwy hynny ei normaleiddio fel iaith gymunedol. Gwerthfawrogwn hefyd y manylion sydd yn yr adran hon yn nodi'r gweithgareddau posibl y bydd yn digwydd dros oes y cynllun.</p>	
<p>Mae UCAC yn cydnabod ac yn croesawu defnydd yr awdurdod o'r Siarter Iaith ac o amryw fawr o strategaethau creadigol eraill, gan gynnwys cydweithio eang, wrth anelu at wireddu'r deilliant hyn. Mae UCAC yn cymeradwyo unrhyw gynlluniau gan yr awdurdod i weithio gyda chyflogwyr ac addysg uwch ac addysg bellach i hyrwyddo dwyieithrwydd fel sgil allweddol ar gyfer byd gwaith a bywyd gydol oes.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Sylwadau sy'n anghytuno'n gyffredinol gyda'r amcanion</p>	<p>Ymateb Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>I helpu plant i fod yn ddwyieithog, nid dim ond i siarad Cymraeg (gan gadw plant o bob cefndir a allai siarad ieithoedd eraill mewn cof), byddwn innau'n dweud mai'r ffordd orau o wneud hyn yw darparu gwersi Cymraeg am ddim i oedolion sydd am ddysgu'r iaith. Nid taflu plentyn i ysgol Gymraeg a allai godi braw ac ofn arno/arni, pan fo hefyd yn dechrau ar gyfnod mewn amgylchedd newydd. O ymgartrefu yn Gymraeg ac yn Saesneg, bydd yn helpu plentyn. Mae'r un peth yn wir am yr ysgol uwchradd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4) yr hyn a nodwyd am ddwyieithrwydd ac am y gefnogaeth i rieni. Bydd amrediad o wersi Cymraeg addas i oedolion ar gael trwy law ein partneriaid perthnasol.</p>
<p>Cytuno, dylent ddewis a ydynt am siarad Cymraeg ai peidio. Nid eu gorfodi i wneud hynny.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Rhoi dewis i rieni Ceredigion er mwyn i ddysgu'r Gymraeg ddod yn fraint yn sgil byw yma, ac nid yn faich ar draul addysg eu plant.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Ar bob cyfrif, dysgwch Gymraeg mewn ysgolion a gadewch i'r rheini sydd am anfon eu plant i ysgol Gymraeg wneud hynny, ond rhowch ddewis i eraill yn y sir beidio â gwneud hynny. Os oes arnoch chi eisiau i fwy siarad Cymraeg, cynigiwch yr iaith fel gweithgaredd ychwanegol yn y cwricwlwm – peidiwch â'i GORFODI arnom ni!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Rwy'n credu bod digonedd o gyfleoedd, ond yn anffodus nid ydynt yn cael eu defnyddio mewn ffordd ystyrion; nid yw'r Gymraeg yn cael ei darparu mewn unrhyw ffordd systematig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac rwy'n credu bod hyn yn</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4). Does yna neb am osod gorfodaeth i ddefnyddio un iaith neu'r llall mewn sefyllfa gymdeithasol. Mae'n wir i ddweud y bydd plant</p>

Tudalen 319

<p>broblem fawr. Pe bai'r dull o addysgu'r iaith yn fwy ystyrllon, rwy'n credu'n gryf y byddai modd cyflawni llawer o ran gwella sgiliau Cymraeg disgyblion. Mewn cyd-destun cymdeithasol, rwy'n credu bod plant yn siarad eu prif iaith a'r iaith y maent yn teimlo fwyaf cyfforddus ynddi a mwyaf cyfarwydd â hi, a bydd hi'n anodd newid hynny mewn unrhyw ffordd, ac eithrio drwy orfodaeth. Rwy'n gobeithio na fydd yr "English Not" yn cael ei gyflwyno yn 2023; mae'r dull arfaethedig yn sicr yn rhyw awgrymu rhywbeth i'r perwyl hwnnw.</p>	<p>(ac oedolion) yn defnyddio'r iaith sy'n briodol ar gyfer sefyllfaoedd a chyd-destunau gwahanol. Nod y cynllun hwn yw cynnig dwy iaith i ddisgyblion fel eu bod yn gallu dewis defnyddio un neu'r llall yn dibynnu ar y cyd-destun ar y pryd.</p>
<p>Nid ydych yn ystyried nifer y plant o gefndiroedd ethnig gwahanol!!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod cefndir ethnig person yn ddim i'w wneud gyda dysgu iaith. Mae yna lawer iawn o bobl o nifer fawr o gefndiroedd ethnig wedi dysgu Cymraeg yng Nghymru. Yn aml iawn, mae'r bobl yma'n siarad iaith (ieithoedd) eraill hefyd ac nid ond y Gymraeg a'r Saesneg. Mae miloedd o bobl sydd wedi eu geni yn Lloegr ac sy'n byw yng Nghymru erbyn hyn, hefyd yn siarad y Gymraeg gyda llawer yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg.</p>
<p>Rhowch rai rhaglenni da ar S4C i ddechrau, yn hytrach na'r sothach sydd ar y sianel nawr.</p>	<p>Nodwyd y sylw ond nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau dros yr arlwy ar S4C.</p>
<p>DIM, HEB ICHI GLUSTNODI HYFFORDDIANT STAFF.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Hoffwn ddarpariaeth addysg cyfrwng Saesneg ar gyfer fy mab, lle y bydd hefyd yn dysgu'r Gymraeg fel pwnc ieithyddol. Fel y mae ar hyn o bryd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4). Cyflwyniad graddol fydd i'r cynllun trochi i blant 3 oed. Ni effeithir unrhyw blentyn sydd yn yr ysgolion dan sylw ar hyn o bryd gan y datblygiadau.</p>
<p>PE BAI Cymraeg yn cael ei dysgu tu allan i Gymru. Pe bai pob un sy'n byw yng Nghymru'n cael arian ac amser o'r gwaith i ddysgu Cymraeg nes eu bod yn hollol rhugl.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Mae gennyf bryderon difrifol am y cynigion yn fwy cyffredinol.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Rwy'n deall ac yn parchu'n llwyr bwysigrwydd y Gymraeg – ac, fel y dywedais, rwy'n dysgu fy hun erbyn hyn. Mae fy merch yn dysgu Cymraeg ac rwy'n falch ei bod hi'n gwneud hynny. Nid oes gennyf broblem mewn gwirionedd â'r targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050; fel targed gan lywodraeth, mae'n un gweddol ddiniwed, hyd yn oed os yw braidd yn fympwyol. Ond nid wyf yn credu mai ailwampio addysg y blynyddoedd cynnar fel hyn yw'r ffordd orau o gyrraedd y targed hwnnw. Rhowch fwy o arian i'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Rhowch gymhorthdal i gyflogwyr i beri iddi fod yn haws i bobl ddysgu Cymraeg yn ystod eu horiau gwaith. Peidiwch â defnyddio addysg y blynyddoedd cynnar yn wystl.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Ar hyn o bryd, nid wyf yn gweld y Gymraeg yn cael ei dysgu drwy gwricwlwm datblygedig i blant cynradd, yn enwedig i blant CA2. Mae'n ymddangos bod y drefn yn <i>ad hoc</i>, gan ddibynnu ar yr athro. Pam nad oes cwricwlwm penodol</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4), yn enwedig yr hyn sydd wedi ei nodi eisoes am y sefyllfa ail-iaith bresennol.</p>

Tudalen 320

<p>Cymraeg fel ail iaith yn cael ei ddysgu i blant cynradd cyfrwng Saesneg? Dechreuwch fan hyn, os gwelwch yn dda.</p>	<p>Mae cwricwlwm ail iaith a chynlluniau perthnasol penodol ar gael mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ond barn y Llywodraeth yw nad ydyw'n effeithiol yn datblygu dwyieithrwydd disgyblion.</p>
<p>Mae cymaint o gyd-destunau o'r fath ar gael eisoes.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>A oes cymorth ar gael i bob lleoliad gynyddu'r Gymraeg er mwyn iddi fod yn gydradd â'r Saesneg? Oherwydd byddai hynny'n golygu bod y lleoliad yn ddwyieithog?</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Dylid annog grwpiau, dosbarthiadau, clybiau dwyieithog lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn rhoi mwy o hyder i siaradwyr Saesneg iaith gyntaf yn y Gymraeg, ac i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn y Saesneg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Dim syniad.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Byddai angen i'r sir fuddsoddi mewn clybiau ieuenctid, pobl ifanc, cymdeithasau a gweithgareddau hamdden eraill i gynorthwyo pobl ifanc i ddefnyddio'u Cymraeg. I gyflawni hyn, byddai angen i'r cyngor sir wneud ymdrech fwy didwyll – byddai hefyd yn golygu nad oes modd cyflwyno un mesur i ateb pob diben.</p>	<p>Nodwyd y sylw a gobeithiwn fod yr hyn a nodwyd yn Deilliant 5 yn ymateb i'r anghenion yma.</p>
<p>Rwy'n credu y dylai plant a phobl ifanc fod yn rhydd i ddefnyddio'r iaith o'u dewis mewn cyd-destunau tu allan i addysg ffurfiol, a dylid cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle bo'n briodol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2, 3 a 4).</p>
<p>Mae'n anhygoel pa mor wael yw cynllun yr holiadur hwn. Nid oes opsiwn i ymateb i gwestiwn 13. Nid oes unrhyw ganllawiau ar gyfer cwestiwn 14, ond fel llawer o'r cwestiynau eraill uchod, rhaid i'r darlennydd 'ddyfalu' at beth y mae'n cyfeirio! Mae angen ailddechrau'r ymgynghoriad cyfan, ond nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd yr ateb hwn yn cael ei anwybyddu.</p>	<p>Nodir eich sylw. Teimlir o ran nifer a sylwedd yr ymatebion bod y cyhoedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad, a bod adran olaf yr ymgynghoriad yn rhoi cyfle i bobl fynegi eu barn/sylwadau yn rhydd o unrhyw batrwm cwestiynau.</p>

Tudalen 321

Deilliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

Cwestiwn 1 – Oes angen ystyried unrhyw agwedd arall wrth anelu at weld cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r amcanion ond sydd hefyd yn cynnig ystyriaethau pellach	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion
Os mai'r Gymraeg yw iaith yr aelwyd, dylid darparu addysg a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr ag ADY.	Nodwyd y sylw. Mae Deilliant 6 yn nodi'r cynlluniau ar gyfer ceisio sicrhau cefnogaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
Lobio Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau cyfrwng Cymraeg priodol i gefnogi'r nodau.	Nodwyd y sylw.
Fedraf i ddim cynnig ychwanegiad.	Nodwyd y sylw.
Dysgu mewn safleodd sydd ddim yn statudol ac yn ei gwneud yn fwy o hwyl.	Nodwyd y sylw.
Un agwedd yr hoffwn ei sicrhau yn yr adran hon yw'r modd gweithredu pe bai achos yn codi lle bo rhieni yn derbyn argymhelliad i beidio â chymhlethu datblygiad eu plentyn sy'n dioddef o anghenion dysgu ychwanegol trwy gynnig addysg gyfrwng Cymraeg iddo. Digwyddodd hyn mewn un ardal yng Nghymru. Yn yr achos hwnnw, Down's Syndrome oedd dan sylw. Ar ddiwedd y dydd, fe dderbyniwyd cadarnhad meddygol nad oedd sail i'r argymhelliad, a bod angen i blentyn ddatblygu'n ieithyddol yn ei famiaith Gymraeg, yn ogystal ag yn ei ail iaith, sef Saesneg. Felly'r neges bwysig yw i beidio â derbyn barn heb sicrhau ei bod yn hollol ddilys; cofier bod angen barn/ymateb arbenigwyr.	Mae'r ddarpariaeth sydd yn cael ei gynllunio yn blentyn ganolig, ac yn ymateb yn sensitif i anghenion y plentyn.
Cefnogwn yr hyn sydd wedi ei nodi gan sylweddoli bod sicrhau darpariaeth y Gymraeg yn her mewn rhai elfennau/nodweddion o'r maes hwn.	Nodwyd y sylw.
Fel rwyf wedi deall yn y gorffennol mae plant sydd ag anghenion ieithyddol yn cael eu haddysgu yn iaith y cartref (Saesneg) ond mae angen ystyried hefyd fod llawer sydd ag anawsterau yn medru dysgu'r Gymraeg yn well na'u mamiaith. Rwy'n mawr obeithio y bydd pob therapydd lleferydd iaith yn cael cyflwyno eu sesiynau yn y Gymraeg wrth ddysgu pob plentyn dan 7 oed yn hytrach nag iaith y cartref.	Nodwyd y sylw hwn ac mae'r Cyngor yn cytuno gyda'r farn am ddysgu ieithoedd. Dengys ymchwil bod dwyieithrwydd yn cryfhau'r galluoedd gwybyddol. Mi fydd Cyngor Ceredigion yn gweithredu egwyddorion y Cod ADY fel a nodwyd isod er mwyn sicrhau bod cefnogaeth arbenigol yn cael ei gynllunio a'u ddarparu yn briodol er mwyn cefnogi anghenion y plentyn . Yr egwyddorion sy'n sail i'r system ADY yw:

Tudalen 322

	<p>(a) Gweithredu ar sail hawliau lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle mae'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) a materion cysylltiedig.</p> <p>(b) Adnabod, ymyrryd ac atal yn gynnar lle mae anghenion yn cael eu hadnabod a darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl a phryd bynnag y bo modd lle mae ymyriadau'n cael eu rhoi ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu.</p> <p>(c) Cydweithredu ac integreiddio lle mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod cefnogaeth gydgyssylltiedig briodol yn cael ei rhoi ar waith i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a deilliannau cadarnhaol.</p> <p>d) Addysg gynhwysol lle caiff y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc ifanc ag ADY eu cefnogi i gymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd a lle y defnyddir dull lleoliad cyfan i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.</p> <p>(e) System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser.</p>
<p>Fel a nodwyd mae peth anhawster cael Asesiadau Safonol yn y Gymraeg ond mae hynny yn nwylo'r llywodraeth ar lefel Genedlaethol. Nodwyd mai Saesneg yw prif iaith gweithredu y canolfannau arbenigol o fewn Ceredigion sef y SRC. Nodir y ceir cymhorthydd wrth law i weithio'n agos gyda disgybl Cymraeg. Gobeithio felly y caiff y strategaeth yma ei dderbyn fel bo mwy o Gymry Cymraeg gennym i lenwi'r bylchau hyn yn y proffesiwn a'u hannog i ddilyn gyrfaoedd drwy'r Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Pwysigrwydd mynediad i'r Gymraeg i bob plentyn.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Pwysig cynnwys disgyblion ag anghenion arbennig yn y ddarpariaeth.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Cytunaf gyda'r ffaith bod angen canfod gwell darpariaeth ar gyfer rhai gyda nam clyw neu amhariad aml-synhwyrdd. Yn amlwg mae rhai agweddau o ddysgu disgyblion ADY angen sylw Cenedlaethol yn enwedig o safbwynt profion diagnostig safonol yn y Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 323

I beidio a dweud bod hwyluso dysgu wrth neud un iaith yn unig. Mae angen y Gymraeg ar bawb sydd yn byw yng Nghymru.	Nodwyd y sylw.
Rwy'n credu ei bod hi'n fendigedig bod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ADY yn gallu bod yn ddwyieithog erbyn hyn.	Nodwyd y sylw.
Mae'r cynllun yn nodi pwysigrwydd datblygu'r ddarpariaeth hon ac yn gwneud yn glir y bylchau truenus sy'n parhau. Fel y noda'r cynllun, dylid mynd i'r afael â'r diffyg tegwch hwn fel mater o bwys cenedlaethol.	Nodwyd y sylw.
Fel y mae'r cynigion yn ei ddangos, mae angen mynd ati ar sail genedlaethol i ddatblygu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg.	Nodwyd y sylw.
Er nad oes gen i wybodaeth benodol am y maes hwn mae angen cryfhau y ddarpariaeth ADY sydd ar gael yn y Gymraeg yn enwedig o ran gofalwyr sydd yn medru'r Gymraeg.	Nodwyd y sylw.
Yn ddiweddar, cafwyd adroddiad gan Brifysgol Bangor yn nodi nad yw defnyddio dwy iaith yn amharu ar ddatblygiad plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Fel y nodais uchod mae gallu defnyddio dwy iaith ar lafar yn gallu gwneud plant i deimlo'n rhan o gymdeithas yn hytrach na bod ar y cyrion.	Nodwyd y sylw ac am yr ymchwil gan Brifysgol Bangor.
Gofynnwch iddyn nhw a chynllunio ar sail hynny.	Nodwyd y sylw.
Yn sicr, mae angen datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer pob plentyn, waeth beth yw ei anghenion. Wedi'r cyfan, cyfrwng, hawl, ffordd o fyw yw'r Gymraeg, nid 'angen dysgu ychwanegol'. Felly, wrth gefnogi cyfeiriad y strategaeth ar y sail ei bod yn cynnig chwarae teg i bawb, mae'r elfen hon o'r gwaith eto'n greiddiol. Da iawn gweld bod pob aelod o'r tîm eisoes yn medru'r Gymraeg. Mae angen gweithio gyda rhieni hefyd i roi pob hyder iddynt wrth iddynt gefnogi eu plant yn y cyd-destun Cymraeg a dwyieithog.	Nodwyd y sylw ac am y farn am gydweithio gyda rhieni wrth ddatblygu eu hyder wrth gefnogi eu plant yn y cyd-destun ieithyddol a gynllunir.
Angen sicrhau fod Unedau arbennig gyda darpariaeth yn y Gymraeg.	Nodwyd y sylw.
Mae unedau/canolfannau'n cynnig darpariaeth addysg Gymraeg yn ôl y gallu a'r galw. Mae angen ystyried cefndir y teulu wrth baratoi darpariaeth ar gyfer rhai disgyblion gydag anghenion dwys.	Nodwyd y sylw. Mae 'r ddarpariaeth sydd yn cael ei gynllunio yn blentyn ganolig, ac yn ymateb yn sensitif i anghenion y plentyn.
Gwersi / Hyfforddiant mwy eang o ran arwyddo i bawb.	Nodwyd y sylw o ran arwyddo.
Yn sicr mae angen darparu rhagor o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn aml, mae rhieni plant ag ADY yn teimlo nad oes modd i addysg Gymraeg gwrdd ag anghenion eu plant. Mae angen gwneud addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb. Ar gyfer plant ag anghenion dwys iawn, mae'n bosib bydd angen	Nodwyd y sylw a'r pryderon yn yr ymateb.

Tudalen 324

<p>cefnogaeth yn iaith yr aelwyd, sy'n golygu darpariaeth mewn iaith heblaw'r Gymraeg na'r Saesneg.</p> <p>Cytunwn gyda'r camau i gefnogi disgyblion ag ADY. Yr unig wendid yw'r ddarpariaeth i ddisgyblion gyda nam ar y clyw ac mae hwn yn agwedd pwysig. Mae cefnogi iaith disgyblion sydd â nam ar y clyw yn bwysig, yn enwedig rhai sy'n dod o gartrefi cyfrwng Cymraeg. Mae'n allweddol fod gefnogaeth iaith a lleferydd ar gael i ddisgyblion yn y ddwy iaith ac nid oes amser aros hirach yn y Gymraeg.</p>	
<p>Mae hwn yn faes hynod bwysig er mwyn sicrhau cydraddoldeb i ddysgwyr. Mae'r adran hon (fel y ddogfen gyfan) yn gynhwysfawr iawn. Mae'n cynnig dadansoddiad cyflawn o'r sefyllfa a'r heriau ac yn cynnig gweithredoedd addas ar gyfer cyrraedd y nodau.</p>	<p>Nodwyd y sylw a'r gefnogaeth i'r hyn a gynlluniwyd dan y deiliant.</p>
<p>Rhaid bod yn sensitif wrth ymdrin â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae'n bwysig iawn bod disgyblion sydd ag ADY yn cael yr un cyfleoedd a phawb arall i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae medru'r Gymraeg yn dod â llawer o gyfleoedd megis swyddi, mynediad at ddigwyddiadau a hwyluso cymdeithasu â g eraill. Am hyn, byddai'n hynod annheg i amddifadu plant sydd ag ADY o gael yr un cyfleoedd i fagu eu sgiliau yn y Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw gan weld mai'r hyn sy'n cael ei nodi yw un o brif amcanion y gwasanaeth ADY yng Ngheredigion h.y. bod y gefnogaeth ar gael i siaradwyr y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd â'i gilydd.</p>
<p>Yn sicr mae angen darparu rhagor o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn aml, mae rhieni plant ag ADY yn teimlo nad oes modd i addysg Gymraeg gwrdd ag anghenion eu plant. Noda'r Cynllun fylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac mae angen mynd i'r afael â'r rhain drwy gynllunio'r gweithlu'n fwriadus. Yn ogystal, gwelir lle i wella'r cyfathrebu â rhieni, yn enwedig rhieni di-Gymraeg, ynglŷn â'r ddarpariaeth ADY i blant mewn addysg Gymraeg. Mae angen gwneud addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb. Ar gyfer plant ag anghenion dwys iawn, mae'n bosib bydd angen cefnogaeth yn iaith yr aelwyd, a allai olygu darpariaeth mewn iaith heblaw'r Gymraeg na'r Saesneg.</p>	<p>Nodwyd y sylw a'r pryderon o ran rhai agweddau o gwmpas y ddarpariaeth ADY.</p>
<p>Credwn ei bod yn hollbwysig bod y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn rhoi cyfle teg i'r disgyblion hynny, heb wahaniaeth. Rydyn ni'n nodi'r bylchau sy'n cael eu hamlinellu yn y ddarpariaeth gyfredol, ac yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd i'w llenwi.</p>	
<p>Hyfforddi'r gweithlu a denu ymgeiswyr dwyieithog.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Angen ystyried y darpariaeth o iaith sydd o fewn ysgolion penodedig ysgolion arbennig.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Fel arfer os mae plentyn yn dod o deulu Cymraeg maent yn gorfod cael addysg bwrpasol drwy'r Saesneg yn dibynnu os</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 325

<p>maent yn gorfod mynd i ysgol arbennig mae angen cymryd iaith cartref y plentyn mewn i ystyriaeth.</p>	
<p>Mae gwneud yn siwr bod y sector iechyd sy'n gweithio llawer gyda teuluoedd ifanc hefyd yn datblygu'r Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Does dim barn gen i am hyn, ond mae sicrhau bod modd darparu gwasanaethau yn mamiaith y disgyblion yn bwysig.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae'n dda gweld bod gan y sir staff â sgiliau Cymraeg yn y mwafrik o'r meysydd anghenion addysgol ychwanegol, a byddai'n dda i'r sir ystyried rhoi hyfforddiant iaith trwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i'r gweddill. Mae'n amlwg fod y Sir yn llwyr ymwybodol o'i chyfrifoldeb wrth i'r ddeddf newydd ddod i rym.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p>Cefnogwn fwriad yr awdurdod i barhau gyda'r sefyllfa bresennol o ran sicrhau darpariaeth Cymraeg o fewn ysgolion ac adnoddau a hyfforddiant priodol i gefnogi hyn. Cytunwn gyda'r amcan o gydweithio yn amlasiantaethol yn y Gymraeg ble fo'n bosib ac yn briodol ac mae UCAC hefyd yn cefnogi amcan yr awdurdod i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn arwain ar ddatblygu mwy o adnoddau arbenigol, gan gynnwys cynllun sillafu Cymraeg strwythuredig ac asesiadau safonol, gan gynnwys prawf/profion sillafu Cymraeg safonol er mwyn cefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion.</p>	<p>Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau o gefnogaeth i'r cynllun.</p>
<p style="text-align: center;">Sylwadau sy'n anghytuno'n gyffredinol gyda'r amcanion</p>	<p style="text-align: center;">Ymateb Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>Roedd un o'm meibion yn hwyr yn siarad ac roedd yn gweld Therapydd iaith a Lleferydd. Pe bai wedi mynd i leoliad cyfrwng Cymraeg, rwy'n credu y byddai wedi bod hyd yn oed yn hwyrach yn siarad, a hynny ar adeg pan oedd yn dechrau gwneud cynnydd. Mae mynd o'r cartref i amgylchedd addysgol yn newid mawr i blant ac, os oes ganddynt anawsterau eraill, nid yw'n deg peidio â siarad Saesneg â nhw os mai dyna'r cyfan y maent wedi bod yn gyfarwydd ag ef tan hynny, ac fe allai beri oedi o ran eu datblygiad. Yna, mae'r holl anghenion dysgu ychwanegol eraill y mae plant a theuluoedd eisoes yn cael anawsterau â nhw. O orfodi plentyn i gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg pan fydd rhiant yn tybio y byddai'n andwyol i'w blentyn, gallai beri mwy o straen.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5). Mae'r Cyngor yn cydnabod bod llawer o bryderon ynghylch sut y byddai disgyblion ag AAA/ADY sydd ag ychydig neu ddim Cymraeg yn ymdopi mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg/ addysg drochi pan fyddan nhw'n dechrau yn yr ysgol. Ledled Cymru mae plant ag AAA/ADY sy'n cael eu haddysgu'n llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, p'un a ydyn nhw'n dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, cartrefi Saesneg eu hiaith neu gartrefi lle siaredir ieithoedd eraill. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl ag AAA/ADY. Os mai bwriad ymyrraethau ADY yw cynorthwyo'r disgybl i wneud cynnydd mae'n briodol yn y rhan fwyaf o achosion mai yn iaith yr addysg fyddai'r ymyrraeth hynny. Byddai iaith y ddarpariaeth bob tro'n dilyn y cyngor arbenigol i'r plentyn hwnnw. Mae hyn yn cynnwys disgyblion y gellir eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ogystal â disgyblion y mae angen darpariaeth arbenigol arnyn nhw. Nid yw'n dilyn y byddai plentyn sydd yn derbyn cefnogaeth therapi iaith</p>

Tudalen 326

	<p>a lleferydd angen cefnogaeth mwy dwys oherwydd ei fod yn dysgu iaith arall. Mae ynganu, goslef a'r sain mae gwahanol lythrennau a geiriau mewn iaith arall yn gallu cyfrannu at ddealltwriaeth plentyn o iaith yn hytrach na'i lesteirio. Cyflwyniad graddol fyddai i'r egwyddor o drochi iaith i blant 3 oed yng Ngheredigion.</p>
<p>Wrth gwrs bod angen. Mae'r byd eisoes yn lle anodd iddynt lywio'u ffordd drwyddo. Dylid ei annog mewn ffyrdd nad ydynt yn rhoi straen arnynt, ac yn sicr ni ddylid ei orfodi i fodloni agenda.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Rwy'n teimlo y dylai rhieni allu dewis a yw eu plant ag ADY yn dysgu drwy'r Gymraeg yn unig neu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Heb os mae angen i'r rhieni allu dewis, yn enwedig os mai Saesneg yw iaith yr aelwyd; eto, byddai cael y DDWY iaith o gymorth yn hyn o beth.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Sut y gall 'datblygu iaith y dosbarth [fod] yn flaenoriaeth dros ddatblygu iaith y cartref' pan nad ydych yn rhoi dewis i rieni o ran pa iaith fydd iaith y dosbarth?!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Rwy'n falch o ddarllen ei bod yn ymddangos bod darpariaeth dda i blant ag ADY sy'n dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith. Byddwn yn adleisio'r pryderon uchod am leihau'r dewis i blant a rhieni drwy fynd ati, i bob pwrpas, i beri i'r holl ddarpariaeth gynradd hyd at bump oed fod yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg erbyn 2026. Plant ag ADY yw rhai o'r plant sydd fwyaf agored i niwed, a gall fod angen teilwra'u cyfleoedd dysgu'n aml i ateb eu gofynion penodol. Mae angen gwneud hyn mewn ffordd ofalus a sensitif ar y cyd â theuluoedd, felly efallai nad un ddarpariaeth unieithog gyffredinol fydd y ffordd orau o sicrhau'r buddion gorau i'r plant a'u teuluoedd. Byddai'n well gennyf weld dull wedi'i deilwra'n cael ei fabwysiadu i ateb gofynion iaith a chyfathrebu penodol pob plentyn ag ADY.</p>	<p>Os aiff y cynnig yn ei flaen i ddarparu addysg drochi 3-7 oed yn yr ysgolion dan sylw, y bwriad yw bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag AAA/ADY yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt yn ymwneud â chreu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau. Yr egwyddorion sy'n sail i'r system ADY yw:</p> <p>(a) Gweithredu ar sail hawliau lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle mae'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am</p>

Tudalen 327

	<p>ADY , DDdY a materion cysylltiedig. (e) System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY yn y Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser.</p>
<p>Drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, rydych yn ychwanegu at y rhwystrau y mae'n rhaid i'r plant hyn eu goresgyn eisoes. Er budd pwy mae hyn? Yn amlwg, nid er budd y plant. OES! Mae plant ag ADY yn ysgwyddo digon o faich heb orfodi iaith arall arnynt na ellir ei chefnogi yn y cartref. Os dylai unrhyw un allu cael dewis gwirioneddol o iaith, siawns nad plant ag ADY yw'r rheini?</p>	<p>Mae'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt yn ymwneud â chreu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau.</p>
<p>I blant nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg, nid yw addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y Cyfnod Sylfaen ac ADY yn mynd law yn llaw. Rwy'n nodi nad yw'r cynllun gweithredu yn gyffredinol yn ystyried prosesau ADY a'r modd y maent yn cael eu rhoi ar waith ar lawr gwlad. Nid yw gwahanol feysydd ADY ond wedi cael sylw yn y cynnig drwy ystyried "a oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg i lenwi pob swydd". Rwy'n credu bod y realiti'n llawer mwy cymhleth o ran ADY ac, os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, bydd yn dasg fawr hyfforddi ymarferwyr ADY sy'n siarad Cymraeg o ran sut i fynd i'r afael ag ADY yn Gymraeg gyda disgyblion sy'n siarad Saesneg yn bennaf. Hoffwn dynnu sylw at y ffaith mai'r hyn y mae ysgol yn gyfrifol am ei wneud yn y pen draw yw darparu addysg sy'n rhoi'r cyfle gorau i'r unigolyn wireddu ei botensial yn llwyr a, hyd y gwela i, mae dwy iaith gyntaf yng Nghymru: Cymraeg a Saesneg. Rwy'n credu'n gryf bod angen adlewyrchu hyn yn narpariaeth addysg pob awdurdod lleol yng Nghymru.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Mae Aberystwyth yn dref gosmopolitaidd ac amlddiwylliannol iawn. Mae twristiaeth, y Brifysgol a'r ysbyty wrth galon y dref. Bydd y cynigion yn niweidio addysg cyfrwng Saesneg ac felly byddant yn methu â gwireddu dwyieithrwydd. Bydd dewis rhieni'n cael ei ddiddymu ac mae cyflymder y newid hwnnw'n codi braw ac yn niweidiol i'r dref, yn enwedig i'w gallu i ddenu staff cymwysedig iawn. Mae diddymu dewis yn mynd yn groes i nodau ac amcanion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.</p>	<p>Mae'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt yn ymwneud â chreu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau. Yr egwyddorion sy'n sail i'r system ADY yw:</p> <p>(a) Gweithredu ar sail hawliau lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle mae'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig. Yn unol â hyn mi fydd safbwyntiau a dymuniadau'r plentyn a rhieni yn ganolog wrth gynllunio darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ADY.</p>
<p>Oes, yr elfen o ddewis a'r hyn sydd orau gan rieni. Mae darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ddigonol ar gael eisoes i ddisgyblion ag ADY.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>

Tudalen 328

Dylid ystyried anghenion pob disgybl ac yna rhoi cynllun yn ei le... h.y. ai Cymraeg yw ei iaith gyntaf?	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).
Mae'r rhan fwyaf o blant yn wynebu anawsterau o ran sgiliau iaith ac nid yw ychwanegu'r angen i siarad Cymraeg ond yn dwysáu hynny!!	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).
Rwy'n credu y dylai pawb allu cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn eu dewis iaith, fel y mae'r gyfraith yn ei ddweud.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).
Eto, mae hyn mor bwysig i blant ag ADY oherwydd os mai Saesneg yw iaith y cartref, bydd yn eu drysu a gall hyn godi braw arnynt. Bydd lleoliadau dwyieithog yn eu helpu i addasu'n raddol i'r ddwy iaith a ddefnyddir.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).
Nid oes gennych ddigon o athrawon i wneud hyn o gwbl!!! Rydych chi fwy neu lai'n dweud hynny yn y ddogfen. Mae'r un peth yn wir am warchodwyr plant ac ati. Bydd hyn yn her i'r ardal ac mae gwir angen ystyried hyn!	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5). Nid ydym yn sicr iawn ym mha gyddestun y mae'r sylw yma wedi ei gynnig. Mae'r gefnogaeth ar gael drwy'r gwasanaeth ADY yn sirol yn gryfder ond yn amlwg mae'r Deilliant yn nodi ble mae yna fylchau o ran gweld 'Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)' a'r hyn y dymunir ei wneud er mwyn unioni hynny.
Y peth arall yw pobl sy'n symud o wahanol wledydd i Gymru a chanddynt rwystr ieithyddol.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).
Yn bendant.	Nodwyd y sylw.
Y ffaith bod lleoliad dwyieithog yn gallu gwaethygu sefyllfa plentyn sy'n hwyr yn siarad?! Mae'r ymchwil sy'n dangos bod plant dwyieithog yn cymryd yn hirach i siarad, ond fel arfer yn dal i fyny o ran datblygiad iaith, yn trin a thrafod plant heb ADY yn bennaf. Mae'r cynnig hwn yn gadael plant ag ADY i gael eu dysgu mewn iaith newydd, fwy na thebyg heb yr addysgwyr medrus sydd eu hangen i hwyluso'r dysgu.	Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).
Yr hyn sydd ei angen yw asesu'n gyflym a darparu'r cymorth sydd ei angen ar yr unigolyn.	Cytunwn gyda'r gosodiad yma ond ni ddylai cyfrwng y dysgu fod yn rwystr o gwbl i hynny os mai dyna sy'n cael ei awgrymu.
Bydd angen gwella'r ddarpariaeth yn gyffredinol – nid dim ond yn Gymraeg. Nid yw'r cyngor yn dda iawn am ddarparu ar gyfer y rheini ag anghenion arbennig.	Fel pob ardal arall o waith y Cyngor, rydym yn barhaus yn ffocysu ar wella ymhellach pob rhan o'n ddarpariaeth.
Bydd angen ichi hyfforddi mwy o athrawon yn y maes hwn.	Nodwyd y sylw.
Wrth gwrs!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!!	Nodwyd y sylw.
Ni ellir disgwyl i'r rheini ag anawsterau dysgu ddysgu mewn iaith heblaw eu mamiaith.	Mae'r egwyddorion y mae'r system ADY yn seiliedig arnynt yn ymwneud â chreu system

Tudalen 329

	<p>addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl ag AAA/ADY, beth bynnag fo'i iaith gyntaf. Mae hyn yn cynnwys disgyblion y gellir eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd yn ogystal â disgyblion y mae angen darpariaeth arbenigol arnyn nhw.</p>
<p>Gall fod anawsterau o ran adnabod anghenion dysgu ychwanegol ymhlith disgyblion sydd eisoes yn ei chael yn anodd oherwydd eu bod yn gweithredu mewn iaith wahanol i iaith yr aelwyd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Mae gennym bryderon y byddai rhai disgyblion ag ADY sy'n siarad Saesneg gartref yn gwneud cynnydd cyfyngedig iawn yn addysgiadol ac yn gymdeithasol pe baent yn dysgu ac yn cael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yn hanfodol cael adnoddau pwrpasol ar gyfer disgyblion ag ADY, er enghraifft, llyfrau a deunyddiau darllen eraill, ar y lefel briodol, i gynorthwyo disgyblion ag ADY i wneud cynnydd ar y lefel briodol. Byddai'n hanfodol darparu cyrsiau Cymraeg i gynorthwyo'r cynorthwywyr addysgu oherwydd maent yn gweithio ar sail 1:1 neu'n darparu rhaglenni ymyrraeth i'r disgyblion ag ADY. I rai plant ag ADY cymhleth, gall fod angen cytuno mai iaith yr aelwyd yw iaith y dysgu, ond byddai hyn yn cael ei farnu fesul unigolyn.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Mae staff ein cylch chwarae wedi cael hyfforddiant i fynd i'r afael ag anghenion plant ag ADY. Mae gennym staff sy'n gweithio ar sail un-i-un gyda phlant sydd wedi cael diagnosis o anabledd, fel syndrom Down ac awtistiaeth. Mae'r hyfforddiant a'r profiad hwnnw'n llawer pwysicach i fynd i'r afael ag anghenion y plant hynny na'u gallu i siarad Cymraeg, yn enwedig mewn achosion lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5). Mae'r hyn sydd wedi ei gofnodi eisoes o ran y disgwyliadau iaith sylfaenol iawn yn y lleoliadau fyddai'n gofalu am blant 2-3 oed yn berthnasol yma. Mae'r Cyngor yn derbyn bod yr hyfforddiant mae'r staff yn ei dderbyn o ran eu gofal am blant ag ADY dwys yn hynod bwysig. Byddai'r hyfforddiant yma yn parhau er bod plant 3 oed yn mynychu'r ddarpariaeth drochi yn yr ysgolion.</p>
<p>Mae plant ag ADY fel dyslecsia yn wynebu anawsterau o ran dehongli iaith lafar, gan gynnwys dysgu system sain iaith dramor. Nid yw cael gwared ar y dewis i gael addysg gynradd cyfrwng Saesneg yn cyd-fynd â'r angen i gymryd "pob cam rhesymol" i ddarparu ar gyfer plentyn ag ADY. Byddai'n llesteirio diagnosis/ymyrraeth a chymorth gan rieni.</p>	<p>Yn unol ac egwyddorion y Cod Ymarfer ADY Cymru 2021 mi fydd Ceredigion yn creu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau.</p>
<p>Bydd yn amhosibl i deuluoedd o'r tu allan i'r sir symud i Geredigion pan fydd eu plant wedi dechrau mynd i ysgol cyfrwng Saesneg mewn man arall. Ni fyddai'r rhan fwyaf o'r plant ag ADY yn ymdopi â'r flwyddyn drochi a byddent yn cael cymaint o anhawster i newid cyd-destun ieithyddol yr ysgol fel na fyddai'r rhan fwyaf o rieni'n dymuno i'w plant wynebu'r sefyllfa honno. Mae'r un peth yn wir i'r gwrthwyneb. Os yw teulu â phlentyn ag ADY yn ystyried symud o Geredigion (dros dro neu'n barhaol), bydd yn meddwl ddwywaith os yw'r</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>

Tudalen 330

<p>plentyn wedi dechrau mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg. Byddai pontio i iaith arall yn ormod. Eto, mae hyn yn effeithio ar gadw a recriwtio staff Bronglais a Phrifysgol Aberystwyth, ond hefyd ar grwpiau fel ffoaduriaid a mudwyr eraill.</p>	
<p>Mae gennyf bryderon difrifol am y cynigion yn fwy cyffredinol.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae'r ddogfen hon yn diystyru'n llwyr anghenion disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nid yw Deilliant 6 ond yn rhestru rhai o'r darpariaethau cyffredol. Nid yw hyd yn oed yn esgus ceisio deall na dirnad yr effaith y byddai'r camau arfaethedig yn ei chael ar blant ag ADY. Ni wneir unrhyw ymdrech i amgyffred y beichiau, yr heriau a'r anawsterau y bydd plant ag ADY a'u teuluoedd yn eu hwynebu o ganlyniad i'r camau hyn. Bydd y camau arfaethedig yn peri i leoliadau addysgol fod yn anodd iddyn nhw a'u rhieni ddygymod â nhw. Byddant yn rhoi beichiau ychwanegol ar y disgyblion a'r teuluoedd hyn. Rwy'n dad i blentyn ag ADY sylweddol ac ni allaf ddychmygu y byddai'n rhaid i'r plentyn ni fynd drwy'r hyn sydd eisoes yn broses anhygoel o anodd mewn iaith nad ydym yn ei deall ac nad ydynt yn gyfarwydd â hi. Bydd y camau arfaethedig yn peri iddi fod yn anoddach integreiddio plant ag ADY i leoliadau addysgol, a bydd hyn yn creu grym pwerus sy'n arwain at anghydraddoldeb, gwthio'r plant i'r cyrion a'u cau allan.</p>	<p>Yn unol a egwyddorion y Cod Ymarfer ADY Cymru 2021 mi fydd Cyngor yn Ceredigion yn creu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau. Mi fydd safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a bydd y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig.</p>
<p>Mae angen ailystyried y syniad yn ei gyfanrwydd. Nid yw'n realistig disgwyl i blant sydd eisoes yn ei chael yn anodd dysgu gael eu haddysg drwy gyfrwng iaith anghyfarwydd. Rhaid mai'r flaenoriaeth yw sicrhau bod plant yn cyrraedd lefel benodol yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus ynddi ac y gallant gael y cymorth gorau â hi ar yr aelwyd. Mae'r cynllun hefyd yn datgan y bydd yn bwysicach dewis siaradwr Cymraeg wrth benderfynu pa mor addas yw staff cymorth ar gyfer plentyn ag ADY difrifol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Oes. Nid yw'r cynllun yn rhoi llawer o sylw i ADY yn gyffredinol. Bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar blant ag ADY, ac mae'r cynnig bron â bod yn sicr o gynyddu nifer y plant ag ADY, oherwydd bydd plant yn wynebu rhwystrau ychwanegol pan fyddant yn gorfod dysgu drwy gyfrwng iaith newydd iddyn nhw yn dair oed. Mae datgan y byddant yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu â'r Gymraeg yn wan iawn, ac ni fydd y cynnig hwn ond yn creu rhwystrau ychwanegol rhag iddynt ddatblygu a chyflawni.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4 a 5).</p>
<p>Fel rhiant plentyn ag anabledd dysgu, rwy'n teimlo'n gryf y dylai'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth addysgu ar gyfer y plant hyn fod yn iaith y cartref. Mae gan rieni a phlant ag anableddau dysgu ddigon o broblemau heb iddynt ofidio y bydd cynnydd cyfyngedig eu plant (bron yn sicr) yn cael ei gymhlethu a'i beryglu ymhellach drwy iddynt gael eu dysgu mewn iaith nad ydynt yn ei deall, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg. Pa mor annheg yw hi i osod mwy o rwystrau yn</p>	<p>Mae iaith Arwyddo Prydeinig yn cael sylw teilwng o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu o fewn Cwricwlwm i Gymru. Yn unol ag egwyddorion y Cod Ymarfer ADY Cymru 2021 mi fydd Cyngor yn Ceredigion yn creu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei</p>

Tudalen 331

<p>ffordd y mwyaf bregus yn ein cymdeithas, cymdeithas yr ydych yn dweud ei bod yn anelu at fod yn gynhwysol? Rwy'n mawr obeithio na fydd y ddarpariaeth ar gyfer y rheini â nam ar eu clyw yn cael ei pheryglu ac y bydd yr athrawon cymwysedig yn cael parhau â'u gwaith hollbwysig, hyd yn oed os nad yw eu Cymraeg yn ddigon da. Dylech fod yn anelu at ddarparu addysg yn iaith y cartref ar gyfer pobl ifanc â nam ar eu clyw sy'n siarad Cymraeg ac yn siarad Saesneg. Rwyf hefyd yn gobeithio eich bod wedi ymgynghori â'r rhieni ynghylch y ffordd ymlaen sydd orau ganddyn nhw, yn hytrach na mynnu eu bod yn dilyn eich safbwyntiau a'ch cynlluniau chi.</p>	<p>addysg a'i mwynhau. Mi fydd safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a bydd y plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY a materion cysylltiedig.</p>
<p>Ddim yn siŵr.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Nid oes gennyf farn am hyn.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Dydw i ddim yn gwybod digon am ADY i wneud sylw.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 332

Deiliant 7 – Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Cwestiwn 1 – Pa ystyriaethau eraill y credwch sydd eu hangen wrth i ni geisio cynyddu a chefnogi staff ysgolion i allu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg?

Sylwadau o gefnogaeth cyffredinol i'r amcanion ond sydd hefyd yn cynnig ystyriaethau pellach	Ymateb Cyngor Sir Ceredigion
Mae angen i'r cynorthwywyr addysgu allu siarad Cymraeg, yn ogystal â staff meithrinfeydd a gwarchodwyr plant.	Wrth ddatblygu'r dull trochi mewn dosbarthiadau 3 oed yn yr ysgolion dan sylw byddai angen penodi rhai aelodau staff gan gynnwys athrawon a chymorthyddion. Mae cyfran uchel o'r athrawon sydd eisoes yn addysgu yn y cyfnod sylfaen (hyd 7 oed) yn yr ysgolion hynny yn gallu gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad ydynt yn teimlo'n hyderus i wneud hynny yna bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth arbenigol iddynt.
Darparwch gyrsiau dwys pwnc-benodol gwell. Datblygwch weithgorau pwnc-benodol. Darparwch CPA ychwanegol ar gyfer hyfforddiant.	Nodwyd y sylw.
Mae angen ariannu hyfforddiant i athrawon yn iawn, a dylid cynnig cyrsiau Cymraeg i staff cyfredol sy'n siarad Saesneg er mwyn iddynt gymhwyso ar gyfer hyfforddiant Cymraeg i athrawon.	Nodwyd y sylw. Mae 'Cynllun Sabothol yr Iaith Gymraeg' Llywodraeth Cymru yn cynnig hyn. Mae'n cynnig cyrsiau iaith ar gyfer athrawon, darlithwyr, hyfforddwyr a chymorthyddion dosbarth sydd eisieu datblygu eu Cymraeg a magu hyder yn yr iaith.
Rydym yn wynebu heriau tebyg o ran recriwtio gweithwyr ieuenctid cymwysedig â sgiliau Cymraeg. Yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yw buddsoddi mewn cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr a'r rheini sy'n rhugl. Rydym hefyd wedi manteisio ar grantiau allanol, fel y cynllun peilot gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg, sy'n codi proffil y sir ac yn rhoi hyder a chymorth i'r gweithlu er mwyn iddo ganolbwyntio ar gyfleoedd o ansawdd uchel i bobl ifanc ac i randdeiliaid.	Nodwyd y sylw a'r syniadau pellach.
Sicrhau bod digon o gyfleoedd DPP ar gael i athrawon.	Nodwyd y sylw.
Cyflog ychwanegol i staff dwyieithog?	Nodwyd y sylw.
Mae'r Cynllun yn cyfeirio at ystod eang o gynlluniau i geisio cynyddu a chefnogi staff addysgu. Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun clir i fynd i'r afael â hyn dros y blynyddoedd nesaf ac fe ddylai Cynllun yr awdurdod lleol a chynllun Llywodraeth Cymru alinio'n effeithiol. Cyfle i ddysgu mewn sefyllfa sydd ddim yn statudol.	Nodwyd y sylw.
Fedraf i ddim cynnig ychwanegiad.	Nodwyd y sylw.

Tudalen 333

<p>Mae rhoi'r cyfleoedd i'r ymarferwyr gyfrannu'n gymdeithasol o fewn eu broydd a chodi statws y Gymraeg ar lefel heb fod yn academiaidd pob tro o fudd. Yn sicr mae cysgodi a mentora disgyblion 10-13 yn bwysig er mwyn eu denu i weld bod addysgu yn yrfa ddeiniadol iddynt.</p>	<p>Nodwyd y sylw a'r syniadau pellach.</p>
<p>Rydym yn credu y gallai ysgolion Ceredigion elwa'n fawr o newidiadau i'r hyfforddiant i athrawon. Yn benodol, rydym yn credu y byddai'n ddelfrydol pe bai Prifysgol Aberystwyth yn gallu darparu hyfforddiant proffesiynol i athrawon sydd eisoes mewn swydd, ac mae'n bosibl y byddai cael rhaglen gradd gyfun (e.e. Addysg a'r Gymraeg) yn fodd o annog pobl i ymuno â'r proffesiwn dysgu cynradd, gan feddu ar ddigon o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. O ran hyfforddiant mewn swydd: rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod athrawon yn cael bod yn absennol am gyfnodau priodol i astudio ac i ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol. Pan fydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno drwy'r Cyfnod Sylfaen, bydd yn hanfodol neilltuo amser ar gyfer cyfnodau sabothol yn y Gymraeg. Mae angen i'r cyfnodau sabothol hyn fod yn ddigon hir i ganiatáu i'r staff fagu hyder a rhuglder, oherwydd byddant yn modelu'r iaith i'r disgyblion. Rydym yn credu y byddai'n briodol cael cyfnodau sabothol sy'n para blwyddyn. At hynny, rydym yn awgrymu y byddai dysgu ar ffurf tîm o gymorth mawr i rai athrawon er mwyn iddynt ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg, yn yr un modd â chyfnewid athrawon rhwng y naill ysgol a'r llall. Yn achos yr ail gynnig, byddai athro/athrawes nad yw'n gyfan gwbl hyddysg yn y Gymraeg yn ennill cryn ruglder pe bai'n treulio blwyddyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. O gael siaradwr Cymraeg rhugl (yn gyfnewid), byddai'n hwb mawr i ddatblygiad y Gymraeg yn yr ysgol nad yw wedi'i sefydlu'n llwyr fel ysgol cyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw a manylder y syniadau pellach.</p>
<p>Mae angen datblygu hyder staff.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Mae codi hyder ar draws y sector yn bwysig gan gynnwys y staff a disgyblion.</p>
<p>Hanfodol bod na ddigon o staff. Y ffordd i gynyddu'r niferoedd o staff fydd efallai gwneud plant/myfyrwyr yn ymwybodol o'r swyddi hyn, fel ei bod yn eu tywys i wneud y swydd.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae hwn yn faes allweddol bwysig – rhaid wrth staff sy'n gymwys i addysgu yn, a thrwy'r Gymraeg, a hefyd rhaid iddynt feddu ar agwedd gadarnhaol, iach. Mae angen dulliau marchnata llwyddiannus, cefnogaeth ac anogaeth ar hyd y daith, a system wobrwyo ar ben y daith, boed yn dystysgrif neu sylw yn y wasg/cyfrngau. Mae cynllun gweithredu Ceredigion yn y maes hwn eto yn glodwiw; mae'n cwmpasu pob ystyriaeth a phroblem y gellid eu hwynebu ac mae'r pwyntiau gweithredu yn glir ac yn fanwl.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau a'r syniadau pellach.</p>
<p>Mae cyllid ac amser yn ystyriaethau hanfodol wrth drafod yr holl strategaeth ond yn bwysicach fyth pan yn ceisio cefnogi ac annog addysgwyr di-hyder i loywi ac ymarfer y Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw o safbwynt cyllid a chodi hyder.</p>

Tudalen 334

<p>Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn croesawu y gefnogaeth i staff ysgolion sy'n dymuno datblygu'n benaethiaid o fewn yr awdurdod ac yn arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg drwy e.e. gymhwyster CPCP, a'r gwaith gan adran Adnoddau Dynol yr awdurdod i ddiwygio'i threfniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg dros y cyfnod nesaf. Mae gan Gwasanaeth Addysg y Llyfrgell brofiad o gyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth iaith i athrawon sy'n dymuno gwella eu Cymraeg. Mae'r hyfforddiant rhad ac am ddim hwn yn defnyddio casgliadau y Llyfrgell i roi cyflwyniad i hanes yr iaith, cerrig milltir pwysig, ystadegau iaith, brwydrau dros hawliau, rôl addysg Gymraeg a darlledu, statws yr iaith, a chyd-destun cymdeithasol yr iaith heddiw. Byddwn yn barod iawn i gydweithio gyda'r Cyngor Sir i ddarparu hyfforddiant hwn fel rhan o unrhyw raglen y byddwch yn ei chyflwyno.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau a'r syniadau pellach.</p>
<p>Ymhob darpariaeth, mae angen bwrw ati'n ffurfiol i gydnabod ac arddel goddefgarwch a rhoi cefnogaeth i bawb, ble bynnag maen nhw arni ar y continwwm sgiliau.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau ac mae'r Cyngor yn cytuno bod angen gweithredu mewn dull cefnogol a goddefgar.</p>
<p>Mae'r ystod o weithredoedd yn ymddangos yn briodol ac maent yn cyd-fynd â chynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r gweithlu addysg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Rydym yn cefnogi'r amcan i gynyddu nifer y staff addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym eisoes yn cydweithio â Chyngor Sir Ceredigion i ddarparu cyrsiau byrion i athrawon. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â Chanolfan Peniarth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gynllunio'r cwrs sabothol i athrawon, a byddem yn awyddus i barhau i gydweithio'n agos â'r Cyngor Sir a darparwyr eraill i gynllunio a darparu hyfforddiant addas i'r gweithlu, gan gynnwys athrawon, cynorthwyywyr dysgu a gweithwyr blynyddoedd cynnar. Gall y gweithlu addysg hefyd fanteisio ar gyrsiau ar lein wedi'u teilwra ar lefel Mynediad a Hyfedredd. Cydweithio ar addysgeg dysgu Cymraeg fel ail iaith. Roedd Arolwg Estyn o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Ionawr 2021) yn cynnwys yr argymhelliad hwn: Rhannu methodoleg addysgu a chaffael ail iaith llwyddiannus gyda sectorau perthnasol eraill i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg gweithredol erbyn 2050. Adleisiwyd hynny yn yr Arolwg i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Awst 2021), a oedd yn argymhell: Dylai'r Ganolfan a Llywodraeth Cymru archwilio sut y gall ei chylch gwaith yn ystod "Cam 2" gael ei ehangu i feysydd fel hyfforddi'r gweithlu addysg, gan rannu adnoddau ac arferion da â'r sector ail iaith mewn ysgolion a meithrin sgiliau iaith ar gyfer pynciau addysg bellach. Fel darparwr rhanbarthol, byddai Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys Sir Gar (Prifysgol Aberystwyth) yn barod iawn i gydweithio â Chyngor Sir Ceredigion i wireddu'r argymhellion hyn.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau a'r syniadau pellach. Mae gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau arbenigol ond holl bwysig wrth symud ymlaen.</p>
<p>Mae datblygu'r gweithlu'n gyfle perthnasol i drin a thrafod posibiliadau pellach â Phrifysgol Aberystwyth, a hynny o ran cynlluniau amser llawn a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.</p>	<p>Nodwyd y sylw eto o ran gweithio mewn partneriaeth.</p>

Tudalen 335

Agwedd bositif staff tuag at yr iaith yn allweddol i ddatblygiad a chynnydd yn yr iaith.	Nodwyd y sylw.
Cyrsiau hyfforddi.	Nodwyd y sylw.
Dim sylw pellach at yr hyn nodwyd.	Nodwyd y sylw.
Rwyf eisoes wedi nodi mai ar lawr y dosbarth y credaf fydd y dylanwad mwyaf wrth gefnogi a datblygu athrawon Cymraeg. Bydd angen iddynt hwy a staff cinio /atodol ennill cymhwyster er mwyn cyrraedd safon ddigonol - nid yw cwrs ar lein yn mynd i sicrhau fod defnydd boddhaol ar lawr y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.	Nodwyd y sylw.
Dim ond i hybu ysgolion i gyflogi siaradwyr Cymraeg.	Nodwyd y sylw.
Ochr yn ochr â'r hyn a gynigir mae angen ystyried ymgyrch farchnata i hyrwyddo bywyd yn yr ardal hon er mwyn denu staff lle bo angen - tebyg i un mae'r gwasanaeth lechyd wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf - pwyslais ar yr hyn sydd yn digwydd y tuallan i'r gwaith yr un mor bwysig erbyn hyn.	Nodwyd y sylw.
Magu hyder y rhai sy'n gallu'r Gymraeg yn barod ond yn ofn defnyddio'r iaith. Mae nifer wedi bod ar gyrsiau dysgu Cymraeg ond dal yn ddi-hyder i siarad.	Nodwyd y sylw.
Gan fod prinder mawr o athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mae angen meddwl am bob strategaeth posib. Ar un cyfnod roedd rhai athrawon yn cael eu rhyddhau o'u swyddi am dymor er mwyn gloywi eu hiaith. Yn bendant fe weithiodd hyn a gwelais athrawon yn magu'r hyder angenrheidiol er mwyn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wedi dychwelyd i'r dosbarth. Ni ellir disgwyl i athrawon barhau i addysgu a dilyn cyrsiau gloywi gan fod y baich sydd arnynt yn fawr.	Nodwyd y sylw a'r angen am roi cyfleoedd digonol i fagu hyder yn y Gymraeg.
Bydd seicoleg ac adeiladu hyder yn bwysig i athrawon ac i'r plant.	Nodwyd y sylw.
Fel y mae rhai o'r atebion i'r cwestiynau blaenorol eisoes wedi eu nodi - dyma agwedd bwysig. Mae angen buddsoddi yn y tair A - Athrawon, Adnoddau ac Amser - er mwyn sicrhau bod y Sir yn rhoi yr un chwarae teg i bob disgybl ddod yn siaradwyr dwyieithog. Byddai gweld cynlluniau i fonitro'r datblygiadau yn yr adran hon yn cryfhau'r cyfle i sicrhau bod y gweithgareddau'n dwyn ffrwyth.	Nodwyd y sylw.
Mae'n bwysig rhoi sylw i'r anghenion hyfforddiant, sicrhau llwybrau hyfforddiant priodol ar gyfer rhai yn gweithio i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sir (gan gynnwys rhoi pwysau ar y lefel genedlaethol er mwyn cefnogi hynny) ac anghenion ymrwymo'n gyllidol i wireddu'r amcanion hyn. Mae angen rhoi sylw i holl garfanau'r gweithlu addysg a'r modd y gallant gael effaith gadarnhaol ar	Nodwyd y sylw a'r syniadau pellach a gyflwynwyd.

Tudalen 336

<p>agweddau a defnydd iaith o fewn ysgol. Mae'r elfennau hyn yn berthnasol i'r camau arfaethedig deiliant 2 a 3 yn arbennig. Beth fydd ethos yr ysgolion hyn mewn perthynas â'r Gymraeg a sut fydd hynny'n effeithio ar agweddau'r disgyblion tuag at ddysgu'r Gymraeg?</p>	
<p>Mae angen sicrhau mwy o athrawon gwyddoniaeth sy'n medru addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. At hynny, hoffwn weld lefel A Gwyddoniaeth yn cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Mae prinder athrawon mewn rhai pynciau/meysydd yn her ar draws Cymru ac mae yna gydnabyddiaeth, wrth gwrs, bod prinder pellach o ran athrawon sy'n gallu addysgu'r pynciau yna drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae symud tuag at fwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu'r gwyddorau drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r amcanion yn y CSGA.</p>
<p>Cynnig sesiynau gloywi iaith.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Angen darparu sesiynau "gloywi iaith" ar gyfer staff ysgolion - rheiny sydd falle heb ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Cyrsiau ar lefel personol i ddatblygu hyfedredd unigolion cyn mynd ati i fedru addysgu trwy gyfrwng.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Sicrhau digon o hyfforddiant i'r rhai sy'n ddi hyder yn eu hiaith.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae hyn yn allweddol ar gyfer datblygiad y Gymraeg, er mwyn gosod seiliau cadarn yn y dosbarth. Bydd yn allweddol hefyd cynnig hyfforddiant pwrpasol ar gyfer staff mewn ysgolion sydd ar hyn o bryd ddim yn dysgu drwy gyfrwng Cymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae dilyniant yn broblem fawr wrth gynyddu nifer yr athrawon sy'n medru addysgu yn Gymraeg, yn enwedig ar lefel uwchradd. Yn y sector uwchradd, mae cylch dieflig wedi ffurfio, sy'n gweld myfyrwyr TAR Cymraeg eu hiaith yn aml yn dewis mynd drwy eu haddysg uwch drwy'r Saesneg a'u hyfforddiant TAR yn Saesneg, gan nad oeddent wedi astudio eu dewis pwnc ar safon uwch drwy'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn hyderus yn dysgu eu pwnc drwy'r Gymraeg ar ôl ennill swydd mewn ysgol uwchradd, gan arwain at genhedlaeth newydd o fyfyrwyr yn dewis astudio yn Saesneg. Mae angen felly ymdrech i normaleiddio'r Gymraeg fel iaith astudio bob pwnc yn yr ysgol. Ar lefel addysg uwch, gwelir bod myfyrwyr sydd mewn meysydd lle mai'r Gymraeg yw cyfrwng y pwnc hyd safon uwch neu gyfateb (e.e. Daearyddiaeth, Amaethyddiaeth), mae myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio'r meysydd hyn drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol ac yn hyfforddi i fod yn athrawon drwy'r Gymraeg. Mewn meysydd lle mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn brin ar safon uwch (e.e. Biolog, Cyfrifiadureg), mae'r myfyrwyr yn tueddu i ddewis astudio yn Saesneg yn y brifysgol ac yn dilyn eu haddysg TAR yn Saesneg. Mae angen targedau i sicrhau bod rhagor o bynciau yn cael eu dysgu drwy'r Gymraeg ar lefel TGAU a safon uwch a chefnogaeth i athrawon sydd, o bosib, heb astudio eu pynciau drwy'r Gymraeg ar y lefelau hyn. Mae hefyd angen annog rhagor o ddarpar athrawon i ddewis</p>	<p>Nodwyd y sylwadau a'r manylion o bryder pellach yn enwedig o gwmpas y rhesymau am diffyg hyder myfyrwyr i ddilyn cyrsau TAR cyfrwng Cymraeg ac effaith hynny wedyn a'r angen i ddenu myfyrwyr i ymuno â'r proffesiwn dysgu drwy ymgyrch farchnata gadarnhaol.</p>

Tudalen 337

<p>cyrsgiau TAR yn Gymraeg, efallai drwy roi pwyslais ar hyn yn y broses recriwtio. Bydd hyn yn cynyddu eu hyder wrth ddysgu drwy'r Gymraeg. Nodir bod tua 70% o'r myfyrwyr addysg uwch sy'n astudio drwy'r Gymraeg mewn addysg uwch yn ferched. Mewn pynciau sy'n denu llawer o ddynion, mae hyn yn golygu bod prinder unigolion sydd wedi astudio drwy'r Gymraeg i fynd ymlaen i hyfforddi fel athrawon. Mae angen felly targedu dynion er mwyn cynyddu niferoedd sy'n astudio drwy'r Gymraeg yn yr ysgol a'r brifysgol er mwyn cynyddu'r pwll potensial o athrawon cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae angen i'r Cyngor anfon neges glir i Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen ystyriaeth bellach a strategaethau i ddenu myfyrwyr ac arian pellach i gynorthwyo i gynyddu nifer y myfyrwyr TAR e.e. drwy gynnig mwy o arian i ddarparu athrawon, ail-ystyried gofynion TGAU nad ydynt yn weithredol yn Lloegr (B yn y Gymraeg a Mathemateg - mae'r gofyn am raddau is yn Lloegr yn gwneud darpariaeth hyfforddiant i athrawon yn Lloegr yn fwy deniadol i fyfyrwyr o Gymru, ac mae hyn, wrth gwrs, yn Saesneg). Mae denu a hyfforddi mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg yn ganolog i gyrraedd nod LLC o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 ac mae angen pwysleisio hyn wrth geisio sicrhau mwy o gyllid a chefnogaeth gan LLC. Hefyd, mae lle i sicrhau marchnata positif gan ffocysu ar fanteision a boddhad swydd. Mae negeseuon negyddol am bwysau ar athrawon yn gallu bod yn niweidiol ac yn ei gwneud yn anoddach denu athrawon newydd.</p>	
<p>Mae angen parhau i gefnogi staff ysgolion i ddefnyddio'r Gymraeg ar bob achlysur, a rhoi cymorth i'r unigolion sydd yn ddi-hyder yn yr iaith.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Hyfforddiant a gwersi Cymraeg a Gloywi o safon.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Angen neud y llwybr trywydd yn haws.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Gwneud yn siwr bod pobl ifanc yn gweld dysgu'r Gymraeg fel rhywbeth positif. Gwneud swyddi athrawon yn fwy apelgar drwy neud yn siwr bod digon o help ac adnoddau ar gael i gefnogi athrawon sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw. Mae sicrhau bod adnoddau ar gael i athrawon sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hynod bwysig.</p>
<p>Deallaf fod argyfwng recriwtio athrawon, ond rhaid cydnabod fod hyn hefyd yn gylch dieflig. Wrth gynyddu'r pynciau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, hyderwn weld yr athrawon fyddai'n hyderus dysgu yn y Gymraeg yn cynyddu, ond yn naturiol, effaith hir-dymor fydd hwn. Mae angen strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r her recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg, yn enwedig meysydd, e.e. ieithoedd modern a STEM.</p>	<p>Nodwyd y sylw a chytunwn bod angen strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r her recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg.</p>
<p>Mae angen adnabod athrawon Cymraeg y dyfodol yn gynnar a'u hannog i fewn i'r proffesiwn addsyg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Dylai bob athro/athrawes yng Nghymru fod â sgiliau sylfaennol o'r Gymraeg. Os nad ydynt yn medru dylai cynnig gwersi Cymraeg iddynt.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 338

<p>Cytuno gyda'r camau gweithredu ond angen ystyried y gweithlu addysg ehangach – mae pawb yn cyfrannu at ethos a defnydd o'r iaith ac nid dim ond staff yn y dosbarth. Mae angen gwrthio'r llywodraeth i ehangu'r llwybrau hyfforddi. Mae dileu'r cynllun hyfforddiant RhAG oedd ar gael ar draws pynciau uwchradd wedi cyfyngu'r opsiynau. Mae'r brifysgol agored ond yn cynnig y rhaglen newydd i bynciau penodol, ond mae angen pob pwnc ar ysgolion. Mae hwn yn gorfodi trigolion y sir i hyfforddi yn Abertawe/Bangor/Caerdydd ar gyfer pynciau nad ydynt yn cael eu cynnig trwy brifysgol Aber ac ni allwn fod yn sicr bydd y rhain yn dychwelyd i'r ardal.</p>	<p>Nodwyd y sylw a'r syniadau a gyflwynwyd o ran y gweithlu ehangach.</p>
<p>Gwersi Cymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Adran gynhwylfawr iawn unwaith yn rhagor gyda dadansoddiad clir a chyfres o weithredoedd pwrpasol. Un awgrym fyddai sicrhau fod rhan o'r hyfforddiant a gynigir yn cynnwys profiad neu ddealltwriaeth o gyd-destun sosio-ieithyddol arall ar gyfer iaith mewn sefyllfa debyg i'r Gymraeg (e.e. Basgeg, Catalaneg, Swedeg yn y Ffindir, ac ati) gan fod hyn yn gyfle i ddadansoddi ein sefyllfa, ymddygiad, amgylchiadau, agweddau, ymarfer ayb ein hunain drwy lens gwahanol. Yn wahanol i agweddau eraill ar addysg (o ddiogelwch gyda thechnoleg i hyfforddiant athrawon i faterion rhyw/rhywedd), nid oes gan y cyd-destun Prydeinig unrhyw beth i'w gynnig i ni yng Nghymru yn y maes hwn.</p>	<p>Nodwyd y sylw ac am yr arweiniad posibl yn rhyngwladol i ni yma yng Ngheredigion a Chymru.</p>
<p>Mae angen magu hyder yn yr athrawon sydd ddim yn medru addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'u cefnogi. Mynychu cyrsiau priodol heb roi pwysau arnynt a pheidio a'u gorlwytho efo gwaith papur ychwanegol. Staff cynorthwyol - creu cyrsiau ble ceir cymwyster ar y diwedd.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Nodwn bod llawer o athrawon yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n medru'r Gymraeg. Felly byddai'n gwneud llawer o synnwyr i gynyddu darpariaeth Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau nhw. O ran y rhai sydd ddim yn rugl/hyderus eto, mae nifer o siroedd eraill wedi anfon athrawon ar gyfnodau sabothol i wella eu sgiliau yn y Gymraeg / dysgu'r iaith, gan ddod nôl i'r ystafell ddosbarth yn hyderus. Argymhellwn y dylid ddechrau ar hyn ar frys, ac hynny yn yr ysgolion uwchradd hefyd.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Cymorth ac anogaeth uniongyrchol i'r rheini nad ydynt yn siarad llawer o Gymraeg er mwyn iddynt fabwysiadu rhai ymadroddion.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Dylai fod cyrsiau a chyfleoedd i gael cymorth gan athrawon sy'n rhugl yn y Gymraeg i sicrhau bod y Gymraeg sy'n cael ei dysgu'n gywir a bod dysgwyr yn dysgu sut i greu brawddegau gramadegol gywir. Mewn rhai ardaloedd, bydd prinder Cynorthwywyr Cymorth Dysgu sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>

Tudalen 339

<p>Cyrsiau dwys wedi’u hariannu ar gyfer athrawon sydd am ddysgu Cymraeg, gyda chymorth parhaus.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Llunio pecynnau deniadol i athrawon addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Llunio adnoddau canolog i helpu â hyn.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Awgrymwyn bod cyfle yn y deiliant hwn i adnabod pwy yw’r “staff addysgu”. Ar yr olwg gyntaf efallai y byddai nodi’r rhai sydd yn gweithio fel athrawon a phenaethiaid yn ddigon, ond fel mudiad, rydym yn argyhoeddedig bod rhaid i Awdurdodau lleol ystyried yr ystod cyfan o weithlu sydd yn cefnogi addysg – yn cynnwys y staff gweinyddol o fewn yr ysgolion, swyddogion cefnogi o fewn yr awdurdod lleol a’r consortiwm addysg yn ogystal â’r cynorthwyddion. Gwyddom ond yn rhy dda pa mor bwysig yw sicrhau’r ystod cyfan o weithlu i gefnogi cynllun o bwysigrwydd fel y Cynllun hwn. Disgwyliwn felly ddadansoddiad manwl o sgiliau Cymraeg holl weithlu Addysg y Sir gan eu bod i gyd, mewn un ffordd neu’r llall yn gyfrifol am y Gymraeg o fewn eu gwaith. Pwysig hefyd fydd nodi faint o staff ychwanegol bydd eu hangen ar gyfer y cynlluniau arloesol sydd mewn golwg ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn ystod oes y Cynllun hwn a sut fydd y sir yn mynd ati i hyrwyddo’r swyddi hyn a chefnogi datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg.</p>	<p>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau o gefnogaeth i’r cynllun a’r sylwadau pellach.</p>
<p>Mae’r tabl ar dudalen 30 yn ddadlennol, gan ddangos bod oddeutu traean o weithlu addysg ysgolion uwchradd y sir naill ai yn medru addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud neu ddim yn medru addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg o gwbl. Dyma nifer sylweddol o aelodau staff, sy’n adnodd gwerthfawr, heb ei defnyddio. Mae angen adnabod beth yw’r rhesymau dros hyn a dyfeisio ffyrdd i hwyluso a chefnogi’r gwaith o uwch sgilio’r athrawon hyn.</p>	<p>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau o gefnogaeth i’r cynllun a’r sylwadau pellach.</p>
<p>Mae angen cydnabod nad oes modd i’r Awdurdod lleol fod yn gyfrifol am holl gynnwys y targed hwn chwaith a bod ymateb i fylchau a heriau recriwtio hefyd yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru yn ogystal â llywodraeth leol. Dylid sicrhau bod yna fecanwaith ffurfiol i goladu gwybodaeth ar yr heriau hyn a modd systematig i’w cyfathrebu’n effeithiol a chyflym yn ôl i Adran Addysg Llywodraeth Cymru er mwyn iddo fwydo strategaeth y gweithlu cenedlaethol.</p>	<p>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau o gefnogaeth i’r cynllun a’r sylwadau pellach.</p>
<p>Heb sicrhau y gellir cynyddu nifer y staff sy’n gallu dysgu’r Gymraeg fel pwnc, a/neu sy’n gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae’n deg dweud na fydd unrhyw obaith cyrraedd at y deilliannau eraill; mae’r Deiliant hwn yn gonglfaen ar gyfer popeth arall yn y Cynllun. Cred UCAC fod gan yr awdurdod weledigaeth gref wrth osod targedau pendant a heriol ar gyfer yr adran hon. Croesewir pob ymdrech i ddatblygu gweithlu addysg Ceredigion fel eu bod yn gynyddol abl i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i addysgu’r Gymraeg fel pwnc. Mae’n dda gweld dyhead yr awdurdod fod y gweithlu yn deall eu rôl i gynnig hyder i ddisgyblion i siarad a defnyddio’r Gymraeg yn academaidd drwy siarad, darllen ac</p>	<p>Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau o gefnogaeth i’r cynllun a’r sylwadau pellach.</p>

<p>ysgrifennu ond hefyd yn gymdeithasol drwy fod yn siaradwyr hyderus sy'n teimlo'n rhan ac wedi eu hintegreiddio i'w bröydd. Gall UCAC ganmol amcanion yr awdurdod i sicrhau fod y gweithlu cyfan yn ysgolion Ceredigion yn gweld y rôl bwysig sydd ganddynt wrth greu disgyblion sy'n siaradwyr hyderus ac sy'n gweld y Gymraeg fel iaith gynhwysol a pherthnasol mewn byd o ieithoedd pwysig eraill. Teimlwn, er tegwch i Gyngor Ceredigion (a chynghorau eraill) bod llawer o'r rheolaeth dros y cyflenwad o staff yn nwylo cyrff eraill e.e. Llywodraeth Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg (a'r Bwrdd Achredu AGA), darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon, ac y bydd angen gweithredu mewn partneriaeth i sicrhau'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol.</p>	
<p>Sylwadau sy'n anghytuno'n gyffredinol gyda'r amcanion</p>	<p>Ymateb Cyngor Sir Ceredigion</p>
<p>Yn syml iawn, mae prinder athrawon yng Ngheredigion sy'n siarad Cymraeg yn ddigon da i addysgu plant yn iawn. Gan fod addysg yn dal i ddiodeff effeithiau'r pandemig, mae gennyf gryn ddiddordeb mewn gweld sut yn union y mae CSC wedi penderfynu y bydd yn darparu digon o staff i hwyluso'r newid hwn. Neu pam ei fod yn credu y bydd angen cynifer yn fwy o athrawon pan fydd cynifer o'r rhieni yr wyf yn siarad â nhw yn addysgu'u plant tu allan i Geredigion. O ble bydd y staff dysgu hyn yn dod? Pa gymhellion fydd yn cael eu rhoi i athrawon sy'n byw yng Ngheredigion ar hyn o bryd i'w darbwylllo i ddysgu iaith yn ddigon da i addysgu at eu safonau blaenorol? Sut y byddwch yn denu athrawon Cymraeg o ardaloedd eraill? A fydd cymhelliad ariannol ar gael? Os felly, o ble bydd yr arian yn dod? Sut y byddwch yn profi pa mor hyddysg yw athrawon yn y Gymraeg? Pa safonau fydd yn cael eu pennu? A fydd athrawon sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn cael blaenoriaeth dros y rheini sydd wedi gwneud ymdrech fawr i ddysgu'r iaith yn hwyrach yn eu bywydau? Sut y bydd nosweithiau rhieni-athrawon yn cael eu hwyluso? A fydd cyfieithydd ar gael? Os felly, pwy fydd yn talu am hyn? Sut y byddwch chi'n sicrhau cyfrinachedd ymhlith rhieni os oes dau gyfathrebwr ym mhob sesiwn a'i bod yn cymryd dwywaith cymaint o amser? A oes cynllun arfaethedig i gadw gweithwyr Bronglais, Heddlu Dyfed Powys a Phrifysgol Aberystwyth sy'n bwriadu addysgu'u plant tu allan i Geredigion ac a allai adael yr ardal o'r herwydd? A oes staff ADY cyfrwng Cymraeg dros ben ar hyn o bryd? Os nad oes, sut y bydd y staff hyn yn cael eu recriwtio/hyfforddi/cadw? Os nad oes cynlluniau i wneud hyn, sut yr ydych yn bwriadu cynorthwyo plant ag ADY â'r newid anferth hwn? "Felly ceir cydnabyddiaeth fod gan bob plentyn hawl i ddysgu'r Gymraeg a'r Saesneg." – Pam felly ydych chi'n cynnig addysg gyfan gwbl Gymraeg yn unig!?</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Ychwanegwn fod yna filoedd o blant ar draws Cymru sy'n dod o gartrefi lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r staff addysgu yn yr ysgolion hyn yn gallu siarad y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu gyda rhieni di-Gymraeg yn y Saesneg boed hynny wrth y glwyd wrth i'r plant fynd adre neu mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol fel nosweithiau i drafod cynnydd disgyblion. Does yna ddim angen am gyfieithydd oherwydd bod y ddwy iaith yn cael eu siarad gan bobl ddwyieithog. Nid goruchafiaeth un iaith yw'r nod.</p>
<p>Rwy'n credu y byddwch yn ei chael yn anodd recriwtio athrawon a staff addysgu yn y dyfodol os byddwch yn mynnu bod siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn faen prawf hanfodol ar gyfer penodi i swydd. Bydd hyn yn peri i rywun fel fi nad yw'n</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>

Tudalen 341

<p>dod o Gymru beidio â gwneud cais oherwydd y gofynion hyn. Hefyd, fel rhiant, mae'n atgas gennyf eich bod yn diddymu ein dewisiadau fel teulu. Pe bai arnaf eisiau i'm plentyn siarad Cymraeg, byddwn wedi'i anfon i ysgol cyfrwng Cymraeg. Rwy'n siomedig mai hwn yw'ch cynllun ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na chyflwyno mwy o wersi siarad Cymraeg yn yr ysgol a'r feithrinfa. Sut y bydd iechyd meddwl fy mhentyn os byddwch yn cyflwyno newidiadau sydyn heb gymorth yn amgylchedd y teulu?</p>	
<p>Ydych chi'n ymwybodol o lefelau'r gorbryder a'r ymdeimlad o ymddieithriad yr ydych wedi'i achosi ymhlith staff lleoliadau addysgol nad ydynt yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd? Mae fy sgysiau â nifer ohonynt yn awgrymu nad ydych. Maent yn teimlo bod y camau arfaethedig yn eu targedu, yn pryderu y byddant yn colli'u swyddi, yn pryderu y bydd rhaid iddynt symud o'r ardal neu roi'r gorau i wneud yr hyn y maent yn ei wneud yn dda iawn. Pam ydych chi am greu cymaint o ansicrwydd ar eu cyfer ac effeithio'n andwyol ar eu gallu i ddarparu'r hyn sy'n bwysig iawn, sef addysg a gofal plant da? Ydych chi'n gwybod faint o amser ac ymdrech sydd eu hangen er mwyn i rywun ddysgu iaith at safon lle y gall ddysgu drwy'r cyfrwng hwnnw? Mae'r ddogfen yn awgrymu nad ydych yn gwybod hynny. Ydych chi'n sylweddoli bod y camau arfaethedig yn debygol o beri iddi fod yn amhosibl i rai lleoliadau weithredu? Mae'r ddogfen yn nodi bod prinder gwarchodwyr plant, athrawon meithrin ac athrawon ysgol. Os bydd y cynllun arfaethedig yn cael ei roi ar waith, mae'n debygol y bydd rhaid i Gylch Chwarae XXXX gau, oherwydd ni fydd staff ar gael i ddarparu gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Hoffai'r Cyngor nodi'r canlynol eto. Drwy ymgynghori ymhellach gyda rhanddeiliaid, y nod fyddai agor darpariaeth trochi cyfrwng Cymraeg i blant tair oed (meithrin) yn Ysgol Padarn Sant, Ysgol Comins Coch ac Ysgol Cei Newydd yn ogystal â sicrhau'r un darpariaeth meithrin yn Ysgol Plascrug ac Ysgol Llwyn yr Eos. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r nod o gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir. Mae nifer o ysgolion presennol a mwyaf Ceredigion yn cynnig addysg tair oed cyfrwng Cymraeg i'w disgyblion felly dyna'r egwyddor craidd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn yr hawl, yn y pendraw, i fod yn gwbl ddwyieithog o fewn sir ble mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd. Mae'r Cyngor yn derbyn y byddai'r datblygiad yn newid swyddogaeth y ddarpariaeth yn y lleoliadau nas-cynhelir a ariennir. Cafwyd yr un effaith pan agorwyd ysgolion newydd yn yr awdurdod yn y blynyddoedd diweddar e.e. yn Ysgol Cledlyn neu yn Ysgol T Llew Jones a bydd yr un effaith i'w gweld yn ardal Dyffryn Aeron pan agorir yr ysgol newydd yn y fan honno. Rydym yn gobeithio na fydd effaith negyddol ar aelodau staff. Rydym yn gweld rôl bwysig iawn i aelodau staff y lleoliadau hynny i gynnig lefel sylfaenol iawn yn y Gymraeg i'r plant 2-3 oed yn eu gofal cyn iddynt symud ymlaen i'r cam trochi yn yr ysgolion. Nid ydym yn gweld bod angen i unrhyw aelod staff i boeni am hyn. Annog trosglwyddiad sylfaenol o'r iaith y byddem yn gobeithio'i weld yn y lleoliadau hyn cyn i'r plant drosglwyddo i addysg drochi meithrin yn yr ysgolion.</p>
<p>Mae angen ystyried ansawdd yr athrawon. Yn anffodus, mae'n amlwg y byddwch yn ystyried bod gallu o ran y Gymraeg yn bwysicach na rhinweddau a galluoedd ehangach athrawon unigol. Mae hon yn strategaeth wallus a fydd yn peri i athrawon rhagorol gael eu gyrru o'u swyddi ac a allai beri nad yw'r athrawon gorau'n cael eu penodi. Mae secondio athrawon nad ydynt yn hyddysg yn y Gymraeg er mwyn iddynt ddod yn hyddysg yn ffordd wallus o weithredu. Nid yw athrawon o'r fath yn debygol o fod mor rhugl â siaradwr</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>

<p>Cymraeg cynhenid, ac mae'n ffaith wybyddus o safbwynt addysgeg addysgu ieithoedd mai dim ond athrawon rhugl ddylai fod yn dysgu yn yr iaith honno. Yn wir, mae'r cynnig i secondio athrawon yn tynnu sylw at y broblem ehangach nad oes digon o athrawon cyfrwng Cymraeg ar gael i roi'r strategaeth hon ar waith. Er mai'r ddadl o'r ochr arall fydd mai dyna'r rheswm pam fod angen rhoi'r strategaeth hon ar waith i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y tymor hir, y cwestiwn y dylid ei ystyried yw: A yw'n foesebol gywir rhoi datblygiad addysgol cenedlaeth gyfan o blant yn y fantol ar gyfer arbrawf ieithyddol a pholisi addysg sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg ar draul ffactorau pwysig eraill sy'n ymwneud â dysgu ac addysg. Mae lefelau cyrhaeddiad Cymru'n llusgo tu ôl i wledydd eraill y DU, a rhaid inni ofyn i ni ein hunain – a yw hyn yn mynd i beri i'r sefyllfa fod yn well neu'n waeth? I mi, mae'n amlwg y bydd yn peri iddi fod yn waeth. Hefyd, yn bwysig iawn, rydym yn mynd i fod yn symud tuag at system lle y mae plant yn dod i lai o gysylltiad ag athrawon diwylliannol amrywiol gan fod yr athrawon hyn yn llai tebygol o fod yn hyddysg yn y Gymraeg. A ydym am feithrin meddylfryd sy'n edrych tuag i mewn a chau ein llygaid i ddiwylliannau'r byd ehangach? Rwy'n gobeithio nad ydym ac mae'n mynd yn groes i bolisiau Llywodraeth Cymru'n fwy cyffredinol, ond mae'n amlwg mai hwn fydd un o'r canlyniadau.</p>	
<p>Rhoi dewis i bobl ym mha iaith y maent am ddysgu'n bennaf.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>
<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>
<p>Mae angen ichi edrych tu hwnt i'ch breuddwyd ieithyddol ac ystyried lles y gymuned ar sawl lefel. Mae Ceredigion yn rhan o Gymru, yn rhan o'r DU ac yn rhan o fyd sydd wedi globaleiddio mwyfwy. Mae'r Gymraeg yn ffynnu yng Ngheredigion ac mae dwyieithrwydd y sir yn peri iddi fod yn lle deniadol a bywiog ar hyn o bryd. O ddiddymu'r dewis i addysgu 17% o ddisgyblion y sir drwy gyfrwng y Saesneg, fel y gwneir ar hyn o bryd, bydd yn gorfodi llawer o deuluoedd sydd wedi ymgartrefu yn y sir fendigedig hon adael, yn peri i lawer o weithwyr proffesiynol a mewnfudwyr eraill beidio â symud yma o gwbl, ac yn peri i lawer o bobl leol eu cael eu hunain mewn amgylchedd diwylliannol llawer llai diddorol, gan beri iddynt fod yn llai bodlon a'u denu i symud o'r sir. Bydd diffyg dewis ym maes addysg yn peri iddi fod hyd yn oed yn anoddach recriwtio staff i'r Gwasanaeth Iechyd, ac mae eisoes yn gythreulig o anodd nawr. Bydd diffyg dewis hefyd yn effeithio ar yr economi; ni fydd gan weithwyr proffesiynol nac ymchwilwyr, sy'n dod ag arian grantiau ymchwil gyda nhw i'w</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Dymuna'r Cyngor hefyd nodi bod ganddo ddyletswydd i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethol Cymru. Mae hynny'n golygu gweithredu i gyflawni'r saith nod llesiant gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Ceir hefyd sail statudol i'r system ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwylyso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae cynnwys y CSGA hefyd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae'r datblygiadau hyn hefyd yn mynd law yn llaw gyda thri nod strategol 'Strategaeth Iaith Ceredigion' (Cynyddu sgiliau iaith trigolion</p>

Tudalen 343

<p>gwario yn y gymuned, unrhyw ddiddordeb mewn dod i weithio ym Mhrifysgol Aberystwyth. A yw hi'n werth gwneud hynny? Rwyf wedi fy narbwylllo nad yw.</p>	<p>Ceredigion. Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion. Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu).</p>
<p>Nid yw pawb yn meddu ar y gallu i ddysgu iaith arall. Mae hyn yn peri anfantis fawr i staff a gyflogir eisoes a staff y dyfodol!!!!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Mae'r CSGA yn bennaf yn ymwneud gydag addysg disgyblion ond mae Deilliant 7 yn ymwneud gyda recriwtio mwy o addysgwyr i'r sector cyfrwng Cymraeg. Mae'n ddeilliant sy'n orfodol i'w gynllunio fel rhan o'r CSGA.</p>
<p>Ceir llawer o staff addysgu sy'n dda wrth eu gwaith o hyd, ond bydd y polisi hwn yn gwahaniaethu yn eu herbyn am nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg. Yn hytrach, byddai bod yn ddwyieithog o gymorth, a darparu gwersi i'r rheini y mae eu hangen arnynt.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Bydd pob ysgol yn penodi staff yn unol a'u hanghenion cwricwlaidd.</p>
<p>Mae'r cynlluniau'n sôn yn aml am yr angen i athrawon ddysgu pynciau academiaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddweud y bydd hyn yn cael ei ategu gan gyrsiau sabothol i sicrhau bod modd iddynt gaffael sgiliau ieithyddol. I allu dysgu mewn iaith, rhaid ichi fod yn hollol rhugl, ac nid wyf yn credu ei bod yn realistig disgwyl i staff feithrin sgiliau ieithyddol digonol yn ystod y cyfnodau byrion a bennir.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>
<p>Cynorthwywch bobl i ddysgu. PEIDIWCH â pheri iddo fod yn ofyniad er mwyn cael swydd.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>
<p>Er fy mod yn croesawu'r syniad o gynorthwyo staff i wella'u sgiliau iaith, byddwn yn siomedig iawn o feddwl bod adnoddau'n cael eu clustnodi ar gyfer hyn yn hytrach na datblygiad proffesiynol cyffredinol aelod staff. Yn y tymor byr, byddai'n llawer gwell gennyf weld yr adnoddau'n cael eu gwario ar wella cyrhaeddiad academiaidd plant ar ôl COVID ac ar dargedu eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Yn y tymor hirach, byddai'n well gennyf weld staff yn cael cymorth ym meysydd gwybodaeth am y cwricwlwm, rheoli dosbarthiadau a datblygiad proffesiynol.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Mae'r gefnogaeth dan sylw ar gael i staff addysgu Ceredigion yn bresennol.</p>
<p>Rwy'n gweithio mewn cylch chwarae Saesneg yn bennaf, gyda rhywfaint o Gymraeg, ac o safbwynt personol, nid wyf erioed wedi cael cyfle drwy fy ngweithle i ddysgu Cymraeg drwy'r gwaith. Fodd bynnag, fe ddewisais dalu i fynd i ddosbarthiadau Cymraeg gyda'r nos am ddwy flynedd i wella fy Nghymraeg ac, ydw, rwyf wedi dysgu mwy o Gymraeg sylfaenol drwy wneud hynny, ond nid wyf yn agos at fod yn rhugl o hyd. Daeth y dosbarthiadau hyn i ben i mi oherwydd fy mod wedi digalonni ac nad oedd gennyf ddigon o egni gyda'r nos i barhau (mae cael dau blentyn fy hun wedi cyfrannu at fy mhrinder egni), heb sôn am bris y gwersi. Rwy'n gresynu na chefais gyfle i ddysgu Cymraeg yn ystod f'oriau gwaith, oherwydd mae hi mor bwysig imi fy mod yn gallu parhau i weithio gyda phlant. Cefais fy magu gan rieni Saesneg eu hiaith ac fe es i i ysgol ddwyieithog, ac rwyf i bob amser wedi bod eisiau gweithio gyda phlant. Byddwn i wrth fy modd pe bawn yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ond allaf i ddim. Rwy'n</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Mae yna gydymdeimlad llwyr am yr hyn sy'n cael ei fynegi yma o safbwynt personol ac am yr ymdrech i ddysu'r Gymraeg. Yr hyn sy'n cael ei gynnig yn y CSGA yw bod dosbarthiadau meithrin 3 oed yn cael eu cynllunio yn yr ysgolion dan sylw er mwyn hwyluso'r dull trochi. Nid tansilio staff presennol y lleoliadau nas cynhelir yw'r bwriad ond cynllunio ar gyfer gwella a datblygu sefyllfa'r Gymraeg yng Ngheredigion. Mae gan bawb ran yn hyn. Gwelwn fod rhan bwysig iawn i'r gweithlu yn y ddarpariaeth 2-3 oed i gynnig lefel sylfaenol iawn yn y Gymraeg i'r plant 2-3 oed yn eu gofal cyn iddynt symud ymlaen i'r cam trochi yn yr ysgolion. Nid ydym yn gweld bod angen i unrhyw aelod staff i boeni am hyn.</p>

Tudalen 344

<p>teimlo bod y cynllun hwn yn gwahaniaethu yn fy erbyn, yn enwedig gan imi gael fy ngeni yng Ngheredigion. Rwy'n dechrau teimlo nad oes gennyf hawl i weithio yma gyda phlant, ar ôl blynyddoedd lawer o hyfforddiant. Y cyfan yr wyf yn dymuno ei gael yw cyfle i bobl fel fi sydd am fyw yn eu tref enedigol gerllaw eu teulu allu gweithio mewn ysgolion /meithrinfeydd. Fel myfyriwr yng Ngholeg Ceredigion, roeddwn i'n ddiolchgar iawn am y cyfle i fynd ar leoliad mewn lleoliad dwyieithog er mwyn imi ennill fy nghymhwyster mewn gofal plant ac addysg. Os bydd yr holl leoliadau'n dod yn rhai cyfrwng Cymraeg yn unig, rwy'n credu y bydd siaradwyr Saesneg a aned yma yn cael eu gorfodi allan, ac rwy'n teimlo'n gryf bod hyn yn annheg ac yn anghywir. Dydw i ddim yn dewis peidio â siarad Cymraeg yn rhugl, dydw i ddim yn gallu gwneud hynny. Drwy agor meithrinfeydd Cymraeg yn unig mewn ysgolion yng Ngheredigion, mae'n anochel y bydd rhaid i gylchoedd chwarae gau, felly byddaf yn colli fy swydd. Mae'r cynllun hwn yn golygu na fyddaf fwy na thebyg fyth yn gallu gweithio mewn ysgol, sef fy mhrif nod o ran swydd.</p>	<p>Annog trosglwyddiad sylfaenol o'r iaith y byddem yn gobeithio'i weld yn y lleoliadau hyn cyn i'r plant drosglwyddo i addysg drochi meithrin yn yr ysgolion. Nid nod y CSGA yw troi'r lleoliadau yma yn rhai cyfrwng Cymraeg ond i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg lle bo hynny'n bosibl.</p>
<p>Mae'n peri pryder i mi y bydd yn bwysicach bod athro'n gallu siarad Cymraeg na bod yn athro da. Gallech golli rhai athrawon nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu rai sydd wedi ceisio dysgu Cymraeg ond nad ydynt wedi'i chael yn hawdd gwneud hynny. Gall hefyd fod yn anodd denu rhai athrawon i'r ardal oherwydd nad ydynt yn siarad Cymraeg, er eu bod yn athrawon rhagorol. Dywedir ei bod eisoes yn anodd recriwtio athrawon mewn rhai pynciau, felly bydd hyn yn peri i'r sefyllfa fod hyd yn oed yn anoddach.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>
<p>Onid gwahaniaethu yw hynny? Oni ddylai ddweud 'cynyddu sgiliau iaith yr holl staff er mwyn iddynt ddysgu Cymraeg' ac nid dim ond penodi siaradwyr Cymraeg? Nid yw hynny'n deg ar bobl a allai feddu ar sgiliau a rhinweddau gwych i fod yn staff addysgu, ond bod angen cymorth arnynt i wella'u sgiliau.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>
<p>Mae angen ichi ystyried y gost a'r amser y bydd yn ei gymryd, a pha mor ymarferol yw hynny o fewn yr amserlen a gynigiwyd.</p>	<p>Nodwyd y sylw.</p>
<p>Mae arnom angen yr athrawon a'r staff cymorth gorau, nid dim ond y rhai gorau sy'n siarad Cymraeg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>
<p>Helpu staff sydd eisoes wedi meithrin perthynas dda â'm plentyn i wella'u Cymraeg.</p>	<p>Mae hyn yn rhan o'r cynllun. Mae cydweithio gyda phartneriaid yn holl bwysig wrth symud ymlaen.</p>
<p>Ystyriwch na fydd rhieni di-Gymraeg yn gallu helpu'u plant eu hunain â'u gwaith cartref os bydd angen cymorth arnynt. Ni fydd rhieni'n gallu deall Cymraeg er mwyn egluro'r broblem. Byddwn yn hapus ag athrawon yn dysgu Cymraeg fel pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, ond pob pwnc arall yn Saesneg.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>
<p>A yw hyn yn golygu na fydd yr athrawon o ansawdd gorau o ran addysgeg yn cael eu recriwtio, ac mai sgiliau Cymraeg fydd y prif faen prawf? Mae hwn yn gynnig sy'n destun pryder.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>

Tudalen 345

<p>Drwy fynnu bod athrawon yn gorfod siarad Cymraeg, rydych yn lleihau'r gronfa o athrawon y gallwch recriwtio ohoni. Mae athrawon rhagorol ar gael yng Nghymru eisoes nad ydynt yn meddu ar y sgiliau Cymraeg gofynnol ac mae'n anochel y byddant yn symud i ffwrdd/gadael y proffesiwn. Bydd prinder amrywiaeth sylweddol ymhlith y staff addysgu. Fel rhiant, byddai'n llawer gwell gennyf pe bai gan fy mhlentyn athro brwdfrydig rhagorol nag un digonol sy'n gallu siarad Cymraeg yn dda.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>
<p>Mae cynifer o athrawon ffantastig ar gael nad ydynt yn siarad Cymraeg ac rydych yn eu rhwystro rhag addysgu ein plant.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>
<p>Dim ond "ystyriaethau eraill" – nid oes arnoch eisiau unrhyw sylwadau am y cynigion presennol? Ai ymgynghoriad yw hwn, hyd yn oed, os nad yw'ch cwestiynau'n gofyn am farn pobl am yr adran hon?</p>	<p>Mae digon o gyfleoedd wedi bod yn y drefn ymateb i gynnig gwahanol farn. Mae nifer ac amrywiaeth yr ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dyst i hynny.</p>
<p>Mae llawer o athrawon di-Gymraeg rhagorol yn awyddus i symud yma i weithio. A ydych chi eisiau athrawon di-Gymraeg o ansawdd gwych NEU a ydych chi'n mynd i ganiatáu i athrawon o ansawdd gwael sy'n rhugl yn y Gymraeg gael swyddi da dim ond oherwydd yr iaith yn hytrach na'u gallu i ddysgu? Mae Cyngor Ceredigion yn gwneud hyn mewn rhannau eraill o'r cyngor ar hyn o bryd!</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>
<p>Byddwch yn colli athrawon o safon os mai eich prif faen prawf yw bod rhaid iddynt allu siarad Cymraeg/dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. A ydych chi'n mynd i gyflogi siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig fel athrawon? Os felly, mae'n gwahaniaethu yn erbyn y rheini nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg. Mae Ceredigion bob amser wedi bod yn lle cynhwysol sy'n rhoi cyfle i bawb.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>
<p>Mae'n hollbwysig cynnwys rhieni yn addysg eu plant, ond gallai hyn gael ei lesteirio ar aelwydydd lle siaredir Saesneg yn unig. Nid wyf ond yn cyfeirio at yr iaith wrth ddweud hynny. Ceir llawer o Gymry di-Gymraeg, ac mae hyd yn oed llai yn darllen yr iaith at safon lle y gallant gynorthwyo'u plant ag addysg Gymraeg. Mae'r rhwyd recriwtio'n lleihau.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>
<p>Dylid ystyried ei bod yn bosibl na fydd yr athro gorau'n cael y swydd gan fod gogwydd cryf tuag at ddewis siaradwr Cymraeg ar draul siaradwr Saesneg yn bodoli eisoes. Rwyf wedi bod yn dyst i sefyllfa fel hon ac fe'm digalonwyd, oherwydd ni allaf weld pwy sy'n elwa o'r sefyllfaoedd hyn. Yn bendant, nid yw er budd pennaf y disgyblion. Dylid hefyd ystyried i ba raddau y mae athrawon sy'n siarad Cymraeg yn siarad yr iaith. Nid athrawon sydd wedi bod ar secondiad i ddysgu Cymraeg ac nad ydynt ond yn ei defnyddio fel "iaith gwaith" yw'r ymgeiswyr gorau i ddysgu Cymraeg i'r disgyblion. O ran dwyieithrwydd, mae'n ffaith wybyddus mai dim ond siaradwyr rhugl ddylai addysgu dysgwyr, ac rwy'n meddwl bod y rheswm am hyn yn bur amlwg. O drochi'r plant yn llwyr yn y Gymraeg</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>

Tudalen 346

<p>yn y Cyfnod Sylfaen, mae'n anochel y bydd yn creu rhestr hir o baradocsau pan fydd arweinwyr ysgolion yn penodi staff.</p>	
<p>Eto – a ddylem gymryd yn ganiataol bod y cwestiwn hwn yn gysylltiedig â'r un blaenorol? Mae'r ffaith eich bod yn meddwl y gallwch gyflawni'r gweithredoedd hyn o fewn yr amserlen arfaethedig o bedair blynedd yn peri i'r cwestiynau hyn fod yn ddibwrpas. Sut ar y ddaear ydych chi'n credu... Anhygoel!</p>	<p>Nodwyd y sylw. Fodd bynnag, mae'r Cynllun arfaethedig yn raglen ddeg mlynedd.</p>
<p>Mae athrawon a staff gofal plant wedi bod dan bwysau enfawr yn ystod y pandemig ac mae'n rhaid y bydd yr hyfforddiant ychwanegol y bydd ei angen yn destun pryder i rai. Beth fydd yr effaith ar eu llwyth gwaith cyffredinol? A fydd yr hyfforddiant hwn yn ychwanegol at eu llwyth gwaith arferol? A yw eu swyddi'n ddiogel os bydd rhai'n cymryd yn hirach nag eraill i wella safon eu Cymraeg? Rwyf hefyd yn pryderu'n fawr am yr effaith ar warchodwyr plant nad ydynt yn gallu dirprwyo agweddau eraill ar eu llwyth gwaith tra maent yn cael hyfforddiant pellach. Gallai rhai deimlo bod hwn yn un peth yn ormod a gadael y proffesiwn. Mae gwarchodwr plant ffantastig fy mhlentyn yn darparu lleoliad 'Saesneg gydag elfennau dwyieithog' bendigedig ac rwy'n meddwl y byddai'n ofnadwy pe bai'r gyfarwyddeb hon yn peryglu gallu rhai o'r lleoliadau hyn i barhau i fasnachu.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6).</p>
<p>Darparwch gymorth ADY Cymraeg i blant sy'n siarad Cymraeg, ond nid yw'n "hanfodol" (tudalen 26) ar gyfer yr holl ddarpariaeth ADY/SENCO. Mae arnom angen y cymorth ADY gorau a mwyaf cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a'r athrawon mwyaf rhagorol sy'n frwd dros eu pwnc, p'run a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Rwyf o blaid addysgu Cymraeg, ond nid defnyddio hynny i gau athrawon gwych allan.</p>	<p>Gweler yn flaenorol (yn ogystal â Deilliant 1, 2 a 3, 4, 5 a 6). Nid dyma yw nod y cynllun nac ychwaith yr hyn a nodir yn Deilliant 7.</p>

Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
<ul style="list-style-type: none"> • Cytuno gyda'r gweithgareddau yn y ddogfen • Cytuno – dylai pob ysgol fod yn ysgolion Cymraeg wedyn bydd rhaid i bawb siarad yr iaith.
<p>Syniadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➢ Cynnal sesiynau chwarae trwy'r Gymraeg. ➢ Cael mwy o rieni i ddarllen llyfrau Cymraeg gyda'u plant. ➢ Ddim yn berthnasol i ni
<p>Mae bron bob un yn cytuno'n gryf gyda hyn. Pawb arall yn cytuno hefyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➢ Os yw plant yn dechrau dysgu Saesneg yn y Meithrin, mae'n fwy anodd i ddysgu Cymraeg wedyn. ➢ Y disgyblion yn gweld y gallai bod prinder staff (mae'r person sy'n rgedeg Cylch Meithrin XXXX hefyd yn gweithio yn yr ysgol – roedden nhw'n ymwybodol fod prinder!). ➢ Covid wedi effeithio ar y sefyllfa – rhieni ddim yn siarad Cymraeg pan oedd pawb adre yn y cyfnod clo.
<ul style="list-style-type: none"> ➢ Dylai pawb fod yn falch o fod yn Gymry achos mae'n rili cŵl. ➢ Mae'n syniad da, ond ddim i ddefnyddio Cymraeg i gyd. Byddai plant bach ddim yn setlo yn yr ysgol mor dda achos bo nhw ddim yn deal beth oedd yn cael ei ddweud. ➢ Mae'n bwysig iawn bod plant bach yn gwybod eu bod yn byw yng Nghymru ac yn falch o hynny, ond nid i deimlo'n anghysurus yn enwedig os ydynt yn ei chael hi'n anodd deall Cymraeg. ➢ Dydy'r rhan fwyaf o'r teuluoedd yn ein hysgol ni ddim yn siarad Cymraeg ac efallai y byddan nhw'n dewis addysgu eu plant gartref sydd ddim mor dda â dod i'r ysgol. ➢ Mae llawer o blant yn gweld dysgu Saesneg yn anodd ac mae angen iddyn nhw ddysgu hwnnw gyntaf neu byddan mewn penbleth a ddim yn siarad yn yr ysgol.
<ul style="list-style-type: none"> ➢ Rydym yn meddwl ei fod yn syniad da achos bydd yn haws i ddysgu iaith newydd neu anghyfarwydd yn yr oedran ifanc hynny.
<ul style="list-style-type: none"> ➢ Rydym yn meddwl ei fod yn syniad da achos: <ul style="list-style-type: none"> ➢ Gall disgyblion ddod yn gyfarwydd â'r ysgol yn gynt a byddan nhw ddim yn siomedig pan fyddan nhw'n gorfod dechrau'r ysgol amser. ➢ Byddai plant iau yn cyfarwyddo gydag ysgol gyda mwy o blant yn hytrach na bod mewn Meithrin gyda grŵp bach o ddisgyblion. ➢ Pan ymunais i â'r meithrin, roeddwn yn ofnus ac roedd llawer o'm ffrindiau da l yr adeg honno yn mynd i ysgolion cynradd arall. Felly wrth gael dosbarth meithrin y yr Ysgol, bydd plant gyda'i gilydd o'r dechrau. ➢ Byddai'n braf cael plant ifanach yn yr Ysgol. ➢ Mae plant ifanc yn dysgu'n glou, felly pan fyddant yn tyfu byddant yn fwy galluog. ➢ Byddant yn dysgu Cymraeg yn ifanc gan eu gwneud yn barod ar gyfer Addysg llawn amser trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. ➢ Byddant yn cwrdd â phobl newydd a byddan nhw ddim yn nerfus pan fyddant yn dechrau'r Ysgol yn llawn amser. ➢ Bydd disgyblion yn dysgu bach yn fwy am yr ysgol a byddant yn gwybod ble mae popeth. ➢ Os oes brodyr neu chwirydd gyda nhw yn y meithrin, ni fydd angen i'r rhieni yrru nôl a mlaen o un lle i'r llall. ➢ Byddant yn dysgu sgiliau newydd yn ifancach.
<p>Cwestiynau a godwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> ➢ Ble fydd y dosbarth? ➢ A fydd hyn yn effeithio ar ein amser chwarae?
<ul style="list-style-type: none"> ➢ Mwy o gydweithio rhwng ysgolion meithrin/ ysgolion er mwyn annog y Gymraeg. ➢ Gwersi Cymraeg i rieni. (Mudiad meithrin neu dechrau'n deg)
Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
<ul style="list-style-type: none"> ➢ Cytuno

Tudalen 348

Cytuno.

Syniadau:

- Ysgolion Cymraeg yn paru gyda ysgolion lle mae dysgwyr er mwyn bod y disgyblion Cymraeg yn dysgu'r iaith i'r ysgolion Saesneg.
- Ydy ysgolion Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg o hyd, e.e. mewn arwyddion o gwmpas yr ysgol?

➤ Ddim yn berthnasol ond meddwl ei fod yn syniad da

- Mae bron bob un yn cytuno'n gryf gyda hyn. Pawb arall yn cytuno hefyd.
- Cam naturiol wrth ddechrau ysgol.

➤ Rwy'n meddwl ei fod yn syniad da gallu siarad Cymraeg yng Nghymru. Bydd yn rhoi mwy o amser inni ddysgu Cymraeg.

- Os ydynt wedi'u haddysgu yn Gymraeg yn y meithrin, yna gallant ddysgu yn y dosbarth derbyn ac ym Mlwyddyn 1, ond byddent yn dysgu'r gwaith y byddent fel arfer yn ei wneud yn y meithrin ac felly byddent ar ei hôl hi.
- Ni fydd unrhyw blant sy'n dod yma i fyw o weddill y byd yn ymgartrefu yma a bydd hyn yn peri i'n bywydau ni fod yn llai diddorol.
- Ni fyddai modd inni groesawu ffoaduriaid o Syria nac Affganistan i'r ardal oherwydd ni fyddent yn gyfarwydd â'r iaith a byddent yn colli allan ar lawer o flynyddoedd o'u haddysg ar ôl iddynt golli cymaint yn barod.

➤ Bydd yn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i ddysgu geiriau ac ymadroddion Cymraeg newydd a'r gobaiith yw y byddant yn magu hyder mewn iaith newydd nad ydynt yn ei siarad gartref. Gallai gael effaith gadarnhaol gartref hefyd, gyda'r rhieni'n dangos mwy o ddiddordeb yn yr iaith.

Rydym yn cytuno gyda hyn oherwydd:

- Mae dysgu Cymraeg yn ifanc yn syniad da achos bydd y disgyblion yn well yn y Gymraeg pan fyddan nhw'n symud I CA2/CA3
- Dysgu'n ifanc – dysgu'n gynt
- Os ydych chi'n byw yng Nghymru, ddylech chi ddysgu'r iaith.
- Rydym yn meddwl y byddai'n hyfryd iddynt ddysgu Cymraeg achos wedyn gallan nhw ddysgu siarad Cymraeg yn hyderus pan mae nhw'n hŷn.
- Os yw disgyblion yn dysgu mwy o Gymraeg bydd e'n eu helpu nhw pan maen nhw'n hŷn.
- Byddan nhw'n dysgu mwy o Gymraeg
- Byddan nhw'n gallu siarad Cymraeg yn ifancach.
- Byddan nhw'n gallu siarad dwy iaith.
- Byddan nhw'n teimlo eu bod yn perthyn i Gymru
- Byddwch yn gallu siarad Cymraeg yn ifanc a byddwch yn gallu gwella eich sgiliau Cymraeg dros y blynyddoedd.
- Pan fyddwch yn cyrraedd yr Ysgol Uwchradd, byddwch yn gallu siarad a deal mwy o Gymraeg.

Syniadau eraill neu safbwyntiau:

- Dylai disgyblion gael y cyfle i ddysgu Saesneg a Chymraeg fel eu bod yn gwybod a deall am beth maen nhw'n ddysgu.
- Gallai rhai disgyblion ei chael hi'n anodd os ydyn nhw'n cyrraedd yr ysgol nes ymlaen.
- Gallai rhieni ei gweld hi'n anodd i helpu/ cefnogi gartref.
- Gweithio Ysgol i Ysgol i gefnogi ysgolion sydd ddim yn derbyn addysg Gymraeg.

Deilliant 3 - Deilliant 3 - Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

- Cytuno

Cytuno.

Syniadau:

- Cynnal mwy o weithgareddau yn y gymuned yn Gymraeg.
- Creu mwy o bodlediadau, rhaglenni teledu a ffilmiau Cymraeg.
- Rhannu hanes Cymry ar bob cyfle.

Tudalen 349

- Clybiau chwaraeon lle mae'r arweinwyr yn siarad Cymraeg.
- Trio cael mwy o bobl i greu fideos Cymraeg ar You tube.

Syniadau ymarferol

Pontio – disgyblion Bl. 7 presennol/ swyddogion y 6ed i helpu gyda hyn.

Staff – rhaid bod staff dysgu yn medru'r Gymraeg er mwyn cynnig gwersi Cymraeg/ dwyieithog. Staff wedi dechrau mynd i wersi Cymraeg eleni. Angen mwy o hyn i ddigwydd.

4 dosbarth dysgu cyfrwng Cymraeg eleni ac 1 Saesneg ond heriau yn dod gyda hynny.

Mae bron bob un yn cytuno efo hyn.

Rydym yn gweld bod parhau gyda'r addysg Gymraeg yn bwysig yn yr ysgol uwchradd.

Os yw'r disgyblion yn mwynhau Cymraeg, ddylen nhw gario mlaen. Nid ydym am iddynt cael eu gorfodi.

- Yn yr ysgol uwchradd byddai'n bwysig iawn i gael ein dysgu yn Saesneg achos mae'r gwaith yn anoddach ac yn fwy cymhleth.
- Bydden ni angen gwybod y geiriau cywir yn Saesneg rhag ofn y bydden ni'n mynd i brifysgol fel Caergrawnt neu Rydychen.
- Dydy'n rhieni ni ddim yn siarad Cymraeg felly gallan nhw ddim ein helpu ni gyda gwaith cartref, felly bydden ni'n colli allan.
- Byddai rhai disgyblion o gartrefi ble maen nhw'n siarad Cymraeg, felly bydda gyda nhw fantais fawr.
- Cynnal diddordeb yn yr iaith. Mwy o glybiau ar ôl ysgol er mwyn cefnogi'r iaith.

Rydym yn meddwl ei fod yn syniad da achos:

- Mae gan bawb yr hawl i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhob oedran
- Bydd yn helpu disgyblion yn y dyfodol
- rydym angen mwy o ysgolion Cymraeg
- byddwn yn gallu siarad a deall mwy o Gymraeg
- Bydd disgyblion yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg a Chymraeg.
- Bydd y neid paratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd.
- Rydym yn dod o Gymru ac mae angen i ni siarad Cymraeg.

Rhai pryderon:

- Mae Cymraeg yn anodd ei dysgu a byddwn ni ddim yn dysgu mor glou achos nad ydym yn deall rhai pethau.
- Saesneg yw'r unig iaith sydd angen ar gyfer llawer o swyddi.

- Darparu mwy o weithdai diddorol i annog plant i ddefnyddio yr iaith.

- Plant XXXX wedi mwynhau gweithdy Cymraeg gyda'r Brifysgol fel rhan o Hay Festival.

Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

cytuno

Cytuno.

Syniadau:

Dysgu mwy o hanes Cymru i blant, fel rydyn ni'n gwneud yn Ysgol Llanilar.

Mwy o bethau Cymraeg i blant Ysgol Uwchradd wneud yn y gymuned.

Mwy o apiau, rhaglenni a ffilmiau Cymraeg.

Trio cael mwy o bobl i greu fideos Cymraeg ar You tube.

Tudalen 350

<p>Canran uchel o ddisgyblion Bl. 10 TGAU Addysg Gorfforol Ysgol Gyfun Aberaeron eleni yn astudio'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>RHAID ymdrochi hwyrdyffodiaid a phlant Ysgol XXXX</p>
Dim barn
Byddai'n rhaid i chi fod yn rhugl. Byddai'n rhaid i chi fynd drwy'r ysgol yn siarad Cymraeg.
<ul style="list-style-type: none"> • Byddai plant XXXX ddim mor dda â phlant eraill sy'n dod o gartrefi lle mae eu rhieni nhw'n siarad Cymraeg, felly bidden ni ddim yn cael swyddi da, nhw fyddde'n eu cael. • Bydden ni'n hoffi cael digon o Gymraeg i gael swydd yn yr ardal ac i fod yn hyderus i'w defnyddio, ond nid i gael ein dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r amser. • Mae cael dewis yn bwysig ond mae gennym ni hynny'n barod – gallwn ddewis fynd i XXXX neu XXXX a gall ein teuluoedd ddewis ein Ysgol gynradd.
<p>Syniad gwych, bydd yn cadw'r iaith yn fyw.</p> <p>Mae'n bwysig fod y ddwy iaith, Cymraeg a Saesneg ar gael fel opsiwn, ond mae'n bwysig bod digon o adnoddau ar gael i gefnogi'r Gymraeg mewn gwahanol bynciau.</p>
Dim barn gref
Dim barn
Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr Ysgol.
Cytuno
Cytuno
<p>Syniadau gweithredol: Ailddechrau Clwb CIB.</p> <p>Llysgenhadon yr Urdd – neb wedi cysylltu gyda'r Ysgol am hyn eleni. Eisiau gwneud hyn eto.</p> <p>Llysgenhadon CFFI hefyd yn bwysig. Angen gwneud hyn eto eleni.</p> <p>Diwrnod Shwmae Su'mae – disgyblion i arwain.</p> <p>Swyddogion y Cyngor Cymreictod i gynnwys Gohebydd y Wasg/ Adran Farchnata.</p>
Byddai mwy o ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg yn dda a gemau bwrdd Cymraeg.
Rydym yn hoffi sut mae'r Gymraeg wedi dod yn hwyl yn ein hysgol yn ddiweddar, rydym yn hoffi cystadleuthau a dysgu geiriau newydd, ond rydym yn dysgu yn y ffordd sy'n addas i ni, dyw e ddim yn rhy gyflym a rydym yn mwynhau.
<p>Wrth wneud hyn bydd yn creu iaith mwy anffurfiol. Mae'n bwysig nad yw'r Gymraeg yn cael ei gweld fel rhywbeth ar gyfer yr ystafell ddosbarth yn unig, ond ei bod yn cael ei defnyddio rhwng staff ac o gwmpas yr ysgol.</p> <p>Byddai'n braf cael mwy o weithgareddau allgyrsiol trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>Dysgu rhieni am bwysigrwydd gallu siarad Cymraeg.</p> <p>Dysgu rhieni am y gwahanol brofiadau rydym yn cael yn yr ysgol (pethau wedi rhestru yn barod)</p>
Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)
Mae angen mwy o gêmiau a llyfrau Cymraeg.
<p>Rhywun newydd wedi cael ei hapwyntio yma eleni sy'n ddwyieithog. Cam ymlaen yn y ffordd cywir.</p> <p>Diddordeb amlwg iawn gyda staff di-Gymraeg i ddysgu'r iaith. Angen targedu staff ategol e.e. staff y gegin a'r glanhawyr hefyd.</p>
<p>Byddai angen i gynorthwy-wyr dysgu i ddysgu Cymraeg.</p> <p>Byddai pob disgybl gydag ADY gael ei asesu er mwyn gweld a allan nhw ddysgu'r iaith.</p>
<p>Mae angen gwneud yn siwr bod disgyblion yn medru cyfathrebu yn eu mamiaith yn llwyddiannus cyn cyflwyno iaith arall. Mae angen gwneud yn siwr bod y geiriau a'r ymadroddion sy'n cael eu dysgu yn berthnasol a defnyddiol.</p>
Deilliant 7 - Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

Tudalen 351

Angen mynd â disgyblion ar deithiau e.e. Prifysgol Bangor ayyb. Agor ein llygaid. Gweld y posibiliadau. Gwneud cwrs Cymraeg ar lein.

Mae hyn yn bwysig iawn achos mae angen i athrawon i deimlo'n hyderus yn siarad a dysgu Cymraeg. Os yw plentyn yn gofyn cwestiwn am yr iaith, mae'n bwysig eu bod yn gallu ateb.

Mae'n hathrawon ni i gyd yn rhugl.

Sylwadau Pellach: Ymatebion o dan gwestiynau 19/20 yr holiadur.

Derbyniwyd y sylwadau isod a cheir ymateb y cyngor iddynt o fewn ymatebion tebyg yn y deilliannau perthnasol o fewn yr adroddiad hwn. Mae'r cyngor wedi nodi pob sylw.

Sylw: Cwestiwn 1 a 2 Atodol	Sylw: Cwestiwn 1 Atodol	Sylw: Cwestiwn 2 Atodol
<p>Credaf fod y Cynllun yn un ymarferol a chyraeddadwy. Gellir dadlau y byddai amcanion mwy uchelgeisiol yn golygu risg uwch o fethu ac o ganlyniad i hynny yn tanseilio hyder yn y gymuned ac ymhlith rhieni a rhanddeiliaid. Ni allaf weld unrhyw agwedd a fyddai'n peri i sefyllfa (b) ddigwydd.</p>	<p>Mae gan rieni ddewis a hawl i anfon eu plant i ysgol cyfrwng Cymraeg neu i ysgol cyfrwng Saesneg. Rwy'n parchu'r ffaith ein bod yn byw yng Nghymru, ond siawns nad oes gan rieni hawl i wneud eu dewis eu hunain!!</p>	<p>Dim ond ei bod yn ymddangos os cewch chi ysgol fel XXXX i roi'r polisi ar waith, byddwch wedi cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned, oherwydd maint poblogaeth Penparcau. Yna, mae hyn yn dod yn rhan o'r diwylliant pan gaiff ei gysylltu â gweithgareddau eraill y byddai modd eu darparu yn yr Hwb. Byddai hefyd angen i'r rhain gael eu darparu am ddim ar draws y gymuned. Rwy'n gwybod bod Cered yn bodoli, ond nid ydynt yn weithgar yng nghymuned Penparcau hyd y gwela i, neu mae yna bethau rhyfedd fel dysgu i chwarae'r banjo neu rywbeth rhyfedd o'r fath. Mae angen canolbwyntio ar ysgolion fel XXXX, nid yr Ysgol Gymraeg sydd eisoes yn gwneud y math hyn o beth.</p>
<p>Cytuno gyda'r cynllun ac gweithredodd</p>	<p>Byddai'n beth da darparu deunyddiau am faterion cyfoes yn Gymraeg. Mae llawer o hen bethau nad ydynt yn berthnasol i'r byd heddiw – nid oes gan blant ddiddordeb yn yr Eisteddfod, Cymdeithas yr Iaith na Dafydd Iwan. A allwn ni gael set ryngwladol fwy cyfoes o ddeunyddiau dysgu sy'n mynd tu hwnt i'r 60au?</p>	<p>Fe hoffwn i wybod beth fydd yn digwydd i leoliadau gofal plant nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg? Ble mae'r cymorth iddyn nhw a beth fydd yn digwydd i siaradwyr Saesneg sy'n ceisio dysgu Cymraeg?</p>
<p>Anodd gweld sut y gallai'r cynllun wneud mwy yn y cyfeiriad yma - hwyrach fod llawer o'r atebion i'w canfod yn y gymdeithas ehangach, y cyfryngau torfol a datblygiad datganoli yng Nghymru</p>	<p>Mae Saesneg yn iaith ryngwladol sydd o fwy o fudd i blant na'r Gymraeg.</p>	

<p>Rwyf yn hapus gyda'r cynllun arfaethedig gan obeithio y caiff ei dderbyn ,ei gefnogi ei fabwysiadu gydag adnoddau dynol, ariannol ac angerdd.</p>	<p>Rydych yn ffafrio'r Gymraeg ar draul y Saesneg felly nid oes cydbwysedd cyfartal. Dylid defnyddio lleoliadau dwyieithog, nid dim ond lleoliadau Cymraeg, ac fel rhiant nad yw ei blentyn cyntaf wedi dechrau yn yr ysgol eto, mae'n codi ofn arnaf na fyddaf yn cael dewis oni bai imi symud. Ni fydd darlithwyr prifysgol na meddygon sy'n dod yma o bob rhan o'r byd am ddod i weithio yng Nghymru oherwydd bydd angen Saesneg ar eu plant hefyd. Bydd hyn yn effeithio ar eu haddysg. Drwy wneud yr hyn yr ydych yn bwriadu'i wneud, rydych yn ffafrio'r Gymraeg. Dylai rhieni gael dewis dros eu plant. Defnyddiwch fwy o'r Gymraeg mewn lleoliadau, ond peidiwch â chael gwared ar y Saesneg. Gallai'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg gael gwersi Cymraeg fel dosbarth i'w helpu, ond mae'r Saesneg yr un mor bwysig i'w haddysg hefyd.</p>	<p>Rwy'n meddwl fy mod wedi mynegi fy nheimpladau'n glir. Mae'r cwestiynau hyn hefyd braidd yn bleidiol – nid ydynt yn gwahodd trafodaeth agored am y cynllun; yn hytrach mae'r cwestiynau wedi'u geirio mewn ffordd sy'n peri iddi fod yn anodd mynegi'r hyn sydd o'i le â'r cynllun pan fo'r rhan fwyaf o'r cwestiynau'n rhai cytuno/anghytuno. Nid yw datganiadau cyffredinol sydd i bob pwrpas yn gofyn 'ydych chi'n meddwl ei fod yn beth da bod plant yn dysgu ieithoedd newydd?' yn sail ar gyfer trafodaeth go iawn.</p>
<p>Gan fod tîm arbenigol o staff yn arwain ac yn rhan o'r broses weithredu ar Gynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg yng Ngheredigion, maent wedi creu systemau sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg e.e. cynllun Cardi Iaith i wobrwyo disgyblion Cynradd am ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg – trwy gydweithio gyda! siopau/busnesau lleol. Mae holl waith Tîm Cefnogi'r Gymraeg mewn Addysg yng Ngheredigion yn safonol ac effeithiol. Campus</p> <p>Gweler tudalen 2 CySGA: Rhaid canmol yn fawr iawn y weledigaeth sydd gan Geredigion. Mae'r 3 nod strategol yn wych ac yn gynhwysfawr, ac yn gosod arweiniad cadarn i weddill y ddogfen, a rhaid canmol Ceredigion am anelu at bob disgybl yn derbyn addysg drochi cyfrwng Cymraeg hyd nes bydd yn 7 oed, ac am yr agwedd uchelgeisiol o anelu at 100% o ddisgyblion</p>	<p>Gallai Ceredigion addasu'r cynllun i adlewyrchu gweddill Cymru, gyda'r mwyafrif llethol o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg, ond gan gadw lleiafrif o ysgolion cyfrwng Saesneg yn agored er mwyn i rieni gael dewis ynghylch addysg eu plant.</p>	<p>Rwyf o blaid dysgu Cymraeg i'm plant yn yr ysgol, ond nid fel iaith gyntaf. Nid ydych wedi ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael, nid dim ond ar y myfyrwyr ond ar y teuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg. Sut y byddwn yn cynorthwyo ein plant â'u gwaith cartref pan nad ydym yn gallu deall? Bydd hyn yn rhoi straen ar rai teuluoedd sydd eisoes o dan bwysau oherwydd ffactorau eraill. Ydych chi wedi ystyried y pwysau gwaith ar yr ysgol a'r staff os na chaiff targedau eu bodloni? Gallai plant golli diddordeb yn eu haddysg o ganlyniad i gael eu taflu i'r pen dwfn a'u gorfodi i ddysgu iaith nad ydynt yn gyfarwydd â hi a chael eu haddysgu ynddi. Fel y dywedais eisoes, dewisais ysgol cyfrwng Saesneg â rhai elfennau Cymraeg i'm plant a byddaf yn hollol anfodlon os caiff ein dewis ei ddiddymu.</p>

<p>Blwyddyn 1 Ceredigion yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Pob hwyl gyda'r gwaith pwysig.</p>		
<p>Teg dweud bod dysgu neu ail-ddysgu iaith yn haws pan fo amser a chefnogaeth deilwng o'ch plaid boed yn oedolyn neu ddisgybl. Mae'r sefyllfaoedd anffurfiol yn hwb mawr tuag at gyflwyno a chadarnhau unrhyw dasg</p>	<p>Rwy'n credu y dylai Cymraeg gyfrif fel pwnc, fel Mathemateg a Saesneg, ac y dylid cyflwyno cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n iawn bob blwyddyn; yna, pan fydd y plant yn yr ysgol uwchradd ac yn dewis pynciau TGAU, gallant ddewis a ydynt am barhau ai peidio. Ni ddylid gorfodi hyn, ond ei gynnig fel opsiwn.</p>	<p>Rydym yn dref brifysgol gydag ysbyty gwych. Yn anffodus, ni fydd llwybr Cymraeg yn unig ond yn troi pobl i ffwrdd – y fath wahaniaethu.</p>
<p>Mae'r cynllun yn berthnasol, yn gynhwysfawr ac i'w groesawu'n fawr.</p>	<p>Drwy barhau i fod yn ddwyieithog; peidiwch â chael gwared ar Saesneg sy'n iaith angenrheidiol, ond ewch ati i'w dysgu ochr yn ochr â'r Gymraeg.</p>	<p>Ceir 35 cyfeiriad at ysgolion "cyfrwng Cymraeg" yn y Cynllun Strategol.</p> <p>Dim ond un cyfeiriad a geir at ysgolion "cyfrwng Saesneg" a hyd yn oed wedyn dim ond yng nghydestun yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Aberystwyth. A yw'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cadw ysgolion cyfrwng Saesneg yng Ngheredigion? Nodir yn benodol y ffaith bod Aberystwyth yn gartref i brifysgol ryngwladol y mae ei myfyrwyr a'i staff (a'u teuluoedd) bron i gyd yn gallu rhyngweithio â'u cymuned drwy gyfrwng y Saesneg. Os [nad] yw'r Awdurdod Lleol yn bwriadu darparu ysgolion cyfrwng Saesneg, a fydd yn mynd ar drywydd lle nad yw ond yn cyflwyno ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig ddwy flynedd tu ôl i oedran y plant sy'n mynd i'r meithrin nawr? Nodir yn benodol yr effaith ddinistriol y bydd hyn yn ei chael ar ganlyniadau bywyd plentyn yng ngofal addysgol Ceredigion os yw'n dod o aelwyd cyfrwng Saesneg a bod disgwyl yn sydyn iddo/iddi gael ei (h)addysg yn Gymraeg.</p>
<p>Cynllunio'n strategol a monitro'r cynllun.</p> <p>Mae'r wybodaeth a rannwyd yn yr adborth hwn yn amlygu'r cyfle i faes Dysgu Cymraeg gydweithio'n</p>	<p>Ceir 35 cyfeiriad at ysgolion "cyfrwng Cymraeg" yn y Cynllun Strategol. Dim ond un cyfeiriad a geir at ysgolion "cyfrwng Saesneg" a hyd yn oed wedyn dim ond yng nghydestun yr hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Aberystwyth.</p>	<p>Ceir gogwydd tuag at addysg cyfrwng Cymraeg yn yr holiadur hwn, ac mae'n amlwg iddo gael ei ysgrifennu gan staff sydd am ddiddymu'r dewis.</p>

<p>strategol yn fwy agos ag awdurdodau addysg lleol ar nifer o amcanion pwysig.</p> <p>Fel darparwr rhanbarthol, byddai Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr (Prifysgol Aberystwyth) yn croesawu'r cyfle i wasanaethu ar y fforwm a fydd yn cynllunio ac yn monitro gweithrediad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.</p> <p>Byddai hynny yn ein galluogi i gynllunio yn rhagweithiol, er enghraifft wrth gynllunio cyrsiau Cymraeg yn y Cartref i gefnogi cynlluniau i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar</p>	<p>Parthed: "fel bod effeithiau cadarnhaol pellach ar gyfleoedd disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg". A fyddwch yn sicrhau bod ysgolion cyfrwng Saesneg yn parhau yng Ngheredigion (yn Aberystwyth) er mwyn ichi beidio â thrin y Saesneg yn llai ffafriol na'r Gymraeg?</p>	
<p>Cyfleoedd allgyrsiol mor bwysig!</p>	<p>Byddai'n braf pe bai modd ichi ddweud na fydd pobl yn cael eu cosbi am ddefnyddio'u dewis iaith ac y gallai pob un ohonom wneud ymdrech i gyfathrebu mewn dosbarthiadau cymysg lle nad oes neb yn well na neb arall. Mae'n ymwneud â chyfathrebu da nid iaith.</p>	<p>Dylid anelu at ddwyieithrwydd ym mhob ysgol. Dylid peri i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn fwy atyniadol i rieni, drwy gefnogaeth ac anogaeth, yn hytrach na thrwy ddiffyg dewis. Ar hyn o bryd, gall rhieni ddewis pa ysgol sydd orau i'w plant. Bydd y cynnig hwn yn diddymu dewis rhieni os nad oes arnynt eisiau i'w plant fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg. Gall fod yn anodd denu rhai gweithwyr proffesiynol, fel meddygon, i'r ardal, ac rwy'n credu y bydd hyn yn peri iddi fod yn anoddach os oes teulu'n dod gyda nhw. Bydd, bydd dosbarthiadau 'dal i fyny' ar gael mewn un ysgol ar naill ben y sir a'r llall, ond nid ym mhob ysgol, felly ni fydd dewis o ysgolion i rai. Mae hyn yn debygol o fod yn ffactor a fydd yn peri i rai gweithwyr proffesiynol benderfynu peidio â dod i'r ardal ac fe allai arwain at brinder sgiliau yng Ngheredigion. Mae Ysgol XXXX yn ysgol wych o amrywiol ac amlddiwylliannol. Mae gan fy meibion ffrindiau o lawer o wahanol genhedloedd, diwylliannau, ethnigrwydd a chrefyddau. Rwy'n gwybod bod nifer dda o'r myfyrwyr yn cyrraedd heb iddynt allu siarad Cymraeg na Saesneg. Rwy'n pryderu y bydd ei throï'n ysgol cyfrwng Cymraeg yn hytrach nag ysgol ddwyieithog yn rhoi mwy o bwysau</p>

		ar staff i gynorthwyo plant sy'n cyrraedd heb fod yn gallu siarad Cymraeg na Saesneg, ac y gallai beri iddi fod yn llawer anoddach iddynt bontio i'r ysgol.
Mae'n gam hynod bwysig bod y Gymraeg yn cael ei datblygu fel sy'n cael ei nodi yn y cynllun hwn. Mae'n sicrhau cyfartaledd i bawb yn y gymdeithas yma yng Ngheredigion. Yn hanesyddol mae'r Gymraeg wedi ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ond mae'r cynllun hwn yn un cam pellach tuag at unioni'r sefyllfa honno.	Yr hyn y byddwn wir yn hoffi'i weld yw lleoliadau dwyieithog, ond efallai mwy o Gymraeg na Saesneg. Rwy'n deall yn llwyr, o fyw yng Nghymru, bod siarad Cymraeg yn bwysig. Ond rwy'n teimlo bod cau pobl allan a pheri iddynt deimlo nad oes croeso iddynt yn anghywir. Rwy'n teimlo efallai y dylai canran uwch o'r staff allu siarad Cymraeg, ond nid o reidrwydd pawb.	Bydd bron i bob athro/athrawes sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Gymro/Gymraes/wedi'i (h)addysgu yng Nghymru. Mae angen inni sicrhau nad yw hyn yn arwain at leihau amrywiaeth ymhlith yr athrawon sy'n dysgu yn ein hysgolion. Yng Ngheredigion, mae llawer o'r athrawon yn aros yn eu hunfan – yn aml yn dysgu yn yr un ysgol am y rhan fwyaf o'u gyrfa. Mae'n fuddiol symud o gwmpas a chael syniadau o'r tu allan i Gymru hefyd.
Byddai'n gret cael mwy eto o glybiau atyniadol Cymraeg i CA2 a CS fydd yn cael ei gynnig gan yr Urdd mewn lleoliadau cyfleus e.e De / canol/ gogledd Aberystwyth? Rhywbeth a fydd yn fwy atyniadol na Rainbows/ scouts/ guides sydd yn draddodiadol Saesneg. Mae llawer o'r plant cs yn mynychu gwersi nofio Saesneg nawr hefyd gan nad oes nofio ysgol. Hefyd merlota /hiphop /gymnasteg a pheldroed. Heriau ysgolion bach. Un athro a phennaeth a chynorthwywyr sydd ddim ar gael i gynnal clybiau.	Dylid parhau i ddysgu Cymraeg fel ail iaith i ddisgyblion os mai dyna ddewis y rhieni. I rai, mae hyn yn gadarnach o safbwynt addysgol oherwydd nad oes Cymraeg ar yr aelwyd, yn enwedig y rheini ag ADY. Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i'r rheini sy'n gofyn amdani ac mae cludiant yn cael ei ddarparu.	Mae dwyieithrwydd yn golygu bod angen rhoi gwerth ar y ddwy iaith, a rhoi blaenoriaeth deg a chyfartal iddynt. Mae angen ennyn diddordeb y plant drwy eu diddordebau. Cadwch ddewis iaith ar gyfer arholiadau. Gallai maint y straen ar lawer o'r plant sy'n cael eu gorfodi i fynegi'u hunain bron yn gyfan gwbl drwy gyfrwng ail iaith achosi problemau iechyd meddwl.
Digon o gyllid i allu cyflawni'r hyn sydd yn y cynllun. Mwy o wersi Hanes sy'n ymwneud â'n hanes ni fel cenedl. Annog ein Cymry Cymraeg cynhenid i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf bob amser.	Mae'r cynigion yn trin y Saesneg yn llai ffafriol na'r Gymraeg. Dylid ei thrin yn gyfartal. Dylid anelu at ddwyieithrwydd, nid cyfrwng Cymraeg.	Dylai fod modd i rieni gael dewis i anfon eu plant i leoliad dwyieithog; mae'r dewis hwn yn gynyddol brin.
Mae angen sicrhau fod ysgolion yn rhan o'u cymunedau gyda buddsoddiad mewn adnoddau i gyflawni hyn. Gellid er enghraifft cael clybiau 'hwyll wrth ddysgu Cymraeg' lle y daw henoed di-Gymraeg at blant sy'n medru a/neu dysgu Cymraeg a henoed Cymraeg iaith gyntaf at blant sy'n dysgu Cymraeg. Mantais rhywbeth fel hyn yw bod perthynasau a	Cynnal dwyieithrwydd. Gofynnwch i'r plant beth fyddai'n peri iddyn nhw fod eisiau dysgu ac ymgysylltu yn Gymraeg. Dylech ganolbwyntio ar ddiwylliant y byd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac nid dim ond addysgu am ddiwylliant Cymru. Defnyddiwch ddiddordebau'r plant i ennyn eu diddordeb. Cadwch y Saesneg, a pheidiwch â gorfodi plant i sefyll arholiadau yn Gymraeg os nad	Fel y dywedwyd, mae diddymu dewis bob amser yn broblem. Dylai rhieni fod mewn sefyllfa i benderfynu pa iaith fyddai'n addas i'w sefyllfa nhw. Mae hefyd angen ailwampio'r ddogfen gynllunio er mwyn iddi fod yn gydnaws ag astudiaethau ac ymchwil ynghylch dwyieithrwydd a newid cod. Fel y mae, mae'r cynlluniau'n rhwym o wneud pethau'n waeth, nid yn well. Maent hefyd ymhell o gyflawni'r hyn y maent yn

<p>dealltwriaeth yn datblygu wrth gael hwyl. Mi fyddai hefyd yn hwb i hyder plentyn sy'n dysgu'r iaith i fod yn athro am damed yn lle dysgwr. Mi fyddai'n hwyl.</p>	<p>ydynt am wneud hynny. Os nad ydynt yn hyderus yn y Gymraeg, gall nad yw eu canlyniadau'n adlewyrchiad cywir o'u gallu. Sut y mae hynny'n deg i'r plentyn? Rwy'n siaradwr Cymraeg rhugl balch, ac fe ddysgais yn ddwyieithog drwy'r ysgol gynradd, ac yn bennaf yn Saesneg yn yr ysgol uwchradd. Ni chafodd ei gorfodi arnaf, ac felly fe ddysgais i'w charu'n organig.</p>	<p>bwriadu'i gyflawni drwy gyflwyno mesurau pellgyrhaeddol gyda dewisiadau 'naill ai-neu' ar gyfer teuluoedd na fyddant yn gweithio.</p>
<p>Yn ogystal â chanolbwyntio ar ddysgwyr y Gymraeg, byddai'n dda annog siaradwyr Cymraeg i deimlo'n hyderus i fwynhau defnyddio'r Gymraeg - yn ei holl amrywiaeth - ymhob cyd-destun posib, gan gynnwys wrth sgwrsio â dysgwyr. Rydych yn nodi hyfforddiant lefel uchel i athrawon MDaPh I Ll a Ch a byddai'n dda gweld cydweithio rhwng y Sir a'r Brifysgol hyn hyn o beth.</p>	<p>Dylid ei newid er mwyn i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu ffafrio i'r un graddau â'i gilydd, yn hytrach na thrin y Saesneg yn llai ffafriol na'r Gymraeg. Mae dwyieithrwydd yn rhodd a dylid annog hyn.</p>	<p>Gweler f'ateb cyntaf. Mae hyn yn wahaniaethu llwyr ac amlwg yn erbyn plant o Gymru sy'n siarad Saesneg; lle bu dewis, ceir gorfodaeth nawr.</p>
<p>Mae'n allweddol cyflwyno targedau mwy heriol o CA2 a'r sector uwchradd ac addysg bellach os am wireddu'r weledigaeth 10 mlynedd.</p>	<p>Dylai fod lle i gyfaddawdu. Bydd angen i o leiaf un ysgol mewn ardaloedd trefol ganiatáu addysg Saesneg a Chymraeg i rai 3-7 oed. Byddai modd dysgu pynciau penodol yn Gymraeg yn unig. Byddai modd i hanner y diwrnod fod yn Gymraeg, a'r hanner arall yn Saesneg.</p>	<p>Cydraddoldeb ac amrywiaeth – ewch ati i'w coleddu!</p>
<p>Os ydyn ni am fynd ar y daith i gyrraedd miliwn o siaradwyr a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050 - mae angen i ni fynd amdani! Mae angen targedau ar gyfer normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyrraedd y nod hirdymor. Mae angen esbonio manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn eu holl waith a'r rhesymau dros gynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg i bawb.</p>	<p>Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i gael eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg a, thrwy hynny, ni fyddwch yn trin y Saesneg yn llai ffafriol na'r Gymraeg.</p>	<p>Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>
<p>Angen ystyried staff cyflenwi - mae rhai ysgolion Cymraeg yng Ngheredigion wedi bod yn defnyddio staff cyflenwi sydd ddim yn rhugl eu Cymraeg. Hefyd</p>	<p>Cynyddwch nifer yr oriau sy'n cael eu neilltuo i ddysgu'r Gymraeg fel pwnc. Dysgwch fwy o hanes</p>	<p>Fe symudais i Aberystwyth o Loegr 15 mlynedd yn ôl ac, ers hynny, rwyf wedi dod yn fam i blentyn sy'n bedair oed erbyn hyn. Rwy'n ddysgwr Cymraeg</p>

<p>angen ystyried iaith y staff - ni ddylai staff mewn ysgolion Cymraeg fod yn siarad Saesneg yn yr ystafell staff ayyb.</p>	<p>Cymru er mwyn i blant arddel eu Cymreictod, cynyddu gwladgarwch.</p>	<p>brwdfrydig a balch. Rwyf wedi dewis ysgol gynradd ddwyieithog i'm mab ac rwyf wrth fy modd ei fod yn dysgu Cymraeg yno fel rhan o'i gwricwlwm. Nid Cymraeg yw ein hiaith gyntaf ar yr aelwyd, ond rydym yn sgwrsio cymaint ag y gallwn gan ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd gennym, i ddatblygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu, ond rydym gryn ffordd o fod yn rhugl. Mae gennyf bryderon go iawn am Gynllun Strategol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Targed Llywodraeth Cymru yw sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a meithrin dwyieithrwydd yn ein cymuned, ac rwy'n cefnogi'r targed hwn yn llwyr. Fodd bynnag, mae strategaeth CSC mewn gwirionedd yn mynd ymhell tu hwnt i hyn, ac, mewn gwirionedd, mae'n mynd yn groes i darged Llywodraeth Cymru o ddwyieithrwydd drwy symud tuag at ddarpariaeth uniaith Gymraeg yn y tymor hir. Nid yw strategaeth sy'n cynnig 'trochi llwyr yn y Gymraeg' hyd at saith oed yn cyd-fynd â dwyieithrwydd. Fy mhryderon, rhai ohonynt yn seiliedig ar f'amgylchiadau personol, yw y bydd y strategaeth yn effeithio'n annheg ac yn negyddol ar addysg unigolion, y corff ehangach o blant lleol, a'u rhagolygon yn y tymor hir.</p> <p>1) Fel siaradwr amrodorol, er fy mod yn dysgu Cymraeg, fe ddewisais ysgol ddwyieithog oherwydd fy mod yn cefnogi dysgu'r Gymraeg yn llwyr, ond mae arnaf eisiau gallu cynorthwyo fy mab â'i waith cartref, yn awr ac yn y dyfodol wrth i'w allu yn y Gymraeg ddatblygu. Pe bai'r ddarpariaeth Gymraeg yn cynyddu ar draws pob pwnc allweddol, byddai'n peri gofid imi pe na bai modd imi gynnal fy sgiliau Cymraeg i'w gynorthwyo. Nid yw'n bosibl imi ddysgu'n gyflymach nag yr wyf yn ei wneud ar hyn o bryd, fel mam sengl sy'n gweithio ar sail amser llawn (a goramser) heb deulu yn yr ardal i helpu â gofal plant.</p>
--	---	---

2) Pe bai myfyrwyr yn absennol o'r ysgol am gyfnodau hir yn y dyfodol (fel y cyfnodau clo diweddar yn ystod y pandemig neu os bydd cyflyrau iechyd hirdymor yn peri iddi fod yn ofynnol i blentyn dreulio cyfnodau yn yr ysbyty), fel rhywun nad yw'n siarad Cymraeg yn rhugl, ni fyddwn yn gallu cynorthwyo fy mhlentyn i ddysgu gartref yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn peri anfantais ddwbl i'r plentyn, drwy iddo lithro ar ei hôl hi oherwydd absenoldeb estynedig AC oherwydd nad oes cymorth cyfrwng Cymraeg wrth law i ddysgu cymaint ag y gellir ar adeg o'r fath. Nid yw'r sefyllfa hon yn deg ar y dysgwr, ni waeth beth fo'i allu academaidd. Mae'r pandemig diweddar wedi tynnu sylw at y mater penodol hwn ac nid yw'n ddigon da cymryd yn ganiataol na fydd cyfnodau clo fyth yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol. Nid yw ychwaith yn ddigon da cymryd yn ganiataol na fydd absenoldebau hirdymor am resymau iechyd yn effeithio ar lawer o blant; mae pob plentyn yn haeddu cyfle teg i ddysgu.

3) Mae'r cam tuag at fwy o Gymraeg, neu hyd yn oed Gymraeg yn unig ym mhob ysgol gynradd, yn diddymu dewis rhieni, ac nid yw hynny'n ddemocrataidd. Ar hyn o bryd, gellir dewis ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, ac ni allaf weld sail resymegol deg dros ddiddymu'r dewis hwnnw, oni bai nad oes croeso i ddysgwyr neu siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl fyw yng Ngheredigion. Pe bawn yn symud i wlad yn yr UE, byddwn yn mynd ati'n benodol i ddewis anfon fy mhlentyn i ysgol ryngwladol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Saesneg; byddai'r swydd a'r lleoliad y byddwn yn eu dewis yn dibynnu ar gael y dewis hwn. Byddwn yn disgwyl i'r dewis hwn fod ar gael i bawb yng Nghymru, yn yr un modd ag unrhyw wlad yn yr UE.

4) Byddai diffyg dewis o ran mynediad at addysg yn eu dewis iaith yng Ngheredigion yn annog rhai rhieni i ystyried byw a gweithio rywle arall. Yn wir, gallai godi

		<p>cwestiynau difrifol ymhlith y rheini sy'n ystyried symud i'r sir a chanddynt blant ifanc neu gynlluniau i ddechrau teulu. Fel tref brifysgol, mae llawer o'r preswylwyr yn symud i'n cymuned i ddod â sgiliau ac arbenigedd penodol o bob rhan o'r byd, gan ddod â budd i'n cymuned a dangos sut y mae Ceredigion yn croesawu amrywiaeth a chydaddoldeb sy'n cael eu dathlu a'u meithrin. Byddai'r strategaeth addysg yn lleihau ac yn niweidio parhad ein cymuned ddynamig, gynhwysol a chyfeillgar. Mae f'ymateb a oedd yn rhy hir ar gyfer adran 20 yn parhau fan hyn:</p> <p>At hynny, mae gennym brinder staff meddygol ym Mronglais na all y gymuned leol eu cyflenwi. O beri nad yw pobl heb allu yn y Gymraeg am symud i'r ardal, bydd yn arwain at ddraen sgiliau difrifol ac andwyol, gan effeithio'n ddifrifol ar y gymuned ehangach.</p> <p>4. Byddai plant sy'n symud i'r ardal heb unrhyw sgiliau Cymraeg dan anfantais ddifrifol oherwydd byddent yn symud i leoliad addysgol cyfrwng Cymraeg yn unig a byddai risg uchel y byddent yn llithro ar ei hôl hi ni waeth beth fo'u gallu academaidd. Mae hyn yn annheg ac fe allai gael canlyniadau difrifol yn y tymor hir. Mae'n realistig y gallai cyrhaeddiad academaidd mesuradwy ddisgyn mewn ysgolion (asesiadau Cyfnodau Allweddol, TGAU a Safon Uwch) a siawns nad yw cyrhaeddiad gwael/methiant ysgolion yn rhywbeth y mae Ceredigion am fod yn adnabyddus amdano. Yn ei dro, gallai hyn effeithio ar lwyddiant pobl ifanc o ran cael lleoedd mewn prifysgolion ledled y DU a thu hwnt, a gallai hyn effeithio ar eu rhagolygon gyrfa. Rwy'n gobeithio fy mod yn anghywir, ond nid oes gennyf lawer o ffydd y bydd ein pryderon yn cael eu hystyried na'u defnyddio i addasu ac i wella'r strategaeth a amlinellwyd.</p>
Gorau po gyntaf y bydd ymgynghoriad er mwyn symud ymlaen.	Mae dewis eang o ysgolion Cymraeg eu hiaith yng Ngheredigion, a nifer eithriadol o gyfyngedig o rai	Mae recriwtio staff i weithio i gyflogwyr fel y Brifysgol yn ystyriaeth y bu inni gyfeirio ati yn gynharach yn ein

	<p>cyfrwng Saesneg. Drwy gael gwared ar y dewisiadau Saesneg yn unig, rydych yn diddymu hawl pobl i addysg yn eu hiaith gyntaf. Rydych yn diddymu dewis pobl pan fo'r dewis hwnnw eisoes yn gyfyngedig. Mae'r cynnig hwn wedi peri i mi a'm teulu ystyried o ddifrif a yw Ceredigion yn lle y gallwn fyw ynddo yn y tymor hir, os na fydd modd i'n plant ddysgu'u hiaith gyntaf nes eu bod yn wyth oed.</p>	<p>hymateb. Rydym yn credu bod buddsoddiad ychwanegol mewn Canolfan Iaith yn ardal Aberystwyth yn gam angenrheidiol sydd i'w groesawu. Mae ein profiad ni fel cyflogwr yn dweud wrthym nad yw polisi iaith yr ysgolion yn fater sy'n destun pryder i ddarpar ymgeiswyr am swyddi. Fodd bynnag, mae ganddynt ddiddordeb clir yn ansawdd yr ysgolion a'u canlyniadau addysgol.</p>
<p>a) mae'r cynllun yn gosod allan yn glir beth sydd angen ei wneud - a gorau po gynted mae hyn yn cael ei wneud.</p> <p>b) y gobaith yw y bydd arweiniad tuag at ddefnydd positif o'r iaith Gymraeg, fel canlyniad o ddechrau'r broses yn fuan.</p> <p>> Mae'r cynllun yn eglur & hoffem ddatgan bob canmoliaeth i'r Awdurdod am fod ar flaen y gad yn y broses.</p> <p>> 'Rydym yn croesawu mai cynllun 10 mlynedd ydy hwn ond da o beth petasai cynllun hir-dymor (o leiaf 3-5 mlynedd) o ran CYLLIDO hefyd er mwyn hwyluso cynllunio ymlaen-llaw.</p>	<p>Mae angen gwell cymorth ar gyfer dysgwyr Cymraeg i Oedolion er mwyn iddynt allu cynorthwyo a meithrin eu plant drwy'r ddarpariaeth Gymraeg bresennol, a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy ei meithrin ymhlith oedolion a'u teuluoedd, yn hytrach na'i gorfodi ar blant. Er mwyn i oedolion ddysgu, mae angen i gyflogwyr sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg neilltuo amser penodol wedi'i ddiogelu i'w gweithwyr ddysgu'r iaith. Hwn yw'r rhwystr mwyaf rhag i oedolion ddysgu'r iaith, gan fod rhieni prysur â swyddi amser llawn yn ei chael yn anodd dysgu drwy ddisbarthiadau nos. Mae'r broblem hon yn dwysáu yn achos rhieni sengl heb lawer o ofal plant a ddarperir gan aelodau o'u teulu neu ofal plant ffurfiol (drud).</p> <p>b) Plís rhowch y gorau i'r cynnig, mae dewis gan rieni ar hyn o bryd ac mae'r dewis hwnnw'n cael ei ddiddymu. Gall hyn fagu dicter tuag at y Gymraeg ymhlith siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, a bydd y strategaeth yn cael effaith sy'n groes i'w phrif nod. Mae'r cynigion yn bwriadu trin y Saesneg yn llai ffafriol na'r Gymraeg, ac mae hyn yn anghywir.</p>	<p>Mae Aberystwyth yn dref amlddiwylliannol. Nid yw'r newidiadau hyn yn ystyried yr amrywiaeth hon. Mae plant o dros 25 o genhedloedd yn ysgol fy mhlentyn. I lawer o'r disgyblion hyn, mae'r Saesneg yn ail iaith ac mae'n bosibl nad oes gan eu rhieni ond sgiliau Saesneg sylfaenol. Bydd y plant hyn yn ei chael yn anodd os na fyddant ond yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Mae gan Aberystwyth broblem real a sylweddol o ran recriwtio meddygon, deintyddion, fferyllwyr, ymwelwyr iechyd, bydwragedd, ac ati. Os na fydd modd i'w plant fynd i ysgol sy'n dysgu drwy gyfrwng y Saesneg, bydd yn peri nad yw llawer o weithwyr proffesiynol am symud yma. Rwyf innau'n feddyg teulu. Rwyf wedi byw yma am 11 mlynedd. Ni fyddem wedi symud yma pe bai'r ysgolion wedi bod yn rhai cyfrwng Cymraeg yn unig. Byddem hefyd wedi mynd ati o ddifrif i ystyried symud o'r ardal pe bai'r newidiadau hyn yn effeithio ar ein plant. Rwy'n credu'n gryf y dylid gwneud unrhyw newidiadau i addysg oherwydd bod hynny er lles pennaf y plant. Nid wyf yn credu bod hyn yn wir yn achos y newidiadau arfaethedig hyn. Mae angen inni eirioli dros y plant y bydd y newidiadau hyn yn niweidiol iddynt. Oni bai fod plentyn yn glyfar, ac nad yw'n wynebu unrhyw anawsterau o ran darllen/ysgrifennu/cyfathrebu, rwy'n credu y bydd yn ei chael yn anodd.</p>

		Bydd hefyd ar blant angen rhiant sy'n dangos diddordeb ac a fydd yn gwneud cryn ymdrech i sicrhau eu bod yn gallu darllen ac ysgrifennu – nid oes gan bob plentyn riant sy'n gallu gwneud hyn/yn barod i wneud hyn. Ni allaf weld bod cyfiawnhad dros ddiddymu dewisiadau a chyfleoedd rhieni a phlant.
Dim sylw penodol ond eich llongyfarch ar weledigaeth mor gadarn.	Mae'n werth nodi'r cyfle i ddatblygu syniadau i gydweithio â Phrifysgol Aberystwyth ar ymchwil, arloesi a chyfnewid gwybodaeth, oherwydd gallai'r pethau hyn ychwanegu gwerth ac ychwanegu mwy o effeithiau cadarnhaol.	Mae'r strategaeth hon yn destun pryder mawr imi. Mae gennyf blentyn sydd eisoes yn wynebu anawsterau lleferydd yn Saesneg ac rydym yn ei chael yn anodd cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arno. Os bydd yn mynd i'r ysgol ac yn cael ei orfodi i ddysgu mewn iaith nad yw ei rieni'n gwybod dim amdani, bydd yn llithro hyd yn oed ymhellach ar ei hôl hi. Mae hyn mor anghywir ac mae'n peri pryder mawr imi. Plîs peidiwch â rhoi'r strategaeth hon ar waith. Ar bob cyfrif, gadewch i blant ddysgu Cymraeg ac rwy'n cefnogi hynny'n llwyr, ond os ydym wedi dewis ysgol cyfrwng Saesneg yn y lle cyntaf, rydym wedi gwneud hynny am reswm. Gall plant ddewis pa iaith y maent am ei gwneud pan fyddant yn hŷn, peidiwch â'i orfodi arnynt mor ifanc.
Mae angen sicrhau darpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid, a gellid rhoi rhagor o sylw i hyn. Mae datblygiadau cadarnhaol yn y cynllun, ond mae angen rhagor o sylw ar sicrhau dilyniant a chryfhau sgiliau iaith myfyrwyr o'r lefel gynradd (lle mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn Gymraeg) i flwyddyn 12 a 13 (lle mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn Saesneg). Heb y dilyniant hwn, mae'n anodd iawn adeiladu gweithlu dwyieithog. Mae'r Cynllun yn sôn am ymchwil Dr Lowri Cunnington Wynn (Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg) ond dylid nodi bod canfyddiadau'r prosiect hwn yn fwy eang nag y mae'r Cynllun yn ei awgrymu. Mae Ysgol XXX yn un astudiaeth achos yn yr astudiaeth ond gellid	Rhoi darpariaeth ar waith ar gyfer rhieni disgyblion nad ydynt yn siarad/darllen/ysgrifennu Cymraeg, sicrhau bod pecyn o gymorth ar gael yn rhwydd – gwersi Cymraeg am ddim, gwefan benodedig ar gyfer rhieni i'w cynorthwyo â gwaith cartref, sut i ynganu'r Gymraeg, ac ati.	Bydd Cyngor Ceredigion yn anwybyddu'r hyn yr wyf yn ei ddweud oherwydd nid yw fy marn yn cydweddu â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cenedlaetholdeb Cymreig. Mae i safbwyntiau Llywodraeth Cymru ogwydd ac maent yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ddawnus o Loegr sydd am fyw yng Nghymru a chyfrannu at ei heconomi heb fod arnynt bwysau i siarad Cymraeg.

<p>cynhwysu'r canlyniadau yn fwy cyffredinol. Yn benodol, mae'r profiadau cymunedau lle mae rhai plant yn mynd drwy addysg Gymraeg tra bod eraill yn mynd drwy addysg Saesneg yn arwain ffurffio grwpiau iaith, gyda'r grwpiau heb afael sicr ar y Gymraeg yn llai tebygol o deimlo eu bod nhw'n perthyn o fewn eu cymunedau sy'n gallu bod yn ffactor sy'n arwain at rai pobl ifanc yn allfudo. Mae defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd a lefel cymhathu rhieni yn y gymuned leol yn ffactorau sy'n annog defnydd o'r Gymraeg ac mae angen rhoi sylw i'r ffactorau ehangach hefyd wrth hyrwyddo addysg Gymraeg.</p>		
<p>Mae cyfathrebu polisi iaith yr ysgol gyda'r rhieni, o'r cychwyn cyntaf, yn hynod o bwysig. Mae angen i'r rhieni ddeall bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil na ellir ei hanwybyddu</p>	<p>Nid yw hyn yn bosibl. Oni bai eich bod wedi dysgu dwy iaith o'r crud, byddwch bob amser yn ffafrio'r naill iaith dros y llall. Nid wyf yn deall pam fod hynny'n broblem. Siawns nad yw hi'n well i blant fod yn ddysgwyr hapus a hyderus sy'n gallu ffynnu yn eu haddysg a gwneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n dod i'w rhan.</p>	<p>Serch hynny, byddaf yn trin a thrafod y mater â'r difrifoldeb y mae wir yn ei haeddu. Mae'r dyhead/weledigaeth/safbwynt polisi yn wallus iawn ar sawl lefel. Fe ofynnaf y rhain fel cwestiynau, gan obeithio y bydd o leiaf rai o'r rheini sy'n darllen yr atebion yn ceisio gwneud hynny:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Pam mynd tu hwnt i darged Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg? Pam diddymu'r holl ddarpariaeth addysg Saesneg i rai 3–7 oed? – A gafodd unrhyw rai o anafanteision pedagogaidd (yn hytrach na manteision honedig) y dyheadau (gweledigaeth) eu hystyried? Beth am yr effaith ar sgiliau Saesneg dysgwyr cynnar? O ystyried bod Saesneg yn iaith fyd-eang (er gwell neu er gwaeth), yn enwedig ym meysydd busnes ac addysg, sut y mae hyrwyddo'r Gymraeg yn mynd i effeithio ar ragolygon y bobl ifanc hyn sy'n penderfynu byw bywyd tu allan i Gymru? Pa mor gydwytodol y bydd rhieni di-Gymraeg yn gallu bod o ran cynorthwyo'u plant ifanc â'u haddysg yn yr ysgol, yn enwedig – ond nid yn unig – os bydd angen eu dysgu gartref am gyfnodau hir yn y dyfodol (e.e. yn achos pandemig arall yn y dyfodol)? – Beth fydd yr effaith ar addysgwyr neu gyflogwyr

		<p>mawr y rhanbarth (e.e. Prifysgol Aberystwyth, Ysbyty Bronglais) o ran denu a chadw staff a myfyrwyr o'r tu allan i Gymru, yn enwedig y rheini â phlant ifanc neu'r rheini sy'n bwriadu cael plant? Yn benodol, beth fydd yr effaith ar staff/myfyrwyr o'r tu allan i Gymru a allai fod yn gweithio yn Aberystwyth ar gontractau tymor byr ac sydd fwyaf tebygol o fyw eu bywydau a dilyn eu gyrfaedd tu allan i Gymru? Sut y bydd addysg drochi yn y Gymraeg o fudd i'r bobl ifanc hyn a'u teuluoedd, yn enwedig y rheini a all fod wedi bod yn cael rhywfaint o'u haddysg yn y blynyddoedd cynnar yn Saesneg (nid dim ond y rheini o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond hefyd, mewn rhai achosion, y rheini o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig)?</p> <p>– Beth yw sefyllfa'ch dyhead(gweledigaeth) o ran y gyfraith? O ystyried bod Cymru'n wlad ddwyieithog, onid oes arnoch ddyletswydd gyfreithiol i barhau i ddarparu rhywfaint o addysg Saesneg yn y blynyddoedd cynnar? Siawns nad oes gan rywun yr hawl i ddewis cael ei addysgu yn Gymraeg neu'n Saesneg? Yng Ngheredigion, mae'r dewis hwn ar gael ar hyn o bryd, ar lefel gynradd ac uwchradd, felly pam newid hyn?</p> <p>– Ai cwblhau'r cylch yw hyn? Troi'r 'Welsh Not' – sefyllfa hanesyddol drist a digalon – yn 'English Not' mewn addysg yn y blynyddoedd cynnar? Yn anecdotaidd, rwyf wedi clywed am blant ifanc yn cael eu dwrdio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg am siarad Saesneg ar yr iard chwarae (e.e. yn Aberaeron): a yw hyn yn rhan o'r polisi nad yw wedi'i fynegi?</p> <p>– I ehangu'r ddadl oddi wrth hanes digalon y 'Welsh Not', a oes unrhyw un wedi ystyried y gwersi o hanes sy'n dweud wrthym fod unrhyw ymgais i orfodi pobl i ddysgu iaith yn rhwym o fethu? Beth am ystyried yr orfodaeth i ddysgu Rwsieg yng ngwledydd y Bloc Sofietaidd neu'r ymgais i fynnu bod Afrikaans yn cael ei</p>
--	--	---

		<p>dysgu yn ysgolion Soweto yn y 70au? Rwy'n cyfaddef bod y rhain yn enghreifftiau eithafol, ond ochr yn ochr â phennod y 'Welsh Not', maent yn darlunio'r drwgdeimlad dwfn ac arhosol sy'n gallu datblygu ymhlith rhannau sylweddol o bobloedd gwlad, ac maent yn dangos yn y pen draw fod ymdrechion o'r fath yn rhwym o fethu. Fel yr ydym yn gwybod, mae Aberystwyth yn gymuned amrywiol iawn o bobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, gyda chyfran sylweddol o fyfyrwyr a gweithwyr rhyngwladol, ac mae llawer o ieithoedd yn cael eu siarad yno. Mae'r dref yn elwa'n fawr o'r amrywiaeth ddiwylliannol hon a dylem ochel rhag dyheadau / gweledigaethau / polisiau / targedau (dewiswch eich gair) a allai beryglu'r amrywiaeth hon drwy hyrwyddo un iaith ar draul pob iaith arall. Mae'r cyfeiriad cryno ar dudalen 31 yn hollol annigonol o ran hyn: "Bod y gweithlu cyfan yn ysgolion Ceredigion yn gweld y rôl bwysig sydd ganddynt wrth greu disgyblion sy'n siaradwyr hyderus ac sy'n gweld y Gymraeg fel iaith gynhwysol a pherthnasol mewn byd o ieithoedd pwysig eraill."</p> <p>Enw – ydych chi o ddifrif? Gadewch i mi ddweud yn syml iawn fy mod wedi bod yn byw yn rhanbarth Aberystwyth ers mwy nag 20 mlynedd, fy mod yn briod a bod gennyf fab ifanc, fy mod yn gweithio yn y dref, ac fy mod yn ddysgwr Cymraeg rhan-amser sy'n cefnogi dwyieithrwydd ac amlieithrwydd os caiff ei wneud mewn ffordd synhwylol.</p>
<p>Angen sicrhau targedau mwy heriol o CA2 a'r sector uwchradd ac addysg bellach. Mae cefnogi rhieni gyda'r iaith yn ran allweddol o gefnogi disgyblion. Mae rhaglenni i rieni ar safleoedd ysgolion gyda gofal plant ar gael yn cynyddu eu hyder yn yr iaith a'u hyder yn yr iaith ar gyfer addysg eu plant.</p>	<p>Yn anffodus, oni bai eich bod am aros a gweithio yng Nghymru, nid yw'r Gymraeg o unrhyw ddiben. Rhowch yr addysg orau bosibl i'n plant a rhowch y gorau i boeni am ei chyfrwng! Os oes ar bobl eisiau'r Gymraeg, byddant yn eu hanfon i ysgol Gymraeg. Os nad oes, fyddan nhw ddim. Mae 73% eisoes yn dewis gwneud</p>	<p>Rwy'n nodi bod yr ymgynghoriad yn ymwneud â'r gofyniad statudol am i Geredigion Iunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn anochel yn canolbwyntio ar fanylion y cynllun hwn. Drwy wneud hynny, nid ydynt yn rhoi cyfle i drin a thrafod ffactorau pwysig a ddylai osod sail ar gyfer cynigion y Cyngor. Byddwn yn mynd mor bell</p>

	<p>hynny, gadewch i eraill ddewis pa iaith y mae arnynt ei heisiau!</p>	<p>ag awgrymu bod y Cyngor eisoes wedi mabwysiadu polisi na ellir anghytuno ag ef.</p> <p>Yn gyntaf, mae'r termau 'dwyieithog' a 'dwyieithrwydd' yn ymddangos yn aml yn y ddogfen. Mae Cymru, yn wir, yn wlad ddwyieithog. Mae sir fel Ceredigion yn ddwyieithog ar yr ystyr bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg a Saesneg. Mae Cymru gyfan, fodd bynnag, yn ddwyieithog ar yr ystyr bod dwy iaith swyddogol yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd. Rhaid diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg a theuluoedd Cymraeg eu hiaith, a rhaid diwallu eu hanghenion. Mae gan siaradwyr Saesneg a theuluoedd Saesneg eu hiaith hawliau ac anghenion tebyg. Mae angen ystyried a pharchu'r rhain hefyd. Yn fy marn i, mae'r cynllun yn methu â gwneud hyn.</p> <p>Yn ail, mae Aberystwyth yn unigryw yng Ngheredigion. Mae'n gartref i'r Llyfrgell Genedlaethol, i'r Brifysgol (sy'n cynnwys hen Orsaf Bridio Planhigion Cymru) a Bronglais (yr unig ysbyty cyffredinol yn y Canolbarth). Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn sefydliad cenedlaethol diamheuol Gymreig. Mae'r Brifysgol, o'i hanfod, yn denu llawer o siaradwyr Saesneg a phobl o genhedloedd eraill i Aberystwyth, yn yr un modd â'r ysbyty. P'r un a ydym yn hoffi hynny ai peidio, mae Aberystwyth yn bendant yn dref ddwyieithog. Y rhesymau hyn sydd i gyfrif am y ffaith bod trefniadau neilltuol ar waith yn Aberystwyth o ran darpariaeth ieithyddol. O wanhau neu ddiddymu'r trefniadau hynny, fel y mae'n ymddangos y mae'r ymgynghoriad yn ei gynnig, gallai beri iddi fod yn anoddach denu unigolion dawnus â chymwysterau da i sefydliadau'r dref. Mae i hyn oblygiadau ar gyfer dyfodol yr ardal. Cawn ein hatgoffa'n aml fod rhaid i gynllunio economaidd a chymdeithasol roi sylw i anghenion y Gymraeg. Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir: rhaid i'r</p>
--	---	---

		<p>cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg roi sylw i anghenion economaidd a chymdeithasol cymuned benodol. Eto, mae cynllun yr awdurdod yn methu â gwneud hyn. Yn drydydd, mae'r cynllun yn cyfeirio'n aml at arfer dewis yng nghydestun addysg. Mewn gwirionedd, byrdwn y cynigion, yn y tymor hir, yw peri mai addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn ddiodyn. Nid oes unrhyw ddewis hyd nes saith oed. Nid yw ychwaith yn glir pa ddewis, os o gwbl, fydd ar gael i lawer o blant ar ôl iddynt gyrraedd saith oed. Er enghraifft, ceir dyhead i wireddu 'cynnydd canrannol yn nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol i addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd (yn ardal Aberystwyth).' Ond mae'n amlwg bod galw am addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf yn ardal Aberystwyth, fel y galw a ddiwallir ar hyn o bryd, er enghraifft, gan Ysgol XXXX . Rhaid i ddarpariaeth o'r fath barhau, a hynny o ran parch at yr egwyddor o ddewis ac er budd dyfodol y dref a'r ardal o'i hamgylch. Sylw cryno: mae cwestiwn 22 yn gofyn am grŵp oedran yr ymatebydd. Rwy'n hyderu nad yw hepgor y categori 'dros 65' yn awgrymu eu bod wedi'u cau allan o'r ymgynghoriad. Fel rhywun sydd wedi byw yn ardal Aberystwyth am ddau draean o'i fywyd, sydd wedi bod yn bur weithgar yn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol ac y mae ei blant wedi elwa ar addysg dda yng Ngheredigion, rwy'n gobeithio bod gennyf hawl i gyfrannu.</p>
<p>Mae'r cynllun yn ddadansoddol, yn drwyadl ac yn gynhwysfawr. Mae'n bwysig fod llais pobl ifanc yn gyson ym mhob agwedd ar y gwaith fel rhan-ddeiliaid cyflawn sy'n rhan o'r broses gynllunio. Ers dechrau'r flwyddyn galendr mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi mewn pedair Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol ar</p>	<p>Nid yw'r cwestiwn hwn yn gwneud synnwyr. Y rheswm nad yw'r cwestiwn hwn yn gwneud synnwyr yw oherwydd bod Cyngor Ceredigion YN ffafrio'r Gymraeg ar draul y Saesneg yn y cwricwlwm newydd, yn hytrach na'i dysgu ochr yn ochr â'r Saesneg fel y dylai wneud.</p>	<p>Ni fydd plant yn dod yn siaradwyr Cymraeg rhugl heb gymorth yn eu cartrefi a'u cymunedau. Cynigiwch wersi Cymraeg fforddiadwy o ansawdd uchel i oedolion sy'n cynnwys gofal plant (nid Clwb Cwtsh lle y bydd rhieni'n dysgu caneuon ac ymadroddion Cymraeg syml iawn tra maent yn ateb gofynion eu plant) er mwyn i</p>

<p>bedair agwedd ym maes addysg gyda'r bwriad o gynyddu'r capasiti ymchwil yn y maes hwn yn y prifysgolion yng Nghymru.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Addysg Ddwieithog a'r Gymraeg (Cadeirydd: Elin Haf Gruffydd Jones) 2. Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol (Cadeirydd: Jeremy Griffiths) 3. Cwricwlwm ac Addysgeg (Cadeirydd: Gary Beauchamp) 4. Cydraddoldeb a Chynhwysiant (Cadeirydd: Carmel Conn) <p>Mae gan bob Rhwydwaith aelodaeth graidd o 8-12 o ymchwilwyr o bob prifysgol yng Nghymru. Yn ystod y misoedd nesaf bydd cyfres o ddigwyddiadau (ee seminarau, gweithdai) yn cael eu cynnal ar themâu yn y meysydd a nodir uchod.</p>		<p>rieni allu dechrau dysgu Cymraeg lafar cyn i'w plant fynd i'r ysgol. Yn ogystal â helpu plant i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol gyda chymorth yn y cartref, mae hyn hefyd yn helpu rhieni a allai fod wedi dod i Geredigion oherwydd swydd eu partner i gaffael sgiliau iaith gwerthfawr a fydd yn eu helpu i gael hyd i swydd a fydd yn cyfrannu at eu teulu a'u cymuned hefyd.</p>
<p>Rhaid rhoi cyfleoedd a phrofiadau ar bob achlysur i ddisgyblion defnyddio eu dewis iaith a rhaid cymryd bob cyfle i farchnata'r Gymraeg mewn dull bositif, gan bwysleisio'r manteision o feddu ar sgiliau yn y Gymraeg. Mae angen y Gymraeg ym myd swyddi ac wrth roi'r cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg maent yn medru ceisio amdanynt. Gresyn yw clywed "I didn't try for the job as my Welsh wasn't good enough/couldn't speak Welsh". Ein lle yw sicrhau fod y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg o oedran cynnar ar gael neu yn bodoli. Dwy agwedd a glywais - tad gyda'i ferch fach (tua 5 oed) yn dweud wrthi wrth gerdded heibio "Tomorrow you'll have to speak Welsh with Daddy all day". Calonogol dros ben! Hollol i'r gwrthwyneb, yn</p>	<p>Yn hytrach na diddymu dewis rhieni, dylech bontio o ysgolion cyfrwng Saesneg i ysgolion dwieithog 50/50, lle y gellir anfon gwaith ysgol adref yn Saesneg, lle y gall plant ag ADY gael addysg briodol yn newis iaith eu teuluoedd, a lle y gall disgyblion gael addysg brofiadol, diwylliannol a pherthnasol arall drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd.</p>	<p>Fel y nodir uchod, ar hyn o bryd, nid wyf yn gweld fawr ddim tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar lefel addysg gynradd yng Ngheredigion. Mae mwyafrif helaeth y ddarpariaeth sydd ar gael i blant a'u teuluoedd yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, felly nid wyf yn credu bod angen cynyddu'r ddarpariaeth honno.</p> <p>Rwy'n credu bod y newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar ddewis plant a theuluoedd ac, o ganlyniad i'r newidiadau, gallai beri i Geredigion fod yn sir llai deniadol i deuluoedd di-Gymraeg symud iddi i weithio. Ar adeg pan fo anawsterau mawr o ran llenwi swyddi gweithwyr allweddol yn y sir, rwy'n credu y gallai unrhyw fesur a allai rwystro teuluoedd rhag symud i'r ardal fod yn andwyol i'r gwasanaethau allweddol a</p>

<p>ystod noswaith Rhieni ac Athrawon cefais fy nghyhuddo gan riant "You're bombarding him with Welsh" gan daflu'r gair 'bombarding' i'm gwyneb tair gwaith. Rhaid bod yn ofalus a phwyllog wrth gyflwyno'r Gymraeg. Mae angen cnewyllyn cryf o staff o fewn yr ysgolion sy'n frwdfrydig dros ddatblygu'r Gymraeg.</p>		<p>ddarperir yng Ngheredigion. Yn yr un modd, mae gennyf bryderon ynghylch manteision addysg uwchradd ddwyieithog i blant, yn enwedig o ran hyrwyddo TGAU a Safon Uwch a ddysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd myfyrwyr yn gadael addysg uwchradd â chymwysterau Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, mae arnaf ofn y byddant dan anfantais fawr os byddant am astudio rhai pynciau allweddol ar lefel addysg uwch, boed yng Nghymru neu yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg). Mae mewnfudo ac allfudo yn cyfoethogi Ceredigion ac mae'n elwa ohonynt. Dylai fod arnom eisiau i'n pobl ifanc allu gadael Ceredigion ac astudio unrhyw le yn y Deyrnas Unedig neu yng ngweddill y byd cyn dychwelyd i Geredigion yn y dyfodol pan fyddant ar fin dechrau eu teuluoedd eu hunain.</p>
<p>Mae cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, yn arbennig y rhai sy'n hydreus a sydd â'r gallu i drafod ystod o faterion gyda geirfa perthnasol, yn hollbwysig o ran cynyddu / peidio â lleihau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Am hynny, mae angen mynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn sicrhau mwy o hawliau i siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>Ewch ati i annog y Gymraeg yn hytrach na'i gorfodi ar bob plentyn 3-7 oed.</p>	<p>Drwy hyrwyddo Safon Uwch cyfrwng Cymraeg, rwy'n pryderu y bydd yn llesteirio cynnydd academiaidd myfyrwyr ac y bydd yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig, gan gau'r drws ar y profiad buddiol o astudio bywyd tu allan i Geredigion.</p>
<p>Mae datblygiadau cadarnhaol yn y cynllun, ond mae angen rhagor o sylw ar sicrhau dilyniant a chryfhau sgiliau iaith myfyrwyr o'r lefel gynradd (lle mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn Gymraeg) i flwyddyn 12 a 13 (lle mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn Saesneg). Heb y dilyniant hwn, mae'n anodd iawn adeiladu gweithlu dwyieithog. Nodir bod tua 70% o'r myfyrwyr addysg uwch sy'n astudio drwy'r Gymraeg yn ferched a thybir bod hyn yn batrwm sy'n datblygu yn yr ysgol. Mae</p>	<p>Rwy'n credu bod cael rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg a rhai ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf, gyda defnydd helaeth o'r Gymraeg, eisoes yn system dda ac nid yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol ond mae'n rhoi dewis i deuluoedd.</p>	<p>Ni ddylid gorfodi'r Gymraeg ar neb. Mae'r llywodraeth leol bob amser yn sôn am hawliau cyfartal a chyfle cyfartal – nid oes dim byd cyfartal am orfodi plentyn i siarad iaith nad yw'n ei siarad gartref. At hynny, mae nifer fawr o feithrinfeydd ac ysgolion cynradd Cymraeg yn unig yng Ngheredigion (y mwyafrif llethol) felly mae digon o gyfle i'r rheini a fyddai'n hoffi i'w plant astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydych yn gwahaniaethu</p>

<p>angen felly targedu bechgyn i'w hannog i astudio drwy'r Gymraeg. Mae angen sicrhau darpariaeth drochi i hwyrddyfodiaid, a gellid rhoi rhagor o sylw i hyn. Gan fod Aberystwyth yn denu pobl o bedwar ban byd i astudio a gweithio yno (e.e. yn y brifysgol, yr ysbyty a sefydliadau eraill), mae darpariaeth o'r fath yn enwedig o bwysig yn yr ardal hon.</p>		<p>drwy atal plant rhag mynd i feithrinfa neu ysgol cyfrwng Saesneg.</p>
<p>Hoffwn weld mwy o gyfeiriad at gynnwys hanes Cymru fel modd o hybu hyder a'r ymdeimlad o hunaniaeth o fewn y cynllun.</p>	<p>Mae'n hollol hanfodol bod rhieni'n cymryd rhan mewn addysg – gallai hyn gael ei ddiddymu'n llwyr drwy beri iddi fod yn orfodol bod y rhan fwyaf o'r addysg yn cael ei darparu drwy gyfrwng iaith nad yw'r rhieni'n ei deall yn ddigonol. Nid yw'r cynllun yn dweud dim am ansawdd addysgu a dysgu cyfrwng Saesneg. Os bydd y Gymraeg yn dominyddu'r amgylchedd addysgu, bydd y gronfa fyd-eang o athrawon yn lleihau'n aruthrol a bydd ansawdd yn dioddef oni bai fod hyn yn cael ei ystyried yn y cynllun – e.e. dwyieithrwydd ar gyrsiau hyfforddi athrawon domestig a derbyn Saesneg fel dewis iaith ar gyfer pynciau penodol. Oni ddylid peri nad yw'r un ysgol yn dysgu'n llwyr drwy gyfrwng y naill iaith na'r llall?</p>	<p>Nid oedd yn glir o'r ddogfen a yw'r awduron wedi ystyried yr hyn a fydd yn digwydd os bydd sefyllfa arall fel y pandemig cyfredol yn arwain at gyfnod sylweddol o addysg yn y cartref, lle y bydd rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl yn debygol o'i chael yn anodd dysgu'u plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Cafwyd peth trafodaeth am gymorth dwyieithog i blant ag anghenion ychwanegol, ond nid oedd yn ymddangos bod y ddogfen wedi ystyried risgiau peidio ag adnabod anghenion ychwanegol mor gyflym os yw plant o aelwydydd Saesneg eu hiaith yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Yn flaenorol, bûm yn gweithio mewn ysgol lle na chafodd plentyn â dyslecsia difrifol ddiagnosis hyd nes ei fod yn saith oed oherwydd iddo fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg yn ystod y Cyfnod Sylfaen a bod ei anawsterau wedi'u priodoli i'r ffaith ei fod yn dod o deulu a oedd yn siarad Saesneg. Rwyf hefyd yn pryderu y bydd yn peri i bobl o'r tu allan i Gymru beidio â bod eisiau symud i'r ardal os nad ydynt yn gallu dewis addysg cyfrwng Saesneg i'w plant. Mae fy merch yn mynd i XXXX, ac mae gan lawer o'i chyd-ddisgyblion deuluoedd o'r tu allan i'r DU sy'n siarad Saesneg fel ail iaith. Rwy'n pryderu am effeithiau negyddol gorfodi plant o'r fath i weithredu drwy gyfrwng eu trydedd iaith ac rwy'n pryderu y gall fod perygl y bydd amrywiaeth yr ardal hon yn lleihau oherwydd ni fydd pobl am symud yma.</p>

<p>Angen neud yn gyfraith.</p>	<p>Yng Ngheredigion, ceir sylfaen gadarn o wasanaethau cymorth statudol a gwirfoddol ar gyfer plant a phobl ifanc y gellir eu defnyddio i hybu ac i gyfoethogi'r ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau addysgol a chymunedol. Ceir enghreifftiau rhagorol o bocedi yn y sir lle y mae'r ysgol yn gallu cael mynediad at wasanaethau ehangach a'u defnyddio fel rhan o'r cwricwlwm. Gellir gwneud mwy i hyrwyddo dull cyfannol a strategol o weithredu sy'n canolbwyntio ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad, gan hyrwyddo darpariaeth Gymraeg ar gyfer pob disgybl, ble bynnag y mae ar y continwmm iaith Gymraeg.</p> <p>Yn ôl y Fframwaith ar wreiddio dull gweithredu ar lefel ysgol gyfan mewn perthynas â iechyd meddwl a lles emosiynol (Addysg Cymru, 2021): "Mae angen i waith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid gael eu hystyried 'yn rhan o'r tîm'. Dylai uwch-dimau arwain ysgolion ystyried sut i weithio'n effeithiol gyda'u timau gwaith ieuenctid lleol, drwy'r awdurdod lleol a thrwy'r sector gwirfoddol, er mwyn lleihau achosion o ddyblygu gwasanaethau a gwella amrywiaeth y cymorth a gynigir i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwaith ieuenctid sy'n rhan o'r ysgol ac sydd wedi'i leoli yn y gymuned ehangach. Mae llawer o enghreifftiau o arferion da sy'n nodi'r manteision i les pobl ifanc pan fydd ysgolion a gweithwyr ieuenctid yn gweithredu mewn partneriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno'r cwricwlwm, gwella ymgysylltu, presenoldeb, ac ymddygiad, magu gwydnwch emosiynol, darparu cymorth iechyd meddwl, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb."</p>	<p>Os yw hyn wir yn ymwneud â dwyieithrwydd, pam nad yw ond yn rhoi sylw i un iaith? I weithio tu allan i Gymru, rhaid nad yw'r Saesneg yn dioddef drwy flaenoriaethu defnydd o'r Gymraeg. Mae'n ymddangos bod y targed i gynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg (gwych!) yn troi'n sefyllfa sy'n ffafrio'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu'r holl gyfryngau yng Nghymru. Mae perygl go iawn o losgi cyfleoedd byd-eang ein plant i fodloni delfryd ddomestig.</p>
<p>Mae angen i bawb ddeall fod gan Gymru iaith a diwylliant ei hun, dylai bob disgybl adael ysgol yn gallu</p>	<p>Nid oes cyfeiriad uniongyrchol at hyd y cyrsiau sabothol a fydd yn cael eu darparu. Fel ysgol, rydym yn</p>	<p>A yw rôl / dylanwad rhieni'n cael eu cydnabod yn ddigonol? Er fy mod yn sylweddoli mai Cynllun</p>

<p>cynnal sgwrs yn y Gymraeg. Hefyd dyw cael addysg drwy'r Gymraeg ddim yn golygu nad ydynt yn cael gwersi Saesneg hefyd.</p>	<p>teimlo y dylid darparu cyfnod sabothol o flwyddyn i athrawon a chynorthwyr addysgu i sicrhau nad yw plant XXXX dan anfantais o ran eu dysgu o'u cymharu â disgyblion eraill y sir. Mae angen amser a lle i wneud yn siŵr bod unrhyw gwrs iaith yn llwyddiant, ochr yn ochr â digonedd o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol.</p>	<p>Strategol Cymraeg mewn Addysg yw hwn, a ddylid cynnwys camau penodol i annog rhieni i ddysgu / siarad / defnyddio mwy o Gymraeg?</p>
<p>Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn cefnogi egwyddorion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022/32 Cyngor Sir Ceredigion. Er mai'r Cyngor sy'n arwain ar ddarparu'r addysg o fewn y sir, credwn bod y cyfrifoldeb dros sicrhau ei fod yn llwyddo ar ein ysgwyddau ni i gyd. Mae'r Llyfrgell wedi gweithio gydag ysgolion y sir yn gyson, ac yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda staff, penaethiaid ac ymgynghorwyr y sir. Mae'r Llyfrgell wedi amlinellu yn y ddogfen hon sut mae'n medru cynnig cymorth wrth gyrraedd targedau gwahanol. Dyma grynodedd o'r cymorth hwnnw sy'n cael ei grybwyll yn y ddogfen, a rhai pwyntiau eraill. Sesiynau ymwybyddiaeth iaith sy'n medru cynnwys defnyddio casgliadau y Llyfrgell i roi cyflwyniad i hanes yr iaith, cerrig milltir pwysig, ystadegau iaith, brwydrau dros hawliau, rôl addysg Gymraeg a darlledu, statws yr iaith, a chyd-destun cymdeithasol yr iaith heddiw ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparwyr gwasanaethau a gwarchodwyr meithrin sy'n siarad Cymraeg, neu eisiau gwella eu Cymraeg; • athrawon a phenaethiaid cynradd ac uwchradd ysgolion Ceredigion; • disgyblion cyfnodau allweddol 2 a 3 ysgolion Ceredigion; • myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ysgolion a cholegau addysg bellach Ceredigion. 	<p>Yn hytrach na gorfodi'r defnydd o'r Gymraeg drwy ddiddymu addysg cyfrwng Saesneg i blant 5-7 oed, byddai'n well pe bai'r cynllun yn annog ac yn ehangu'r arferion da sydd ar waith ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg fel XXXX. Ar hyn o bryd, mae ysgolion o'r fath yn sicrhau bod disgyblion yn dod i gryn dipyn o gysylltiad â'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac mae plant nad yw eu rhieni'n siarad Cymraeg hyd yn oed yn cystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol yn y pen draw (ac yn eithriadol o falch o wneud hynny). O ddiddymu addysg cyfrwng Saesneg, bydd iddo ganlyniadau negyddol difrifol i blant yr ysgolion hyn (ac yn ehangach; gweler isod), ac mae hyn yn groes i ddelfryd y rhyddid i ddewis. Byddai'n well gennyf weld yr arferion da sydd ar waith yn yr ysgolion hyn ar hyn o bryd yn cael eu hannog a'u cefnogi er mwyn iddynt ddatblygu i fod yn sefydliadau dwyieithog yn hytrach na rhai Cymraeg yn unig i bob pwrpas. Nid oes raid i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg olygu ei bod yn cael ei thrin yn fwy ffafriol na'r Saesneg. Os mai'r nod yw sicrhau bod plant yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith, dylid eu trin yn gyfartal. Nid yw caniatáu addysg cyfrwng Cymraeg ond nid addysg cyfrwng Saesneg yn cyflawni hynny.</p>	<p>Byddai'n rhaid i raglenni hyfforddi athrawon Prifysgol Aberystwyth addasu i ateb gofynion hyfforddeion sydd am aros yng Nghymru i ddysgu, yn ogystal â myfyrwyr sy'n bwriadu mynd i ddysgu tu allan i Gymru. Rydym yn teimlo y byddai system gyfnewid a fyddai'n caniatáu i athrawon neu gynorthwyr addysgu fynd i ysgol cyfrwng Cymraeg neu gynorthwyo ysgol cyfrwng Saesneg am flwyddyn yn fuddiol iawn i'r ysgolion.</p>

<p>Mi ddylai bawb gefnogi'r cynllun hwn. Mae'n cynnig cyfleoedd positif iawn i'n plant, pobl ifanc a'n cymunedau. Diolch.</p>	<p>a) Dylid llunio rhaglen ynghylch sut i addysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Heb os, byddai rhaglen o'r fath sy'n seiliedig ar astudiaethau rhyngwladol o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o addysgu ail ieithoedd ac yn ystyried prif gefndir ieithyddol y disgyblion yn creu siaradwyr Cymraeg hyderus erbyn diwedd eu cyfnod mewn addysg orfodol. Yng Nghymru, mae llawer o gyfleoedd gwych i ddysgu'r iaith wedi'u gwreiddio mewn diwylliant, hanes a hunaniaethau sy'n darparu cyfleoedd eithriadol i greu profiad dysgu o'r Gymraeg ac ynddi. Byddai hyn yn addysgiadol iawn, yn ennyn diddordeb ac yn unigryw o'i gymharu â'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o ail ieithoedd yn cael eu haddysgu i ddisgyblion ledled y byd. Yn fy marn i, fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod fframwaith dysgu (ac i ryw raddau fframwaith asesu) yn hollbwysig i lefel y llwyddiant.</p> <p>b) Rhaid ystyried bod y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ei hanfod yn cael ei thrin "yn llai ffafriol" (gair rhyfedd i'w ddewis, nid yw'n gystadleuaeth) oherwydd nid honno yw iaith gynhenid llawer o'r disgyblion a'u teuluoedd. Serch hynny, nid yw hyn yn golygu bod y disgyblion eu hunain (na'u teuluoedd) yn teimlo'n llai o Gymry nac yn teimlo llai o ymlyniad at Gymru fel eu cenedl nac na fyddent yn elwa o ddysgu'r Gymraeg. Rhaid cydnabod mai'r Gymraeg yw'r ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (p'run a ydych yn hoffi hynny ai peidio) nid oherwydd ewyllys drwg, na llai o gariad at Gymru, ond oherwydd realiti'r sefyllfa; maent yn siarad gwell Saesneg na Chymraeg erbyn iddynt ymuno â'r system addysg. Y rheswm am hyn yw bod eu rhieni wedi dewis hynny, ac rwy'n credu'n gryf y dylai rhieni fod yn rhydd i wneud y dewis hwnnw, cyhyd â bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu cydnabod fel ieithoedd cyntaf Cymru.</p>	<p>Mae gennyf bryderon difrifol am y cynigion hyn sy'n canolbwyntio ar ddiddymu darpariaeth Saesneg i blant 5-7 oed. Mae hyn yn mynd tu hwnt i darged Llywodraeth Cymru'n ddiangen, ac mae'n gwneud hynny drwy ddiddymu gallu pob rhiant i ddewis yr hyn sydd orau i'w plant o safbwynt addysgiadol, a gallu rhieni di-Gymraeg i gymryd rhan yn addysg eu plant ac i'w cynorthwyo â'r addysg honno (rhywbeth y cydnabyddir ei fod yn bwysig ac y mae ysgolion yn ei chael yn anodd ei wireddu). Ar hyn o bryd, mae gennym system addysg lle y gall rhieni a phlant ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog ym mhob cyfnod, a lle y mae'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn peri i'r disgyblion ddod i gysylltiad sylweddol â'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae cael gwared ar y ddarpariaeth leiafrifol cyfrwng Saesneg yn gam enfawr yn ôl sy'n gwahaniaethu yn erbyn grŵp penodol o rieni a phlant a'u dieithrio. Mae hyn hefyd yn gyfan gwbl ansensitif i sefyllfa ddiwylliannol ac economaidd y rhanbarth hwn. Yn Aberystwyth, rydym yn falch o fod yn dref amlddiwylliannol ac rydym yn dibynnu'n economaidd ar sefydliadau fel y GIG a'r Brifysgol sy'n denu pobl o bob cwr o'r byd. Mae arnaf ofn y bydd system addysg cyfrwng Cymraeg yn unig yn atal y bobl hyn rhag dod yma ac y bydd i hynny ganlyniadau ofnadwy. Rwy'n credu bod recriwtio i'r GIG yn broblem benodol, a bod gofal iechyd lleol eisoes dan bwysau, a dylid asesu'r effaith benodol hon yn ofalus iawn. Mae'r cynlluniau'n sôn yn aml am yr angen i athrawon addysgu pynciau academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddweud y bydd hyn yn cael ei ategu gan gyrsiau sabothol i sicrhau bod modd iddynt gaffael sgiliau ieithyddol. I allu addysgu mewn iaith, rhaid ichi fod yn hollol rhugl, ac nid wyf yn credu ei bod yn realistig disgwyl i staff feithrin sgiliau ieithyddol digonol yn ystod y cyfnodau</p>
---	---	---

		<p>byrion a bennir. Efallai na fydd y rhan fwyaf o'r oedolion sy'n dysgu fyth yn meithrin y sgiliau hyn o gwbl. Gan fod bwriad i'r newidiadau arfaethedig ddigwydd mor gyflym, a yw'r Cyngor wedi cynllunio i ddiswyddo athrawon da sy'n dysgu drwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd? Hefyd, er bod y ddogfen yn dweud bod cyflenwad o athrawon STEM cymwysedig Cymraeg eu hiaith, nid yw profiad ysgolion lleol yn ategu'r honiad hwn gan eu bod wedi cael cryn drafferth i'w recriwtio mewn gwirionedd. Dylid hefyd dweud bod peri i'r Gymraeg fod yn ofynnol ar gyfer swyddi athrawon yn debygol o gael effaith negyddol ddifrifol ar amrywiaeth. Hoffwn ddweud yn blwmp ac yn blaen fy mod yn cefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru'n llwyr, a hoffwn nodi bod f'ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn gwneud gwaith eithriadol i integreiddio plant rhieni di-Gymraeg i'r iaith a'r diwylliant. Mae rhieni a phlant yn falch o fod yn rhan o hynny, ac rwy'n credu mai cefnogi a datblygu'r drefn honno ymhellach fyddai'r ffordd orau o greu cymuned unedig a dwyieithog. Rwy'n credu bod y newidiadau arfaethedig yn aberthu blaenoriaethau addysgol ac economaidd i orfodi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg, a bydd y canlyniadau negyddol yn gwrthbwyso o bell ffordd y canlyniadau cadarnhaol yn y pen draw.</p>
	<p>Cynigiwch hyfforddi staff a'u talu am yr amser y byddant yn ei fuddsoddi er mwyn cyflawni'r nod o addysg ddwyieithog (Ile y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal) yn y blynyddoedd cynnar.</p>	<p>Mae'n bwysig ystyried yr hyn sydd gennych ac nid dim ond canolbwyntio ar yr hyn nad oes gennych. Mae Aberystwyth yn lle cosmopolitaidd iawn ac mae rhai o'r ysgolion yn adlewyrchu hyn yn glir. Mae'n golygu bod yr ysgolion hyn, oherwydd eu natur ryngwladol, yn rhoi gwersi anffurfiol i'r plant bob dydd o ran amrywiaeth, goddefgarwch a meddylfryd (pob un ohonynt yn sgiliau bywyd eithriadol o bwysig). Mae'r rhyngweithio yn yr ysgolion hyn yn fframio eu meddyliau er mwyn iddynt ddeall nad oes dim ond un ffordd o wneud pethau ac o</p>

fod, ond llawer o ffyrdd o wneud pethau ac o fod. Mae hyn yn rhywbeth unigryw iawn i'w gael mewn cymuned fach fel Aberystwyth. Ledled y byd, fe gewch chi hyd i ychydig o ysgolion sy'n agos at gyfansoddiad o'r fath, ond mae'r agwedd gymunedol ar goll (a'r holl addysg anffurfiol a'r cydlyniant cymunedol sy'n dod yn ei sgil). Yn aml, mae'r rhain yn ysgolion ar gyfer lleiafrif o blant rhyngwladol breintiedig. Ni fyddai'r ysgolion yn Aberystwyth yn rhoi'r un gwersi bywyd i'r disgyblion heb y gymuned ryngwladol, ond yr hyn sydd yr un mor bwysig yw na fyddai'r ysgolion â'u cymuned ryngwladol yn rhoi'r un gwersi bywyd heb y gymuned leol y maent wedi'u lleoli ynddi. Dylid ystyried y rhyngddibyniaethau hyn, sydd o fudd i holl ddinasyddion Aberystwyth, yn ofalus iawn pan fydd newidiadau mawr yn cael eu gwneud i'r ddarpariaeth addysg. Drwy ganolbwyntio ar y peth nad yw'n bodoli yn unig (rhuglder yn y Gymraeg), mae perygl go iawn y byddwch yn anwybyddu ac yn "crogi" yr hyn sy'n bodoli, fel amrywiaeth, cymuned, goddefgarwch a disgyblion/rhieni sy'n cymryd rhan ac yn byw ym mha bynnag iaith sydd fwyaf cydnaws â'u hunaniaeth a'u dewisiadau yn eu bywydau. Rwy'n deall bod agenda gref o du Llywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg, rwy'n cydymdeimlo â hynny, ac rwy'n cytuno bod llawer o le i wella sgiliau Cymraeg disgyblion ysgolion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, rwy'n credu ei bod yn hollbwysig gwneud hynny mewn ffordd ystyrion, lle y mae cyfansoddiad amrywiol ein cymuned yn cael ei gynnal a'i gydnabod oherwydd y gwerthoedd lu sydd ynghlwm wrtho. Rwy'n anghytuno'n gryf â'r dull "anghydlynol" a awgrymir yng nghynllun Cyngor Ceredigion. Ni allaf weld yr hyblygrwydd a awgrymir yn nogfen Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: "... angen i'r system addysg fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu nodweddion ieithyddol gwahanol rannau o Gymru" ac

		<p>“Er mwyn sicrhau cynllunio ieithyddol effeithiol, mae angen dealltwriaeth o’r gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol rannau o Gymru a chynllunio ymyriadau yn unol â hynny.” (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050). Rwy’n pryderu’n fawr am y ffaith nad yw’r cynnig hwn wedi’i wreiddio’n ddigonol ym mywyd bob dydd a realiti dinasyddion ein cymuned, ac am yr effaith y bydd yn ei chael ar allu plant i gael mynediad at addysg. Nid yw diddymu dewis (a llais) plant a rhieni yn y ffordd y mae Cyngor Ceredigion yn cynnig ei wneud yn adlewyrchu cenedl ddemocrataidd yn 2021: “Ni all strategaeth gan y Llywodraeth orfodi unigolion i ddefnyddio’r Gymraeg” (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050). Nid hon yw’r ffordd o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ond fe allai fod yn ffordd o beri’n anfwriadol i’r Gymraeg greu rhwyg a gwahaniad. I orffen ar nodyn sentimental: Nid wyf yn un o ddinasyddion y DU ac, ers imi symud yma, rwyf wedi mynd ati i gymryd rhan yn y gymuned ac i gyfrannu ati. Rwy’n buddsoddi f’egni a’ m hamser oherwydd mai hwn yw fy nghartref. Nid hwn yw’r cartref lle cefais fy magu na’ m siapio, ond hwn yw’r lle a’ m croesawodd ac a wnaeth imi deimlo bod lle i bawb, yn Gymry Cymraeg, yn Gymry di-Gymraeg, ac yn bobl o bob cwr o’r byd. Rydym yn ymddiried yn y cartref hwn i fagu ac i siapio ein plant yn y ffordd orau bosibl a’u dysgu bod i bob un ohonom werth, ni waeth beth fo’n hiaith na’n cenedligrwydd. Pe na bai wedi bod cyfle i fagu ac i siapio fy mhlant drwy gyfrwng y Saesneg, sef yr iaith yr ydym yn ei siarad a’i deall, ni fyddai wedi bod yn gartref inni mwyach.</p>
	<p>Cwestiwn mor arweiniol eto, heb gyfle i anghytuno. Mae’n amlwg bod yr ymgynghoriad hwn wedi’i gynllunio i fod yn broffwydoliaeth hunangyflawnol. Cafodd ei eirio a’i gynllunio fel nad yw ond yn bosibl cymeradwyo’r camau arfaethedig. Yr unig</p>	<p>Mae’r system sydd gennym ar hyn o bryd yn wych, ac rydych yn cynnig ei disodli â system waeth. Nid yw addysg y blynyddoedd cynnar yn ddewis ychwanegol, nid yw’n rhywbeth y dylech ei ddefnyddio i hybu agenda wleidyddol. Rwy’n credu y bydd y cynllun hwn</p>

	ymgyngoriad (ac rwy'n defnyddio'r gair hwnnw'n fras) yw pa mor fawr yw'r gymeradwyaeth honno.	yn effeithio'n andwyol ar y plant hynny a fyddai, am ba reswm bynnag, yn elwa mwy o gael addysg cyfrwng Saesneg yn bennaf. Un o'r pethau yr wyf yn ei garu fwyaf am Aberystwyth yw pa mor gosmopolitaidd yw hi am dref o'i maint hi. Rydych yn clywed llawer mwy o ieithoedd wrth gât Ysgol XXXX nag y gwnes innau pan oeddwn i yn yr ysgol. Drwy gyfyngu ar addysg cyfrwng Saesneg yn y ffordd hon, rwy'n gwirioneddol gredu y byddwch yn peri i Aberystwyth fod yn lle llawer llai deniadol i bobl o dramor. Bydd hyn yn effeithio'n negyddol iawn ar y brifysgol, ar y gwasanaeth iechyd, ac ar y sir yn ei chyfanrwydd. Y peth arall yr wyf yn ei garu fwyaf am Aberystwyth yw pa mor dda y mae pawb yn cyd-dynnu. Hyd yma, nid yw'r "rhyfeloedd diwylliannol" sydd i'w gweld mor gyffredin yng ngweddill y byd gorllewinol wedi cyffwrdd â ni i raddau helaeth. Rwy'n pryderu y bydd eich polisi arfaethedig yn ansefydlogi'r cydbwysedd brau hwn ac yn arwain y ffordd at chwerwder ac edliwiadau. Mae eich system bresennol yn berffaith. Mae'r un yr ydych am ei chyflwyno yn niweidiol, yn gwahaniaethu ac yn gwahanu.
	a) recriwtio athrawon Cymraeg rhagorol a datblygu cwricwlwm penodol mewn ysgolion cyfrwng Saesneg; b) nid wyf yn deall hyn. Rydych yn cynnig diddymu'r dewis i ddarparu addysg yn ein dwy iaith swyddogol. Rydych yn targedu Aberystwyth, cymuned amrywiol neilltuol. Rydych yn creu dicter. Cyfreithlondeb?	Cefnogi teuluoedd; cefnogi cymunedau; peri i ddysgu Cymraeg fod yn hwyl, nid yn orfodol. Dewch â siaradwyr Cymraeg rhugl i leoliadau gofal plant i fod yn fodelau iaith priodol i'r plant a'r staff.
	A yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar hyn o bryd? Dydw i ddim yn meddwl ei bod. Mae mantais glir i'w chael o siarad Cymraeg yng Ngheredigion nawr ac mae digonedd o gyfleoedd i bwy bynnag sy'n dymuno gwneud hynny ddefnyddio'r Gymraeg. Mae 83% o ddisgyblion y sir yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn aml mae gan yr 17% nad ydynt ar hyn o bryd resymau da dros hynny a	Pam mai'r blwch hwn yw'r unig gyfle i roi sylwadau eraill? Yn gryno: Bydd y camau arfaethedig yn arwain at dranc ysgolion cyfrwng Saesneg ac, o ganlyniad, byddwn yn colli dwsinau o athrawon profiadol a chymwysedig iawn, yn lleihau'r cyflenwad o athrawon (oherwydd ni fydd yn bosibl eu lleoli mewn ysgolion lleol), yn colli dwyieithrwydd go iawn, yn diystyru dewis rhieni, yn

	byddant yn dysgu rhywfaint o Gymraeg lafar pa un bynnag.	<p>peri anfantais enfawr i'n plant sydd am wneud cais i astudio yn rhai o brifysgolion gorau'r DU, ac yn sefydlu diwylliant plwyfol yng Ngheredigion. Dylai fod arnoch gywilydd.</p> <p>Enw: Mae'n flin gennyf, ond fel athro, hyfforddwr a llywodraethwr ysgol, ydych chi wir yn credu y gallaf wneud hyn? Serch hynny, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddwch yn dileu f'ymatebion i'r cwestiynau uchod. Pam na fyddech chi? Dim ond oherwydd bod rhywun am fod yn ddienw, nid yw'n golygu nad yw ei farn yn ddilys.</p>
	Mae'n sgil hollbwysig o ran cyflogadwyedd y mae pob cyflogwr yn chwilio amdani.	
	Mae'r Gymraeg eisoes yn cael ei thrin yr un mor ffafriol.	<p>Hoffwn ddweud bod llawer o'r cwestiynau uchod yn arweiniol iawn, a'u bod yn tybio o'r dechrau'n deg bod yr ymatebydd yn cytuno'n fras mai addysg cyfrwng Cymraeg yn unig yw'r hyn sydd ei angen yng Ngheredigion. Yng nghwestiwn 1, er enghraifft, mae'n bosibl iawn y gallwn gytuno y bydd y ddarpariaeth a awgrymir yn gwella mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu fy mod yn fras o blaid yr hyn sy'n cael ei gynnig. Nid yw 'nid oes gennyf farn gref' yn gweithio ychwaith, oherwydd mae gennyf farn gref mewn gwirionedd. Nid yw fy mhartner na minnau'n dod o Gymru. Rydym wrth ein bodd yn byw yma ac mae'r ddau ohonom yn croesawu'n llwyr y cyfle i'n plentyn ddysgu'r Gymraeg. Mae wedi bod yn fendigedig ei gweld hi'n dod adref yn canu caneuon Cymraeg ac yn defnyddio ymadroddion Cymraeg. Mae'r ddau ohonom yn dysgu'r Gymraeg drwy wahanol gyrsiau ac yn edrych ymlaen at siarad ychydig o Gymraeg fel teulu. Serch hynny, fe wnaethom benderfyniad gwybodus i beidio â dewis ysgol cyfrwng Cymraeg oherwydd nid ydym yn teimlo bod ein Cymraeg yn ddigon cryf inni allu cynorthwyo'n plentyn â'i haddysg gartref. Roeddem yn dewis ysgol</p>

		<p>yn ystod y cyfnod clo pan oeddem yn gweld teuluoedd â phlant hŷn yn dysgu eu plant gartref, ac roeddem yn gwybod mor anodd y byddem wedi'i chael pe bai ein plentyn wedi bod yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyr. Hoffwn hefyd nodi bod gwall amlwg yn y sail resymegol fan hyn sy'n disgrifio Aberystwyth fel rhan o Geredigion lle ceir llai o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y brifysgol yw un o brif gyflogwyr yr ardal ac mae'n denu staff a myfyrwyr o bob cwr o'r byd. Felly, ni fydd llawer o'r teuluoedd yn siarad Cymraeg ac, yn wir, efallai na fyddant ond yn Aberystwyth am ychydig o flynyddoedd, neu fe allent gyrraedd a chanddynt blentyn hŷn nag oedran meithrin y bydd angen iddo fynd i'r ysgol hanner ffordd drwy ei addysg. Sut y bydd y plentyn hwnnw'n cael ei gynorthwyo? Yn olaf, rwy'n pryderu'n fawr y bydd gwarchodwyr plant yn cael eu hanghofio fan hyn. Ni fydd o reidrwydd ganddynt rywun arall y gallant ddirprwyo tasgau iddo tra byddant yn ymgymryd â'r hyfforddiant ychwanegol hwn a gall rai deimlo na allant barhau i weithio yn y proffesiwn. Mae'r ddarpariaeth gofal plant eisoes yn brin yn yr ardal. Er y byddai'n fendigedig annog mwy o warchodwyr plant cyfrwng Cymraeg i sefydlu busnesau, ni ddylai hyn fod ar draul y gwarchodwyr plant cyfredol. Hoffwn ailadrodd ein bod yn credu'n gryf ym mhwsigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg ac yng ngwerth dysgu'r Gymraeg (ac yn wir yn y pleser a ddaw o wneud hynny). Serch hynny, rydym yn credu mai'r ddarpariaeth bresennol, gyda chymysgedd o ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg ag elfennau dwyieithog, sy'n briodol i'n teulu ni ac i ardal Aberystwyth.</p>
	<p>Peidiwch â gorfodi addysg cyfrwng Cymraeg yn unig ar bawb. Cadwch y rhyddid i ddewis cyfrwng y dysgu i sicrhau bod modd i bob plentyn ddysgu ar ei orau tra mae mewn lleoliad addysg. Mae caffael dealltwriaeth</p>	<p>O dan rith gwella dwyieithrwydd, mae CSC yn cynnig diddymu dewis mewn addysg. Rwy'n cefnogi cynnwys Cymraeg yn y cwricwlwm, ond rydym yn siaradwyr Saesneg ac mae gan ein plant hawl i gael eu haddysgu</p>

	<p>gadarn o iaith/ieithoedd y mae'r disgyblion a'u teuluoedd yn gyfarwydd â hi/nhw yn gosod sail well.</p>	<p>gyda pharch at eu hiaith (Erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Ni fydd llawer o bobl gymwysedig yn symud/aros yma oni bai fod dewis ar gael i'w plant.</p> <p>Enw: Hoffwn roi f'enw, ond nid wyf yn teimlo y gallaf wneud hynny. Rwy'n dod o dramor, mae fy mhriod yn dod o Brydain ac rydym yn anfon ein plentyn a aned yng Nghymru i ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Aberystwyth er mwyn rhoi'r cymorth gorau i'n plentyn a sicrhau ei fod yn dod i gysylltiad ag amgylchedd amrywiol. Rydym yn cefnogi dysgu'r Gymraeg a diwylliant Cymru o fewn addysg cyfrwng Saesneg ragorol.</p>
	<p>Dwyieithrwydd yn y dyfodol yn hytrach na'r driniaeth sioc a ragwelir gan yr arbrawf peryglus hwn.</p>	<p>Mae arnaf ofn y byddaf yn symud o'r sir os na chaniateir i'm plentyn ieuengaf gael addysg cyfrwng Saesneg. Byddwn wrth fy modd pe bai'n dysgu'r Gymraeg, ond nid os bydd yn parhau i fod yn swyddogaethol anllythrennog yn y Saesneg, oherwydd nid ydym yn siarad Saesneg gartref. Mae hyn yn creu poen mawr imi oherwydd rwy'n caru Aberystwyth ac yn ystyried y dref yn gartref, fel y mae fy nheulu cyfan. (Mae'ch cartref o ddewis yn aml yn agosach at eich calon na'ch cartref genedigol.) Ond rwyf am i'm plentyn gael yr un dewisiadau bywyd a gyrfa ag unrhyw blentyn arall yn y DU, ac ni allaf ei gloi mewn sefyllfa lle y mae'n swyddogaethol anllythrennog yn y Saesneg os na fydd ond yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol. Rwy'n credu bod y cynllun hwn mor anghyfiawn i deuluoedd fel ein un ni, a'i fod yn gibddall o ran ei effaith ar y gymuned gyfan, fel yr amlinellais yn f'atebion blaenorol.</p>
	<p>Rwy'n credu y dylid rhoi dewis i bobl sy'n symud i'r ardal. Ni fyddai'r sesiynau a awgrymir yn Ysgol Gymraeg, Aberystwyth yn addas i lawer. Bydd plant sy'n symud i'r ardal yn colli allan ar gyfleoedd i integreiddio i'r ysgol oherwydd bod rhaid iddynt fynd i</p>	<p>Ni wneir unrhyw ymdrech i asesu cost economaidd y polisi hwn o addysg drochi yn y Gymraeg, naill ai ar unwaith neu yn y tymor hir (fe'i disgrifir fel 'continwmm'), ond mae'n amlwg y bydd yn rhoi cryn straen ar gyllideb sydd eisoes dan bwysau.</p>

	<p>wersi ychwanegol. Os yw ar bobl Aberystwyth eisiau i'w plant gael eu dysgu yn Gymraeg, mae'r dewis hwnnw ar gael iddynt eisoes. Mae llawer yn dewis peidio â gwneud hynny ar hyn o bryd. Rydych yn anwybyddu'r rhesymau dros y dewis hwn gyda'r polisi cyffredinol hwn.</p>	<p>Mae gennyf bryder difrifol am y camddefnydd o'r geiriau 'dwyieithrwydd' a 'dewis'. Nid oes dewis o gwbl cyn i blentyn gyrraedd saith oed ac ychydig iawn o ddewis sydd ar gael ar ôl hynny pan fydd y disgyblion yn camu o'r naill gyfnod allweddol i'r llall, gan fod y polisi'n cael ei roi ar waith fel continwmm. Hefyd, mae'n ymddangos ei fod yn awgrymu y bydd disgyblion yn cael eu hannog (eu cyfarwyddo? efallai eu monitro hyd yn oed?) i ddefnyddio Cymraeg mewn cyd-destunau ac eithrio addysg, ac mae hwn yn gysail peryglus iawn. Parthed dwyieithrwydd, rwyf eisoes wedi dweud na allaf weld sut y bydd addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn cynyddu gallu'r disgyblion i wneud dewis gwybodus o ran iaith eu haddysg bellach. Mae'n ymddangos bod y polisi cyfan yn cefnu ar bolisi dwyieithrwydd, yn yr un modd ag y mae pob ysgol yn cael ei galw'n 'ysgol' erbyn hyn ac mai dim ond y gair 'Senedd' sy'n gwneud y tro wrth gyfeirio at Lywodraeth Cymru.</p> <p>Enw: Rwy'n cymryd mai gwall yw'r ffaith nad oes grŵp oedran 65 i 70 ar gael, ac nid enghraifft o wahaniaethu ar sail oedran neu ymgais fwriadol i gyfyngu ar yr ymgynghori. Rwy'n athro sydd wedi ymddeol ac sydd oddeutu 70 oed, ond rwy'n gobeithio'n fawr y bydd fy marn yn dal i gael ei hystyried.</p>
	<p>Ceir gormod o amgylchiadau lle y mae'r defnydd o'r iaith yn cael ei lesteirio oherwydd na all eraill gyfrannu. Byddai'r cynllun hwn yn helpu i oresgyn hyn yn y tymor hir. Mae'n gynllun cynhwysfawr sy'n dangos ôl meddwl da. Efallai y byddai cyfeiriadau at ymchwil genedlaethol sy'n cefnogi manteision cyffredinol dwyieithrwydd i ategu'r gweithredoedd yn cryfhau'r strategaeth.</p>	<p>Mae'r ddogfen ymgynghori hon wedi'i chynllunio'n ofnadwy. Mae'r cwestiynau wedi'u geirio'n wael ac maent wedi'u llunio mewn ffyrdd camarweiniol. Mae hi'n hollol amlwg eich bod wedi gwneud hyn yn fwriadol oherwydd eich bod yn benderfynol o gyflawni'r canlyniad a ffefrir gennych yn unig ac sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y cynllun arfaethedig. Roedd yr un peth yn amlwg yn ystod cyfarfod rhwng swyddogion y Cyngor ac aelodau pwyllgor Cylch Chwarae XXXX. Nid yw'r "ymgynghoriad" hwn, na'r cynllun arfaethedig, yn ymwneud â lles pennaf plant</p>

		<p>Ceredigion. Yn hytrach, mae'n ymwneud â gorfodi ffantasi ddogmatig eithafwyr sy'n cael eu llywio gan ideoleg. Nid yw dweud hyn oll yn rhoi unrhyw bleser imi o gwbl. Roeddwn yn meddwl fy mod wedi bod yn byw mewn sir decach dros y 15 mlynedd diwethaf. Nid yw'r ddogfen yn egluro unwaith pam fod rhaid cael targed o 100%. Mae'r cynllun yn arbennig o greulon o ran plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn wir, mae'n adrodd cyfrolau nad yw'r ymateb i Ddeiliant 6 yn yr ymgynghoriad hwn ond yn gofyn i'r ymatebwyr "nodi safbwyntiau". Mae hefyd yn greulon o ran plant o deuluoedd nad ydynt yn siarad y Gymraeg na'r Saesneg. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd i'r cynllun ganlyniadau negyddol enfawr i'r ysbyty lleol ac i ddarparwyr gofal iechyd eraill, yn ogystal â'r brifysgol, o ran recriwtio a chadw staff. Mae ganddynt eisoes fynydd i'w ddringo yn y meysydd hyn, ac ni fydd y rhagolygon y bydd rhaid i unrhyw un sy'n symud i Geredigion anfon ei blant i leoliad addysgol cyfrwng Cymraeg yn unig yn helpu. I'r gwrthwyneb. Yr ysbyty a'r brifysgol yw'r ddwy injan sy'n gyrru llesiant a llewyrch economaidd Aberystwyth a llawer o'r sir. Byddai'n dda o beth pe bai'r Cyngor yn rhoi polisïau ar waith a fydd yn caniatáu iddynt ffynnu, nid polisïau a fydd yn effeithio'n andwyol arnynt. Anfonodd pwyllgor Cylch Chwarae XXXX ei ymateb ei hun ar ran y feithrinfa, ond dylwn ailadrodd fan hyn na fydd y camau arfaethedig dim ond yn andwyol i'r rhan fwyaf o'r plant yr ydym yn eu gwasanaethu, ond maent hefyd yn debygol o arwain at gau'r cylch chwarae ei hun. I mi'n bersonol, byddaf yn arbed oriau dirifedi o waith gwirfoddol, felly byddaf yn well fy mynd. Rwy'n llai sicr am y gymuned gyfan, a lles y gymuned honno yw un o'r rhesymau pam yr wyf yn rhoi f'amser o'm gwirfodd i'r cylch chwarae. At hynny, rwy'n siŵr y bydd y cynllun yn effeithio'n andwyol ar y rheini a gyflogir gan y cylch</p>
--	--	--

		<p>chwarae. Bydd cau'r cylch chwarae hefyd yn peri niwed difrifol i'r plant difreintiedig sy'n mynd iddo. Mae fy mhroffesiwn yn caniatáu imi allu symud yn rhwydd, mynd â'm teulu a gadael Aberystwyth. Byddai'n well gennyf beidio â gwneud hynny oherwydd rwy'n hoffi Aberystwyth a Cheredigion yn fawr iawn. Fodd bynnag, byddwn ar fai pe na bawn yn pwysleisio y bydd y rheini nad yw'r dewis hwinnw ar gael iddynt yn dioddef o ganlyniad i'r gweithredoedd a geir yn y cynllun arfaethedig.</p> <p>Mae'n amlwg bod y blwch a ddarperir i ymateb i Ddeilliant 1, Cwestiwn 2 uchod wedi'i godio'n anghywir ac mae'n ymddangos na fydd yr ateb cyfan yn mynd drwodd. Felly, rwy'n rhoi copi o'm hateb fan hyn: "Ni fydd y camau hyn yn gosod unrhyw sylfaen gadarn ar gyfer taith y disgyblion at ddwyieithrwydd, oherwydd maent i bob pwrpas yn cefnu ar ddwyieithrwydd. O'u rhoi ar waith, ni fyddant ond yn creu lleoliadau addysgol uniaith Gymraeg. Felly, mae awgrymu y bydd y camau hyn rywsut yn gosod sylfeini ar gyfer dwyieithrwydd yn gyfan gwbl gamarweiniol. Rwyf eisoes wedi nodi uchod fod y ddogfen yn rhagdybio, heb gyfiawnhad, fod pob plentyn yng Ngheredigion rywsut yn ennill hyfedredd yn y Saesneg yn ddiodyn. Nid yw llawer yn gwneud hyn. Felly, bydd y rheini nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn famiaith iddynt a/neu'n iaith yr aelwyd yn dod i gysylltiad â dau faich ychwanegol o ganlyniad i'r camau hyn. Yn gyntaf, bydd rhaid iddynt gael addysg yn ystod y blynyddoedd cynnar mewn iaith gwbl anghyfarwydd iddyn nhw a'u teuluoedd (Cymraeg). Yn ail, bydd rhaid iddynt ddal i fyny ag iaith nad ydynt wedi cael cyfle i'w dysgu'n naturiol (Saesneg). Mae'n amlwg y bydd hyn yn effeithio'n andwyol ar eu cyrhaeddiad addysgol."</p>
	<p>Mae arnaf ofn y bydd y gwrthwyneb yn digwydd. Rwy'n credu bod y cynllun hwn yn awgrymu</p>	<p>Cyfeirir at yr Urdd a gweithgareddau eraill, ond mewn gwirionedd, prin iawn yw'r gweithgareddau hyn yng</p>

	<p>gwahaniaethu'n gadarnhaol ar raddfa eithafol. Mae'r Gymraeg eisoes yn hanfodol ar gyfer pob swydd addysg yng Ngheredigion ac mae'r un peth yn wir am swyddi'r Gwasanaeth Sifil. Mae Aberystwyth yn enwedig yn ffodus o gael poblogaeth amrywiol iawn ac mae'n denu teuluoedd o ystod eang o gefndiroedd oherwydd yr ysbyty a'r brifysgol. Rwy'n credu y bydd i'r cynllun hwn oblygiadau enfawr ar gyfer y gymuned ehangach. Bydd pobl yn ystyried yn ddifrifol ddilysrwydd dod â'u teuluoedd i'r ardal ac i system addysg a fydd yn peri anfantais i blant di-Gymraeg. Hyd yn oed yn fwy felly yn achos teuluoedd sy'n aros am gyfnod byr. I deulu sy'n dewis rhwng cyfnod sabothol tair blynedd yn Aberystwyth neu Gaerlŷr, byddant yn dewis yr un a fydd yn tarfu leiaf ar addysg eu plentyn. Byddwn yn drist iawn o weld Aberystwyth yn dod yn dref fwy ynysig.</p>	<p>ngogledd Ceredigion. Dylid rhoi blaenoriaeth i les disgyblion ac ni ddylid eu gorfodi i siarad iaith nad ydynt yn ei siarad gartref. Dydw i ddim yn meddwl bod y penderfynwyr yn siarad â rhieni perthnasol. Nid oes ar bawb eisiau addysg cyfrwng Cymraeg.</p>
	<p>a) Dysgwch Gymraeg fel iaith mewn ffordd fwy dwys a strwythuredig nag a wneir ar hyn o bryd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nid drwy drochi disgyblion yn llwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg o 3-7 oed. Datblygu prif iaith yn yr ysgol, cyn datblygu ieithoedd eraill, yw'r norm rhyngwladol ar sail ymchwil academiaidd ac ymarfer pedagogaid cadarn. Mae rhaglen fwy dwys a strwythuredig o wersi Cymraeg yn fwy tebygol o arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyddysg er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyfleoedd y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ond gan fod yn sensitif i'r ffaith mai Saesneg neu ieithoedd eraill yw iaith y cartref.</p> <p>b) Rhaid sylweddoli bod gan bawb brif iaith, na all addysg ysgol newid prif iaith plentyn o'r cartref, felly hyd yn oed os bydd yn cael yr addysg drochi arfaethedig yn y Gymraeg o 3-7 oed, mae'n anochel y bydd plentyn o deulu di-Gymraeg yn trin y Gymraeg</p>	<p>Rwy'n meddwl ei bod yn fendigedig clywed y Gymraeg yn cael ei siarad cymaint yng Ngheredigion, mae hi wir yn iaith fyw yn yr ardal hon. Serch hynny, ni allaf gytuno â darpariaeth unieithog ym maes addysg. Rydym mor ffodus bod modd inni ddewis rhwng darpariaeth addysgol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg rhagorol. Dylid gwario arian addysg mewn ffordd sy'n fwy buddiol i'r holl blant yn hytrach na'i dargedu at yr agwedd gul iawn hon ar ddysgu. Rwy'n teimlo y bydd hyn yn llesteirio amlddiwylliaeth yn yr ardal. Nid yw staff yr ysgolion eisoes yn gynrychioliadol o'r plant y maent yn eu dysgu ac ni fydd hyn ond yn gwthio pethau ymhellach. Rwyf hefyd yn teimlo y gallai yrru teuluoedd i symud o'r ardal. Ni fyddai plant o gartrefi di-Gymraeg yn cael digon o gymorth gartref.</p>

	<p>'yn llai ffafriol' na'r Saesneg. Serch hynny, nid cystadleuaeth mohoni! Mae'n nodwedd ieithyddol naturiol ac nid yw ceisio herio'r ffaith hon ar draul anghenion addysgol eraill yn bolisi da ac fe allai fod yn niweidiol iawn i ddatblygiad plant.</p>	
	<p>Y peth gorau o ran a) a b) yw buddsoddi mwy o amser ac ymdrech mewn annog dwyieithrwydd yn y sir. Pe bai'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal, ni allai unrhyw un wrthwynebu a byddai modd i blant sy'n siarad Saesneg a phlant sy'n siarad Cymraeg wireddu eu potensial heb ofni y bydd rhywun yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Pe baech yn holi pobl yn eu harddegau cynnar a ydynt yn credu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar hyn o bryd, rwy'n credu y byddai llawer yn dweud eu bod yn meddwl mai'r gwrthwyneb sy'n wir. Gallent hefyd ddweud bod siaradwyr Saesneg yn teimlo eu bod yn dioddef gwahaniaethu o ran swyddi a chyfleoedd gwaith ac nad yw Ceredigion yn eu croesawu. Felly mae angen bod yn ofalus iawn o ran gwireddu'r freuddwyd o gymdeithas ddwyieithog i sicrhau nad ydych yn dieithrio'r union bobl y mae eu hangen arnoch i wireddu'ch breuddwyd.</p>	<p>Mae'r polisi'n mynd i effeithio'n bennaf ar Aberystwyth, gan fod y rhan fwyaf o ysgolion cynradd Ceredigion eisoes yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae Aberystwyth, prif ganolfan poblogaeth Ceredigion gyda 30% o boblogaeth y sir, yn amgylchedd amlddiwylliannol, gyda phobl o bob rhan o'r DU a'r byd yn byw yno oherwydd presenoldeb y ddau brif gyflogwr, Prifysgol Aberystwyth ac Ysbyty Bronglais. Rydym mor ffodus o gael cymaint o amrywiaeth mewn tref fach. Dyna sy'n gwneud Aberystwyth yn unigryw, rhinwedd y mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yma'n ei chydabod. Mae disgyblion yn elwa ar yr amrywiaeth hon ac mae wedi cael ei chroesawu a'i dathlu'n gyffredinol. Mae amrywiaeth ieithyddol y dref yn adlewyrchu'r amrywiaeth hon, gyda'r Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd rhyngwladol eraill yn cydfodoli. Mae'r trefniadau addysgol presennol, lle y gellir dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg o dair oed, yn gweithio'n dda iawn. Nid yw'r polisi arfaethedig yn ystyried y nodweddion diwylliannol ac ieithyddol lleol hyn. Mae diddymu'r dewis dros yr iaith y bydd eich plentyn yn cael ei addysgu ynddi yn mynd i fod yn niweidiol iawn o ran cydlyniant cymunedol oherwydd hyn. Mae hefyd yn mynd yn uniongyrchol groes i ddogfen bolisi Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050 sy'n dweud "... angen i'r system addysg fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu nodweddion ieithyddol gwahanol rannau o Gymru" ... "Er mwyn sicrhau cynllunio ieithyddol effeithiol, mae angen dealltwriaeth o'r gwahanol amgylchiadau mewn gwahanol rannau o Gymru a chynllunio ymriadau yn unol â hynny."</p>

		Hefyd, mae'r ddogfen hon yn datgan yn glir: "Ni all strategaeth gan y Llywodraeth orfodi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050). Mae'n amlwg bod y cynnig yn gorfodi disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddiddymu dewis ac nid yw'n adlewyrchu nodweddion ieithyddol yr ardal. Ar y sail hon yn unig, ni allaf weld sut y gellir bwrw ymlaen â'r polisi hwn oherwydd mae'n mynd yn uniongyrchol groes i bolisi Llywodraeth Cymru. Dylem yn sicr gefnogi nodau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ond nid hon yw'r ffordd o wneud hynny. Mae rhaglen fwy dwys a strwythuredig o wersi Cymraeg yn fwy tebygol o arwain at gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyddysg er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyfleoedd y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ond gan fod yn sensitif i'r ffaith mai Saesneg neu ieithoedd rhyngwladol eraill yw iaith y cartref.
	A oes angen newid? Mae gennym ysgolion ac athrawon bendigedig sy'n cael canlyniadau neilltuol.	Darpariaeth ddwyieithog briodol tu allan i oriau ysgol ar gyfer y rheini ag anabledau dysgu, yn eiriol ac yn ddi-eiriau.
	Mae'n siomedig gweld "peidio â thrin yn llai ffafriol" yn hytrach nag yn gyfartal.	"Sicrhau llwybr gyrfa a chefnogaeth i'r athrawon/dirprwy brifathrawon/uwch athrawon hynny sy'n dymuno datblygu'n benaethiaid o fewn yr awdurdod ac sy'n arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg drwy e.e. gymhwyster CPCP." Felly, bydd llwybr gyrfa arweinwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg at swydd pennaeth wedi'i "sicrhau"? Gobeithio y gallwch weld faint o bryder y mae'r datganiad hwnnw'n ei greu.

Cofnodion Cyfarfod
Y PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY’N DYSGU
 a gynhaliwyd drwy fideogynadledda ddydd Iau, 15 Rhagfyr 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Wyn Thomas (Cadeirydd), y Cyngorwyr Bryan Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Rhodri Davies, Keith Evans, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Hag Harris, Mark Strong a Lynford Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorwyr Catrin Miles a Catherine Hughes (Aelodau Cabinet)

Swyddogion a oedd yn bresennol:- Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion, Mrs Menna Sweeney, Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion, Mr Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol – Atebolrwydd a Chynnydd, Mr Gareth Lanagan, Cydlynnydd Cwricwlwm Ôl-14, Dafydd Charles, E-sgol Cymru, Miss Lowri Evans, Rheolwr Tîm – Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu, Mr Gwion Bowen, Swyddog Cyfranogi Plant a Phobl Ifanc, Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democraataidd a Safonau

(10:00am –11:35am)

- 1 **Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Euros Davies, Paul Hinge ac Alun Lloyd Jones am eu hanallu i fod yn bresennol yn y cyfarfod.
- 2 **Personal**
Cydymdeimlwyd yn ddiffuant â'r Cyngorydd Gareth Davies a Mrs Julie Davies a'u teulu yn dilyn marwolaeth sydyn eu mab.
- 3 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
Ni ddatgelwyd yr un buddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.
- 4 **Diweddariad ar lafar parthed cefnogaeth y Gwasanaeth Ysgolion dros y cyfnod COVID 19**
Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynghylch ailgyflwyno dysgu o bell o ddydd Llun 20 Rhagfyr hyd at ddiwedd tymor y Nadolig. Adroddodd ynghylch yr hyn y

cytunwyd arno yn ystod y dyddiau diwethaf, sef y byddai ysgolion y sir dychwelyd at ddysgu o bell o ddydd Llun 20 Rhagfyr hyd at ddiwedd y tymor. Sail y penderfyniad oedd y disgwylir gweld cynnydd cyflym a sydyn yn yr amrywiolyn Omicron yn fuan, yn enwedig ymhlith y rhai sydd dan 25 oed, a hefyd oherwydd yr heriau dyddiol mewn nifer o ysgolion o ganlyniad i absenoldebau staff. Y nod oedd lleihau cysylltiadau er mwyn ceisio atal lledu'r haint yn yr wythnosau allweddol sydd i ddod. Roedd cyngor meddygol clir bod trydydd brechlyn yn ffordd effeithiol o reoli'r amrywiolyn newydd, ac mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn annog pawb sy'n dymuno cael y brechlyn hwnnw i wneud hynny cyn gynted ag y derbyniant y gwahoddiad.

Roedd cynlluniau ar waith bellach i ailgyflwyno dysgu o bell. Byddai hyn yn sicrhau darpariaeth a strwythur mewn ysgolion ar ddiwedd y tymor. Byddai cyfarpar TGCh ar gael ar gyfer teuluoedd, pe bai ei angen, a dylid gwneud y cais am gyfarpar o'r fath drwy'r ysgol. Gallai unrhyw ddisgybl a oedd yn mynychu uned adnoddau arbenigol barhau i wneud hynny tan ddiwedd y tymor. Byddai taliadau/talebau ar gyfer ddisgyblion a oedd yn hawlio prydau ysgol am ddim yn cael eu haddasu i ystyried y diwrnodau dysgu o bell. Yn ogystal, gallai rhieni a oedd yn weithwyr allweddol, ac na allai wneud trefniadau eraill o ran gofal plant, gael mynediad at hwb gofal plant pe bai angen yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd pob rhiant/gwarcheidwad wybod am y trefniadau hyn drwy lythyr neithiwr a byddai llythyr pellach oddi wrth yr ysgolion unigol yn cael ei anfon, er mwyn rhoi manylion trefniadau gwersi'r disgyblion. O safbwynt y trefniadau ym mis Ionawr, nodwyd bod nifer o gyfarfodydd wedi'u trefnu gyda Llywodraeth Cymru dros gyfnod y Nadolig i drafod y sefyllfa bresennol o ran y feirws

5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Adroddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion ei bod yn statudol i bob Awdurdod Lleol baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer y degawd 2022-2032. Ar 15 Mehefin 2021, cafwyd cymeradwyaeth y Cabinet i fersiwn ddrafft Cyngor Sir Ceredigion o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg fynd i ymgynghoriad am gyfnod o wyth wythnos. Er mwyn osgoi ymgynghoriad dros wyliau'r haf, dechreuodd yr ymgynghoriad ar 20 Medi a gorffennodd ar 12 Tachwedd 2021.

Er mwyn darparu ymateb llawn a manwl i'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, mae angen i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r ddogfen 'Categoriaddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.' Cyhoeddwyd copi drafft o'r ddogfen hon ym mis Rhagfyr 2020 ar gyfer y cyfnod ymgynghori. Serch hyn, nid yw'r copi terfynol wedi'i gyhoeddi eto, er y disgwylir hynny cyn diwedd blwyddyn galendr 2021. Bydd cynnwys y ddogfen hon yn allweddol wrth gynnig ymateb i'r ymgynghoriad ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yng Ngheredigion. Felly, bydd yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyflwyno sylwadau'r ymgynghoriad a'r ymateb iddynt yn cael ei haddasu o ganlyniad i'r uchod. Bellach, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n

Dysgu yn derbyn yr ymateb i'r ymgynghoriad ar 17 Chwefror a bydd y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ar 22 Chwefror 2022.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

6 Prosiect e-sgol yng Ngheredigion a Chymru

Adroddodd y Rheolwr Corfforaethol – Atebolrwydd a Chynnydd fod e-sgol yn fenter dysgu cyfunol (a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gydlynir gan Geredigion) i gynnig cyfleoedd dysgu ac addysgu ar-lein, gan ddefnyddio dulliau uniongyrchol, a rhyngweithiol mewn amser real. Roedd e-sgol yn darparu cymorth i ysgolion gyda'r setiau sgiliau a'r dulliau addysgegol sydd eu hangen i sicrhau'r profiadau gorau posibl i'r dysgwr.

Yn y lle cyntaf, canolbwyntiai'r fenter ar alluogi ysgolion gwledig i gynnal opsiynau pynciau lle'r oedd nifer anghynaliadwy o ddysgwyr mewn dysgu ôl-14 ac ôl-16. Yn wreiddiol, gweithiai ysgolion ar draws clwstwr o chwe ysgol ar y mwyaf, a'r ysgolion hynny o fewn pellter teithio i'w gilydd. Darparwyd y gwersi drwy ddull dysgu cyfunol, tra anogwyd dysgwyr i deithio i ysgol yr athro bob hanner tymor. Fel arall, mae'r gwersi'n defnyddio Microsoft Teams, trwy Hwb, i sicrhau nad oes unrhyw gostau diangen i ysgol(ion).

Roedd y prosiect wedi ehangu cryn dipyn o ganlyniad i COVID, gyda mwy o ysgolion ledled Cymru yn derbyn cefnogaeth erbyn hyn.

Cafwyd cyflwyniad gan y swyddog er mwyn darparu'r wybodaeth hon.

Yn dilyn cwestiynau a sylwadau am y prosiect hwn, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

7 Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion

Adroddodd y Rheolwr Tîm – Gwaith Ieuenctid ac Ymgysylltu fod disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i wneud yr hyn a restrir isod er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth.

- Cefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff lleol a chenedlaethol sy'n gwneud penderfyniadau.
- Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran gwasgariad daearyddol, oedran a rhyw a dylent gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.
- Er mwyn i Fforymau / Cynghorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, byddai angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn.
- Dylent dderbyn gwybodaeth a dylent fod wedi'u cysylltu â strwythurau democrataidd lleol.
- Byddai angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Cymru Ifanc, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn a dylai'r farn hon gyfrif. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n ymwneud â nhw, ac ni ddylid eu diystyru a'u hanwybyddu ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da. Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

:

Gwasanaeth Ieuencid Ceredigion oedd yn gyfrifol am gydlyn a rheoli Cyngor Ieuencid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu yn nhyrnor yr hydref 2015. Mae Cyngor Ieuencid Ceredigion yn cyfarfod dair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) a threfnir digwyddiad gan y Cyngor ar ddiwedd blwyddyn yr aelodau 'yn y rôl'. Ar hyn o bryd, mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuencid yn cael eu cynnal yn rhithiol, ond fel rheol, byddent wedi'u lleoli yn y siambr ym Mhenmorfa.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD y byddai cofnodion Cyngor Ieuencid Ceredigion yn cael eu cyflwyno yn dymhorol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu ac i'r Cabinet, er gwybodaeth.

8 Adborth ar ffrwd gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad adborth a gyflwynwyd ac i ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith, o fewn cyfnod byr, yn dilyn cyflwyno'r cod ADY.

9 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD i gadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Medi 2021

Materion yn codi

Nid oedd materion yn codi.

10 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu

It was AGREED to note the content of the Forward Work Programme subject to noting the following:-

- Welsh in Education Strategic Plan would be presented at the 03 February 2022 meeting
- The Play Sufficiency Assessment would be presented with the Child Sufficiency Assessment at the 02 March 2022 meeting
- An update on the Dyffryn Aeron school be provided at the 03 February meeting

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 3 Chwefror 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol